



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 14 Gorffennaf 2010
Wednesday, 14 July 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro
Election of Temporary Deputy Presiding Officer
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb
Questions to the Minister for Business and Budget
- 24 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth
Questions to the Minister for Heritage
- 40 Cwestiwn Brys: Difa Moch Daear
Urgent Question: Badger Cull
- 51 Datganiad am Nifer y Myfyrwyr sydd mewn Addysg Uwch yng Nghymru
Statement on Student Numbers in Higher Education in Wales
- 67 Cymeradwyo Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) 2010
Approval of the Environmental Civil Sanctions (Miscellaneous Amendments) (Wales)
Regulations 2010
- 71 Cymeradwyo Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010
Approval of the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010
- 72 Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Ddarpariaeth Arbenigol i Bobl Ifanc ag
Awtistiaeth mewn Addysg Bellach
The Enterprise and Learning Committee's Report on Specialist Provision for Young
People with Autism in Further Education
- 89 Datganiad Deddfwriaethol am y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)
Legislative Statement on the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure
- 101 Dadl Fer: Abertawe—Prifddinas Ranbarthol
Short Debate: Swansea—Regional Capital

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer

The Deputy Presiding Officer: In the absence of the Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary. Therefore, I invite nominations.

Y Dirprwy Lywydd: Yn absenoldeb y Llywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw. Felly, gwahoddaf enwebiadau.

William Graham: I nominate Peter Black.

William Graham: Yr wyf yn enwebu Peter Black.

The Deputy Presiding Officer: I therefore declare that Peter Black is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary.

Y Dirprwy Lywydd: Felly, mae Peter Black wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb Questions to the Minister for Business and Budget

End-year Flexibility

Q1 Peter Black: Will the Minister make a statement on end-year flexibility? OAQ(3)1146(BB)

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): The Chief Secretary to the Treasury has confirmed our access to £200 million of end-year flexibility for this year. Access to future years will be determined as part of the comprehensive spending review in the autumn.

Peter Black: Much of what I wanted to ask about has been overtaken by your statement yesterday, but what action will you take in future budget years to try to limit the amount of end-year flexibility that we generate by budgeting what we are likely to spend, in contrast to the budgets in the past that have produced huge sums in end-year flexibility, which then have to be reappropriated?

Jane Hutt: I am sure that you will know, Peter, that, in the last two years, we have come close to 100 per cent spend, which has

Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn

C1 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyblygrwydd diwedd blwyddyn? OAQ(3)1146(BB)

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cadarnhau bod modd inni gael gwerth £200 miliwn o hyblygrwydd diwedd blwyddyn ar gyfer eleni. Bydd penderfyniad ynghylch yr hyblygrwydd a fydd ar gael inni ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn cael ei wneud yn rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn yr hydref.

Peter Black: Mae eich datganiad ddoe wedi ymdrin â llawer o'r hyn yr oeddwn am eich holi yn ei gylch, ond pa gamau y byddwch yn eu cymryd ym mlynnyddoedd cyllidebol y dyfodol i geisio cyfyngu ar yr hyblygrwydd diwedd blwyddyn yr ydym yn ei gynhyrchu, drwy gyllidebu'r hyn yr ydym yn debyg o'i wario, yn wahanol i gyllidebau'r gorffennol, sydd wedi cynhyrchu symiau enfawr o ran hyblygrwydd diwedd blwyddyn, y mae'n rhaid eu hailddosbarthu wedyn?

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y gwyddoch, Peter, ein bod, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi gwario'r gyllideb bron i gyd,

resulted in us not having the kind of end-year flexibility that we are now using very judiciously to meet the cuts that have been imposed on us by the UK coalition Government. We want to spend to the hilt and maintain the efficient management of our budget, but, when we have end-year flexibilities, to use them to good effect.

Joyce Watson: Minister, I hope you agree that even in these tough economic times it remains imperative that we ensure that the people of Wales receive the support that they need from Government. It is, of course, the Labour Party that has always been the party that supports the vulnerable and the Conservatives who have a history of abandoning Welsh communities at precisely the time when support is needed. Do you agree, Minister, that we should continue to stand shoulder to shoulder with the people of Wales, rather than following the example of the Tory-Lib Dem Government in Westminster, which is remaining true to the ideology of cutting support where it is needed?

Jane Hutt: My statement yesterday demonstrated our commitment to not only supporting the most vulnerable in our communities, but those frontline services that benefit all in relation to education and health. We have ensured that we do that by the decision to protect the capital budget, which is vital to education, health, housing and social care projects.

Angela Burns: Good afternoon, Minister. Of the £200 million end-year flexibility that you are receiving now, how much is capital and how much is revenue? The reason why I ask you whether that split is now known—I have not been able to find the information anywhere—is because in your statement yesterday on your approach to the £162 million in reductions, you said that £49 million of the capital element of those reductions would come from EYF. I wondered whether it was coming from this year's EYF, and if you therefore knew the capital-revenue split.

a hynny wedi golygu na chawsom y math o hyblygrwydd diwedd blwyddyn yr ydym yn ei ddefnyddio'n ofalus iawn yn awr i ymdopi â'r toriadau sydd wedi'u gorfodi arnom gan Lywodraeth glymblaid y DU. Yr ydym am wario ein cyllideb i gyd a pharhau i'w rheoli'n effeithlon, ond, pan fo gennym hyblygrwydd diwedd blwyddyn, yr ydym am ei ddefnyddio'n dda.

Joyce Watson: Weinidog, gobeithio y cytunwch ei bod yn parhau'n hanfodol, hyd yn oed yn y cyfnod economaidd anodd sydd ohoni, inni sicrhau bod pobl Cymru yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen gan y Llywodraeth. Wrth gwrs, y Blaid Lafur sydd bob amser wedi cynorthwyo pobl agored i niwed, a'r Ceidwadwyr sydd â hanes o droi eu cefn ar gymunedau yng Nghymru ar yr union adeg pan fo angen cymorth. A ydych yn cytuno, Weinidog, y dylem barhau i sefyll ochr yn ochr â phobl Cymru, yn hytrach na dilyn esiampl Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan, sy'n parhau'n ffyddlon i'r ideoleg o leihau cymorth lle y mae ei angen?

Jane Hutt: Yr oedd fy natganiad ddoe'n dangos ein hymrwymiad i gynorthwyo nid yn unig y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ond y gwasanaethau rheng flaen hynny sydd o fudd i bawb o ran addysg ac iechyd. Yr ydym wedi sicrhau ein bod yn gwneud hynny drwy'r penderfyniad i ddiogelu'r gyllideb cyfalaf, sy'n hanfodol i brosiectau ym maes addysg, iechyd, tai a gofal cymdeithasol.

Angela Burns: Prynawn da, Weinidog. O'r gwerth £200 miliwn o hyblygrwydd diwedd blwyddyn yr ydych yn ei gael yn awr, faint sy'n gyfalaf a faint sy'n refeniw? Y rheswm pam yr wyf yn gofyn ichi a yw'r symiau hynny'n hysbys erbyn hyn—nid wyf wedi gallu dod o hyd i'r wybodaeth yn unman—yw oherwydd ichi ddweud, yn eich datganiad ddoe ar sut y byddwch yn ymdrin â'r toriadau gwerth £162 miliwn, y byddai £49 miliwn o elfen gyfalaf y toriadau hynny'n dod o hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Yr oeddwn yn meddwl tybed a oedd yn dod o hyblygrwydd diwedd blwyddyn eleni, ac a oeddech, felly, yn gwybod beth oedd y swm ar gyfer cyfalaf a'r swm ar gyfer refeniw.

Jane Hutt: The split between revenue and capital is what we were seeking clarification on with regard to the £163 million that we have had to find for the 2010-11 cuts. The £49 million represents the cut that was expected of us by the UK Government. We are taking it from the EYF that we have built over the past few years, and I would certainly like to share with you the EYF available for 2010-11 in capital and revenue terms. I will do that, and will leave that information in the Library. However, to give you an example from my tables, it is £196 million in capital and revenue for 2010-11, of which £124.5 million is capital and £71.5 million is revenue. I will also share that with you in writing.

Chris Franks: Minister, is it not time that this annual pantomime of having to go cap in hand to the UK Government to ask to hang on to what is, in reality, our money came to an end, and that there should be a real respect agenda, whereby we have the authority to spend this money without the sword of Damocles hanging above our heads? Capital funding is so important for many projects, certainly those in my region, such as the rebuilding of St Cyres School in Penarth, Welsh-medium provision across the region, and primary care centres in Mountain Ash and Aberdare. When you have these discussions—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you ask the question, please?

Chris Franks: When you have meetings regarding the Holtham report, will you raise with the appropriate Minister the issue that we should have full discretion over end-year flexibility?

Jane Hutt: That is an important question for me, as I will meet finance Ministers from across the UK tomorrow at our quadrilateral

Jane Hutt: Y swm ar gyfer refeniw a'r swm ar gyfer cyfalaf oedd yr union beth yr oeddem yn ceisio esboniad yn ei gylch yng nghyswllt y £163 miliwn yr ydym wedi gorfod dod o hyd iddo ar gyfer toriadau 2010-11. Mae'r £49 miliwn yn cyfateb i'r toriad yr oedd Llywodraeth y DU yn ei ddisgwyl gennym. Mae'n dod o'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn yr ydym wedi ei greu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddwn yn bendant yn hoffi dweud wrthyhych beth yw'r hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd ar gael ar gyfer 2010-11 o safbwynt cyfalaf a refeniw. Gwnaf hynny, a gadawaf y wybodaeth honno yn y Llyfrgell. Fodd bynnag, a rhoi enghraifft ichi o'r tablau sydd gennyf, mae'n £196 miliwn o ran cyfalaf a refeniw ar gyfer 2010-11, ac mae £124.5 miliwn o'r swm hwnnw'n gyfalaf ac mae £71.5 miliwn ohono'n refeniw. Rhoddaf y wybodaeth honno ichi'n ysgrifenedig hefyd.

Chris Franks: Weinidog, onid yw'n bryd rhoi terfyn ar y pantomeim blynyddol hwn, lle y mae'n rhaid inni fynd â'n cap yn ein llaw at Lywodraeth y DU i ofyn am gael cadw arian sydd, mewn gwirionedd, yn perthyn i ni, ac onid yw'r bryd cael agenda parch go iawn, sy'n golygu bod gennym yr awdurdod i wario'r arian hwn heb deimlo bod cleddyf Damocles yn hongian uwch ein pennau? Mae cyllid cyfalaf mor bwysig i lawer o brosiectau, ac yn bendant i'r rhai yn fy rhanbarth i, megis ailadeiladu Ysgol St Cyres ym Mhenarth, datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth, a datblygu canolfannau gofal sylfaenol yn Aberpennar ac Aberdâr. Pan fyddwch yn cael y trafodaethau hyn—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch ofyn y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Chris Franks: Pan fyddwch yn cael cyfarfodydd ynghylch adroddiad Holtham, a wnewch godi gyda'r Gweinidog priodol y mater sy'n ymwneud â'r ffaith y dylem gael rhyddid llwyr ynglŷn â hyblygrwydd diwedd blwyddyn?

Jane Hutt: Mae'r cwestiwn hwnnw'n bwysig imi, oherwydd byddaf yn cyfarfod â Gweinidogion cyllid o bob cwr o'r DU yfory

meeting. It is money that Parliament has voted to Wales. As Members will know—I said this yesterday—the Holtham commission report published last week supported our having free and unfettered access to EYF. I am sure that the finance Ministers of Scotland and Northern Ireland will say the same, as was said when I met the Chief Secretary to the Treasury last month. It is clear that we should have unfettered access to money that is ours. We need to ensure that in planning our budgets for 2011 onwards carefully and responsibly—as it helped in my decision about the 2010-11 cuts—we should have an agreement from the UK Government on unfettered access to EYF. As a result of my announcement yesterday, I have been able to protect our capital budget. Continuing capital investment is key to supporting the recovery and to transforming public services. Therefore, we will be promoting, using and protecting capital investment by using our EYF to pay off the reduction of £49 million. I am sure that all Members will welcome the £144.8 million announced this morning as our continuing commitment to improving school buildings in Wales.

The Welsh Block Grant

Q2 Nick Ramsay: What discussions has the Minister had with ministerial colleagues regarding the Welsh block grant? OAQ(3)1145(BB)

Jane Hutt: I regularly discuss with my ministerial colleagues, and with Treasury Ministers, a wide range of issues relating to the block grant, in particular the importance of achieving fair funding for Wales.

Nick Ramsay: Thank you, Minister, for that answer. I welcome the statement that you made yesterday; I am pleased that we now have more guidance than we had previously from your Government on the spending of this year's money. I am delighted that you have committed your Government to playing its part in reducing the deficit that the

yn ein cyfarfod pedrochr. Mae'n arian y pleidleisiodd Senedd y DU i'w roi i Gymru. Fel y gŵyr yr Aelodau—dywedais hyn ddoe—yr oedd adroddiad comisiwn Holtham, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, o blaid caniatáu inni gael mynediad rhydd a dirwystr at hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Yr wyf yn siŵr y bydd Gweinidogion cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dweud yr un peth, fel y dywedwyd pan gyfarfûm â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys fis diwethaf. Mae'n amlwg y dylem gael mynediad dirwystr at arian sy'n perthyn i ni. Mae angen inni sicrhau, wrth gynllunio ein cyllidebau'n ofalus ac yn gyfrifol ar gyfer 2011 ac wedi hynny—oherwydd helpodd hynny fy mhenderfyniad ynghylch toriadau 2010-11—y dylem gael cytundeb gan Lywodraeth y DU ynghylch mynediad dirwystr at hyblygrwydd diwedd blwyddyn. O ganlyniad i'm datganiad ddoe, yr wyf wedi gallu diogelu ein cyllideb cyfalaf. Mae parhau i fuddsoddi cyfalaf yn allweddol i hybu'r adferiad a gweddnewid gwasanaethau cyhoeddus. Felly, byddwn yn hyrwyddo, yn defnyddio ac yn diogelu buddsoddiad cyfalaf drwy ddefnyddio ein hyblygrwydd diwedd blwyddyn i wneud iawn am y gostyngiad o £49 miliwn. Yr wyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn croesawu'r £144.8 miliwn a gyhoeddwyd y bore yma fel ein hymrwymiad parhaus i wella adeiladau ysgolion yng Nghymru.

Grant Bloc Cymru

C2 Nick Ramsay: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion ynghylch grant bloc Cymru? OAQ(3)1145(BB)

Jane Hutt: Byddaf yn cael trafodaethau'n rheolaidd â'm cyd-Weinidogion, a Gweinidogion y Trysorlys, ynghylch ystod eang o faterion sy'n ymwneud â'r grant bloc, yn enwedig pwysigrwydd cael arian teg i Gymru.

Nick Ramsay: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yr wyf yn croesawu'r datganiad a wnaethoch ddoe; yr wyf yn falch bod gennym fwy o arweiniad yn awr nag o'r blaen gan eich Llywodraeth ynghylch y modd y caiff arian eleni ei wario. Yr wyf wrth fy modd ichi addo y bydd eich Llywodraeth yn chwarae ei rhan i leihau'r diffy a adawodd

previous Labour Government in Westminster left the Assembly and the UK with. I am also pleased to hear that your Government has, at last, joined us on this side of the Chamber in committing to the reform of the Barnett formula. However, I am concerned that, in yesterday's statement, you seem to see the Barnett floor as a long-term solution to the impending UK Government cuts affecting Wales. Do you honestly see the Barnett floor as a long-term answer to the Assembly Government's financial difficulties?

Jane Hutt: Thank you for welcoming for my statement. I think that it shows that you have a responsible finance Minister, who is doing everything that she can, not just to protect public services, but to protect economic recovery. We recognise that economic recovery means involving the construction sector in Wales in building schools, health facilities and social housing. I do not know whether you are now pulling away from your commitment to the Holtham commission recommendations; I was impressed with your press statement last week, which welcomed those recommendations. I hope that you will not pull away from making the case for an immediate implementation of the Welsh floor in the forthcoming spending review to ensure fairer funding for Wales. Now is the time to get agreement from the UK Government for an immediate implementation of the Welsh floor. The Holtham commission has shown that Wales is already underfunded when you compare what we receive with what we would receive—this is the important point, Nick, and I am sure that you will agree with me—were we funded via the formula that the UK Government applies to England. That is not fair funding for Wales. I hope that you will join me in that. You could perhaps join me in a meeting, which I hope you will facilitate, with the Chancellor, George Osborne, in due course.

The Deputy Presiding Officer: Order. The point of this item is to question the Minister; it would be helpful if we could hear what she was saying. It is early in the afternoon, and I ask Members to calm down a little so that we

Llywodraeth Lafur flaenorol San Steffan ar gyfer y Cynulliad a'r DU. Yr wyf hefyd yn falch o glywed bod eich Llywodraeth, o'r diwedd, wedi ymuno â ni yr ochr hon i'r Siambr i ymrwymo i ddiwygio fformiwla Barnett. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu eich bod yn ôl pob golwg, yn eich datganiad ddoe, yn ystyried terfyn isaf Barnett yn ateb hirdymor i'r toriadau arfaethedig gan Lywodraeth y DU, a fydd yn effeithio ar Gymru. A ydych o ddifrif yn ystyried terfyn isaf Barnett yn ateb hirdymor i anawsterau ariannol Llywodraeth y Cynulliad?

Jane Hutt: Diolch am groesawu fy natganiad. Credaf ei fod yn dangos bod gennych Weinidog dros gyllid sy'n gyfrifol, sy'n gwneud popeth posibl nid yn unig i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus, ond i ddiogelu adferiad economaidd hefyd. Yr ydym yn cydnabod bod adferiad economaidd yn golygu cynnwys y sector adeiladu yng Nghymru wrth adeiladu ysgolion, cyfleusterau iechyd a thai cymdeithasol. Ni wn a ydych yn awr yn tynnu'n ôl o'ch ymrwymiad i argymhellion comisiwn Holtham; gwnaeth eich datganiad i'r wasg yr wythnos diwethaf, a oedd yn croesawu'r argymhellion hynny, argraff arnaf. Gobeithio na fyddwch yn ymatal yn awr rhag cyflwyno'r ddadl dros weithredu terfyn isaf yn syth ar gyfer Cymru, yn yr adolygiad o wariant sydd ar ddod, er mwyn sicrhau arian tecach i Gymru. Yn awr yw'r adeg i gael cytundeb gan Lywodraeth y DU ynghylch gweithredu terfyn isaf yn syth ar gyfer Cymru. Mae comisiwn Holtham wedi dangos bod Cymru'n cael ei thanariannu eisoes, o gymharu'r hyn a gawn â'r hyn a gaem—dyma'r pwynt pwysig, Nick, ac yr wyf yn siŵr y cytunwch â mi—pe baem yn cael ein hariannu drwy'r fformiwla y mae Llywodraeth y DU yn ei defnyddio yng nghyswllt Lloegr. Nid arian teg i Gymru yw hynny. Gobeithio yr ymunwch â mi o ran hynny. Efallai y gallech ymuno â mi mewn cyfarfod, yr wyf yn gobeithio y bydd modd ichi ei hwyluso, gyda'r Canghellor, George Osborne, maes o law.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Diben yr eitem hon yw gofyn cwestiynau i'r Gweinidog; byddai'n ddefnyddiol pe gallem glywed yr hyn yr oedd yn ei ddweud. Mae'n gynnar yn y prynhawn, a gofynnaf i'r Aelodau

can move on smoothly.

ymdawelu ychydig er mwyn inni allu symud ymlaen yn hwylus.

1.40 p.m.

Nick Ramsay: I am always delighted to listen to the Minister's positive suggestions on dealing with the disastrous financial situation in which the previous Labour Government left this country, but I did not get an answer to my question, which was specifically about the Barnett floor. If you read the proposals made in the Holtham report, Minister, you will see that it is suggested that positive increments to the Welsh block grant should be multiplied in order to reflect the funding that Wales would receive if it were considered an English region. The key point is that the block grant, with the Barnett floor, would increase with higher UK expenditure. We are not currently—thanks to your party's legacy in Westminster—in a position of increasing expenditure, even though I wish that we were. Therefore, do you agree that the Barnett floor is something that we aspire to in the medium and longer term, but that it is not a solution to the problems that we are facing at the moment?

Nick Ramsay: Yr wyf bob amser yn falch o wrando ar awgrymiadau cadarnhaol y Gweinidog ynghylch ffyrdd o ymdrin â'r sefyllfa ariannol drychinebus y gadawodd y Llywodraeth Lafur flaenorol y wlad hon ynddi, ond ni chefais ateb i'm cwestiwn, a oedd yn ymwneud yn benodol â therfyn isaf Barnett. Os darllenwch y cynigion a wnaed yn adroddiad Holtham, Weinidog, fe welwch yr awgrymir y dylid cynyddu ychwanegiadau cadarnhaol at grant bloc Cymru er mwyn adlewyrchu'r arian y byddai Cymru yn ei gael ped ystyrid ei bod yn un o ranbarthau Lloegr. Y pwynt allweddol yw y byddai'r grant bloc, gyda therfyn isaf Barnett, yn cynyddu gyda mwy o wariant ar lefel y DU. Ar hyn o bryd—o ganlyniad i'r hyn a wnaeth eich plaid yn San Steffan—nid ydym mewn sefyllfa lle y mae gwariant yn cynyddu, er yr hoffwn pe baem mewn sefyllfa o'r fath. Felly, a gytunwch fod terfyn isaf Barnett yn rhywbeth yr ydym yn anelu ato yn y tymor canolig a'r tymor hwy, ond nad yw'n ateb i'r problemau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd?

Jane Hutt: This goes back to the fact that, unless the floor is implemented in the upcoming spending review, we will not be able to ensure that we are not adversely affected by the Barnett squeeze. Convergence will take place as soon as the economy and public spending start to pick up, which I would hope that your Government would seek to achieve before the end of its term of office. We have to implement the floor now in order to address that all-important recommendation from Holtham. There is growing consensus across the UK that the current block grant systems for the devolved administrations should be reformed, and, as the Secretary of State for Wales herself told the Assembly, the Barnett formula is coming to the end of its existence. This is a practical and pragmatic way in which we could start addressing the unfair funding formula for Wales.

Jane Hutt: Mae hyn yn mynd â ni'n ôl at y ffaith na fyddwn, oni chaiff y terfyn isaf ei weithredu yn yr adolygiad o wariant sydd ar ddod, yn gallu sicrhau na fydd gwasgfa Barnett yn effeithio'n andwyol arnom. Bydd cydgyfeirio'n digwydd cyn gynted ag y bydd yr economi a gwariant cyhoeddus yn dechrau gwella, a gobeithio y byddai eich Llywodraeth yn ceisio sicrhau hynny cyn diwedd ei thymor mewn grym. Rhaid inni weithredu'r terfyn isaf yn awr er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad hollbwysig hwnnw gan Holtham. Ceir consensws cynyddol ar draws y DU y dylid diwygio'r systemau cyfredol ar gyfer grantiau bloc i'r gweinyddiaethau datganoledig, ac, fel y dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei hun wrth y Cynulliad, mae fformiwla Barnett yn dod i ddiwedd ei hoes. Mae hon yn ffordd ymarferol a phragmatig y gallem ddechrau mynd i'r afael â'r fformiwla ariannu annheg i Gymru.

Gareth Jones: Weinidog, fore heddiw ar

Gareth Jones: Minister, this morning on

Good Morning Wales, yr oedd yn syndod clywed aelod amlwg o'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cadarnhau, unwaith ac am byth, na fydd y Llywodraeth yn San Steffan yn gweithredu ar argymhellion Holtham mewn perthynas ag ariannu Cymru yn deg. Daeth hynny ar ôl blynyddoedd o glywed y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymgyrchu o blaid ariannu teg. A gytunwch fod hyn yn newyddion drwg iawn i Gymru, yn enwedig wrth inni geisio gwaredu ar dlodi plant, er enghraifft—a gwyddom am y gwaith yr ydych eisoes wedi'i wneud? Unwaith eto, a gytunech ei bod yn siomedig gweld y Democratiaid Rhyddfrydol yn aberthu eu hegwyddorion fel hyn?

Jane Hutt: I also heard that interview, and I was pleased to hear Peter acknowledge the huge increase that there has been in national health service funding since we have been in charge in Wales, in order to deliver better services and outcomes for patients. However, I was very disappointed that a major change to the system of devolved finance has been ruled out for the time being by the new UK Government. Nick Ramsay paid tribute to the fact that we are responsibly playing our part in seeking to reduce the deficit; we always said that we would do that—we were planning that as the recession kicked in last year. We must move forward together in the Assembly to deliver on that key pragmatic recommendation from the Holtham commission to implement the floor, to ensure that convergence does not disadvantage us as the allocation of finance to Wales proceeds in the forthcoming comprehensive spending review.

Irene James: Minister, in your discussions with colleagues regarding the Welsh block grant, has anyone been able to explain why the Tories and Liberals think it necessary to link the issue of reforming the formula for Wales to the referendum on more powers for the Welsh Assembly Government? As Holtham and others have pointed out, there does not seem to be an obvious link between the two.

Jane Hutt: It is very hard to understand why

Good Morning Wales, it was a surprise to hear a prominent member of the Liberal Democrats confirm, once and for all, that the Westminster Government will not implement the Holtham recommendations on fair funding for Wales. That comes after years of the Liberal Democrats campaigning for fair funding for Wales. Do you agree that this is very bad news for Wales, especially as we try to eradicate child poverty in Wales—and we know of the work that you have already done? Once again, do you agree that it is disappointing to see the Liberal Democrats sacrifice their principles in this way?

Jane Hutt: Clywais innau'r cyfweiliad hwnnw, ac yr oeddwn yn falch o glywed Peter yn cydnabod y cynnydd enfawr a welwyd mewn cyllid i'r gwasanaeth iechyd gwladol ers inni fod mewn grym yng Nghymru, er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau a chanlyniadau i gleifion. Fodd bynnag, yr oeddwn yn siomedig iawn bod Llywodraeth newydd y DU wedi diystyru cyflwyno newid o bwys i'r system ar gyfer arian datganoledig am y tro. Rhoddodd Nick Ramsay deyrnged i'r ffaith ein bod yn chwarae ein rhan yn gyfrifol wrth geisio lleihau'r diffyg; dywedasom gydol yr amser y byddem yn gwneud hynny—yr oeddem yn cynllunio i wneud hynny pan ddechreuodd y dirwasgiad y llynedd. Rhaid inni symud ymlaen gyda'n gilydd yn y Cynulliad i wireddu'r argymhelliad pragmatig allweddol hwnnw gan gomisiwn Holtham i weithredu'r terfyn isaf, er mwyn sicrhau nad yw cydgyfeirio'n ein rhoi o dan anfantais wrth i'r broses o ddyrannu arian i Gymru fynd rhagddi yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant sydd ar ddod.

Irene James: Weinidog, yn eich trafodaethau â chyd-Aelodau ynghylch grant bloc Cymru, a oes unrhyw un wedi gallu esbonio pam y mae'r Torïaid a'r Rhyddfrydwyr o'r farn ei bod yn angenrheidiol cysylltu diwygio'r fformiwla ar gyfer Cymru â'r refferendwm ynghylch rhagor o bwerau i Lywodraeth y Cynulliad? Fel y mae Holtham ac eraill wedi nodi, ymddengys nad oes cysylltiad amlwg rhwng y ddau beth.

Jane Hutt: Mae'n anodd iawn deall pam y

that link was made. I raised that very question with the Chief Secretary to the Treasury and I hope to raise it with him again tomorrow. There is no reason why it should be linked to the referendum. *[Interruption.]*

gwnaed y cysylltiad hwnnw. Codais yr union gwestiwn hwnnw gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac yr wyf yn gobeithio ei godi gydag ef eto yfory. Nid oes rheswm pam y dylid cysylltu hynny â'r refferendwm. *[Torri ar draws.]*

The Deputy Presiding Officer: Order. David Melding, please be quiet. Minister, had you finished?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. David Melding, byddwch yn dawel, da chi. Weinidog, a oeddech wedi gorffen?

Jane Hutt: I had completed my answer.

Jane Hutt: Yr oeddwn wedi gorffen fy ateb.

Social Justice and Local Government

Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Q3 Mohammad Asghar: Will the Minister make a statement on the discussions that she has had regarding the future funding of the social justice and local government portfolio? OAQ(3)1153(BB)

C3 Mohammad Asghar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch y cyllid ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol yn y dyfodol? OAQ(3)1153(BB)

Jane Hutt: The process of planning for future years' budgets is well under way, and I have had discussions with the Minister for Social Justice and Local Government about this. Full clarity on the level of future years' budgets will not be available before the comprehensive spending review in the autumn.

Jane Hutt: Mae'r broses o gynllunio ar gyfer cyllidebau'r blynyddoedd sydd i ddod wedi bod yn mynd rhagddi ers amser, ac yr wyf wedi cael trafodaethau â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ynghylch y mater. Ni fydd modd cael darlun hollol glir o lefel cyllidebau'r blynyddoedd sydd i ddod, cyn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant yn yr hydref.

Mohammad Asghar: Thank you, Minister, for that reply. I am sure that you agree that public money must be spent effectively. Given the pressure on the budget in Wales, what discussions do you have planned with regard to the future funding allocation for Communities First and its next phase, Communities Next? While the scheme may be well intentioned, considerable doubt has been raised over its ability to deliver improvements, including on the Government's benches, with one Government Member recently saying that the scheme should be cancelled if it cannot be proved that it is performing. Does the Minister agree that when conducting discussions on the future funding of the social justice and local government portfolio, the Communities First scheme must undergo full scrutiny to ensure that it is cost-effective?

Mohammad Asghar: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod yn rhaid gwario arian cyhoeddus yn effeithiol. O gofio'r pwysau sydd ar y gyllideb yng Nghymru, pa drafodaethau yr ydych yn bwriadu eu cael ynghylch dyrannu cyllid yn y dyfodol i Cymunedau yn Gyntaf, a cham nesaf y cynllun, sef Cymunedau Nesaf? Er bod y cynllun yn llawn bwriadau da, mae cryn amheuaeth wedi'i fynegi ynghylch ei allu i sicrhau gwelliannau, gan gynnwys ar feinciau'r Llywodraeth, gydag un Aelod sy'n rhan o'r Llywodraeth yn dweud yn ddiweddar y dylid canslo'r cynllun os na ellir profi ei fod yn llwyddo. Wrth gynnal trafodaethau ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol, a yw'r Gweinidog yn cytuno bod yn rhaid craffu'n llawn ar y cynllun Cymunedau yn Gyntaf er mwyn sicrhau ei fod yn gosteffeithiol?

Jane Hutt: We are getting used to these

Jane Hutt: Yr ydym yn dod i arfer â'r

attacks from the Welsh Conservatives. Communities First projects have been subject to regular scrutiny in the Chamber, and to evaluation of their effectiveness and how they are reaching some of the most disadvantaged communities in Wales and empowering them.

David Lloyd: Pa drafodaethau yr ydych wedi bod yn eu cynnal gyda Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol? Mae wedi bod yn darogan—cytunaf ag ef, a chredaf fod nifer o bobl eraill yn cytuno ag ef hefyd—na allwn fforddio 22 sir yng Nghymru, gyda 22 prif weithredwr a 22 o bopeth arall. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gydag ef, felly, ynghylch yr union ffordd ymlaen o ran hynny?

Jane Hutt: Local government is playing an important part in the efficiency and innovation board, which I chair. Jointly with local government, we are putting innovation and collaboration at the heart of our response to these challenging times. Local authorities are looking at how they can be efficient and innovative and at how they can work collaboratively across local authority boundaries—regionally, sub-regionally and nationally. We are driving that agenda effectively not only to conserve resources, but to be efficient in how we handle these challenging financial times.

Eleanor Burnham: There are challenging times ahead, as we know. I want to ask about support for victims and witnesses of crime. As you know, we receive funds from the Home Office for that. What account will you take of the victims surcharge and the victims fund when you set your social justice budget?

Jane Hutt: We are very concerned. I met the consultative forum on finance this morning, which includes representatives from the police, as well as local government. The police service is very concerned about the cuts that it is being threatened with by the UK coalition Government. That will have a huge impact on the allocation of funds to witness protection and that important aspect

ymosodiadau hyn gan y Ceidwadwyr Cymreig. Mae prosiectau Cymunedau yn Gyntaf wedi gorfod mynd drwy brosesau craffu rheolaidd yn y Siambr, a phrosesau i werthuso eu heffeithiolrwydd a'r modd y maent yn cyrraedd rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ac yn eu grymuso.

David Lloyd: What discussions have you held with Carl Sargeant, the Minister for Social Justice and Local Government? He has predicted—I agree with him, and I think that a number of other people also agree with him—that we cannot afford 22 counties in Wales, with 22 chief executives and 22 of everything else. What discussions have you had with him, therefore, about the way forward in that regard?

Jane Hutt: Mae llywodraeth leol yn chwarae rhan bwysig yn y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, yr wyf yn ei gadeirio. Ar y cyd â llywodraeth leol, yr ydym yn sicrhau bod arloesi a chydweithredu wrth wraidd ein hymateb i'r cyfnod heriol hwn. Mae awdurdodau lleol yn ystyried sut y gallant fod yn effeithlon ac yn arloesol a sut y gallant weithio'n gydweithredol ar draws ffiniau awdurdodau lleol—ar lefel ranbarthol, is-ranbarthol a chenedlaethol. Yr ydym yn hybu'r agenda honno'n effeithiol, nid yn unig er mwyn arbed adnoddau, ond er mwyn bod yn effeithlon wrth inni ymdrin â'r cyfnod ariannol heriol hwn.

Eleanor Burnham: Mae cyfnod heriol o'n blaen, fel y gwyddom. Yr wyf am ymholi ynghylch cymorth i ddioddefwyr a thystion i droseddau. Fel y gwyddoch, yr ydym yn cael arian gan y Swyddfa Gartref ar gyfer hynny. I ba raddau y byddwch yn ystyried y tâl ychwanegol ar gyfer dioddefwyr a'r gronfa i ddioddefwyr pan fyddwch yn pennu eich cyllideb ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol?

Jane Hutt: Yr ydym yn bryderus iawn. Cyfarfûm â'r fforwm ymgynghorol ar gyllid y bore yma, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu yn ogystal â llywodraeth leol. Mae'r gwasanaeth heddlu'n bryderus iawn ynghylch y toriadau y mae Llywodraeth glymblaid y DU yn bygwth eu gwneud iddo. Bydd hynny'n cael effaith enfawr ar y modd y caiff arian ei ddyrannu i waith amddiffyn

of our community and civil justice service.

Jeff Cuthbert: Do you agree that the attacks on the Communities First programme that we have once again heard from the Tory benches show that that party is not in the least interested in the most disadvantaged communities in Wales? The truth is that Communities First has brought many benefits to people, including generating local activists, developing environmental projects and learning schemes, and encouraging local residents to participate in healthy living schemes? Do you agree that that shows what the Tories are really about?

Jane Hutt: I could not improve on what you said.

1.50 p.m.

The Efficiency and Innovation Board

Q4 Peter Black: Will the Minister give an update on the efficiency and innovation board? OAQ(3)1158(BB)

Jane Hutt: The fourth meeting of the efficiency and innovation board is on 20 July. There has been very good progress against the seven work streams commissioned by the board, which was reported to the public services summit on 2 July and which I highlighted in my statement in the Chamber on 29 June.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. I will start by correcting Gareth Jones, who obviously misheard the interview that I gave this morning, when I said that the review of the Barnett formula was very much part of the coalition agreement document and was to be undertaken during this Parliament. That is what I said.

In relation to the efficiency and innovation board, what work is being done on the Assembly Government's own internal costs as to how you can reduce the bureaucracy

tystion a'r agwedd bwysig honno ar ein gwasanaeth cyfiawnder sifil a chymunedol.

Jeff Cuthbert: A gytunwch fod yr ymosodiadau ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a glywsom unwaith eto o du meinciau'r Torïaid, yn dangos nad oes gan y blaid honno fymryn o ddiddordeb yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru? Y gwir amdani yw bod Cymunedau yn Gyntaf wedi cynnig llawer o fanteision i bobl, drwy gynhyrchu gweithredwyr lleol, datblygu prosiectau amgylcheddol a chynlluniau dysgu, ac annog trigolion lleol i gymryd rhan mewn cynlluniau byw'n iach, ymhlith pethau eraill. A ydych yn cytuno bod hynny'n dangos beth sy'n bwysig mewn gwirionedd i'r Torïaid?

Jane Hutt: Ni allwn fod wedi mynegi'r hyn yr ydych wedi'i ddweud yn well.

Y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi

C4 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi? OAQ(3)1158(BB)

Jane Hutt: Bydd pedwerydd cyfarfod y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi ar 20 Gorffennaf. Gwnaed cynnydd da iawn yng nghyswllt y saith ffrwd waith a gomisiynwyd gan y bwrdd. Adroddwyd ynghylch y cynnydd hwnnw wrth yr uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus ar 2 Gorffennaf, a thynnais sylw ato yn fy natganiad yn y Siambr ar 29 Mehefin.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Hoffwn ddechrau drwy gywiro Gareth Jones, oherwydd yr oedd yn amlwg iddo gamddeall y cyfweiliad a roddais y bore yma, pan ddywedais fod adolygu fformiwla Barnett yn rhan bwysig iawn o ddogfen cytundeb y glymblaid, ac y byddai'r gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod y Senedd hon. Dyna a ddywedais.

O ran y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, pa waith a wneir o safbwynt costau mewnol Llywodraeth y Cynulliad ei hun, i weld sut y gallwch leihau'r fiwrocratiaeth sy'n

around the services that are delivered by the Government?

Jane Hutt: The Assembly Government clearly has to play its part. The Permanent Secretary is taking responsibility for taking this forward as our contribution to the efficiency and innovation programme. Those efficiencies and savings will form part of our answer to the difficult cuts that we are going to have to make in revenue expenditure as a result of the UK coalition Government's 2010-11 cuts.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. You are aware that the Permanent Secretary gave evidence last week in relation to the pool of staff awaiting reallocation that is held by the Assembly Government. Can you confirm what the cost of that pool is? How is the efficiency and innovation board seeking to drive down those costs to ensure that your no-redundancy policy does not add to the overall burden on the taxpayer?

Jane Hutt: I am sure that you can seek those costs from the Permanent Secretary yourself as she is a regular attendant at the Finance Committee and the Public Accounts Committee. It is clear that we are driving an agenda where we are trying to ensure that we deliver an efficient public service, starting with our Welsh Assembly Government staff.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, fel yr ydych eisoes wedi esbonio, yr ydym ni yng Nghymru wedi ein condemnio gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan i doriadau llym o ran gwariant cyhoeddus. Gan ein bod wedi ein condemnio bellach yng Nghymru i wasgfa ariannol, mae'n rhaid i chi edrych am arbedion ariannol. Yr wyf yn eich clodfori am symud tuag at sicrhau nad oes gwastraff o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. A fydddech yn barod i fynd gam ymhellach a derbyn awgrym Plaid Cymru y dylem gael gwasanaeth cyhoeddus Cymreig, fel bod gweithwyr yn gallu symud ar draws ystod o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth addysg, awdurdodau lleol a phob math o wasanaethau cyhoeddus eraill, gan y

gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Llywodraeth?

Jane Hutt: Mae'n amlwg bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad chwarae ei rhan. Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymryd cyfrifoldeb am fwrw ymlaen â hyn fel ein cyfraniad ni i'r rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi. Bydd yr arbedion hynny'n rhan o'n hateb i'r toriadau anodd y bydd yn rhaid inni eu gwneud o ran gwariant refeniw, o ganlyniad i doriadau Llywodraeth glymblaid y DU ar gyfer 2010-11.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gwyddoch i'r Ysgrifennydd Parhaol roi tystiolaeth yr wythnos diwethaf ynghylch y gronfa o staff sydd gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n disgwyl cael eu hail-leoli. A allwch gadarnhau faint y mae'r gronfa honno'n ei gostio? Sut y mae'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi'n ceisio lleihau'r costau hynny i sicrhau nad yw eich polisi o beidio â diswyddo yn ychwanegu at y baich cyffredinol sydd ar y trethdalwr?

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y gallwch gael gwybodaeth am y costau hynny eich hun gan yr Ysgrifennydd Parhaol, oherwydd y mae'n mynychu'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rheolaidd. Mae'n amlwg ein bod yn hybu agenda lle yr ydym yn ceisio sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus effeithlon, gan ddechrau gyda'n staff yn Llywodraeth y Cynulliad.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, as you have already explained, we in Wales have been condemned by the coalition Government in Westminster to savage cuts in public spending. As we in Wales have now been condemned to financial pressure, you must look for cost savings. I praise you for taking steps to ensure that there is no waste within public services in Wales. Would you be willing to go a step further and accept the suggestion made by Plaid Cymru that we should have a Welsh public service, so that workers can move across a range of public services, including the health service, the education service, local authorities and all types of other public services, as that would bring savings and would create much more flexible workforce?

byddai hynny yn dwyn arbedion ac yn creu gweithlu a fyddai'n llawer mwy hyblyg?

Jane Hutt: Of course, that is what we have been working towards—a Welsh public service. I believe that we are now moving to reach that point. In our workforce development efficiency and innovation work stream, for example, we have a project on integrating the workforce, which is establishing a career transition system to create a job pool for all public services so that staff can move flexibly between sectors. That is already making a difference to public sector employers in Wales.

Nick Bourne: Minister, as you are on record as saying, we, in Wales, have to play our part in reducing the debt—a debt that was incurred by the last Government, it is fair to say. That is a matter of fact. It is true that the Welsh Assembly Government has lower cuts to bear than virtually every other Government department—the cuts to be borne here are certainly lower than those to be borne in Scotland.

May I bring you back to the efficiency and innovation board, which is what this question is about? Given that one of the streams certainly refers to the elimination of waste, could you tell us the value of the savings that have so far been identified by the efficiency and innovation board? After all, that is what its title is and that is what it is designed to do. What savings have you identified that can be made?

Jane Hutt: I am glad that you came back to the efficiency and innovation board, which of course was the topic of the question. I have mentioned the work stream on workforce development, but, importantly, there is also a work stream on collaborative procurement, which is seeking to secure efficiencies of £200 million by 2013 through collaborative procurement and commissioning. All local authorities are engaged with the xchangewales e-procurement programme. That is just one example of how efficiencies are already being made. In response to the

Jane Hutt: Wrth gwrs, dyna'r ydym wedi bod yn anelu ato—gwasanaeth cyhoeddus Cymreig. Credaf ein bod yn awr yn cymryd camau i gyrraedd y nod hwnnw. Yn ein ffrwd waith o ran effeithlonrwydd ac arloesi, sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu, er enghraifft, mae gennym brosiect ar integreiddio'r gweithlu, sy'n sefydlu system pontio gyrfa er mwyn creu cronfa swyddi ar gyfer pob gwasanaeth cyhoeddus a galluogi staff i symud yn hwylus rhwng sectorau. Mae hynny eisoes yn gwneud gwahaniaeth i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Nick Bourne: Weinidog, fel yr ydych wedi dweud, ac mae hynny wedi'i gofnodi, rhaid i ni, yng Nghymru, chwarae ein rhan i leihau'r ddyled—dyled a ddaeth yn sgîl y Llywodraeth ddiwethaf, mae'n deg dweud. Mae hynny'n ffaith. Mae'n wir bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ymdopi â thoriadau llai na bron pob adran arall yn y Llywodraeth—mae'r toriadau y bydd yn rhaid ymdopi â hwy yma'n bendant yn llai na'r rhai y bydd yn rhaid ymdopi â hwy yn yr Alban.

Hoffwn ddod â chi'n ôl at y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, y mae a wnelo'r cwestiwn hwn ag ef. O gofio bod un o'r ffrydiau yn cyfeirio'n bendant at ddileu gwastraff, a allech ddweud wrthym beth yw gwerth yr arbedion a nodwyd hyd yma gan y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi? Wedi'r cyfan, dyna yw teitl y bwrdd, a dyna yw ei ddiben. Pa arbedion yr ydych wedi nodi y gellir eu gwneud?

Jane Hutt: Yr wyf yn falch ichi ddychwelyd at y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, sef y pwnc yr oedd a wnelo'r cwestiwn ag ef, wrth gwrs. Yr wyf wedi sôn am y ffrwd waith sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu, ond, yn bwysig iawn, ceir ffrwd waith hefyd sy'n ymwneud â chaffael ar y cyd, sy'n ceisio sicrhau arbedion o £200 miliwn erbyn 2013 drwy waith caffael a chomisiynu ar y cyd. Mae pob awdurdod lleol yn ymwneud â'r rhaglen e-gaffael, cyfnewidcymru. Un enghraifft yn unig yw honno o sut y mae arbedion yn cael eu gwneud yn barod. I

statement that I made on the efficiency and innovation programme, I have already identified £300 million-worth of savings. That takes us back to 2005 and our 'Making the Connections' programme, which we have been driving forward.

Portfolio Allocations

Q5 William Graham: What consideration has the Minister given to reviewing the budget allocation to the social justice and local government portfolio?
OAQ(3)1149(BB)

Jane Hutt: The allocation of funding to the social justice and local government portfolio is part of our annual budget-planning process. The current year's allocation as set out in the final budget of December 2009 amounts to more than £4.5 billion.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. With a tighter spending environment now upon us, it is clearly essential for the emphasis that you have consistently placed on collaboration and the work undertaken by the efficiency and innovation board to come to fruition. If you have identified any savings, may I suggest that you create shared services for arts funding in south-east Wales, which could reduce the impact of the recent decision of the Arts Council of Wales to cease supporting several important arts groups in Gwent?

Jane Hutt: That is a positive and constructive suggestion. You know that we are driving the invest-to-save programme, which is open to the public sector and its partners, and I am sure that opportunities to share services are being taken. A representative of the Arts Council of Wales has been attending the meetings of our efficiency and innovation board.

Veronica German: Everyone agrees that local government has to use the finances available to it in the most effective and efficient way if it is to achieve the desired outcomes. I would be interested to hear your thoughts on the Flying Start scheme as delivered by Newport City Council, which

ymateb i'r datganiad a wneuthum ar y rhaglen effeithlonrwydd ac arloesi, yr wyf eisoes wedi nodi gwerth £300 miliwn o arbedion. Aiff hynny â ni'n ôl i 2005 a'n rhaglen 'Creu'r Cysylltiadau', yr ydym wedi bod yn ei hybu.

Dyraniadau Portffolio

C5 William Graham: Pa ystyriaeth mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i adolygu'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol?
OAQ(3)1149(BB)

Jane Hutt: Mae dyrannu cyllid i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol yn rhan o'n proses flynyddol o gynllunio cyllidebau. Mae'r dyraniad ar gyfer y flwyddyn gyfredol, fel y nodwyd yng nghyllideb derfynol mis Rhagfyr 2009, yn cyfateb i dros £4.5 biliwn.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. Gan ein bod bellach mewn amgylchedd tynnach o ran gwariant, mae'n amlwg ei bod yn hanfodol i'r pwyslais yr ydych wedi'i roi'n gyson ar gydweithredu, a'r gwaith a wnaed gan y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, ddwyn ffrwyth. Os ydych wedi nodi unrhyw arbedion, a gaf awgrymu y dylech greu gwasanaethau a rennir er mwyn ariannu'r celfyddydau yn y de-ddwyrain? Gallai hynny leihau effaith penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddiweddar i beidio â chefnogi llawer o grwpiau celfyddydol pwysig yng Ngwent.

Jane Hutt: Mae'r awgrym hwnnw'n gadarnhaol ac yn adeiladol. Gwyddoch ein bod yn hybu'r rhaglen buddsoddi i arbed, sy'n agored i'r sector cyhoeddus a'i bartneriaid, ac yr wyf yn siŵr y manteisir ar gyfleoedd i rannu gwasanaethau. Mae cynrychiolydd o Gyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn mynychu cyfarfodydd ein bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi.

Veronica German: Mae pawb yn cytuno bod yn rhaid i lywodraeth leol ddefnyddio'r arian sydd ar gael iddi yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol os yw am sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed eich barn am y cynllun Dechrau'n Deg, fel y mae'n cael ei

has done it in such a cost-effective way that it was delivered for a much lower cost per head than that prescribed by your Government. You would think that that would be held up as a beacon of good practice—

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you get to the question, please?

Veronica German: However, the council is being told that it is not spending enough money, even though it is achieving the desired outcomes. Why can this Government not recognise new and better ways of delivering services in local government and hold them up, sharing good practices throughout Wales?

Jane Hutt: I appreciate that you are new, Veronica, and I welcome your first question to me as Minister for finance. However, you have just welcomed a Welsh Assembly Government priority scheme that is being delivered throughout Wales. Flying Start was our pioneering, flagship policy, and was the successor to Sure Start. It was tailored as a result of evidence from international experts on early intervention in pre-school education. I will not go through all the elements of it, but it is being delivered in Newport and in every disadvantaged school catchment area throughout Wales. It is a Welsh Assembly Government scheme, Veronica.

Portfolio Allocations

Q6 Paul Davies: What were the Minister's priorities when allocating funding to the environment, sustainability and housing portfolio? OAQ(3)1141(BB)

Jane Hutt: When considering budget allocations, I meet each Minister to talk about their priorities and pressures. We will bring forward our budget proposals in the autumn, following the publication of the spending review by the UK Government.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. We all recognise the importance of making Wales more energy efficient, and

weithredu gan Gyngor Dinas Casnewydd, sydd wedi gweithio mewn modd mor gosteffeithiol nes i'r cynllun gael ei weithredu am gost a oedd gryn dipyn yn is y pen na'r gost a bennwyd gan eich Llywodraeth. Byddech yn disgwyl i hynny gael sylw fel esiampl o arfer da—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ofyn y cwestiwn, os gwelwch yn dda?

Veronica German: Fodd bynnag, dywedir wrth y cyngor nad yw'n gwario digon o arian, er ei fod yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir. Pam na all y Llywodraeth hon gydnabod ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau mewn llywodraeth leol a thynnu sylw atynt, gan rannu arferion da ledled Cymru?

Jane Hutt: Yr wyf yn sylweddoli eich bod yn newydd, Veronica, ac yr wyf yn croesawu eich cwestiwn cyntaf imi fel y Gweinidog dros gyllid. Fodd bynnag, yr ydych newydd groesawu cynllun sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth y Cynulliad sy'n cael ei weithredu ledled Cymru. Dechrau'n Deg oedd ein polisi blaenllaw, arloesol, ac yr oedd yn olynu Cychwyn Cadarn. Cafodd ei deilwra o ganlyniad i dystiolaeth gan arbenigwyr rhyngwladol ar ymyrryd yn gynnar mewn addysg gyn ysgol. Ni fanylaf ar holl elfennau'r polisi, ond mae'n cael ei weithredu yng Nghasnewydd ac ym mhob dalgylch ysgol sy'n ddifreintiedig ledled Cymru. Cynllun gan Lywodraeth y Cynulliad ydyw, Veronica.

Dyraniadau Portffolio

C6 Paul Davies: Beth oedd blaenoriaethau'r Gweinidog wrth ddyrannu cyllid ar gyfer portffolio'r amgylchedd, cynaliadwyedd a thai? OAQ(3)1141(BB)

Jane Hutt: Wrth ystyried dyrannu cyllid, yr wyf yn cyfarfod â'r Gweinidogion i gyd i drafod eu blaenoriaethau a'r pwysau sydd arnynt. Byddwn yn cyflwyno ein cynigion cyllid yn yr hydref, yn dilyn cyhoeddi'r adolygiad o wariant gan Lywodraeth y DU.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Yr ydym i gyd yn cydnabod pwysigrwydd gwneud

it is essential for the Welsh Assembly Government to continue actively to promote ways of becoming more energy efficient. I have met representatives of Pembrokeshire County Council and Pembrokeshire housing association, and I support their call to be allowed to bid for funding. At present, under the strategic framework for European structural funds, social housing in Pembrokeshire does not qualify for European funding, and so many of my constituents are unable to take advantage of such funds. Will the Minister outline what she and the Welsh Assembly Government are doing to ensure that Pembrokeshire is not disadvantaged?

2.00 p.m.

Jane Hutt: Clearly, I am not aware of the particular issues regarding the funding criteria for your scheme in Pembrokeshire. It is a matter for the Minister for Environment, Sustainability and Housing and the Deputy Minister for Housing and Regeneration, and I would want to draw their attention to your question.

Leanne Wood: Minister, much of the existing financial support available to improve energy efficiency, such as through the use of cavity insulation, does not normally apply to older housing stock, because of their solid walls. My region of South Wales Central has a high degree of this housing. As 50 per cent of heat is lost through walls, poor insulation is costing people in my region through higher heating bills and environmentally, as carbon emissions are also increased. I know that there is limited provision under the Arbed scheme to improve the energy efficiency of older homes by fitting external wall insulation, but can you tell us what plans there are to roll out that scheme or something similar so that support can be available to more houses?

Jane Hutt: You will know, Leanne, that we have been successful in the past two years in getting extra funding for action on fuel poverty, particularly by leveraging in £26 million from the strategic capital investment

Cymru yn fwy effeithlon o ran ynni, ac mae'n hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad barhau i weithredu i hyrwyddo ffyrdd o ddod yn fwy effeithlon o ran ynni. Yr wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Gyngor Sir Penfro a Chymdeithas Tai Sir Benfro, ac yr wyf yn cefnogi eu cais am ganiatâd i ymgeisio am gyllid. Ar hyn o bryd, o dan y fframwaith strategol ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, nid yw tai cymdeithasol yn sir Benfro yn gymwys i gael cyllid Ewropeaidd, ac felly, nid yw llawer o'm hetholwyr yn gallu manteisio ar gronfeydd o'r fath. A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae hi a Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau nad yw sir Benfro o dan anfantais?

Jane Hutt: Mae'n amlwg nad wyf yn ymwybodol o'r problemau penodol sy'n ymwneud â meini prawf cyllido ar gyfer eich cynllun yn sir Benfro. Mae'n fater i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, a'r Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio, a byddwn am dynnu eu sylw hwy at eich cwestiwn.

Leanne Wood: Weinidog, nid yw llawer o'r cymorth ariannol presennol sydd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni, er enghraifft, drwy ddefnyddio deunydd inswleiddio ceudod, yn berthnasol fel rheol i dai hŷn, oherwydd eu waliau solet. Mae llawer o dai o'r fath yn fy rhanbarth, sef Canol De Cymru. Oherwydd bod 50 y cant o wres yn cael ei golli drwy waliau, mae inswleiddio gwael yn costio'n ddrud i bobl yn fy rhanbarth, ar ffurf biliau gwresogi uwch ac o safbwynt amgylcheddol, gan fod allyriadau carbon yn cael eu cynyddu hefyd. Gwn fod darpariaeth gyfyngedig o dan y cynllun Arbed i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi hŷn, drwy osod deunydd inswleiddio ar ochr allanol waliau, ond a allwch ddweud wrthym pa gynlluniau sydd ar gael i ymestyn y cynllun hwnnw neu rywbeth tebyg er mwyn i gymorth fod ar gael i ragor o dai?

Jane Hutt: Gwyddoch, Leanne, inni lwyddo yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i sicrhau cyllid ychwanegol ar gyfer gweithredu ar dlodi tanwydd, yn enwedig wrth inni ddenu £26 miliwn o'r gronfa buddsoddi cyfalaf

fund over the last three years. Arbed, the strategic energy performance investment programme, has been set up to leverage this funding, and it is particularly looking at the most deprived areas and the wider area of the Heads of the Valleys. That is important, but your issues about older housing stock are linked to the developments that are taking place as a result of this extra investment.

Kirsty Williams: Minister, you will be aware of the recent decision by the Deputy Minister for housing to put additional resources into the mortgage rescue scheme, while at the same time limiting that scheme to those people who have a disability or who live in a house to which disability adaptations have been carried out. This leaves many people unable to benefit from that fund, including a constituent of mine who, because her errant husband has stopped helping to pay the mortgage, is now in danger of losing her and her son's house. Did the Deputy Minister for housing have any discussions with you about the restrictions being put on that scheme, and did she ask you for additional resources out of your centrally held budget to extend the scheme further?

Jane Hutt: It has been a very successful scheme in Wales, as you say, with more than 600 adults and 300 children being prevented from becoming homeless, and with £14 million having been spent to date. Clearly, budget pressures have meant that we have had to tighten the scheme's criteria, but I was able to make more funding available for the mortgage rescue scheme. The impact of the 2010-11 cuts imposed by the UK coalition Government means that we are making some very tough decisions about how we can progress with these important schemes.

Mick Bates: Minister, following yesterday's announcement that the Assembly Government will not be putting off budget cuts until next year, it is more important than ever that we ensure cost-effective savings. Of course, under the weight of these economic pressures, we must not forget the scale of the environmental challenges that we face. For

strategol dros y tair blynedd diwethaf. Mae Arbed, y rhaglen buddsoddi strategol mewn perfformiad ynni, wedi'i sefydlu i ategu'r cyllid hwnnw, ac mae'n edrych yn benodol ar ardaloedd mwyaf difreintiedig ac ardal ehangach Blaenau'r Cymoedd. Mae hynny'n bwysig, ond mae'r materion yr ydych wedi'u codi ynghylch stoc tai hyn yn gysylltiedig â'r datblygiadau sy'n digwydd o ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol hwn.

Kirsty Williams: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r penderfyniad yn ddiweddar gan y Dirprwy Weinidog dros dai i roi adnoddau ychwanegol i'r cynllun achub morgeisi, gan gyfyngu'r cynllun hwnnw ar yr un pryd i'r bobl hynny sydd ag anabledd neu sy'n byw mewn tŷ y mae addasiadau wedi'u gwneud iddo oherwydd anabledd. Oherwydd hynny nid yw llawer o bobl yn gallu elwa o'r gronfa honno, gan gynnwys un o'm hetholwyr. Mae perygl yn awr y bydd hi'n colli'r tŷ y mae hi a'i mab yn byw ynddo, am fod ei gŵr, sydd wedi mynd ar gyfeiliorn, wedi rhoi'r gorau i helpu i dalu'r morgais. A gafodd y Dirprwy Weinidog dros dai unrhyw drafodaethau â chi am y cyfyngiadau a roddir ar y cynllun hwnnw, ac a ofynnodd ichi am adnoddau ychwanegol allan o'ch cyllideb ganolog i ymestyn y cynllun ymhellach?

Jane Hutt: Mae wedi bod yn gynllun llwyddiannus iawn yng Nghymru, fel y dywedwch, wrth i dros 600 o oedolion a 300 o blant gael eu hatal rhag mynd yn ddigartref, ac wrth i £14 miliwn gael ei wario hyd yma. Mae'n amlwg bod pwysau cyllidebol wedi golygu ein bod wedi gorfod tynhau meini prawf y cynllun, ond llwyddais i ddarparu rhagor o gyllid ar gyfer y cynllun achub morgeisi. Mae effaith toriadau 2010-11, a gyflwynwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU, yn golygu ein bod yn gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn ynghylch sut y gallwn symud ymlaen gyda'r cynlluniau pwysig hyn.

Mick Bates: Weinidog, wedi'r cyhoeddiad ddoe na fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gohirio toriadau yn y gyllideb tan y flwyddyn nesaf, mae'n bwysicach byth inni sicrhau arbedion costeffeithiol. Wrth gwrs, o dan y pwysau economaidd sydd arnom, rhaid inni beidio ag anghofio maint yr heriau amgylcheddol a wynebwn. Er enghraifft,

example, the Government in Scotland produced a carbon budget to estimate the carbon emissions for all main spending areas, to identify areas of high emissions and to develop sustainable, targeted policies to reduce carbon in those areas. Will you commit to taking similar action here to identify the high-carbon-spending areas in Wales, so that budget cuts are made in line with the Welsh Assembly's duty to promote sustainable development and the 'One Wales' commitment to reduce carbon emissions by 3 per cent by 2011, by ensuring cost-effective and carbon-effective cuts in Wales?

Jane Hutt: All the answers that I will be giving to questions from now on will be in the context of the very limited spending envelope that we have. You know that our aspirations are for all new buildings constructed in Wales from 2011 onwards to be zero carbon. The transfer-of-functions Order for the devolution of building regulations has passed through both Houses of Parliament and received Royal Assent in the Privy Council. In fact, the Minister made a statement about this recently in the context of the devolution of the regulations in two years' time.

It is clear that we have to drive forward improvements in the energy performance of our new buildings and, as I said in response to a previous question, promote the code for sustainable homes, and look to the work of the zero carbon hub group, which has cross-industry membership.

The Deputy Presiding Officer: Question 7, OAQ(3)1136(BB), has been withdrawn.

Welsh Budget

Q8 Alun Davies: What recent discussions has the Minister had with the UK Government regarding the Welsh budget? OAQ(3)1129(BB)

Jane Hutt: I have regular contact with the UK Government on a range of issues. I met the Chief Secretary to the Treasury on 9 June and will be meeting him and the Ministers of

lluniodd y Llywodraeth yn yr Alban gyllideb garbon i amcangyfrif yr allyriadau carbon ar gyfer pob prif faes gwario, er mwyn gweld pa feysydd sydd â lefel uchel o allyriadau a datblygu polisiau cynaliadwy a dargedir i leihau carbon yn y meysydd hynny. A wnewch ymrwymo i gymryd camau tebyg yma i ganfod pa rai yw'r meysydd gwario sydd â lefel uchel o garbon yng Nghymru, er mwyn i doriadau mewn cyllidebau gael eu gwneud yn unol â dyletswydd Cynulliad Cymru i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac ymrwymiad 'Cymru'n Un' i leihau allyriadau carbon 3 y cant erbyn 2011, drwy sicrhau toriadau costeffeithiol ac effeithiol o ran carbon yng Nghymru?

Jane Hutt: Bydd yr holl atebion a roddaf i gwestiynau o hyn ymlaen yn cael eu rhoi yng nghyd-destun yr amlen gyfyngedig iawn sydd gennym ar gyfer gwariant. Gwyddoch mai ein dyhead yw sicrhau bod pob adeilad newydd a gaiff ei godi yng Nghymru o 2011 ymlaen yn ddi-garbon. Mae'r Gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau ar gyfer datganoli rheoliadau adeiladu wedi mynd drwy'r ddau Dŷ yn Senedd y DU, ac mae wedi cael Cydsyniad Brenhinol yn y Cyfrin Gyngor. Mewn gwirionedd, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad am y mater yn ddiweddar yng nghyd-destun datganoli'r rheoliadau ymhenn dwy flynedd.

Mae'n amlwg bod yn rhaid inni hybu gwelliannau ym mherfformiad ein hadeiladau newydd o ran ynni, ac fel y dywedais wrth ymateb i gwestiwn blaenorol, rhaid inni hyrwyddo'r cod cartrefi cynaliadwy, ac edrych ar waith y grŵp di-garbon, y mae ei aelodau'n cynrychioli nifer o ddiwydiannau.

Y Dirprwy Lywydd: Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(3)1136(BB), yn ôl.

Cyllideb Cymru

C8 Alun Davies: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllideb Cymru? OAQ(3)1129(BB)

Jane Hutt: Yr wyf mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch nifer o faterion. Cwrddais â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 9 Mehefin a

finance of Scotland and Northern Ireland on Thursday to discuss shared issues.

Alun Davies: Thank you very much for that response, Minister. One of the many things that we have learnt since May is the place of the two Assembly opposition parties in their UK structures. We now know how little influence the Welsh parties have on the UK Government. We know how the two Welsh leaders are being routinely ignored and sidelined by UK Ministers. Therefore, Minister, will you make it clear to the UK Government that many of the plans that it has revealed to save money and costs have already been implemented by this and previous Governments? The efficiency and innovation board, the bonfire of the quangos, the reduction in central budgets and a focus on front-line and shared services are part of the agenda that has been followed by the Welsh Assembly Government for some years. Will you make it clear to the UK Government that we are leading the way in Wales, not following the UK Government?

Jane Hutt: When I met Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury, I was able to tell him about our efficiency and innovation board. The UK Government was just starting its efficiency reform group, which he is co-chairing with Francis Maude. We have quickly seen the outcome of that board's discussions—whether it was a leak or not—with the attacks on our census and the Food Standards Agency, which seems to be how it is approaching the review of efficiency and innovation. However, the serious matter is that I will be sharing our best practice examples at the meeting tomorrow. The recent public services summit, which included local government and had cross-party leadership, reflected the engagement and interest shown across the public sector, and included colleagues from health, local government, the fire authorities, the police, the Wales Trades Union Congress and the third sector. I will be sharing that with them tomorrow. I will also be pressing him on Wales's need for fairer funding, following the most recent report from Gerry Holtham's commission.

byddaf yn cwrdd ag ef a Gweinidogion cyllid yr Alban a Gogledd Iwerddon ddydd Iau i drafod materion sy'n berthnasol i ni i gyd.

Alun Davies: Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Un o'r nifer o bethau yr ydym wedi'u dysgu ers mis Mai yw statws y ddwy wrthblaid yn y Cynulliad yn eu strwythurau ar lefel y DU. Erbyn hyn gwyddom cyn lleied o ddylanwad sydd gan y pleidiau yng Nghymru ar Lywodraeth y DU. Gwyddom sut y caiff y ddau arweinydd yng Nghymru eu hanwybyddu'n gyson a'u gwthio i'r cyrion gan Weinidogion y DU. Felly, Weinidog, a wnewch egluro wrth Lywodraeth y DU fod llawer o'r cynlluniau y mae wedi'u datgelu i arbed arian a chostau eisoes wedi'u gweithredu gan y Llywodraeth hon a Llywodraethau blaenorol? Mae'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, coelcerth y cwangos, camau i leihau cyllidebau canolog, a ffocws ar wasanaethau rheng flaen a gwasanaethau a rennir yn rhan o'r agenda y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn ei dilyn ers rhai blynyddoedd. A wnewch egluro wrth Lywodraeth y DU ein bod yn arwain y ffordd yng Nghymru, ac nid yn dilyn Llywodraeth y DU?

Jane Hutt: Pan gyfarfûm â Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, soniais wrtho am ein bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi. Yr oedd Llywodraeth y DU wrthi'n dechrau creu ei grŵp diwygio effeithlonrwydd, y mae'n ei gadeirio ar y cyd â Francis Maude. Yr ydym wedi gweld canlyniad trafodaethau'r bwrdd hwnnw'n fuan—boed yn answyddogol ai peidio—gyda'r ymosodiadau ar ein cyfrifiad a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ymddengys mai dyna sut y mae'n mynd ati i adolygu effeithlonrwydd ac arloesi. Fodd bynnag, y mater difrifol yw y byddaf yn rhannu ein henghreiffitiau o arferion gorau yn y cyfarfod yfory. Yr oedd yr uwchgynhadledd gwasanaethau cyhoeddus, a gynhaliwyd yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys llywodraeth leol ac arweinyddiaeth drawsbleidiol, yn adlewyrchu'r ymgysylltiad a'r diddordeb a ddangosir ar draws y sector cyhoeddus, ac yr oedd yn cynnwys cydweithwyr o faes iechyd, llywodraeth leol, yr awdurdodau tân, yr heddlu, Cyngres Undebau Llafur Cymru a'r trydydd sector. Byddaf yn rhannu hynny â hwy yfory. Byddaf hefyd yn pwysu arno

ynghylch angen Cymru am arian tecach, yn dilyn yr adroddiad diweddaraf gan gomisiwn Gerry Holtham.

Bethan Jenkins: The pressures on the Welsh Assembly Government have come from the UK Government, and will therefore also affect local authorities. To that end, does the Minister believe that Neath Port Talbot County Borough Council's threat to make its staff reapply for their jobs—essentially, firing and rehiring them—fits with the objectives of the efficiency and innovation board, particularly its aim to transform the operational efficiency of public services, promote innovation and workforce engagement?

Bethan Jenkins: Mae'r pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad wedi dod oddi wrth Lywodraeth y DU, ac felly, bydd yn effeithio ar awdurdodau lleol hefyd. I'r perwyl hwnnw, a yw'r Gweinidog yn credu bod bygythiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i orfodi ei staff i ailymgeisio am eu swyddi—eu diswyddo a'u hailgyflogi, yn y bôn—yn cyd-fynd ag amcanion y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, yn enwedig ei nod i weddnewid effeithlonrwydd gweithredol gwasanaethau cyhoeddus, hyrwyddo arloesi ac ymgysylltu â'r gweithlu?

Jane Hutt: These are matters for local authorities as employers. I welcome and look forward to seeing the outcome of the fairer pay and conditions review that is being undertaken by the new UK Government, and we have already been taking forward those principles in the Welsh Assembly Government.

Jane Hutt: Materion i awdurdodau lleol fel cyflogwyr yw'r rhain. Yr wyf yn croesawu'r adolygiad o amodau a chyflog tecach, a gynhelir gan Lywodraeth newydd y DU, ac edrychaf ymlaen at weld ei ganlyniad, ac yr ydym eisoes wedi bod yn rhoi'r egwyddorion hynny ar waith yn Llywodraeth y Cynulliad.

Priorities

Q9 Nick Bourne: Will the Minister outline her priorities for the remainder of the third Assembly? OAQ(3)1147(BB)

Jane Hutt: Our spending priorities for 2010-11 were set out in the budget that was approved by the Assembly in December, and through this we continue to deliver our priorities as set out in 'One Wales'. We remain committed to delivering future budgets that maximise returns from the Welsh pound.

Nick Bourne: I thank the Minister for that response. Knowing how keen she is on the good housekeeping that she has made her watchword, as she has told us, what is she doing—I am sure that Danny Alexander would take an interest in this matter—in relation to the £1 billion that is being misspent in the health service that could be better directed to front-line services? We all have an interest in this and, as a Member for Mid and West Wales, I certainly have an interest in ensuring that that money is spent on front-line services. Other Members across

Blaenoriaethau

C9 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)1147(BB)

Jane Hutt: Mae ein blaenoriaethau gwario ar gyfer 2010-11 wedi'u nodi yn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Rhagfyr. Drwy honno yr ydym yn parhau i gyflawni blaenoriaethau 'Cymru'n Un'. Yr ydym wedi ymrwymo o hyd i lunio cyllidebau yn y dyfodol sy'n cael y gwerth gorau o bob punt sy'n cael ei gwario gennym.

Nick Bourne: Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. O wybod mor awyddus y mae i gadw trefn dda ar bethau, fel y mae wedi sôn wrthym, beth y mae'n ei wneud—ac yr wyf yn siŵr y byddai gan Danny Alexander ddiddordeb yn y mater hwn—yng nghyswllt yr £1 biliwn sy'n cael ei gamwario yn y gwasanaeth iechyd, arian a allai gael ei gyfeirio'n well at wasanaethau rheng flaen? Mae gan bob un ohonom ddiddordeb yn y mater hwn, ac fel Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, mae gennyf yn bendant ddiddordeb mewn sicrhau bod yr arian

the parties will agree that we need the money to be spent on the front line. What are you doing to ensure that that happens in the health service?

Jane Hutt: You welcomed my statement yesterday, and, as I mentioned in my statement, I am not going to cut the capital programme in health or education, unlike Michael Gove, and a fiasco has ensued in England with the cancellation of contracts.

2.10 p.m.

We must recognise that, in respect of the spend on capital health schemes for the rest of this financial year, through an allocation of £391 million, spend-to-save schemes will be coming online, including the Prince Philip Hospital short stay unit, the West Wales General Hospital critical care unit, the Pen-coed primary care centre, the Royal Glamorgan Hospital engineering department, Morriston Hospital phase 1B and the Wrexham make-ready ambulance depot. Are you saying that we should not progress with those schemes, Nick? Over the past two years, we have invested £587 million on NHS capital development and equipment. On revenue savings, the NHS has delivered efficiency and productivity savings and, in addition to that, the health service has brought down waiting times and improved patient outcomes.

Chris Franks: Minister, do you see any likelihood of movement on the Holtham recommendations by the Conservative and Lib Dem Government in London? Can you give an assurance that one of your priorities will be to keep pressure on the coalition Government, as the Lib Dem and Conservative leaders in the Assembly have failed Wales so dismally? Do you agree that, if we were properly funded, it would be far easier for us to finance replacement buildings, such as a school building at Ynysboeth, especially as the nearby comprehensive school raised £600 with a no-uniform day for a new school—

hwnnw'n cael ei wario ar wasanaethau rheng flaen. Bydd Aelodau eraill ar draws y pleidiau'n cytuno bod angen i'r arian gael ei wario ar y rheng flaen. Beth yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod hynny'n digwydd yn y gwasanaeth iechyd?

Jane Hutt: Bu ichi groesawu fy natganiad ddoe, ac fel y soniais yn fy natganiad, nid wyf yn bwriadu torri'r rhaglen gyfalaf ym maes iechyd nac addysg, yn wahanol i Michael Gove, ac mae llanast wedi digwydd yn Lloegr wrth i gontractau gael eu canslo.

O ran gwariant ar gynlluniau cyfalaf ym maes iechyd ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol hon, rhaid inni gydnabod y bydd cynlluniau gwario i arbed, drwy ddyraniad o £391 miliwn, yn dod i rym, gan gynnwys uned arosiadau byr Ysbyty'r Tywysog Philip, uned gofal critigol Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, canolfan gofal sylfaenol Pen-coed, adran beirianeg Ysbyty Brenhinol Morgannwg, cam 1B Ysbyty Treforys a depo ymbaratoi'r gwasanaeth ambiwlans yn Wrecsam. A ydych yn dweud na ddylem fwrw ymlaen â'r cynlluniau hynny, Nick? Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yr ydym wedi buddsoddi £587 miliwn ar offer a datblygu cyfalaf yn y GIG. O ran arbedion refeniw, mae'r GIG wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchiant, ac yn ogystal â hynny, mae'r gwasanaeth iechyd wedi lleihau amseroedd aros ac wedi gwella canlyniadau i gleifion.

Chris Franks: Weinidog, a ydych yn meddwl ei bod yn debyg y bydd camau'n cael eu cymryd yng nghyswllt argymhellion Holtham gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn Llundain? A allwch roi sicrwydd mai un o'ch blaenoriaethau fydd parhau i bwysu ar y Llywodraeth glymblaid, gan fod arweinwyr y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y Cynulliad wedi siomi Cymru mor alaethus? Pe baem yn cael ein cyllido'n briodol, a gytunwch y byddai'n haws o lawer inni ariannu adeiladau newydd, megis adeilad ysgol yn Ynys-boeth, yn enwedig gan i'r ysgol gyfun gyfagos godi £600, drwy gynnal diwrnod eich dillad eich hunain, er mwyn i ysgol newydd—

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you come to your final question?

Chris Franks: My final question is: do you agree that the retreat over funding by Lib Dems and their betrayal of Wales is shameful?

Jane Hutt: I hope that we can return to the consensus that we got on 13 October 2009 and the full cross-party endorsement in the Chamber of the Welsh Assembly Government's intention to pursue the commission's recommendations with the UK Government. There was a 50-to-nil vote in favour of that. That is what I will be taking to the Chief Secretary to the Treasury tomorrow.

Jenny Randerson: Today's highly critical Wales Audit Office report about capital investment in schools refers to the lack of reliable information held by the Assembly Government about the condition and suitability of school buildings on which planning was based and the fact that there was too little evaluation of the benefits that had accrued from the new schools already built, with reference to £680 million spent on capital investment, of which a third came from the Assembly Government. Crucially, the report also says that it is clear that some local authorities were able to make improvements to their school buildings at a much faster rate by using private finance initiatives. Given the difficult financial circumstances that we now face as a result of misspending by the previous Government in London, is your Government now reconsidering its opposition to the use of PFI or public-private partnerships in order to assist capital investment?

Jane Hutt: I am glad that you referred to the Wales Audit Office's report, because the audit office draws attention in that report to the lack of investment in the 1980s and 1990s by the former Conservative Government and

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ofyn eich cwestiwn olaf?

Chris Franks: Dyma fy nghwestiwn olaf: a gytunwch fod y modd y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi newid eu meddwl ynghylch ariannu, ac wedi bradychu Cymru, yn gywilyddus?

Jane Hutt: Gobeithio y gallwn ddychwelyd at y consensws a gawsom ar 13 Hydref 2009, a'r gymeradwyaeth drawsbleidiol lawn a gafwyd yn y Siambr i fwriad Llywodraeth y Cynulliad i fynd ar drywydd argymhellion y comisiwn gyda Llywodraeth y DU. Cafwyd pleidlais 50 i ddim o blaid hynny. Dyna'r neges y byddaf yn mynd â hi at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yfory.

Jenny Randerson: Mae'r adroddiad beirniadol iawn gan Swyddfa Archwilio Cymru heddiw, ynghylch buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion, yn cyfeirio at ddiffyg gwybodaeth ddibynadwy gan Lywodraeth y Cynulliad am gyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgolion, y cafodd gwaith cynllunio ei seilio arni, a'r ffaith nad oedd digon o waith gwerthuso'n digwydd yng nghyswllt y manteision a oedd wedi dod yn sgîl yr ysgolion newydd a oedd eisoes wedi'u hadeiladu, ac yr oedd yn cyfeirio at y £680 miliwn a wariwyd ar waith buddsoddi cyfalaf, y daeth traean ohono oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad. Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod yr adroddiad yn dweud hefyd ei bod yn amlwg bod rhai awdurdodau lleol yn gallu gwneud gwelliannau i adeiladau eu hysgolion yn gynt o lawer, drwy ddefnyddio mentrau cyllid preifat. O gofio'r amgylchiadau ariannol anodd yr ydym yn eu hwynebu'n awr o ganlyniad i gamwario gan y Llywodraeth flaenorol yn Llundain, a yw eich Llywodraeth yn awr yn ailystyried ei gwrthwynebiad i ddefnyddio mentrau cyllid preifat neu bartneriaethau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i hybu gwaith buddsoddi cyfalaf?

Jane Hutt: Yr wyf yn falch ichi gyfeirio at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, oherwydd y mae'r swyddfa archwilio'n tynnu sylw yn yr adroddiad hwnnw at y diffyg buddsoddi yn yr 1980au a'r 1990au gan y

therefore by the local authorities. It is there in print for you to see. You are on dangerous ground. Are you implying, and this has come from many opposition Members today, that we should not announce £144.8 million as our continuing commitment to improving school buildings in Wales? Are you implying that? In addition, in answer to your challenge, this adds to the nearly £300 million programme that has already been announced by the Welsh Assembly Government. For me, the important point that you make is about how we fund our schools and how we fund this ambitious investment. We are funding it in partnership with Welsh local government. We are funding it under the twenty-first century schools programme, which I initiated, and now the Minister for Children, Education and Lifelong Learning is driving it forward. He can do that because I made a statement yesterday that we will not cut our capital budget.

Llywodraeth Geidwadol flaenorol, a chan awdurdodau lleol hefyd, felly. Mae ar ddu a gwyn ichi ei weld. Yr ydych ar dir peryglus. A ydych yn awgrymu, ac mae'r un peth yn wir am lawer o Aelodau'r gwrthbleidiau heddiw, na ddylem gyhoeddi bod £144.8 miliwn ar gael yn rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella adeiladau ysgolion yng Nghymru? A ydych yn awgrymu hynny? Yn ogystal, i ymateb i'ch her, mae'r swm hwnnw ar ben y rhaglen sy'n werth bron £300 miliwn, a gyhoeddwyd eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad. I mi, y pwynt pwysig a wnewch yw'r pwynt ynghylch sut yr ydym yn ariannu ein hysgolion a sut yr ydym yn ariannu'r buddsoddiad uchelgeisiol hwn. Yr ydym yn ei ariannu mewn partneriaeth â llywodraeth leol Cymru. Yr ydym yn ei ariannu o dan y rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a ddechreuais i, ac erbyn hyn mae'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ei gyrru yn ei blaen. Gall wneud hynny gan fy mod wedi gwneud datganiad ddoe a oedd yn nodi na fyddwn yn torri ein cyllideb cyfalaf.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

Blaenavon Industrial Landscape

Q1 William Graham: Will the Minister make a statement on the impact of the first 10 years of the Blaenavon industrial landscape as a UNESCO world heritage site? OAQ(3)1205(HER)

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): A recent review shows that, to the end of 2007, more than £30 million of investment was made into the protection, promotion and regeneration of the Blaenavon industrial landscape. That sustained 65 full-time equivalent jobs in tourism and an average of 100 construction jobs. Visitor numbers doubled at the main attractions.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. You will acknowledge the recent success of World Heritage Weekend, which demonstrated the continuing pride the local community has taken in the landscape's world heritage status. As you say, visitor

Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon

C1 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith 10 mlynedd cyntaf tirwedd ddiwydiannol Blaenafon fel safle treftadaeth y byd UNESCO? OAQ(3)1205(HER)

Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones): Mae adolygiad a wnaethpwyd yn ddiweddar yn dangos bod mwy na £30 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn gwarchod, hyrwyddo ac adfywio tirwedd ddiwydiannol Blaenafon, hyd at ddiwedd 2007. Bu hynny'n gyfrifol am gynnal 65 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ym maes twristiaeth a thua 100 o swyddi adeiladu. Bu i nifer yr ymwelwyr ddyblu yn y prif atyniadau.

William Graham: Diolch ichi am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn cydnabod llwyddiant Penwythnos Treftadaeth y Byd, a gynhaliwyd yn ddiweddar, a oedd yn arddangos y balchder parhaus y mae'r gymuned leol wedi'i ddangos yn statws y dirwedd fel safle

numbers have doubled within a relatively short period, and there is clear potential to develop the region further as a tourism centre. How will your Government build on the success of the world heritage site and forthcoming events, such as the National Eisteddfod at Ebbw Vale, to encourage more people to visit previously industrial areas that have changed beyond recognition over the past 25 years?

Alun Ffred Jones: We have created several innovative schemes in respect of the National Eisteddfod, including granting free admission on Sundays. In addition, as part of the EU convergence-funded heritage tourism project, Cadw is planning a £1 million-worth of improvements to the facilities and interpretation at Blaenavon Ironworks.

Lynne Neagle: Minister, a couple of weeks ago, for World Heritage Day, I attended the tenth anniversary celebrations when around 10,000 visitors crammed into Blaenavon to celebrate the great success of its world heritage site status, which has helped to transform the fortunes of the town, boosting the local economy and raising its profile to attract thousands of visitors. I understand that the world heritage site management plan has achieved everything it had hoped to achieve over the past 10 years, and that the Blaenavon partnership is in the process of reviewing the plan and introducing a new set of proposals. What assurances can you give me that the Assembly Government will continue its constructive working with the Blaenavon partnership so that the world heritage site continues to go from strength to strength over the next 10 years?

Alun Ffred Jones: You mentioned the review of the Blaenavon world heritage site management plan, and the report, which deals with the past 10 years since the site was ascribed world heritage site status and will also set the agenda for the next five years, is due for publication later this year. I have just mentioned the sum of £1 million for the improvement of the facilities by Cadw. I should also mention that Amgueddfa Cymru—National Museum Wales is

treftadaeth y byd. Fel y dywedaso, mae nifer yr ymwelwyr wedi dyblu mewn cyfnod cymharol fyr, ac mae'n amlwg bod potensial i ddatblygu'r ardal ymhellach fel canolfan dwristiaeth. Sut y bydd eich Llywodraeth yn adeiladu ar lwyddiant safle treftadaeth y byd a digwyddiadau sydd ar y gweill, megis yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynebwy, er mwyn annog rhagor o bobl i ymweld â hen ardaloedd diwydiannol sydd wedi'u gweddnewid yn llwyr yn y 25 mlynedd diwethaf?

Alun Ffred Jones: Yr ydym wedi creu nifer o gynlluniau arloesol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnwys caniatáu mynediad am ddim ar ddydd Sul. Yn ogystal, fel rhan o'r prosiect twristiaeth treftadaeth a ariennir gydag arian cydgyfeirio'r UE, mae Cadw yn cynllunio gwerth £1 filiwn o welliannau i'r cyfleusterau a'r adnoddau dehongli yng Ngwaith Haearn Blaenafon.

Lynne Neagle: Weinidog, ychydig wythnosau'n ôl, ar gyfer Diwrnod Treftadaeth y Byd, mynychais y dathliadau deng mlynedd pan ddaeth tua 10,000 o ymwelwyr i Flaenafon i ddathlu llwyddiant mawr ei statws fel safle treftadaeth y byd, sydd wedi helpu i drawsnewid y dref, gan roi hwb i'r economi leol a chodi ei phroffil gan ddenu miloedd o ymwelwyr. Deallaf fod cynllun rheoli safle treftadaeth y byd wedi cyflawni popeth yr oedd wedi gobeithio ei gyflawni dros y 10 mlynedd diwethaf, a bod partneriaeth Blaenafon wrthi'n adolygu'r cynllun ac yn cyflwyno cyfres newydd o gynigion. Pa sicrwydd y gallwch ei roi imi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio mewn ffordd adeiladol gyda phartneriaeth Blaenafon er mwyn i'r safle treftadaeth y byd barhau i fynd o nerth i nerth dros y 10 mlynedd nesaf?

Alun Ffred Jones: Soniasoch am yr adolygiad o gynllun rheoli safle treftadaeth y byd Blaenafon, a'r adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, sy'n ymdrin â'r deng mlynedd diwethaf ers i'r safle ennill statws safle treftadaeth y byd ac a fydd hefyd yn gosod yr agenda ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Yr wyf newydd grybwyll y miliwn o bunnau ar gyfer gwella'r cyfleusterau gan Cadw. Dylwn grybwyll hefyd fod Amgueddfa Cymru yn bwriadu

planning a £1 million-worth investment in Big Pit over the next five years.

Sporting Participation

Q2 Joyce Watson: Will the Minister provide an update on the levels of sporting participation in Wales? OAQ(3)1234(HER)

Alun Ffred Jones: Sport Wales administers a range of schemes and initiatives that aim to increase the levels of sporting participation in Wales. Our strategic document, 'Creating an Active Wales', contains actions that the Welsh Assembly Government and our key partners will take over the next five years to increase participation.

Joyce Watson: Thank you for that answer, Minister. I want to take this opportunity to welcome the grant of £800,000 that has been allocated to Harlech pool, securing its future, £300,000 of which came from the Welsh Assembly Government. There has been a tremendous local campaign to save the pool and prevent people from having to travel some distance to reach a pool. Will you join me in congratulating everyone involved in the campaign and express mutual delight that such a treasured local facility has been saved? Can you give assurances that this Government will continue to invest in sporting facilities where there is such an obvious need for them, as was the case in Harlech?

Alun Ffred Jones: I am happy to join you in congratulating the group on securing that funding. I met the group more than a year ago. It is projects such as this that the community asset transfer programme was designed for. I wish Harlech and Ardudwy Leisure Ltd the best of luck in making the facility a success. As for the future of leisure facilities, local authorities are facing extreme financial pressures and will have to make difficult decisions about the services and facilities they provide for their communities. It is important that local authorities now look at how best to manage those facilities to maintain a viable level of provision.

gwneud buddsoddiad gwerth £1 filiwn yn y Pwll Mawr dros y pum mlynedd nesaf.

Cyfranogi mewn Chwaraeon

C2 Joyce Watson: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefelau cyfranogi mewn chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)1234(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Chwaraeon Cymru'n gweinyddu ystod o gynlluniau a mentrau sy'n ceisio cynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru. Mae ein dogfen strategol, 'Creu Cymru Egniol', yn cynnwys camau y bydd Llywodraeth y Cynulliad a'n partneriaid allweddol yn eu cymryd yn ystod y pum mlynedd nesaf er mwyn cynyddu cyfranogiad.

Joyce Watson: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i groesawu'r grant o £800,000 a ddyrannwyd i bwll Harlech, gan sicrhau ei ddyfodol. Daeth £300,000 o'r swm hwnnw gan Lywodraeth y Cynulliad. Cafwyd ymgyrch leol fawr i achub y pwll ac arbed pobl rhag gorfod teithio cryn bellter i gyrraedd pwll arall. A wnewch ymuno â mi i longyfarch pawb a fu'n gysylltiedig â'r ymgyrch a mynegi ein boddhad bod cyfleuster lleol mor werthfawr wedi'i achub? A allwch roi sicrwydd y bydd y Llywodraeth hon yn parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon pan fydd angen mor amlwg amdanynt, fel y gwelwyd yn achos Harlech?

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn falch o ymuno â chi i longyfarch y grŵp hwn am sicrhau'r arian hwnnw. Bu imi gyfarfod â'r grŵp fwy na blwyddyn yn ôl. Ar gyfer prosiectau tebyg i hwn y bwriadwyd y rhaglen trosglwyddo asedau cymunedol. Hoffwn ddymuno pob lwc i Harlech and Ardudwy Leisure Ltd wrth wneud i'r fenter lwyddo. O ran dyfodol cyfleusterau hamdden, mae awdurdodau lleol yn wynebu pwysau ariannol aruthrol a bydd yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'r gwasanaethau a'r cyfleusterau y maent yn eu darparu i'w cymunedau. Mae'n bwysig i awdurdodau lleol edrych yn awr ar y ffordd orau o reoli'r cyfleusterau hynny er mwyn cynnal darpariaeth sy'n hyfyw.

2.20 p.m.

Andrew R.T. Davies: Participation in sport is an excellent way for people to improve their health. The message for people to participate in sport is a critical one, and so do you or your officials have formal meetings with the Minister for Health and Social Services, given that she has responsibility for public health? If so, is there any cross-financing between departments so that that message can be extended as widely as possible, encouraging participation and the promotion of sport in the community?

Alun Ffred Jones: Yes, that is done through 'Creating an Active Wales', the physical action activity plan. The group is chaired by the chief medical officer, and a meeting of the ministerial steering group was held last week. Therefore, there are regular discussions. By pooling resources, we hope to achieve our objectives of getting the population of Wales more active and, following that, more healthy, hopefully. That is the thinking behind the plan. It also has buy-in from other partners, including local authorities and other organisations, which are crucial to deliver this on the ground.

David Lloyd: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o'r ffaith bod fy Mesur arfaethedig ar yr egwyddor o ymgynghori cyn penderfynu gwerthu meysydd chwarae bellach wedi'i gadarnhau gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant, mewn pwyllgor yr wythnos diwethaf. A gytunwch fod y cam ychwanegol hwn i ddiogelu meysydd chwarae yn hanfodol i wthio'r agenda hon yn ei blaen?

Alun Ffred Jones: Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant, Dai. Soniais yn gynharach am safleoedd hamdden a phwysigrwydd ceisio cynllunio ar gyfer y dyfodol, ond yr ydym yn gwneud cam â'n hunain os credwn mai mewn canolfannau hamdden neu byllau nofio yn unig y gall pobl ymarfer yn iach. Mae cael caeau sy'n agored i'r cyhoedd, i blant ac i bobl ifanc, a llwybrau cerdded a beicio lawn mor bwysig. Dyna hanfod eich Mesur arfaethedig, a dyna pam y mae'n rhan o'r

Andrew R.T. Davies: Mae cymryd rhan mewn chwaraeon yn ffordd wych i bobl wella'u hiechyd. Mae'r neges i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon yn hollbwysig, ac felly, a fyddwch chi neu'ch swyddogion yn cael cyfarfodydd ffurfiol gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o gofio ei bod yn gyfrifol am iechyd cyhoeddus? Os felly, a oes unrhyw drefniadau ariannu ar draws adrannau er mwyn cyfleu'r neges honno i gynifer o bobl â phosibl, gan annog cyfranogiad a hybu chwaraeon yn y gymuned?

Alun Ffred Jones: Oes, mae hynny'n digwydd drwy 'Creu Cymru Egniol', y cynllun gweithredu gweithgarwch corfforol. Cadeirir y grŵp gan y prif swyddog meddygol, a chynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp llywio gweinidogol yr wythnos diwethaf. Felly, cynhelir trafodaethau rheolaidd. Drwy gyfuno adnoddau, yr ydym yn gobeithio cyflawni ein hamcanion, sef sicrhau bod poblogaeth Cymru'n fwy egniol ac, yn dilyn hynny, yn fwy iach, gobeithio. Dyna yw sail y cynllun. Mae hefyd yn cael cefnogaeth gan bartneriaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol a sefydliadau eraill, sy'n hollbwysig i weithredu'r cynllun ar lawr gwlad.

David Lloyd: Minister, you will be aware of the fact that my proposed Measure on the principle of ensuring consultation before any decision is taken to dispose of playing fields has now been confirmed by the Minister for Social Justice and Local Government, Carl Sargeant, in a committee meeting last week. Do you agree that that additional step to safeguard playing fields is crucial in driving this agenda forwards?

Alun Ffred Jones: Congratulations on your success, Dai. Earlier, I mentioned leisure sites and the importance of trying to plan for the future, but we would be doing ourselves a disservice if we thought that it was only in leisure centres and swimming pools that people could exercise healthily. Having open spaces accessible to the public, children and young people, and walking and cycling routes are just as important. That is the essence of your proposed Measure, and that is why it is

meddylfryd ehangach yr ydym yn ceisio ei hyrwyddo drwy ein cynllun.

a part of the broader thinking that we are trying to engender through our plan.

Heritage in Rural Wales

Q3 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the protection of heritage in rural Wales? OAQ(3)1204(HER)

Alun Ffred Jones: The Welsh Assembly Government is committed to protecting heritage in rural Wales by enabling people to enjoy it, by helping people to understand and appreciate it, and by supporting those who manage it. Our aspiration is to engage, manage and protect heritage in rural Wales.

Nick Bourne: I thank the Minister for that response. He will be well aware that the arts council recently made an announcement regarding funding for the arts in Wales, and that has had a massive impact in rural Wales where many organisations have had their funding withdrawn. I visited some of these, and I hope to visit more over the summer, but they include such organisations as Theatr Powys, CARAD and Theatr Harlech. Incidentally, I agree with Joyce Watson's point about the pool at Harlech. That was extremely good news, so I certainly agree with her on that.

Given the impact that these cuts are having in rural Wales and the importance of scrutiny, would the Minister facilitate the opportunity for proper scrutiny here in the autumn of the principles on which the arts council is basing its decisions? I appreciate that it is at arm's length from Government and that the Minister has no direct input, but there are guidelines and principles. I know that other Members around the Chamber have expressed the same concerns as I have about the broad principles and the cuts that rural Wales has seen in this funding round.

Alun Ffred Jones: I appreciate your concerns. Further to the places mentioned, I should say that Powys, for example, receives the highest capital allocation for the arts and

Treftadaeth yn y Gymru Wledig

C3 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod treftadaeth yn y Gymru wledig? OAQ(3)1204(HER)

Alun Ffred Jones: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i warchod treftadaeth yng nghefn gwlad Cymru drwy sicrhau bod pobl yn cael cyfle i'w mwynhau, drwy helpu pobl i'w deall a'i gwerthfawrogi, a thrwy gefnogi'r rhai sy'n ei rheoli. Ein dyhead yw rhoi sylw i dreftadaeth a'i rheoli a'i gwarchod yn y Gymru wledig.

Nick Bourne: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Bydd yn ymwybodol iawn o'r cyhoeddiad a wnaed gan gyngor y celfyddydau'n ddiweddar ynglŷn ag ariannu'r celfyddydau yng Nghymru, a bod hynny wedi cael effaith aruthrol yng Nghymru wledig lle y mae llawer o sefydliadau wedi colli eu cyllid. Bu imi ymweld â rhai o'r rhain, ac yr wyf yn gobeithio ymweld â rhagor ohonynt dros yr haf, ond maent yn cynnwys sefydliadau fel Theatr Powys, CARAD a Theatr Harlech. Gyda llaw, yr wyf yn cytuno â phwynt Joyce Watson ynglŷn â'r pwll yn Harlech. Yr oedd hynny'n newydd da iawn, ac yr wyf yn sicr yn cytuno â hi ar y mater hwnnw.

O ystyried yr effaith y mae'r toriadau hyn yn ei chael yng Nghymru wledig a phwysigrwydd craffu, a fyddai'r Gweinidog yn barod i hwyluso cyfle i gynnal gwaith craffu priodol yma yn yr hydref ar yr egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau cyngor y celfyddydau? Yr wyf yn sylweddoli ei fod yn gorff hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ac nad oes gan y Gweinidog fewnbwn uniongyrchol, ond ceir canllawiau ac egwyddorion. Gwn fod Aelodau eraill o amgylch y Siambr wedi mynegi'r un pryderon â mi ynglŷn â'r egwyddorion cyffredinol a'r toriadau y mae Cymru wledig wedi'u gweld yn y cylch ariannu hwn.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn deall eich pryderon. O ran y lleoedd a enwyd, hoffwn ddweud mai Powys, er enghraifft, sy'n cael y dyraniad cyfalaf mwyaf ar gyfer y

is the local authority area that gets the second highest share of cash funding from the Arts Council of Wales. The investment review has been ongoing for over two years. It was well trailed, and a number of documents were produced. The arts council came to the Assembly a few weeks ago to explain the rationale behind the review to Assembly Members.

You mentioned the arm's-length principle, which you endorsed in 2006 when you said that it was wrong that the arts should be guided by a Minister, and that they should be guided at arm's length by the arts council. I endorse that principle. The arts council is guided in the policies that it pursues by my annual remit letter, but I do not have any control over the individual decisions made by it. It is not above criticism, and it should certainly be open to all Members to scrutinise any decisions made by it.

Chris Franks: What discussions have you had regarding the promotion of heritage in the Vale of Glamorgan and other rural parts of South Wales Central? Secondly, Llanishen reservoir is under attack from a multinational company. What can you do with your limited legal and financial powers to protect that valuable heritage site?

Alun Ffred Jones: On the Llanishen reservoir, the dam was listed in 2009 and any alterations that affect its character will require listed building consent. It is for the local planning authority to decide whether an application for listed building consent is required. I understand that the authority has indicated that it is not seeking an application for the drain-down of water. As there is an outstanding planning application, I do not think that it would be wise for me to make any further comments.

Kirsty Williams: Minister, next year, we were hoping to see the important Rhayader jewels repatriated, at least for a short time, from the British Museum to Rhayader where

celfyddyddau ac mai hon yw'r ardal awdurdod lleol sy'n cael y gyfran uchaf ond un o arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r adolygiad o'r trefniadau buddsoddi wedi bod yn mynd rhagddo ers dwy flynedd a mwy. Yr oedd wedi cael sylw helaeth a chynhyrchwyd nifer o ddogfennau. Daeth cyngor y celfyddydau i'r Cynulliad ychydig wythnosau'n ôl i esbonio'r rhesymeg sydd wrth wraidd yr adolygiad i Aelodau'r Cynulliad.

Soniasoch am yr egwyddor hyd braich, a gymeradwywyd gennych yn 2006 pan ddywedasoch ei bod yn amhriodol i'r celfyddydau gael eu llywio gan Weinidog, ac y dylent gael eu llywio hyd braich gan gyngor y celfyddydau. Yr wyf yn cefnogi'r egwyddor honno. Mae fy llythyr cylch gwaith blynyddol yn rhoi arweiniad i gyngor y celfyddydau ynghylch y polisiau y mae'n eu dilyn, ond nid oes gennyf ddim rheolaeth dros y penderfyniadau unigol a wneir ganddo. Nid yw uwchlaw beirniadaeth, ac yn sicr dylai fod yn agored i bob Gweinidog graffu ar unrhyw benderfyniadau a wneir ganddo.

Chris Franks: Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynglŷn â hyrwyddo treftadaeth ym Mro Morgannwg a rhannau gwledig eraill o Ganol De Cymru? Yn ail, mae cronfa ddŵr Llanisien yn wynebu bygythiad gan gwmni rhyngwladol. Beth y gallwch ei wneud gyda'ch pwerau cyfreithiol ac ariannol cyfyngedig i ddiogelu'r safle treftadaeth gwerthfawr hwn?

Alun Ffred Jones: O ran cronfa ddŵr Llanisien, rhestrwyd yr argae yn 2009, a bydd angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar ei gymeriad. Yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am benderfynu a oes angen cais am ganiatâd adeilad rhestredig ai peidio. Deallaf fod yr awdurdod wedi dweud nad yw'n ceisio cais ar gyfer draenio'r dŵr. Gan nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch cais cynllunio a gyflwynwyd, nid wyf yn credu y byddai'n ddoeth imi wneud sylwadau pellach.

Kirsty Williams: Weinidog, y flwyddyn nesaf, yr ydym yn gobeithio gweld tlysau pwysig Rhaeadr Gwy yn cael eu dychwelyd, am gyfnod byr o leiaf, o'r Amgueddfa

they were found, and displayed in the Rhayader and District Museum, which you opened only last year. The future of the project to bring those important Welsh artefacts back to our nation is now under threat because of the arts council's decision to withdraw core funding from the Community Arts Rhayader and District, which runs that museum and was going to run that project. Given the decision by the arts council not to core-fund CARAD anymore because of its strength in heritage work, what help can your department give CARAD to ensure that the opportunity to repatriate those artefacts to Wales, and indeed the future of the museum in Rhayader, will not be jeopardised?

Alun Ffred Jones: I do not think that I am in a position to make a comment on the decision about CARAD, but, from my recollection of what the arts council said, the core function of CARAD was not compatible with the work that it supports and will seek to support in the future. The light will not go out overnight on any organisation, with revenue funding withdrawal starting in the next financial year, and, for some organisations, there will be scope to apply for strategic funds and lottery funds. Transitional support will also be available to help existing organisations with new business models. In those terms, I visited CARAD last year and was impressed by the enthusiasm of the local organisers. I would be more than happy to meet them in the future. However, it is obviously a matter for them to seek out the necessary revenue support to allow them to continue their work.

Mick Bates: Minister, you will be aware of the interest of my constituents in the Machynlleth area in protecting the heritage embodied by the Dyfi bridge. Following the recent closure and damage to the Dyfi bridge after a lorry crash, I was shocked to receive an article from a retired chartered accountant in my constituency who 11 years ago proposed building a bridge west of Machynlleth as the best option to improve the crossing on the Dyfi. It seems incredible that that solution has been on the table for so long

Brydeinig i Rhaeadr Gwy, lle y cawsant eu darganfod, a'u harddangos yn Amgueddfa Rhaeadr Gwy a'r Ardal, a agorwyd gennych mor ddiweddar â'r llynedd. Mae dyfodol y prosiect i ddod â'r arteffactau pwysig hyn o Gymru yn ôl i'n gwlad yn y fantol yn awr oherwydd penderfyniad cyngor y celfyddydau i dynnu arian craidd yn ôl o Gelfyddydau Cymunedol Rhaeadr Gwy a'r Ardal, sy'n rhedeg yr amgueddfa honno ac a oedd yn bwriadu cynnal y prosiect hwnnw. O ystyried y penderfyniad gan gyngor y celfyddydau i beidio â rhoi arian craidd i CARAD mwyach, oherwydd cryfder ei waith trefnadaeth, pa gymorth y gall eich adran ei roi i CARAD er mwyn sicrhau na fydd y cyfle i ddod â'r arteffactau hynny'n ôl i Gymru, ac yn wir dyfodol yr amgueddfa yn Rhaeadr Gwy yn cael eu peryglu?

Alun Ffred Jones: Ni chredaf fy mod mewn sefyllfa i roi sylw ar y penderfyniad ynglŷn â CARAD, ond, yn ôl y cof sydd gennyf am yr hyn a ddywedodd cyngor y celfyddydau, nid oedd swyddogaeth graidd CARAD yn gydnaws â'r gwaith y mae'n ei gefnogi ac y bydd yn ceisio ei gefnogi yn y dyfodol. Ni fydd y golau yn diffodd dros nos ar ddim un sefydliad, gydag arian refeniw yn dechrau cael ei dynnu'n ôl yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac, i rai sefydliadau, bydd cyfle i wneud cais am arian strategol ac arian y loteri. Bydd arian pontio ar gael hefyd i helpu sefydliadau sy'n bodoli eisoes gyda modelau busnes newydd. Yn y termau hynny, bu imi ymweld â CARAD y llynedd a chreodd brwdfrydedd y trefnwyr lleol argraff arnaf. Byddwn yn fwy na pharod i gwrdd â hwy yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai mater iddynt hwy yw cael gafael ar y cymorth refeniw angenrheidiol er mwyn eu galluogi i barhau â'u gwaith.

Mick Bates: Weinidog, gwyddoch am ddi-ddordeb fy etholwyr yn ardal Machynlleth mewn diogelu'r dreftadaeth sy'n gysylltiedig â phont Dyfi. Ar ôl i bont Dyfi gau'n ddiweddar o ganlyniad i ddifrod a wnaed iddi wedi damwain lori, cefais fy synnu o gael erthygl gan gyfrifydd siartredig sydd wedi ymddeol yn fy etholaeth a gynigiodd 11 mlynedd yn ôl mai adeiladu pont i'r gorllewin o Fachynlleth oedd yr opsiwn gorau ar gyfer croesi afon Dyfi. Mae'n anghredadwy bod ateb wedi'i gynnig ers

with so little action taken. I have asked you before and I will ask you again what action you are taking, in co-operation with the Minister responsible for transport, to provide urgent and collaborative action to improve the crossing and protect this extremely important piece of heritage in rural Wales.

Alun Ffred Jones: As broad as my responsibilities are, they do not extend to the Dyfi bridge, I am almost certain—although I love the bridge and have travelled over it many times, including last Saturday as it happens. However, I am more than happy to bring the matter to the attention of the relevant Minister. As far as I could see last Saturday, repairs were ongoing and were proceeding well.

2.30 p.m.

Gemau Olympaidd 2012

C4 Rhodri Glyn Thomas: Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith Gemau Olympaidd 2012 ar chwaraeon yng Nghymru? OAQ(3)1232(HER)

Alun Ffred Jones: Bydd y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd yn rhoi cyfle rhagorol i arddangos chwaraeon. Yr wyf yn awyddus i'r gemau godi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon yng Nghymru, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc. Po fwyaf o bobl a gaiff eu hysbrydoli gan Gemau 2012, mwyaf yn y byd fydd eu heffaith hirdymor.

Rhodri Glyn Thomas: Gan ein bod ni yng Nghymru wedi cael ein condemnio gan y Llywodraeth glymblaid yn San Steffan i doriadau llym yn y dyfodol agos, ein bod hefyd wedi cael ein condemnio i wasgfa ariannol, a bod llawer o arian a fyddai'n dod i Gymru wedi cael ei wario ar y Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012, pa drafodaethau yr ydych wedi eu cynnal gyda'r Gweinidog yn Llundain ynglŷn â'r gwaddol yn dilyn 2012? I ba raddau y bydd hynny yn dod i Gymru ac yn gwneud rhyw gymaint o iawn am y toriadau llym hyn yr ydym wedi cael ein condemnio iddynt?

Alun Ffred Jones: Fel y gwyddoch, yr amcangyfrif ar hyn o bryd yw y bydd y

cyhyd heb fawr ddim gweithredu. Yr wyf wedi gofyn ichi o'r blaen a gofynnaf ichi eto pa gamau yr ydych yn eu cymryd, mewn cydweithrediad â'r Gweinidog dros drafnidiaeth, i weithredu ar frys ac ar y cyd er mwyn gwella'r groesfan a diogelu'r darn pwysig iawn hwn o dreftadaeth yng Nghymru wledig.

Alun Ffred Jones: Er bod fy nghyfrifoldebau'n eang, yr wyf bron yn sicr nad ydynt yn cyrraedd pont Dyfi—er fy mod yn hoff iawn o'r bont ac wedi'i chroesi droeon, gan gynnwys dydd Sadwrn diwethaf, fel y mae'n digwydd. Fodd bynnag, yr wyf yn fwy na pharod i gyflwyno'r mater i sylw'r Gweinidog perthnasol. Hyd y gallwn weld ddydd Sadwrn diwethaf, yr oedd y gwaith atgyweirio'n mynd rhagddo'n dda.

The Olympic Games 2012

Q4 Rhodri Glyn Thomas: What assessment has the Minister made of the impact of the 2012 Olympics on sport in Wales? OAQ(3)1232(HER)

Alun Ffred Jones: The Olympic and Paralympic Games will provide an excellent opportunity to showcase sport. I want the games to encourage higher levels of participation in sport in Wales, particularly among children and young people. The more people the 2012 Games inspire, the greater the long-term impact of hosting them will be.

Rhodri Glyn Thomas: Given that we in Wales have been condemned by the coalition Government in Westminster to severe cuts in the near future, that we have also been condemned to a financial squeeze, and that a lot of money that would have come to Wales has been spent on the London Olympics in 2012, what discussions have you had with the Minister in London about the post-2012 legacy? To what extent will that come to Wales and compensate for the severe cuts to which we have been condemned?

Alun Ffred Jones: As you know, the current estimate is that Wales will lose some £70

gollod i Gymru yn tua £70 miliwn o'r gwahanol ffynonellau loteri. Fodd bynnag, oherwydd bod gwerthiant wedi bod yn well na'r disgwyl dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'n bosibl na fydd y swm llawn cymaint â hynny. Nid wyf wedi cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog yn Llundain hyd yn hyn, ond byddaf yn ysgrifennu ato yn fuan ynglŷn â materion yn ymwneud â'r loteri, gan fod argymhellion wedi cael eu gwneud yn ddiweddar ynglŷn â hynny.

Mae datganiad diweddar gan Faer Llundain wedi nodi y bydd gwerthu'r tiroedd sydd ynghlwm â'r Gemau Olympaidd, gan fod gwerth tir wedi codi tua 20 y cant yn y rhan honno o Lundain, yn golygu y bydd rhyw gymaint—efallai swm sylweddol—o arian yn dod yn ôl i'r loteri. Bydd Cymru yn cael ei chyfran o hynny. Go brin y bydd hynny'n gwneud iawn am y cyfan yr ydym wedi ei golli, ond, ar ôl 2013, yr wyf yn credu, bydd yr arian sy'n mynd at y Gemau Olympaidd yn dod yn ôl i'r loteri, a bydd ar gael i'w ddosbarthu.

Mohammad Asghar: As the countdown to the 2012 Olympic and Paralympic Games continues, can you outline any recent discussions that you have had to ensure that Wales promotes itself as effectively as possible to teams, competitors, sponsors and spectators in the build up to the event? The latest published information shows that the Paralympic teams of Australia, South Africa and New Zealand will be based in Wales. There are 31 training sites in Wales, four of which are in my patch in South Wales East. Are you negotiating with any other countries to encourage them to set up their training camps in our part of the world?

Alun Ffred Jones: My officials are in contact with several countries regarding training camps. We will be taking advantage of the Commonwealth Games in Delhi to meet up with other countries that have expressed an interest in this. We know that New Zealand, Australia and South Africa have decided to base their Paralympic teams here, and other countries have also expressed a keen interest. Therefore, I am confident that

million from various lottery sources. However, because sales have been better than expected over the past year, the final sum may not be that bad. I have not held discussions with the Minister in London to date, but I will write to him soon on issues relating to the lottery, given that recommendations have been made recently in that regard.

A recent statement by the Mayor of London has indicated that selling the land associated with the Olympic Games, given that land value has risen by about 20 per cent in that part of London, will mean that some money—perhaps a considerable sum—will be returned to the lottery. Wales will get its share of that. That will not compensate for all that we have lost, but, after 2013, I believe, the money currently going to the Olympics will be returned to the lottery, and will be available for distribution.

Mohammad Asghar: Wrth i Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd 2012 nesáu, a allwch amlinellu unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael yn ddiweddar i sicrhau bod Cymru'n hyrwyddo ei hun mor effeithiol â phosibl i dimau, cystadleuwyr, noddwyr a gwylwyr yn ystod y paratodau ar gyfer y digwyddiad? Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn dangos y bydd timau Paralympaidd Awstralia, De Affrica a Seland Newydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Ceir 31 o safleoedd hyfforddi yng Nghymru, gyda phedwar ohonynt yn fy ardal i yn Nwyrain De Cymru. A ydych yn cynnal trafodaethau ag unrhyw wledydd eraill i'w hannog i sefydlu eu canolfannau hyfforddi yn ein rhan ni o'r byd?

Alun Ffred Jones: Mae fy swyddogion yn trafod canolfannau hyfforddi â nifer o wledydd. Byddwn yn manteisio ar Gemau'r Gymanwlad yn Delhi er mwyn cwrdd â gwledydd eraill sydd wedi mynegi diddordeb yn hyn. Gwyddom fod Seland Newydd, Awstralia a De Affrica wedi penderfynu lleoli eu timau Paralympaidd yma, ac mae gwledydd eraill wedi mynegi diddordeb mawr hefyd. Felly, yr wyf yn hyderus y bydd

a sizeable number of athletes will be based here. That will not only bring direct economic benefit, but it will also be a huge opportunity for young people, and our own coaches, to learn from the best practices of these teams. Therefore, these are exciting times. I take your point, and I will discuss it further with my officials.

Eleanor Burnham: Gwyddom ein bod wedi colli tipyn o arian oherwydd y Gemau Olympaidd yn Llundain drwy'r loteri dros y blynyddoedd diwethaf. Nid yw hyn yn ddim byd i'w wneud â cheisio beio'r glymblaid newydd, sydd wedi bod mewn grym ers dau fis. Pa asesiad, a pha ymgynghori, yr ydych wedi ei wneud gyda phobl ifanc, i gael gwell syniad o'r hyn sy'n eu cymhell i gymryd rhan mewn chwaraeon, er mwyn inni allu elwa ar y ffaith bod pobl yn ymddiddori o weld rhywbeth mawr fel hyn yn digwydd o'u cwmpas?

Alun Ffred Jones: Mae'n rhaid inni beidio â chymryd yn ganiataol bod gweld gemau arbennig fel y Gemau Olympaidd neu unrhyw ddigwyddiad chwaraeon mawr arall yn trosi'n syth i bobl ifanc yn dechrau ymarfer a chymryd rhan mewn chwaraeon. Yr hyn yr ydym yn gobeithio a fydd yn digwydd yw y bydd y rhaglenni sydd gennym eisoes ar waith drwy Chwaraeon Cymru, fel rhaglen 5x60, Chwaraeon y Ddraig a'r cynllun nofio am ddim, o'u hymestyn i'r gymuned drwy gysylltiadau â chlybiau chwaraeon eraill, yn magu to newydd o bobl ifanc sydd â gwir ddiddordeb yn y maes hwn. Gobeithiwn y byddant yn parhau â'u diddordeb, gan ddod â manteision i'w ffordd o fyw a'u hiechyd.

Public Libraries

Q5 Alun Davies: Will the Minister provide an update on public library usage in Wales? OAQ(3)1243(HER)

Alun Ffred Jones: The most recent Welsh public library statistics issued by the Chartered Institute of Public Finance and Accountancy show an increase in visitor numbers and in the number of books issued by libraries. In 2008-09, almost 14 million people visited our libraries, representing a

nifer sylweddol o athletwyr wedi'u lleoli yma. Yn ogystal â sicrhau budd economaidd uniongyrchol bydd hefyd yn cynnig cyfle enfawr i bobl ifanc, a'n hyfforddwyr ni, ddysgu yn sgîl arferion gorau'r timau hyn. Felly, mae'n gyfnod cyffrous. Yr wyf yn derbyn eich pwynt, a byddaf yn ei drafod ymhellach â'm swyddogion.

Eleanor Burnham: We know that we have lost a lot of lottery money because of the London Olympic Games over the past few years. This has nothing to do with trying to blame the new coalition, which has been in power for two months. What assessment and what consultation have you done with young people, to get a better idea of what motivates them to participate in sport so that we can benefit from the fact that people always take great interest when they see these major events taking place around them?

Alun Ffred Jones: We should not take it for granted that seeing events such as the Olympic Games, or any other major sporting event, will immediately translate into a desire among young people to start participating in sport. What we hope will happen is that the programmes that we have in place already through Sport Wales, such as the 5x60 scheme, Dragon Sport and the free swimming scheme, will, having been extended into our communities, with links to other sports clubs, and so on, encourage a new generation of young people to take a real interest. We hope that they will then maintain their interest in sport, and that that will bring benefits for their lifestyle and health in the future.

Llyfrgelloedd Cyhoeddus

C5 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)1243(HER)

Alun Ffred Jones: Mae'r ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ynghylch y defnydd a wneir o lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru yn dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n ymweld â llyfrgelloedd a nifer y llyfrau sy'n cael eu

bigger percentage increase in visitors than in any other UK country.

Alun Davies: Thank you for that response, Minister. I think that we all welcome those figures on the increase in usage of public libraries. I am sure that you will agree that the network of public libraries across Wales is one of the great jewels of our communities. I well remember using the library in a workman's hall in Tredegar as a child, and many of us will have similar memories. We are all aware that the Liberal-Tory Government in London cares nothing for these sorts of facilities. Will you, Minister, fight hard to maintain public libraries and the investment programme that they have recently benefited from, ensuring that everyone has access to a library?

Alun Ffred Jones: Yes. So far 54 public libraries have benefited, and a further 13 projects are scheduled to be completed in 2010-11. One of those schemes is at Tredegar, which I visited last year. The Welsh Assembly Government's Libraries for Life programme is investing a record £10.5 million in library services in Wales between 2008 and 2011, and I am happy to give an assurance that we will work hard to maintain and enhance this network, which is so important to communities up and down our land.

Bethan Jenkins: Ers amser hir, mae llyfrgelloedd cyhoeddus wedi darparu llawer mwy na llyfrau yn unig. Yn ogystal â darparu adnoddau fel CDs a DVDs, maent yn ddiweddar yn darparu adnoddau cyfrifiadurol ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu fforddio cyfrifiadurol, efallai, yn eu tai eu hunain neu'r rhai sydd am ddefnyddio adnodd gwahanol. Er hyn, hyd y gwelaf fi, mae llai o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol am fuddiannau cymdeithasol ehangach llyfrgelloedd. A all y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth neu'r ystadegau diweddaraf am y defnydd o bethau eraill o fewn llyfrgelloedd,

benthyca. Yn 2008-09, ymwelodd bron 14 miliwn o bobl â'n llyfrgelloedd, sef cynnydd mwy yng nghanran yr ymwelwyr nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU.

Alun Davies: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weiniog. Credaf ein bod ni i gyd yn croesawu'r ffigurau hynny ynglŷn â'r cynnydd yn y defnydd o lyfrgelloedd cyhoeddus. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod y rhwydwaith o lyfrgelloedd cyhoeddus ar draws Cymru yn un o drysorau mawr ein cymunedau. Mae gennyf atgofion clir o ddefnyddio'r llyfrgell yn neuadd y gweithwyr yn Nhredegar pan oeddwn yn blentyn, a bydd gan lawer ohonom atgofion tebyg. Yr ydym i gyd yn ymwybodol nad yw Llywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn Llundain yn poeni dim am y mathau hyn o gyfleusterau. A wnewch chi, Weiniog, frwydro'n galed i ddiogelu llyfrgelloedd cyhoeddus a'r rhaglen fuddsoddi y maent wedi elwa ohoni'n ddiweddar, gan sicrhau bod gan bawb fynediad i lyfrgell?

Alun Ffred Jones: Gwnaf. Hyd yma mae 54 o lyfrgelloedd cyhoeddus wedi elwa, a disgwylir i 13 o brosiectau eraill gael eu cwblhau yn 2010-11. Mae un o'r cynlluniau hynny yn Nhredegar, ac ymwelais â'r cynllun hwnnw y llynedd. Mae rhaglen Llyfrgelloedd am Oes Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi £10.5 miliwn mewn gwasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru rhwng 2008 a 2011, sef y swm uchaf erioed, ac yr wyf yn fodlon rhoi sicrwydd y byddwn yn gweithio'n galed i gynnal a gwella'r rhwydwaith hwn, sydd mor bwysig i gymunedau ledled y wlad.

Bethan Jenkins: For a long time, public libraries have provided more than just books. As well as resources such as CDs and DVDs, in recent years they have provided computer equipment for people who perhaps cannot afford to have computers at home, or who want to use different resources. Despite this, there seems to be less information available to the public about the wider social benefits of libraries. Can the Minister give us the latest information or statistics on the use of other facilities within libraries, not just books?

nid llyfrau yn unig?

Alun Ffred Jones: Mae gwybodaeth ar gael, a gallaf gyfleu rhywfaint ohoni i chi yn ysgrifenedig. Mae'r ystadegau yn dangos, er enghraifft, fod 1 miliwn o eitemau gweledol a chlywedol wedi'u benthyca o lyfrgelloedd cyhoeddus a'u bod wedi delio â 2 filiwn o ymholiadau. Yr oedd hefyd 2,776 o gyfrifiaduron gyda mynediad at y we fyd-eang ar gael yn llyfrgelloedd Cymru, a ddefnyddiwyd am 1.6 miliwn o oriau yn ystod 2008-09. Nid wyf yn siŵr beth yw ystyr hynny, ond gallwch dderbyn bod cryn ddefnydd o'r cyfrifiaduron hynny. Fel y nodwyd gennych, mae llyfrgelloedd yn ganolfannau pwysig i'r gymuned, yn enwedig i deuluoedd nad oes ganddynt adnoddau yn y cartref. Dyna pam y mae'r rhaglen fuddsoddi hon mor bwysig mewn cymunedau ledled Cymru.

2.40 p.m.

Jenny Randerson: Minister, the improvement in libraries throughout Wales has come about largely as a result of the library standards, which have ensured that all local authorities have had to up their game in this regard. Will you join me in congratulating the administration at Cardiff Council for the steps that it has taken to increase the opening hours of libraries and to refurbish buildings, and on the new Cardiff Central Library, which is a fine example of a very ecologically sound building? The refurbishment of Cathays Library in my constituency gives me particular pleasure. The Labour Party, when it was in power in Cardiff, had planned to close it. It is a Carnegie library, and it now looks beautiful. Would you be prepared to visit it to see what can be done with these old buildings to make them fit for the twenty-first century?

Alun Ffred Jones: I am always happy to visit Cathays, of course, and every other part of the city. If my timetable allows it, I am more than happy to go there. I have visited a number of libraries, and the work that has been ongoing in Cardiff is to be applauded. I am happy to do that, and to congratulate all

Alun Ffred Jones: Information is available, and I can pass some of that on to you in written form. The statistics show, for example, that 1 million audio-visual items have been borrowed from public libraries, which have dealt with 2 million enquiries. There were also 2,736 computers with access to the world wide web available in Welsh libraries, which were used for 1.6 million hours in 2008-09. I do not know what that means, but you can take it that there has been a great deal of use of these computers. As you noted, libraries are important community centres, especially for families that do not have that equipment in the home. That is why this investment programme is so important in communities across Wales.

Jenny Randerson: Weinidog, mae'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud i lyfrgelloedd ledled Cymru wedi'u gwneud yn benaf o ganlyniad i safonau'r llyfrgelloedd, sydd wedi sicrhau bod pob awdurdod lleol wedi gorfod gwella'u perfformiad yn y maes hwn. A wnewch ymuno â mi i longyfarch y weinyddiaeth yng Nghyngor Caerdydd am y camau y mae wedi'u cymryd i gynyddu oriau agor llyfrgelloedd ac adnewyddu adeiladau, ac ar Lyfrgell Ganolog newydd Caerdydd, sy'n enghraifft wych o adeilad sy'n cydymffurfio ag arferion da ecolegol? Mae'r gwaith adnewyddu ar Lyfrgell Cathays yn fy etholaeth yn rhoi pleser arbennig imi. Yr oedd y Blaid Lafur, pan oedd mewn grym yng Nghaerdydd, wedi bwriadu ei chau. Mae'n llyfrgell Carnegie, ac mae'n edrych yn hardd iawn yn awr. A fydddech yn barod i ymweld â'r llyfrgell hon i weld beth y gellir ei wneud gyda'r hen adeiladau hyn er mwyn eu gwneud yn addas i'r unfed ganrif ar hugain?

Alun Ffred Jones: Yr wyf bob amser yn fodlon ymweld â Cathays, wrth gwrs, ac â phob rhan arall o'r ddinas. Os bydd fy amserlen yn caniatáu, yr wyf yn fwy na pharod i fynd yno. Yr wyf wedi ymweld â nifer o lyfrgelloedd ac mae'n rhaid cymeradwyo'r gwaith sydd wedi bod yn

the other schemes that are happening all over Wales. Libraries are important community resources, and the fact they are now being made much more welcoming is a step in the right direction.

Tourism

Q6 Sandy Mewies: Will the Minister make a statement on the support that the Welsh Assembly Government gives to tourism in Delyn? OAQ(3)1246(HER)

Alun Ffred Jones: Tourism in Delyn is supported by Tourism Partnership North Wales, which receives the highest level of funding support of any of the four regions—over £900,000 in 2010-11. The partnership is taking forward an action plan for north-east Wales as part of its wider tourism strategy for north Wales.

Sandy Mewies: I know that you are aware that tourism contributes £176 million to the economy of Flintshire, and recent surveys of visitors have shown that 70 per cent come to visit the spectacular coastline, while others come to see the excellent inland facilities. Would you agree that Flintshire, along with the other areas of north Wales, is an excellent place to visit for a holiday? Will the Welsh Assembly Government continue to ensure that all organisations, including Visit Wales, work in close partnership with Flintshire Tourism Association and Flintshire County Council to maximise tourism opportunities?

Alun Ffred Jones: Yes. I visited the Gladstone memorial library in Flintshire recently, although I am not sure whether it is in your constituency—I see that it is not, although it is fairly close. I then went on to Mold to see the organisers of the excellent food festival there. I will also be in north-east Wales tomorrow, where Visit Wales is currently looking at opportunities to further develop tourism following the designation of the Pontcysyllte aqueduct and canal as a UNESCO world heritage site. An action plan

mynd rhagddo yng Nghaerdydd. Yr wyf yn fodlon gwneud hynny, ac yn fodlon llongyfarch pob cynllun arall sy'n digwydd ledled Cymru. Mae llyfrgelloedd yn adnoddau cymunedol pwysig, ac mae'r ffaith bod camau'n cael eu cymryd i'w gwneud yn fwy croesawgar o lawer yn gam i'r cyfeiriad cywir.

Twristiaeth

C6 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer twristiaeth yn Nelyn? OAQ(3)1246(HER)

Alun Ffred Jones: Mae twristiaeth yn Nelyn yn cael ei chefnogi gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, sy'n cael y lefel uchaf o gymorth ariannol o blith y pedwar rhanbarth—dros £900,000 yn 2010-11. Mae'r bartneriaeth yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y gogledd-ddwyrain fel rhan o'i strategaeth dwristiaeth ehangach ar gyfer y gogledd.

Sandy Mewies: Gwn eich bod yn ymwybodol bod twristiaeth yn cyfrannu £176 miliwn i economi sir y Fflint, ac mae arolygon diweddar o ymwelwyr wedi dangos bod 70 y cant yn dod i ymweld â'r arfordir trawiadol, tra bydd eraill yn dod i weld y cyfleusterau mewndirol gwych. A fydddech yn cytuno bod sir y Fflint, ynghyd ag ardaloedd eraill yn y gogledd, yn lleoedd gwych i ymweld â hwy am wyliau? A fydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i sicrhau bod yr holl sefydliadau, gan gynnwys Croeso Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth agos â Chymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ym maes twristiaeth?

Alun Ffred Jones: Bydd. Ymwelais â llyfrgell goffa Gladstone yn sir y Fflint yn ddiweddar, er nad wyf yn siŵr a yw yn eich etholaeth chi—gwelaf nad yw, er ei bod yn eithaf agos. Yna, ymwelais â'r Wyddgrug i weld trefnwyr yr ŵyl fwyd wych yno. Byddaf yn y gogledd-ddwyrain yfory hefyd, lle y mae Croeso Cymru wrthi'n chwilio am gyfleoedd i ddatblygu twristiaeth ymhellach ar ôl i draphont ddŵr a chamlas Pontcysyllte gael eu dynodi'n safle treftadaeth y byd UNESCO. Mae cynllun gweithredu'n cael ei

is being developed to take that forward, which involves local authorities, and I will chair the first meeting of the steering group tomorrow. Although it does not have a direct impact on Flintshire, we should see the north east as a package, and we use Pontcysyllte, Clwyd Theatr Cymru and other important sites as linchpins in selling that area to tourists.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog. Minister, despite the deeply worrying picture of the state of tourism in north Wales that was painted by the findings of the latest visitor survey, it is welcome news that the Tourism Partnership North Wales is focusing support on business tourism in the region. What confidence do you have that the Assembly Government's current strategies are fit for the purpose of attracting non-leisure, higher-value and overseas tourism to north Wales, and that they are flexible enough to cope with the changing picture of tourist activity while the economy recovers and exchange rates are fluctuating?

Alun Ffred Jones: I would disagree with the comment that the figures for north Wales are disappointing. Many of the figures are very encouraging in light of what happened last year. In terms of what is happening on the economic front, you know that the Deputy First Minister made a statement last week, and that tourism grants will now revert to Visit Wales. However, for any large-scale development—and what you have in mind may fall into that category—the resources of the Department for Economy and Transport will still be available, should the schemes deliver the outcomes.

Physical Activity

Q7 Mohammad Asghar: Will the Minister make a statement on the promotion of physical activity in Wales? OAQ(3)1249(HER)

Alun Ffred Jones: In January, we launched 'Creating an Active Wales', which details actions that the Welsh Assembly Government and other partners will take to promote

baratoi er mwyn datblygu hynny, a hynny'n cynnwys awdurdodau lleol, a byddaf yn cadeirio cyfarfod cyntaf y grŵp llywio yfory. Er nad yw'n cael effaith uniongyrchol ar sir y Fflint, dylem ystyried y gogledd-ddwyrain fel pecyn, a defnyddio Pontcysyllte, Clwyd Theatr Cymru a safleoedd pwysig eraill fel arfau ar gyfer gwerthu'r ardal honno i dwristiaid.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog. Weinidog, er gwaetha'r darlun gwael iawn o gyflwr twristiaeth yn y gogledd a gafwyd yng nghanfyddiadau'r arolwg diweddaraf o ymwelwyr, mae'r newydd bod Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru'n canolbwyntio cymorth ar dwristiaeth busnes yn y rhanbarth i'w groesawu. Pa mor hyderus yr ydych fod strategaethau presennol Llywodraeth y Cynulliad yn addas ar gyfer denu twristiaid nad ydynt yn ymweld at ddibenion hamdden, twristiaid gwerth uwch a thwristiaid tramor i'r gogledd, a'u bod yn ddigon hyblyg i ymdopi â'r sefyllfa o ran gweithgarwch ym maes twristiaeth—a honno'n sefyllfa sy'n newid—wrth i'r economi wella ac wrth i gyfraddau cyfnewid amrywio?

Alun Ffred Jones: Byddwn yn anghytuno â'ch sylw bod y ffigurau ar gyfer y gogledd yn siomedig. Mae llawer o'r ffigurau yn galonogol iawn o ystyried yr hyn a ddigwyddodd y llynedd. O ran yr hyn sy'n digwydd yn economaidd, gwyddoch i'r Dirprwy Brif Weinidog wneud datganiad yr wythnos diwethaf, ac y bydd grantiau twristiaeth yn dychwelyd i Croeso Cymru yn awr. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw ddatblygiad mawr—ac efallai fod yr hyn sydd gennych dan sylw yn y categori hwnnw—bydd adnoddau Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ar gael o hyd, os bydd y cynlluniau'n esgor ar y canlyniadau.

Gweithgarwch Gorfforol

C7 Mohammad Asghar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo gweithgarwch corfforol yng Nghymru? OAQ(3)1249(HER)

Alun Ffred Jones: Ym mis Ionawr, bu inni lansio 'Creu Cymru Egniol', sy'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid eraill yn eu cymryd i hybu

physical activity in Wales. To support this, in March, I launched Change4Life, a social marketing campaign aimed at getting families to move more, eat better and live longer.

Mohammad Asghar: Thank you for that answer, Minister. Research suggests that maintaining an active lifestyle beyond the age of 50 can have significant health benefits, greatly reducing the risk of numerous chronic diseases. Could you outline what steps you and your officials are taking to promote the importance of physical activity to older people across Wales? Also, how would you respond to concerns put forward by Age Cymru suggesting that the Welsh Assembly Government lacks strategic direction in the way that it promotes the importance of physical activity to older people?

Alun Ffred Jones: I would certainly agree that keeping active over the age of 50 is important for us all. I was very pleased to see you out on the cricket field last week, moving gently across the green, which was a good sign. 'Creating an Active Wales' focuses on ensuring that we build physical activity into our daily lives. As I said, that is about much more than taking part in sporting activity. We are working with key partners, nationally and locally, to implement the plan, and we are supporting several programmes to promote good health through physical activity, including the national exercise referral scheme, Let's Walk Cymru, free swimming and the 5x60 programme.

Jeff Cuthbert: Minister, from 20 September to 24 September, the sixth national healthy living week will be held across Wales, with an event here in the Senedd on 22 September. Will you join me in urging all Assembly Members to encourage activities in their constituencies and regions, so that the benefits of healthy living, including the taking of moderate physical exercise, can be understood widely?

gweithgarwch corfforol yng Nghymru. I gefnogi hyn, ym mis Mawrth, bu imi lansio Newid am Oes, ymgyrch marchnata cymdeithasol sy'n ceisio annog teuluoedd i symud mwy, bwyta'n well a byw'n hwy.

Mohammad Asghar: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae ymchwil yn awgrymu y gall cynnal ffordd egniol o fyw wedi ichi groesi'r hanner cant arwain at fanteision sylweddol o ran iechyd, gan leihau'n sylweddol y perygl ichi gael nifer o glefydau cronig. A allech amlinellu pa gamau yr ydych chi a'ch swyddogion yn eu cymryd i hybu pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ymysg pobl hŷn ledled Cymru? Hefyd, sut y byddech yn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan Age Cymru sy'n awgrymu nad oes cyfeiriad strategol i'r modd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn hybu pwysigrwydd gweithgarwch corfforol ymysg pobl hŷn?

Alun Ffred Jones: Byddwn yn sicr yn cytuno â chi fod parhau i fod yn egniol ar ôl ichi groesi'r hanner cant yn bwysig i bob un ohonom. Yr oeddwn yn falch iawn o'ch gweld ar y cae criced yr wythnos diwethaf, yn symud yn osgeiddig ar draws y cae, ac yr oedd hynny'n arwydd da. Mae 'Creu Cymru Egniol' yn canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn ymgorffori gweithgarwch corfforol yn ein bywydau bob dydd. Fel y dywedais, mae hynny'n golygu llawer mwy na chymryd rhan mewn gweithgarwch chwaraeon. Yr ydym yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn gweithredu'r cynllun, ac yr ydym yn cefnogi nifer o raglenni i hybu iechyd da drwy weithgarwch corfforol, gan gynnwys y cynllun cenedlaethol i atgyfeirio cleifion at ddarpariaeth ymarfer corff, Dewch i Gerdded Cymru, nofio am ddim a'r rhaglen 5x60.

Jeff Cuthbert: Weinidog, o 20 Medi hyd 24 Medi, cynhelir y chweched wythnos genedlaethol byw'n iach ledled Cymru, gyda digwyddiad yn cael ei gynnal yma yn y Senedd ar 22 Medi. A wnewch ymuno â mi i bwysu ar holl Aelodau'r Cynulliad i annog gweithgareddau yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau, er mwyn i'r boblogaeth yn gyffredinol ddeall manteision byw'n iach, gan gynnwys cymryd rhan mewn ymarfer corff cymedrol?

Alun Ffred Jones: Indeed. Any and every opportunity must be taken to promote this widely. Assembly Members should be part of that promotion and should use their influence locally to promote such activities.

Leanne Wood: Ambitious plans have been proposed by our party colleague and Sustrans board member Dr Dafydd Trystan to reopen some of the abandoned railway tunnels that criss-cross the south Wales valleys. That would not only help to unite communities, but would also promote carbon-free travel and healthier lifestyles through increased walking and cycling. Is there any possibility that the Welsh Assembly Government could fund a feasibility study with a view to supporting Sustrans in its bid to open some of the many disused railway tunnels in the south Wales valleys?

Alun Ffred Jones: That is an interesting proposal. As you know, there have been interesting developments in walking and cycling. The latest stretch of the path between Denbighshire and Conwy has recently been opened to allow better access for walkers, cyclists and wheelchair users. There is also the Wales coastal path, which will stretch around the coastline from Flintshire to Monmouthshire. The proposal that Sustrans has made is worthy of consideration. I am more than happy to promote it among my colleagues in the transport department.

Irene James: Minister, Cwmcarn Gymnastics Club in my constituency encourages people of all ages and abilities to take part in gymnastics. It recently provided 10 members of the Welsh team that took part in the Celtic tri-nations competition. Will you join me in congratulating the club on its achievements this year?

2.50 p.m.

Alun Ffred Jones: I am happy to congratulate Cwmcarn Gymnastic Club on its success, and I wish it every success in the future, not only in sporting events but also in getting more people involved in that healthy

Alun Ffred Jones: Yn wir. Mae'n rhaid manteisio ar unrhyw gyfle a phob cyfle i hyrwyddo hyn yn eang. Dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn rhan o'r broses honno a dylent ddefnyddio'u dylanwad yn lleol i hyrwyddo gweithgareddau o'r fath.

Leanne Wood: Mae cynlluniau uchelgeisiol wedi'u cyflwyno gan ein cyd-aelod ym Mhlaid Cymru, Dr Dafydd Trystan, sy'n aelod o fwrdd Sustrans, i ailagor rhai o'r hen dwnelau rheilffordd sy'n croesi cymoedd y de. Byddai hynny nid yn unig yn helpu i uno cymunedau, ond hefyd yn hybu dull digarbon o deithio a ffyrdd iachach o fyw drwy annog mwy o bobl i gerdded a beicio. A oes unrhyw bosibilrwydd y gallai Llywodraeth y Cynulliad ariannu astudiaeth ddichonoldeb gyda'r bwriad o gefnogi Sustrans yn ei ymgais i agor rhai o'r twnelau rheilffordd niferus nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach yng nghymoedd y de?

Alun Ffred Jones: Mae hynny'n gynnig diddorol. Fel y gwyddoch, cafwyd datblygiadau diddorol ym maes cerdded a beicio. Mae rhan ddiweddaraf y llwybr rhwng sir Ddinbych a Chonwy wedi'i hagog yn ddiweddar er mwyn caniatáu mynediad gwell i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn. Ceir llwybr arfordir Cymru hefyd, a fydd yn ymestyn ar hyd yr arfordir o sir y Fflint i sir Fynwy. Mae'r cynnig a gyflwynwyd gan Sustrans yn werth ei ystyried. Yr wyf yn fwy na pharod i'w hybu ymysg fy nghydweithwyr yn yr adran drafnidiaeth.

Irene James: Weinidog, mae Clwb Gymnasteg Cwm-carn yn fy etholaeth yn annog pobl o bob oedran a gallu i gymryd rhan mewn gymnasteg. Yr oedd 10 aelod o dîm Cymru a gymerodd ran yng nghystadleuaeth y tair gwlad Geltaidd yn ddiweddar yn dod o'r clwb hwn. A wnewch ymuno â mi i longyfarch y clwb ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni eleni?

Alun Ffred Jones: Mae'n bleser gennyf longyfarch Clwb Gymnasteg Cwm-carn ar ei lwyddiant, a hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'r clwb yn y dyfodol, nid yn unig mewn digwyddiadau chwaraeon ond hefyd wrth

activity.

Brian Gibbons: Members in my party are also interested in developing the tunnels that are part of the industrial heritage of south Wales. I was pleased to hear your answer on that, because I am trying to arrange a meeting with Communities First partnerships—key organisations in regenerating our communities—from the Rhondda Valley, the Afan Valley and the Llynfi Valley coming together to explore with Sustrans the potential of these tunnels. I was pleased to hear your positive response to Leanne Wood's question, and I feel disposed towards taking you up on it in view of the close proximity of our meeting.

Alun Ffred Jones: Such enthusiasm makes me doubt my commitment here. [*Laughter.*] You mentioned Communities First partnerships, and they are the key here, because there are huge opportunities and benefits here. For all sorts of reasons, partly geographical, and partly economic and social, certain sections of the community do not take enough physical exercise, and there are obvious barriers to that, including opportunities. If these tunnels can be reopened and used, that would obviously be beneficial. There are examples that I know of in north Wales where old tunnels have been reopened, although there are practical difficulties and costs involved to ensure safety.

annog rhagor o bobl i gymryd rhan yn y gweithgaredd iach hwnnw.

Brian Gibbons: Mae aelodau yn fy mhlaidd innau wedi mynegi diddordeb yn y posibilrwydd o ddatblygu'r twnelau sy'n rhan o dreftadaeth ddiwydiannol y de. Yr oeddwn yn falch o glywed eich ateb ynghylch hynny, oherwydd yr wyf yn ceisio trefnu cyfarfod â phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf—sefydliadau allweddol o safbwynt adfywio ein cymunedau—o Gwm Rhondda, Cwm Afan a Chwm Llynfi i ddod ynghyd i drafod potensial y twnelau hyn gyda Sustrans. Yr oeddwn yn falch o glywed eich ymateb cadarnhaol i gwestiwn Leanne Wood, ac yr wyf yn barod i dderbyn y cynnig o ystyried mor agos yw ein cyfarfod.

Alun Ffred Jones: Mae brwdfrydedd o'r fath yn gwneud imi amau fy ymrwymiad yma. [*Chwerthin.*] Soniasoch am bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, ac maent yn hollbwysig yn hyn, oherwydd ceir cyfleoedd a manteision enfawr yma. Nid yw rhai rhannau o'r gymuned yn gwneud digon o ymarfer corff am bob math o resymau, rhai daearyddol, a rhai economaidd a chymdeithasol, a cheir rhwystrau amlwg i hynny, gan gynnwys y cyfleoedd sydd ar gael. Os yw'n bosibl ailagor y twnelau hyn a'u defnyddio, byddai hynny'n amlwg yn fuddiol iawn. Gwn am rai enghreifftiau yn y gogledd lle y mae twnelau wedi'u hailagor, er bod anawsterau ymarferol a chostau o ran sicrhau diogelwch.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Difa Moch Daear Badger Cull

The Deputy Presiding Officer: I have accepted an urgent question under Standing Order No. 7.56.

Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the implications of the decision of the Court of Appeal relating to the proposed badger cull? EAQ(3)1146(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 7.56.

Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau penderfyniad y Llys Apêl mewn perthynas â'r rhaglen arfaethedig i ddifa moch daear? EAQ(3)1146(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin

Jones): I am disappointed with this judgment, particularly as the court recognises the serious impact that bovine TB is having in Wales and the need to tackle the disease. We will need to consider the judges' decision in detail before deciding on our next steps. However, it is clear that if we do not tackle all sources of infection, we will not eradicate bovine TB. I remain committed to its eradication, which is a 'One Wales' commitment.

Nick Bourne: I am grateful to the Minister for that response, and I know that she was keen for this matter to come up in Plenary today, because we discussed it yesterday. We are not unconscious of the pressure that you must have been under personally for some time, and we very much regret that pressure, which has been considerable. Regardless of what view Members or others take, I am sure that that will be a widespread view. Following the brief answer that the Minister gave, I wish to ask whether there is any intention to appeal the judgment, because that has not been made clear. If there is no intention to appeal the judgment, presumably the points of law that were made by the Court of Appeal—one point was unanimous and two points were decided by a majority—are accepted by the Minister, in particular the unanimous point that the Order should have been limited to the north Pembrokeshire target zone, and done on a regional basis, rather than applying to the whole of Wales. Has that been accepted, or is there an intention to appeal to the Supreme Court on that particular point?

Further to that, if no appeal is forthcoming, was the Order framed on external legal advice, and, if so, is there any comeback against the lawyers for giving the wrong advice, or is there a possibility of reducing the bill, or both? If the legal advice was internal, there are different considerations, clearly. I am sure that Members would agree that those are important points.

I appreciate that it is early days since the judgment, although the Minister and the

Jones): Yr wyf yn siomedig gyda'r dyfarniad hwn, yn enwedig gan fod y llys yn cydnabod yr effaith ddifrifol y mae TB gwartheg yn ei chael yng Nghymru, a'r angen i fynd i'r afael â'r clefyd. Bydd angen inni ystyried penderfyniad y barnwyr yn fanwl cyn penderfynu ar ein camau nesaf. Fodd bynnag, mae'n amlwg na fydd modd inni ddileu TB gwartheg os nad awn i'r afael â phob un o ffynonellau'r haint. Yr wyf wedi ymrwymo o hyd i ddileu TB, ac mae gwneud hynny'n un o ymrwymadau 'Cymru'n Un'.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw, a gwn ei bod yn awyddus i'r mater hwn gael ei godi yn y Cyfarfod Llawn heddiw, oherwydd fe'i trafodwyd gennym ddoe. Yr ydym yn ymwybodol o'r pwysau a fu arnoch yn bersonol, mae'n rhaid, ers cryn dipyn o amser, ac yr ydym yn gresynu'n fawr iawn at y pwysau hwnnw, a fu'n aruthrol. Ni waeth beth fo safbwynt yr Aelodau na phobl eraill, yr wyf yn siŵr y byddai pawb yn cytuno â'r farn honno. Yn dilyn ateb cryno'r Gweinidog, hoffwn ofyn a fwriedir apelio yn erbyn y dyfarniad, oherwydd ni chafodd hynny ei egluro. Os na fwriedir apelio yn erbyn y dyfarniad, tybir y caiff y pwyntiau cyfreithiol a wnaed gan y Llys Apêl—cafwyd barn unfrydol ynghylch un pwynt, a daethpwyd i benderfyniad ynghylch dau bwynt drwy fwyafrif—eu derbyn gan y Gweinidog, yn enwedig y pwynt y cafwyd barn unfrydol yn ei gylch, sef y dylai'r Gorchymyn fod wedi'i gyfyngu i'r parth targed, sef gogledd sir Benfro, ac y dylai fod wedi'i gyflwyno'n rhanbarthol, yn hytrach na bod yn berthnasol i Gymru gyfan. A yw hynny wedi cael ei dderbyn, neu a fwriedir apelio i'r Goruchaf Lys ynghylch y pwynt penodol hwnnw?

Yn ogystal, os na fwriedir apelio, a luniwyd y Gorchymyn ar sail cyngor cyfreithiol allanol, ac os felly, a oes modd beio cyfreithwyr am roi'r cyngor anghywir, ynteu a oes modd lleihau'r bil, neu wneud y ddau beth? Os cyngor cyfreithiol mewnol a gafwyd, ceir ystyriaethau gwahanol, mae'n amlwg. Yr wyf yn siŵr y byddai'r Aelodau'n cytuno bod y pwyntiau hynny'n bwysig

Yr wyf yn sylweddoli nad oes llawer o amser wedi mynd heibio ers y dyfarniad, er bod y

Government must have appreciated that the case might have gone against the Government, but is it your intention to return with a fresh Order? If so, presumably that will be at the tail-end of the summer or in the autumn at the earliest. We need some certainty, not least for the farming community, and for the people of north Pembrokeshire and for the whole of Wales, on what the Government's intention on this matter is, given that a lot of money has been spent on this already, some of it abortively on legal costs. Lastly, do we have any idea of how much money has been spent abortively on legal costs and other matters and so has been lost to the Government? As I said, we are not making a personal criticism of the Minister, but, clearly, an error was made on the legal position, particularly if the judgment is not being appealed against. I hope that the Minister will be able to deal with those points.

Elin Jones: Thank you for the questions. I want to make it clear that the legal advice available to me in making the Order indicated that an all-Wales Order was appropriate. Since I have now conceded to the Court of Appeal the grounds that were raised during the appeal hearing that the Order should not have been an all-Wales Order and should have been specific to a hot spot, my ability to challenge and appeal the decision is limited. In fact, the advice that I have been given is that it is not open to appeal. I can confirm to you that the legal advice available to me in making the Order was internal legal advice. It is important to stress again that the Order was subject to scrutiny by the Assembly and a vote in the Assembly. The fact that the Order was an all-Wales Order was not raised in the initial judicial review hearing, nor was it raised by the Badger Trust as one of its grounds for appeal, but it was raised by the Court of Appeal judges. I took the decision to make an all-Wales Order based on my commitment to eradicate the disease throughout Wales and to give the Assembly Government and I the powers to cull or vaccinate wildlife in any part of Wales.

Gweinidog a'r Llywodraeth, mae'n rhaid, wedi sylweddoli y gallai'r achos fynd yn erbyn y Llywodraeth, ond ai eich bwriad yw dychwelyd gyda Gorchymyn newydd? Os felly, tybir y bydd hynny'n digwydd ddiwedd yr haf neu yn yr hydref, a dim cynt. Mae angen inni gael rhywfaint o sicrwydd, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n ffermio, ac ar gyfer pobl gogledd sir Benfro a Chymru gyfan, ynghylch bwriad y Llywodraeth ynglŷn â'r mater hwn, o ystyried bod llawer o arian wedi'i wario arno eisoes, a rhywfaint ohono'n ofer ar gostau cyfreithiol. I gloi, a oes gennym syniad faint o arian a wariwyd yn ofer ar gostau cyfreithiol a materion eraill, a faint o arian a gollwyd, felly, i'r Llywodraeth? Fel y dywedais, nid ydym yn beirniadu'r Gweinidog yn bersonol, ond mae'n amlwg i gamgymeriad gael ei wneud o ran y sefyllfa gyfreithiol, yn enwedig os nad ydym yn bwriadu apelio yn erbyn y dyfarniad. Gobeithio y gall y Gweinidog ymdrin â'r pwyntiau hynny.

Elin Jones: Diolch am y cwestiynau. Hoffwn ddatgan yn glir fod y cyngor cyfreithiol a oedd ar gael imi wrth lunio'r Gorchymyn yn nodi bod Gorchymyn ar gyfer Cymru gyfan yn briodol. Gan imi ildio i'r Llys Apêl ynghylch y pwyntiau a godwyd yn ystod gwrandawriad yr apêl, sef na ddylai'r Gorchymyn fod wedi bod yn Orchymyn ar gyfer Cymru gyfan ac y dylai fod wedi'i gyfyngu i ardal lle y ceir llawer o achosion o TB, mae fy ngallu i herio'r penderfyniad ac apelio yn ei erbyn yn gyfyngedig. Mewn gwirionedd, y cyngor yr wyf wedi'i gael yw nad oes modd apelio yn erbyn y penderfyniad. Gallaf gadarnhau mai cyngor cyfreithiol mewnol oedd y cyngor cyfreithiol a oedd ar gael imi wrth lunio'r Gorchymyn. Mae'n bwysig pwysleisio eto i'r Gorchymyn fod yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad a phleidlais yn y Cynulliad. Ni chafodd y ffaith mai Gorchymyn ar gyfer Cymru gyfan oedd y Gorchymyn ei chodi yng ngwrandawriad cychwynnol yr adolygiad barnwrol, ac ni chafodd ei chodi ychwaith gan yr Ymddiriedolaeth Moch Daear fel un o'i rhesymau dros apelio, ond fe'i codwyd gan farnwyr y Llys Apêl. Penderfynais lunio Gorchymyn ar gyfer Cymru gyfan ar sail fy ymrwymiad i ddileu'r clefyd ledled Cymru, a rhoi'r pwerau i Lywodraeth y Cynulliad a minnau ddifa neu frechu bywyd gwyllt ym

mhob rhan o Gymru.

As the Order has now been quashed, I do not have the power to cull or vaccinate badgers in any part of Wales. I understand the desire of the farming community and others to have certainty as to my intentions for the future, but I am not able to give them that certainty this afternoon. I have to give consideration to the judgment and its content before I take any decision on the next steps that are available to me and I will have to give my officials and lawyers time to provide me with advice on the options now available to me. The matter of legal costs is still under discussion with the court.

Lorraine Barrett: I will not rehearse the issues, as they have been rehearsed many times here, but, as someone who voted against your Order, I am sure that you will understand that I welcome the decision by the Law Lords. Many of us were surprised at the decision and the depth at which they looked at this issue. Apart from the zone that you had designated, the two issues that they raised were with regard to whether there would be a substantial reduction in bovine TB and the balance of concern for badgers and nature against the projected benefits that you saw from the cull.

3.00 p.m.

Leaving that aside—because those issues are being dealt with and you have just been discussing that—will you send a strong message to anyone who thinks that they can go out and just start shooting badgers? I lost count yesterday of the number of times I heard comments about that. Some comments were made flippantly, and some were made in the media, therefore people may have been stirring things up, saying ‘You’ll have all the farmers out there now, shooting badgers’. Can you send a message, as the Minister, that, apart from being cruel, it is illegal, and we do not want to start going down that road?

Elin Jones: My message remains the same as it has always been, which is that it is unlawful to kill a badger, and it remains so. I

Gan fod y Gorchymyn wedi ei ddirymu erbyn hyn, nid oes gennyf y pŵer i ddifa na brechu moch daear yn unman yng Nghymru. Yr wyf yn deall awydd y rhai sy’n ffermio, a phobl eraill, i gael sicrwydd ynghylch fy mwriadau ar gyfer y dyfodol, ond ni allaf roi’r sicrwydd hwnnw iddynt y prynhawn yma. Rhaid imi ystyried y dyfarniad a’i gynnwys cyn gwneud dim penderfyniadau ynghylch y camau nesaf y gallwn eu cymryd, a bydd yn rhaid imi roi amser i’m swyddogion a’r cyfreithwyr roi cyngor imi ynghylch yr opsiynau sydd ar gael imi’n awr. Mae’r mater ynghylch costau cyfreithiol yn dal yn destun trafodaeth gyda’r llys.

Lorraine Barrett: Nid wyf am ailadrodd y materion, am eu bod wedi cael eu hailadrodd droeon yma, ond, fel unigolyn a bleidleisiodd yn erbyn eich Gorchymyn, yr wyf yn siŵr y byddwch yn deall fy mod yn croesawu penderfyniad Arglwyddi’r Gyfraith. Cafodd llawer ohonom ein synnu gan y penderfyniad, a pha mor fanwl yr ystyriwyd y mater. Ar wahân i’r parth yr oeddech wedi’i ddynodi, yr oedd y ddau fater arall a godwyd ganddynt yn ymwneud ag a fyddem yn gweld gostyngiad sylweddol mewn TB buchol, a’r cydbwysedd rhwng pryder am foch daear a byd natur, a manteision arfaethedig y rhaglen ddifa, yn eich barn chi.

Gan roi hynny o’r neilltu—oherwydd y mae’r materion hynny’n cael sylw, ac yr ydych newydd fod yn trafod hynny—a wnewch anfon neges gref at unrhyw un sydd o’r farn y gallant fynd allan a dechrau saethu moch daear? Clywais sylwadau am hynny droeon ddoe. Gwnaed rhai o’r sylwadau’n ddifeddwl, a gwnaed rhai ohonynt yn y cyfryngau, felly efallai fod pobl wedi bod yn corddi pethau drwy ddweud, ‘Bydd pob ffermwr allan yn awr yn saethu moch daear’. A allwch anfon neges, fel y Gweinidog, sy’n datgan bod gwneud hynny nid yn unig yn greulon ond yn anghyfreithlon hefyd, ac nad ydym am ddechrau dilyn y trywydd hwnnw?

Elin Jones: Mae fy neges yn awr yr un fath ag y bu erioed, sef ei bod yn anghyfreithlon lladd mochyn daear, ac mae hynny’n wir o

would expect any illegal activity to be reported and investigated by the police anywhere in Wales.

Kirsty Williams: First, Minister, I join you in regretting the court's decision. It will affect many people in rural communities, and they will share that disappointment. Do you, as Minister, remain committed to the holistic approach, as recommended by the Rural Development Sub-committee, to dealing with this terrible disease? Will you reiterate that, if we are to reach the stated goal of a TB-free Wales, we have to tackle this issue in cattle and in farming practice, but also in the badger population? Have you been able to give some consideration to the issue of the principle of what is 'substantial'? The court has rejected a decrease in TB of 9 per cent as being a substantial decrease; did it give you any indication of what it would regard as a substantial reduction in TB? In considering your future options, given your comments to Nick Bourne about the inability now to have any powers to trap badgers, whether for culling or vaccination purposes, could you outline where vaccination now sits in your policy for addressing TB? In your further considerations, will you look at the possibility of an Order that would look at a farmer-led cull, rather than a Government cull? Given issues raised in the Westminster Parliament about the Government's approach to TB eradication across England, what discussions have you had with your English counterparts about whether there is a possibility for the administrations to work together on a comprehensive TB eradication strategy that stretches across England and Wales?

Elin Jones: I remain committed to a holistic approach to TB eradication in Wales. The policy that I and the Assembly, through its Rural Development Sub-committee, formed was at least three years in the making. The involvement of some Members here in consideration of an appropriate TB eradication policy probably goes back even further than that. I remain of the view that

hyd. Byddwn yn disgwyl i'r heddlu gael gwybod am unrhyw weithgarwch anghyfreithlon, ac ymchwilio iddo, ym mhobman yng Nghymru.

Kirsty Williams: I ddechrau, Weinidog, yr wyf finnau, fel chithau, yn gresynu at benderfyniad y llys. Bydd yn effeithio ar lawer o bobl mewn cymunedau gwledig, a fydd yn teimlo yr un mor siomedig. A ydych chi, fel Gweinidog, wedi ymrwmo o hyd i'r dull cyfannol, a argymhellwyd gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, o ymdrin â'r clefyd erchyll hwn? A wnewch gadarnhau eto fod yn rhaid inni fynd i'r afael â'r broblem hon mewn gwartheg, mewn arferion ffermio, ac ymhlith moch daear hefyd, os ydym am gyrraedd y nod a bennwyd, sef sicrhau nad oes TB yng Nghymru? A ydych wedi gallu ystyried i ryw raddau yr egwyddor ynghylch yr hyn sy'n 'sylweddol'? Mae'r llys wedi gwrthod derbyn bod gostyngiad o 9 y cant mewn TB yn ostyngiad sylweddol; a roddodd unrhyw syniad ichi o'r hyn y byddai'n ei ystyried yn ostyngiad sylweddol mewn TB? Wrth ystyried eich opsiynau ar gyfer y dyfodol, o gofio eich sylwadau i Nick Bourne ynghylch eich anallu'n awr i gael unrhyw bwerau i ddal moch daear, boed at ddibenion difa neu frechu, a allech amlinellu statws brechu'n awr yn eich polisi ar gyfer mynd i'r afael â TB? Wrth bwysu a mesur materion ymhellach, a wnewch ystyried y posibilrwydd o lunio Gorchymyn a fyddai'n edrych ar raglen ddifa o dan arweiniad ffermwyr, yn hytrach na rhaglen o dan arweiniad y Llywodraeth? O gofio'r materion a godwyd yn Senedd San Steffan ynghylch dull y Llywodraeth o ddileu TB ar draws Lloegr, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'ch cymheiriaid yn Lloegr ynghylch a fyddai'n bosibl i'r gweinyddiaethau gydweithio ar strategaeth gynhwysfawr ar gyfer dileu TB, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr?

Elin Jones: Yr wyf wedi ymrwmo o hyd i ddull cyfannol o ddileu TB yng Nghymru. Yr oedd y polisi a luniwyd gennyf fi a'r Cynulliad, drwy ei Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, ar y gweill ers o leiaf tair blynedd. Mae'n debyg bod cyfraniad rhai Aelodau yn y fan hon, o ran ystyried polisi priodol i ddileu TB, yn dyddio'n ôl ymhellach na hynny hyd yn oed. Yr wyf yn parhau o'r farn

animal disease control requires the removal of all infection sources. It is important to reiterate at this point that our work, and my policy decision on identifying north Pembrokeshire as an area for removal of all sources of infection of the disease, was never a replication of the trials in England. It was a decision based on removing the wildlife source of infection in that area and including significant cattle measures and biosecurity training for farmers. That work is under way, and legislation on those cattle measures is in place and has not been challenged by anybody. It is true to say that the trials in England allowed for the free movement of cattle. Cattle were able to move into those trial areas even without pre-movement testing. Therefore, what we always intended to happen in the pilot area in Wales was significantly different to the trials in England.

Vaccination has always been a consideration as an appropriate method as part of the holistic approach to TB eradication in Wales. My officials and I would want to consider the vaccination deployment exercise in England, to see how we would progress vaccination in areas in Wales to ensure that those areas remain free of the disease. Of course, as of this week I no longer have powers to fund vaccination and allow it to happen in Wales.

I am not in a position now to comment on options that are available to me in progressing this policy, following this adjudication, but all options will be considered. My officials continue to discuss TB eradication with officials from the Department for Environment, Food and Rural Affairs. I have already had a preliminary informal discussion with the new Minister responsible in England, and I hope to progress those discussions further because this disease is the same in Wales as it is in England.

Joyce Watson: I take this opportunity to congratulate you on the measures that you

bod angen cael gwared ar bob un o ffynonellau haint os ydym am reoli clefyd anifeiliaid. Mae'n bwysig pwysleisio'n awr nad oedd ein gwaith ni, a'm penderfyniad o ran polisi wrth ddynodi gogledd sir Benfro yn ardal ar gyfer dileu pob un o ffynonellau haint y clefyd, erioed yn efelychiad o'r prosiectau peilot yn Lloegr. Yr oedd y penderfyniad wedi'i seilio ar gael gwared ar ffynhonnell yr haint mewn bywyd gwyllt yn yr ardal honno, a chynnwys mesurau sylweddol yng nghyswllt gwartheg, a hyfforddiant ar fioddlogelwch i ffermwyr. Mae'r gwaith hwnnw ar droed, ac mae deddfwriaeth ynghylch y mesurau yng nghyswllt gwartheg ar waith, ac nid oes neb wedi ei herio. Mae'n wir dweud i'r prosiectau peilot yn Lloegr ganiatáu i wartheg gael eu symud heb gyfyngiadau. Caniatwyd i'r gwartheg symud i mewn i ardaloedd y prosiectau peilot heb iddynt hyd yn oed gael eu profi cyn cael eu symud. Felly, yr oedd yr hyn yr oeddem bob amser wedi bwriadu iddo ddigwydd yn yr ardal beilot yng Nghymru yn wahanol iawn i'r prosiectau peilot yn Lloegr.

Mae brechu bob amser wedi bod yn ystyriaeth fel dull priodol, yn rhan o ddull cyfannol o ddileu TB yng Nghymru. Byddai fy swyddogion a minnau am ystyried yr ymarfer brechu yn Lloegr, er mwyn gweld sut y byddem yn datblygu rhaglen frechu mewn ardaloedd yng Nghymru i sicrhau bod yr ardaloedd hynny'n parhau'n ddiglefyd. Wrth gwrs, o'r wythnos hon ymlaen, nid oes gennyf y pwerau mwyach i ariannu rhaglen frechu na chaniatáu iddi ddigwydd yng Nghymru.

Nid wyf mewn sefyllfa'n awr i wneud sylwadau ynghylch yr opsiynau sydd ar gael imi o ran datblygu'r polisi hwn, yn dilyn y dyfarniad, ond bydd yr opsiynau i gyd yn cael eu hystyried. Mae fy swyddogion yn parhau i drafod dileu TB gyda swyddogion o Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yr wyf eisoes wedi cael trafodaeth anffurfiol ragarweiniol gyda'r Gweinidog newydd sy'n gyfrifol yn Lloegr, ac yr wyf yn gobeithio datblygu'r trafodaethau hynny, oherwydd y mae'r clefyd yr un fath yng Nghymru ag y mae yn Lloegr.

Joyce Watson: Hoffwn achub y cyfle hwn i'ch llongyfarch ar y camau yr ydych wedi'u

have taken thus far to eradicate bovine TB. The decrease in the number of cases of the disease this year is testament to the work that you have done. I ask you—and you have already intimated that you will do so—to keep up the excellent work that has been done, which, I believe, has brought about a reduction of 40 per cent. Nonetheless, the judges have ruled that there was insufficient evidence of effort to weigh up the harm caused by potential eradication of badgers against the benefit of reducing bovine TB. I hope that that effort of evidence will now take place in order to fully take into account the effects of the cull on the badger population.

You know full well that I voted against it, and it is my intention to do so in the future. However, how do you intend to move forward with your plans, given that Lord Justice Pill highlighted the evidence to suggest that the cull would lead to a decrease in cases of bovine TB of just 9 per cent?

Following on from a previous question from Kirsty Williams, do you agree that allowing farmers to cull is absolute nonsense, as it will not have the control mechanisms that you would need to have in place, and will probably not reduce the infection rates of bovine TB as not all farmers are mindful to shoot badgers?

Elin Jones: As I have told other Members, I do not believe that I can give you a considered view on the options available to me in taking the next steps to pursue policy in this matter following the judgment. I have to allow time for my officials, my lawyers and me to consider the judgment in full before I can give a considered response and statement on the next step.

You asked me about a farmer-led cull. All that I can say at this point is that my previous decision, and the Order that was in place until this week, allowed for a Government-led cull, which had been the basis of comments and views expressed in the Assembly, as it had been the response in the consultation that I undertook last year, and the question asked

cymryd hyd yma i ddileu TB gwartheg. Mae'r gostyngiad yn nifer yr achosion o'r clefyd eleni'n brawf o'r gwaith a wnaethoch. Gofynnaf ichi barhau â'r gwaith rhagorol a wnaed—ac yr ydych eisoes wedi awgrymu y byddwch yn gwneud hynny—sydd, yn fy marn i, wedi sicrhau gostyngiad o 40 y cant. Er hynny, mae'r barnwyr wedi dyfarnu nad oedd tystiolaeth ddigonol o ymdrech i bwysu a mesur y niwed a gâi ei achosi pe bai moch daear yn cael eu difa, yn erbyn y fantais o leihau TB gwartheg. Gobeithio y gwneir yr ymdrech honno i gasglu tystiolaeth yn awr er mwyn ystyried yn llawn effeithiau'r rhaglen ddifa ar y boblogaeth moch daear.

Gwyddoch yn iawn imi bleidleisio yn erbyn y rhaglen, a'm bwriad yw gwneud hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, sut yr ydych yn bwriadu bwrw ymlaen â'ch cynlluniau, o gofio i'r Arglwydd Ustus Pill dynnu sylw at y dystiolaeth a oedd yn awgrymu y byddai'r rhaglen ddifa'n arwain at leihau nifer yr achosion o TB gwartheg 9 y cant yn unig?

Yn dilyn cwestiwn blaenorol gan Kirsty Williams, a ydych yn cytuno mai nonsens llwyr fyddai caniatáu i ffermwyr ddifa moch daear, oherwydd ni fyddai gan raglen o'r fath y mecanweithiau rheoli y byddai angen ichi sicrhau eu bod ar waith, ac mae'n debyg na fyddai'n lleihau cyfraddau heintio TB gwartheg, oherwydd nid yw pob ffermwr am saethu moch daear?

Elin Jones: Fel y dywedais wrth Aelodau eraill, ni chredaf y gallaf roi safbwynt cytbwys ichi ar yr opsiynau sydd ar gael imi o safbwynt cymryd y camau nesaf i fwrw ymlaen â pholisi yng nghyswllt y mater hwn, yn dilyn y dyfarniad. Rhaid imi roi amser i'm swyddogion, fy nghyfreithwyr a minnau ystyried y dyfarniad yn llawn cyn y gallaf roi datganiad ac ymateb cytbwys ynghylch y cam nesaf.

Bu ichi fy holi am raglen ddifa o dan arweiniad ffermwyr. Y cyfan y gallaf ei ddweud ar hyn o bryd yw bod fy mhenderfyniad blaenorol, a'r Gorchymyn a oedd ar waith tan yr wythnos hon, yn caniatáu rhaglen ddifa o dan arweiniad y Llywodraeth, a hynny wedi bod yn sail i'r sylwadau a'r farn a fynegwyd yn y Cynulliad,

specifically at that time: whether the Government should lead on a cull. That has been my decision, to date, to put in place an Order that would allow a Government-led cull. As I have said, I will now have to consider all options that are available to me in pursuing this policy intention further.

3.10 p.m.

Brynle Williams: First, I declare an interest as a farmer. Thank you for bringing your statement to the Chamber today. I think that yesterday's decision is a step backwards, but I emphasise that that is a personal statement. I am pleased that you will continue with your holistic approach to dealing with, and eradicating, this disease. However, although this is an emotive issue, I join other Members in hoping that the farming community will hold fire and sit tight. I am deadly serious about this. We do not want this to get out of control. We have to look at this objectively; it is a disease. I hope that you will support me, Minister, in urging the farming world to demonstrate its sensitivity on this matter.

Elin Jones: I am sure that farmers in particular will have been frustrated by the judgment from the Court of Appeal. I remind the Assembly that 11,500 cattle were slaughtered as a result of bovine TB last year, which means that 11,500 cattle were taken away from farms and farmers in Wales. In the pilot area in north Pembrokeshire, 64 per cent of farmers have experienced a TB breakdown since 2003, and therefore the reality of TB is something that farmers live with day in, day out. They are committed, as we are as a Government, and as this Assembly has been across all parties, to removing this animal disease from Wales to ensure that we have a healthy farmed animal population and that, ultimately, we also have a healthy wildlife population.

The Deputy Presiding Officer: We have heard from all the party spokespeople already, so I ask the remaining speakers to limit themselves to questions.

am mai dyna oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennyf y llynedd, a'r cwestiwn a ofynnwyd yn benodol ar y pryd: sef a ddylai'r Llywodraeth arwain rhaglen ddifa. Hynny oedd fy mhenderfyniad hyd yma, sef rhoi Gorchymyn ar waith a fyddai'n caniatáu rhaglen ddifa o dan arweiniad y Llywodraeth. Fel y dywedais, bellach rhaid imi ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael imi o ran bwrw ymlaen ymhellach â'r bwriad hwn o ran polisi.

Brynle Williams: Yn gyntaf, yr wyf yn datgan buddiant fel ffermwr. Diolch am ddod â'ch datganiad i'r Siambr heddiw. Credaf fod y penderfyniad ddoe yn gam tuag yn ôl, ond pwysleisiaf mai datganiad personol yw hwnnw. Yr wyf yn falch y byddwch yn parhau â'ch dull cyfannol o ymdrin â'r clefyd hwn a'i ddileu. Fodd bynnag, er bod hwn yn fater emosiynol, ymunaf â'r Aelodau eraill wrth obeithio y bydd y rhai sy'n ffermio yn oedi ac yn aros. Yr wyf yn hollol o ddifrif ynghylch hynny. Nid ydym am i'r sefyllfa fynd allan o reolaeth. Rhaid inni edrych arni'n wrthrychol; clefyd ydyw. Gobeithio y byddwch yn fy nghefnogi, Weinidog, wrth inni annog y byd ffermio i ddangos ei sensitifrwydd ar y mater hwn.

Elin Jones: Yr wyf yn siŵr y bydd ffermwyr yn arbennig yn teimlo'n rhwystredig yn sgîl dyfarniad y Llys Apêl. Hoffwn atgoffa'r Cynulliad bod 11,500 o wartheg wedi eu lladd o ganlyniad i TB buchol y llynedd, ac felly aethpwyd â 11,500 o wartheg oddi ar ffermydd a ffermwyr yng Nghymru. Yn yr ardal beilot yng ngogledd sir Benfro, mae 64 y cant o ffermwyr wedi cael achos o TB ers 2003, felly mae realiti TB yn rhywbeth y mae ffermwyr yn byw gydag ef drwy'r dydd, bob dydd. Maent wedi ymrwymo, fel yr ydym ni fel Llywodraeth, ac fel yr oedd y Cynulliad hwn ar draws pob plaid, i gael gwared ar y clefyd hwn o Gymru er mwyn sicrhau bod gennym anifeiliaid fferm iach, a bywyd gwyllt iach yn y pen draw hefyd.

Y Dirprwy Lywydd: Yr ydym eisoes wedi clywed gan lefarwyr pob plaid, felly gofynnaf i'r siaradwyr sy'n weddill ofyn cwestiynau'n unig.

Peter Black: Minister, you will know that a majority of judges ruled that the predicted 9 per cent reduction in bovine TB envisaged in this strategy was insufficient to justify the substantial reduction required to justify the culling of thousands of badgers in north Pembrokeshire. In fact, that has already been referred to in questions. Do you agree that this is an insurmountable obstacle to any new Order to resurrect this cull? Will you consider my urgent request, and that of other Members who have already spoken, to introduce a new Order that will unify the community of north Pembrokeshire around a proper vaccination pilot, similar to that carried out in Gloucestershire and Ireland?

Elin Jones: I will reiterate the point that I made earlier. The Order that was quashed by the Court of Appeal allowed this Government to vaccinate in Wales, as well as to cull badgers in Wales. That Order is no longer available to me to support a vaccination policy or a cull policy, in line with my decision on the hotspot area in north Pembrokeshire.

Mick Bates: Thank you for accepting this urgent question today. I am sure that you are aware of the great disappointment in the agricultural industry. I have three significant questions. First, in view of the fact that the legal advice that you received was rejected by the court, will you be seeking legal advice from other sources in future? Secondly, it seems that the word 'substantial' is of particular importance regarding the evidence that has been gathered, and I was grateful that you put on the record the evidence about the incidence of the disease in your proposed pilot area, because much misleading information has been given during this debate. I even heard on *Channel 4 News* last night that you were going to kill 100,000 badgers. That was the statement of a responsible celebrity, Brian May, which I thought was absolutely unforgivable given the rational debate that we have had here. Finally, would you also examine with your team the possibility of the rights of the farmer, who will now have to suffer as a

Peter Black: Weinidog, gwyddoch i fwyafrif y barnwyr ddyfarnu nad oedd y gostyngiad arfaethedig o 9 y cant mewn TB gwartheg, a ragwelwyd yn y strategaeth hon, yn ddigonol i gyfiawnhau'r gostyngiad sylweddol y mae ei angen i gyfiawnhau difa miloedd o foch daear yng ngogledd sir Benfro. Mewn gwirionedd, cyfeiriwyd eisoes at hynny mewn cwestiynau. A gytunwch fod hynny'n rhwystr anorchfygol i unrhyw Orchymyn newydd i atgyfodi'r rhaglen ddifa? A wnewch ystyried fy nghais brys, a chais brys yr Aelodau eraill sydd wedi siarad eisoes, i gyflwyno Gorchymyn newydd a fydd yn uno cymuned gogledd sir Benfro mewn cynllun brechu peilot go iawn, yn debyg i'r un a gynhaliwyd yn swydd Gaerloyw ac Iwerddon?

Elin Jones: Ailadroddaf y pwynt a wneuthum yn gynharach. Yr oedd y Gorchymyn a ddirymwyd gan y Llys Apêl yn caniatáu i'r Llywodraeth hon frechu yng Nghymru yn ogystal â difa moch daear yng Nghymru. Bellach, nid yw'r Gorchymyn hwnnw ar gael imi gefnogi polisi brechu na pholisi difa, yn unol â'm penderfyniad ynghylch yr ardal lle y ceir llawer o achosion o TB yng ngogledd sir Benfro.

Mick Bates: Diolch am dderbyn y cwestiwn brys hwn heddiw. Yr wyf yn siŵr y gwyddoch am y siom fawr a deimlir yn y diwydiant amaeth. Mae gennyf dri chwestiwn pwysig. Yn gyntaf, o ystyried y ffaith bod y cyngor cyfreithiol a gawsoch wedi cael ei wrthod gan y llys, a fyddwch yn gofyn am gyngor cyfreithiol gan ffynonellau eraill yn y dyfodol? Yn ail, ymddengys fod y gair 'sylweddol' o bwys mawr yng nghyswllt y dystiolaeth a gasglwyd, ac yr oeddwn yn ddiolchgar ichi gofnodi'r dystiolaeth am nifer yr achosion o'r clefyd yn eich ardal beilot arfaethedig, oherwydd rhoddwyd llawer o wybodaeth gamarweiniol yn ystod y ddatl hon. Clywais ar *Channel 4 News* neithiwr hyd yn oed eich bod am ladd 100,000 o foch daear. Yr oedd y datganiad hwnnw'n ddatganiad gan Brian May, sy'n unigolyn enwog a chyfrifol, ac yr oedd yn gwbl anfaddeuol yn fy marn i, o ystyried y dadleuon rhesymol yr ydym wedi'u cael yma. I gloi, a allech hefyd archwilio gyda'ch tîm y posibilrwydd yn ymwneud â hawliau'r

result of the increased incidence of TB in Wales? Farmers' families will now suffer, as great stress and anxiety result from this disease, which we can assume will continue to spread at a rate of 9 per cent.

Elin Jones: Thank you for your questions. I will consider the point that you have made with regard to seeking external legal advice to advise me on ways forward, in the same way that I have sought external legal advice during the judicial process that we have gone through. The Court of Appeal's judgment in itself can advise me of the next steps to be taken. As I have said, I need to consider the content of the views expressed by the judges in reaching their decision, before I make any decisions on the next steps that are available to me. Perhaps it is worth my pointing out, in view of the figures that you have just quoted that were being used in the media last night, that the sett survey work that we have undertaken in north Pembrokeshire has revealed that there is a badger population of between 1,500 and 2,000—around 1,500 to 1,700 is the best estimate at this stage. That has been derived from extensive sett surveys on most of the land in that area, and that information is now in the public domain.

I agree with you that there is stress and anxiety in the farming community, especially when farms are under restrictions as a result of TB breakouts. It severely affects the business of the farming family, but it also affects the farmer in that he or she has to deal with the removal of cattle that have often been bred on that farm, and the farmer often takes huge pride in his or her cattle. I also understand that in certain areas of north Pembrokeshire landowners have, and did have, a reluctance to see wildlife being removed from their land, and I accept that that was a stressful situation for some landowners to find themselves in.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you referred to the democratic process that has taken place at the Assembly, which led to all-party support for a holistic approach to TB in Wales. Do you agree that, as it is a holistic

ffermwr, y bydd yn rhaid iddo ddiodeff yn awr o ganlyniad i'r nifer cynyddol o achosion o TB yng Nghymru? Bydd teuluoedd ffermwyr yn diodeff yn awr, oherwydd bydd cryn dipyn o straen a phryder yn deillio o'r clefyd hwn, y gallwn dybio y bydd yn parhau i ymledu ar sail cyfradd o 9 y cant.

Elin Jones: Diolch am eich cwestiynau. Ystyriaf y pwynt a wnaethoch ynghylch ceisio cyngor cyfreithiol allanol i'm cynghori ynghylch ffyrdd o symud ymlaen, yn yr un modd ag yr wyf wedi ceisio cyngor cyfreithiol allanol yn ystod y broses farnwrol yr aethom drwyddi. Gall dyfarniad y Llys Apêl fy nghynghori ynghylch y camau nesaf i'w cymryd hefyd. Fel y dywedais, mae angen imi ystyried cynnwys y farn a fynegwyd gan y barnwyr wrth iddynt ddod i'w penderfyniad, cyn imi wneud unrhyw benderfyniadau ynghylch y camau nesaf sydd ar gael imi. Efallai y byddai'n werth imi nodi, yng ngoleuni'r ffigurau yr ydych newydd eu dyfynnu ac a ddefnyddiwyd yn y cyfryngau neithiwr, fod y gwaith ar arolwg o frochfeydd a gynhaliwyd gennym yng ngogledd sir Benfro wedi datgelu bod rhwng 1,500 a 2,000 o foch daear yno—rhwng 1,500 a 1,700 yw'r amcangyfrif gorau ar hyn o bryd. Daw hynny o arolwg helaeth o frochfeydd ar y rhan fwyaf o'r tir yn yr ardal honno, ac mae'r wybodaeth honno yn gyhoeddus bellach.

Yr wyf yn cytuno â chi fod straen a phryder ymhlith y rhai sy'n ffermio, yn enwedig pan fydd ffermwyr dan gyfyngiadau o ganlyniad i achosion o TB. Caiff effaith ddifrifol ar fusnes y teulu sy'n ffermio, ond caiff effaith hefyd ar y ffermwr o orfod ymdopi â'r broses o gael gwared ar wartheg sydd, yn aml iawn, wedi cael eu magu ar y fferm. Yn aml, bydd y gwartheg hynny'n destun balchder mawr. Yr wyf yn deall hefyd fod tirlfeddianwyr mewn rhai ardaloedd yng ngogledd sir Benfro yn amharod, yn awr ac yn y gorffennol, i gamau gael eu cymryd i gael gwared ar fywyd gwyllt oddi ar eu tir, ac yr wyf yn derbyn i'r sefyllfa honno beri straen i rai tirlfeddianwyr.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, cyfeiriasoch at y broses ddemocrataidd a gynhaliwyd yn y Cynulliad, a arweiniodd at gefnogaeth hollbleidiol i ddull cyfannol o ymdrin â TB yng Nghymru. Gan mai dull

approach, taking out one part of the equation tends to undermine it? Let me talk specifically about references that have been made to vaccination. The fact is that vaccination does not work in infected animals. Therefore, in the hot spots, where we see an increase in the incidence of TB in cattle, that approach would be totally ineffective. References have been made to the fact that the instances of TB are decreasing. That is not true. The compensation is decreasing slightly because you, Minister, have taken a very critical approach to compensation, and I applaud that. However, the actual instances of TB are increasing. Can you confirm that, because of this decision and the way in which some people have tried to undermine the holistic approach to TB in Wales, to which all-party support was given in the Assembly, and which we can no longer move forward with, we will now be faced with prolonged calls on the public purse of something in the region of £20 million a year?

Elin Jones: Hoffwn gadarnhau fy mod yn bwriadu parhau i weithredu polisi'r Llywodraeth, a gymeradwywyd gan y Cynulliad, o weithredu polisi sy'n gynhwysfawr ac yn briodol ar gyfer pob rhan o Gymru. Gallai brechu gyfrannu at y polisi hwnnw yn y dyfodol, ond fel y dywedasoeh, Rhodri Glyn, nid mewn ardal lle mae TB eisoes yn rhemp yn y bywyd gwyllt yn ogystal ag yn y fuches.

3.20 p.m.

Rhaid sicrhau fod y polisi priodol yn cael ei weithredu o ran sefyllfa'r clefyd mewn ardaloedd penodol. Nid oes tystiolaeth yng Nghymru fod nifer yr achosion TB yn gostwng. Mae'r duedd yn parhau ar i fyny. Gorffennaf fy ymateb i chi drwy atgoffa'r Siambr fod Llywodraeth y Cynulliad, ers 2000, wedi gwario £120 miliwn ar iawndal i ffermwyr oherwydd TB mewn gwartheg. Dim ond yr iawndal yw'r cyfanswm hwnnw; mae'r Llywodraeth hon yn talu'n ychwanegol am brofion ar gyfer TB, yn ychwanegol i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r cyfraniad ariannol mae ffermwyr yn ei wneud i'r profion. Yn ogystal, mae effaith ariannol ar fusnesau

cyfannol ydyw, a ydych yn cytuno bod tynnu un rhan o'r hafaliad allan yn tueddu i'w danseilio? Gadewch imi sôn yn benodol am gyfeiriadau a wnaed at frechu. Y gwir amdani yw nad yw brechu'n gweithio gydag anifeiliaid sydd wedi'u heintio. Felly, yn yr ardaloedd lle y ceir llawer o achosion o TB, lle y gwelwn gynnydd yn nifer yr achosion o TB gwartheg, byddai'r dull hwnnw'n gwbl aneffeithiol. Cyfeiriwyd at y ffaith bod nifer yr achosion o TB yn gostwng. Nid yw hynny'n wir. Mae'r iawndal yn gostwng ychydig am eich bod chi, Weinidog, wedi cymryd agwedd feirniadol iawn at iawndal, ac yr wyf yn cymeradwyo hynny. Fodd bynnag, mae nifer gwirioneddol yr achosion o TB ar gynnydd. A allwch gadarnhau y byddwn yn awr, oherwydd y penderfyniad hwn a'r ffordd y mae rhai pobl wedi ceisio tansilio'r dull cyfannol o ymdrin â TB yng Nghymru, y rhoddwyd cefnogaeth hollbleidiol iddo yn y Cynulliad ac na allwn fwrw ymlaen ag ef mwyach, yn wynebu rhagor o alwadau ar bwrs y wlad, a fydd tuag £20 miliwn y flwyddyn?

Elin Jones: I would like to confirm my intention to continue with Government policy, which was approved by the Assembly, of implementing a policy for the eradication of TB that is comprehensive and appropriate for each part of Wales. Vaccination may play a part in that policy in future, but as you said, Rhodri Glyn, not in an area where TB is already endemic in wildlife as well as in the herd.

We must ensure that the appropriate policy is implemented in relation to the level of disease in specific areas. There is no evidence in Wales that the incidence of TB is falling. The trend continues upwards. I conclude my response to you by reminding the Chamber that the Assembly Government, since 2000, has spent £120 million on compensation for farmers due to TB in cattle. That total only includes the compensation; the Government spends more money on testing for TB, in addition to the work being done by the Animal Health agency and the financial contribution that farmers make to the tests. In addition, there is a financial impact for the farming businesses that face this disease. My

ffermwyr sy'n wynebu'r clefyd hwn. Mae fy mwriad yr un fath, i waredu TB o dir Cymru, a byddaf yn awr yn ystyried yr opsiynau sydd gennyf i gymryd y polisi hwn ymlaen yn gynhwysfawr i'r dyfodol.

intention remains the same, to eradicate TB in Wales, and I will now consider my options in taking forward a comprehensive policy for the future.

Datganiad am Nifer y Myfyrwyr sydd mewn Addysg Uwch yng Nghymru Statement on Student Numbers in Higher Education in Wales

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): Deputy Presiding Officer, I wish to make a statement on the management of student numbers in Welsh universities. I intend to introduce measures to manage full-time undergraduate recruitment in order to maintain opportunities for access, standards of provision and the quality of the learner experience. Every new full-time undergraduate student recruited by higher education institutions from 2010-11 will increase the demand on student finance budgets by around £9,500 a year in grants and loans. The Higher Education Funding Council for Wales has arrangements in place that restrict the numbers of fully funded places on undergraduate degree courses.

The pressure on the student finance budget has been increasing in recent years. This is partially the result of increased recruitment by HE institutions of full-time undergraduates eligible for statutory student support. In order to help alleviate this pressure, we need to consider measures to manage the number of students who are recruited. The latest figures available from the Universities and Colleges Admissions Service indicate that there was an increase of 12 per cent in accepted applicants to Welsh higher education institutions in 2009, compared with the previous year, whereas in England the comparable increase was 5 per cent. There was also an 11 per cent increase in Welsh-domiciled learners who were accepted to Welsh HE institutions. We now need to manage student finance expenditure in a way that is sustainable and that will not be jeopardised by unplanned growth in student numbers.

In my remit letter to the Higher Education

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Ddirprwy Lywydd, hoffwn wneud datganiad ynghylch rheoli nifer y myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru. Bwriadaf gyflwyno mesurau i reoli nifer y myfyrwyr israddedig amser llawn a gaiff eu recriwtio er mwyn cynnal cyfleoedd i gael mynediad, safonau'r ddarpariaeth ac ansawdd profiad y dysgwr. Bydd pob myfyriwr israddedig amser llawn newydd a gaiff ei recriwtio gan sefydliadau addysg uwch o 2010-11 yn cynyddu'r galw ar gyllidebau cyllid myfyrwyr tua £9,500 y flwyddyn mewn grantiau a benthyciadau. Mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru drefniadau ar waith sy'n cyfyngu ar nifer y lleoedd sydd wedi eu cyllido'n llawn ar gyrsiau gradd israddedig.

Mae'r pwysau ar y gyllideb cyllid myfyrwyr wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn rhannol, mae hyn o ganlyniad i'r ffaith bod sefydliadau AU wedi bod yn recriwtio mwy o fyfyrwyr israddedig amser llawn sy'n gymwys i gael cymorth statudol i fyfyrwyr. Er mwyn helpu i leihau'r pwysau hwn, mae angen inni ystyried mesurau i reoli nifer y myfyrwyr a gaiff eu recriwtio. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau yn dangos bod cynnydd o 12 y cant yn nifer yr ymgeiswyr a dderbyniwyd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2009, o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond yn Lloegr, yr oedd y cynnydd yn yr un cyfnod yn 5 y cant. Yn ogystal, bu cynnydd o 11 y cant yn nifer y dysgwyr sy'n huanu o Gymru a dderbyniwyd i sefydliadau AU Cymru. Yn awr, mae angen inni reoli gwariant cyllid myfyrwyr mewn modd sy'n gynaliadwy ac na fydd yn cael ei beryglu gan dwf heb ei gynllunio yn niferoedd myfyrwyr.

Yn fy llythyr cylch gwaith at Gyngor Cyllido

Funding Council for Wales earlier this year, I asked the council to take steps to ensure that higher education institutions minimise the recruitment of students beyond agreed numbers. As a result, the funding council signalled to institutions that there are demands on the Assembly Government's student support budget if institutions enrol students over and above the number of funded places. Prior to this, the funding council has advised institutions annually of the need for prudence when recruiting students. Therefore, institutions are fully aware of the situation, and the need for constraint at a time when public funding is tight should not come as a surprise.

Limits on student numbers are already in operation in the other three UK nations. The introduction of measures to manage undergraduate student numbers will bring Wales in line with the rest of the UK. Any limits that we introduce will not apply to part-time or postgraduate students. Also, the cap will not differentiate between priority and non-priority provision. A great deal of consideration was given to this approach. However, legal constraints, and my wish to avoid an overly bureaucratic approach, meant that we did not go down that route.

We are working with the Higher Education Funding Council for Wales on a range of positive interventions to promote national strategic priorities, such as science, technology, engineering and mathematics provision, foundation degrees and Welsh-medium provision. My officials are discussing with the funding council the introduction of a limit on student numbers from 2011-12. The council will consult with higher education institutions on the arrangements to be put in place.

I want to make it clear that we have not reduced funding to universities. The Welsh Assembly Government's higher education budget has been broadly flatlined for 2010-11 at the previous year's levels. We are, however, asking institutions to have regard to the implications of recruiting fees-only students; at a time of constraint on public finances, it is only right that we do so. It is

Addysg Uwch Cymru yn gynharach eleni, gofynnais i'r cyngor gymryd camau i sicrhau nad yw sefydliadau addysg uwch yn recriwtio llawer mwy o fyfyrwyr na'r nifer a gytunwyd. O ganlyniad, dywedodd y cyngor cyllido wrth sefydliadau y bydd pwysau ar gyllideb cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth y Cynulliad os bydd sefydliadau'n cofrestru mwy o fyfyrwyr na nifer y lleoedd a gaiff eu cyllido. Cyn hyn, mae'r cyngor cyllido wedi cynghori sefydliadau bob blwyddyn ynghylch yr angen am bwyll wrth recriwtio myfyrwyr. Felly, mae sefydliadau'n gwbl ymwybodol o'r sefyllfa, ac ni ddylai'r angen am gyfyngiadau fod yn syndod ar adeg pan yw arian cyhoeddus yn dynn.

Mae terfynau eisoes wedi'u cyflwyno ar niferoedd myfyrwyr yn nhair cenedl arall y DU. Bydd cyflwyno mesurau i reoli nifer y myfyrwyr israddedig yn golygu y bydd Cymru yr un fath â gweddill y DU. Ni fydd unrhyw derfynau a gyflwynir gennym yn berthnasol i fyfyrwyr rhan-amser neu ôl-radd. At hynny, ni fydd y terfyn yn gwahaniaethu rhwng darpariaeth â blaenoriaeth a darpariaeth heb flaenoriaeth. Rhoddwyd llawer iawn o ystyriaeth i'r dull hwn o weithredu. Fodd bynnag, yr oedd cyfyngiadau cyfreithiol, a'm dymuniad i osgoi dull a oedd yn rhy fiwrocraidd, yn golygu nad aethom ar hyd y trywydd hwnnw.

Yr ydym yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar ystod o ymyriadau cadarnhaol i hybu blaenoriaethau strategol cenedlaethol, megis darpariaeth ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, graddau sylfaen a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae fy swyddogion yn trafod â'r cyngor cyllido y posibilrwydd o gyflwyno terfyn ar niferoedd myfyrwyr o 2011-12. Bydd y cyngor yn ymgynghori â sefydliadau addysg uwch am y trefniadau y dylid eu rhoi ar waith.

Yr wyf am ddweud yn glir nad ydym wedi cwtogi cyllid i brifysgolion. Yn fras, mae cyllideb addysg uwch Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2010-11 wedi aros yr un fath â lefelau'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yr ydym yn gofyn i sefydliadau ystyried goblygiadau recriwtio myfyrwyr sy'n talu ffioedd yn unig; mae'n iawn inni wneud hynny ar adeg pan fo cyfyngiadau ar

worth noting the extent of investment in the higher education sector in Wales. In 2010-11, the Welsh Assembly Government will make available capital and revenue funding of approximately £450 million to higher education institutions via the Higher Education Funding Council for Wales. In addition, approximately £388 million will be provided via Student Finance Wales. Overall, Welsh Assembly Government funding for higher education via the higher education funding council has increased from around £335 million in 2002-03 to approximately £450 million in 2010-11.

I am pleased to say that institutions in Wales have among the highest student satisfaction ratings in the UK, and it is in no-one's interest if universities recruit beyond their capacity to sustain high-quality provision. A comprehensive package of statutory student support is in place to help Welsh students enter higher education. This package of support is better targeted for the academic year 2010-11, following the findings of the review of higher education in Wales. As I have announced previously, students coming from the lowest income households will receive a grant for full living costs of £5,000, compared with a maximum of £2,906 in 2009-10. The package reflects broad agreement with the fundamental principle of targeting support towards students entering higher education from low-income households. Our student support arrangements, including the revised arrangements for the national bursary, offer learners the best and fairest support that the Assembly Government has ever made available.

The new arrangements for managing undergraduate student numbers are not a stand-alone policy. They should be viewed alongside the positive interventions to promote priority subjects and the introduction of a regional approach to planning, which are already in train. These include, for example, an investment of £1 million in relation to the national STEM programme, and setting aside over £7 million to support the development of foundation degrees. In addition, we remain committed to the development of Welsh-

gyllid cyhoeddus. Mae'n werth nodi maint y buddsoddiad a wneir yn y sector addysg uwch yng Nghymru. Yn 2010-11, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod tua £450 miliwn o gyllid cyfalaf a reffeniw ar gael i sefydliadau addysg uwch drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Yn ogystal, caiff tua £388 miliwn ei ddarparu drwy Gyllid Myfyrwyr Cymru. At ei gilydd, mae cyllid Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch drwy'r cyngor cyllido addysg uwch wedi cynyddu o tua £335 miliwn yn 2002-03 i tua £450 miliwn yn 2010-11.

Yr wyf yn falch o ddweud bod gan sefydliadau yng Nghymru gyfraddau bodlonrwydd myfyrwyr sydd ymhlith yr uchaf yn y DU, ac nid yw o fudd i neb os yw prifysgolion yn recriwtio y tu hwnt i'w gallu i gynnal darpariaeth o ansawdd uchel. Mae rhaglen gynhwysfawr o gymorth statudol i fyfyrwyr ar gael i helpu myfyrwyr Cymru gael mynediad i addysg uwch. Byddai'n well targedu'r rhaglen hon o gymorth at flwyddyn academiaidd 2010-11, yn dilyn canfyddiadau'r adolygiad o addysg uwch yng Nghymru. Fel yr wyf wedi cyhoeddi eisoes, bydd myfyrwyr sy'n dod o'r aelwydydd sydd â'r incwm isaf yn cael grant o £5,000 ar gyfer eu holl gostau byw, o'i gymharu ag uchafswm o £2,906 yn 2009-10. Mae'r rhaglen yn adlewyrchu cytundeb bras â'r egwyddor sylfaenol o dargedu cymorth at fyfyrwyr o aelwydydd incwm isel sy'n dechrau ar gyrsiau addysg uwch. Mae ein trefniadau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys y trefniadau diwygiedig ar gyfer y fwrariaeth genedlaethol, yn cynnig y gefnogaeth orau a thecaf y mae Llywodraeth y Cynulliad erioed wedi'i chynnig i ddysgwyr.

Nid yw'r trefniadau newydd ar gyfer rheoli nifer y myfyrwyr israddedig yn bolisi annibynnol. Dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r ymyriadau cadarnhaol i hybu pynciau â blaenoriaeth a chyflwyno dull rhanbarthol o gynllunio, sydd eisoes ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, buddsoddiad o £1 filiwn mewn perthynas â'r rhaglen STEM, sy'n rhaglen genedlaethol, a neilltuo mwy na £7 miliwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu graddau sylfaen. Yn ogystal, yr ydym wedi ymrwymo o hyd i ddatblygu addysg uwch

medium higher education. As I confirmed recently, I expect the *coleg ffederal* to be operational from 2011-12, and driving forward towards a target to have 1,000 additional students undertaking higher education through the medium of Welsh by 2013.

Alongside the management of student numbers, these are all integral components of an overarching framework for delivering 'For Our Future' policy priorities, with the aim of ensuring a vibrant and sustainable higher education system in Wales.

Paul Davies: I wish to thank the Minister for his statement. As we have said before, we all recognise the important contribution that higher education makes to our economy and, as such, it is important that the higher education sector remains healthy and vibrant, especially during these difficult financial times.

In the light of today's statement, it is clear that the Minister's decision to place a limit is due to financial pressures. However, could he reassure us that he will regularly review any limits that are put in place, given that financial circumstances can change quickly? Some will be surprised that this statement has been made, and that a limit will be implemented in the future, given that the Minister's party wanted to see at least 50 per cent of all young people attending university. Can he explain how this limit will achieve that objective?

3.30 p.m.

In the Minister's statement a few weeks ago on the Welsh Assembly Government's higher education action plan, he said that he wanted to increase HE institutions' annual income above the UK median. He said that that target would not mean fewer students but would likely mean fewer vice-chancellors. Could the Minister reassure us that today's statement will not contradict his comments at the end of June, and that people will not be deterred from accessing university?

cyfrwng Cymraeg. Fel y cadarnheais yn ddiweddar, yr wyf yn disgwyl i'r coleg ffederal fod yn weithredol o 2011-12, ac yn anelu at darged o fod â 1,000 o fyfyrwyr ychwanegol yn dilyn cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2013.

Ochr yn ochr â'r gwaith o reoli niferoedd myfyrwyr, mae'r rhain i gyd yn rhan annatod o fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni blaenoriaethau polisi 'Er Mwyn Ein Dyfodol', gyda'r nod o sicrhau system addysg uwch egniol a chynaliadwy yng Nghymru.

Paul Davies: Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Fel yr ydym wedi dweud o'r blaen, yr ydym i gyd yn cydnabod y cyfraniad pwysig y mae addysg uwch yn ei wneud i'n heconomi, ac fel y cyfryw, mae'n bwysig i'r sector addysg uwch barhau'n iach ac yn egniol, yn enwedig yn ystod yr cyfnod anodd hwn o safbwynt ariannol.

Yng ngoleuni'r datganiad heddiw, mae'n glir mai pwysau ariannol sydd i gyfrif am benderfyniad y Gweinidog i gyflwyno terfyn. Fodd bynnag, a allai ein sicrhau y bydd yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu unrhyw derfynau a gaiff eu cyflwyno, o gofio y gall amgylchiadau ariannol newid yn gyflym? Bydd rhai'n synnu bod y datganiad hwn wedi cael ei wneud, ac y bydd terfyn yn cael ei gyflwyno yn y dyfodol, o ystyried bod plaid y Gweinidog am weld o leiaf 50 y cant o bobl ifanc yn mynd i'r brifysgol. A all esbonio sut y bydd y terfyn hwn yn gwireddu'r amcan hwnnw?

Yn natganiad y Gweinidog rai wythnosau'n ôl am gynllun gweithredu addysg uwch Llywodraeth y Cynulliad, dywedodd ei fod am gynyddu incwm blynyddol sefydliadau AU uwchben canolrif y DU. Dywedodd na fyddai'r targed hwnnw'n golygu llai o fyfyrwyr, ond y byddai'n debyg o olygu llai o is-gangellorion. A allai'r Gweinidog ein sicrhau na fydd y datganiad heddiw'n gwrthdweud y sylwadau a wnaeth ddiwedd mis Mehefin, ac na fydd pobl yn cael eu hatal rhag mynd i'r brifysgol?

I am concerned about how a limit on university places could affect applicants from disadvantaged backgrounds. Students from poorer or disadvantaged backgrounds can find it difficult to access the same educational opportunities, early in life, as students from more affluent backgrounds. I remain concerned that these potential students may well be hit the hardest by the proposed limit on student numbers. As such, could the Minister outline any specific strategies that he has in place for those potential students, to aid them in their attempts to study at HE level? I appreciate that the Welsh Assembly Government has recognised the large cost of student support services and the need to maintain the quality of the learner experience. However, in reaching that aim, it is important that the Welsh Assembly Government sends out a clear message that students from all backgrounds—including those who applied unsuccessfully the year before—are not deterred from entering the application process.

Another of my concerns regards the level of competition for places at HE institutions across Wales. There is already fierce competition for places at HE institutions across Wales, and that competition will continue to grow, given the limited spaces available. It is important that pupils who have previously been unsuccessful in their applications are encouraged and are not put off by the growing levels of competition for places. We know from today's statement that the number of applications to Welsh universities is up 12 per cent on last year. However, in the long term, if a cap on university places is introduced, it could encourage more young people to study outside Wales. I would appreciate the Minister's comments on how he intends to ensure that there is a level playing field, and that universities in Wales are not disadvantaged compared with universities in other parts of the United Kingdom.

We discussed how Welsh HE institutions need research in a number of growing departments related to the 'For Our Future'

Yr wyf yn pryderu ynghylch sut y gallai gosod terfyn ar leoedd mewn prifysgolion effeithio ar ymgeiswyr o gefndiroedd difreintiedig. Gall myfyrwyr o gefndiroedd tlotach neu ddifreintiedig ei chael yn anodd cael mynediad at yr un cyfleoedd addysgol, yn gynnar yn eu bywyd, â myfyrwyr o gefndiroedd mwy cyfoethog. Yr wyf yn dal i bryderu ei bod yn eithaf tebyg mai'r myfyrwyr posibl hyn fydd yn cael eu taro waethaf gan y bwriad i gyfyngu ar niferoedd myfyrwyr. Gan hynny, a allai'r Gweinidog amlinellu unrhyw strategaethau penodol sydd ganddo ar waith ar gyfer y myfyrwyr posibl hynny, i'w cynorthwyo yn eu hymdrechion i astudio ar lefel addysg uwch? Yr wyf yn sylweddoli bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod bod gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr yn gostus iawn, a bod angen cynnal ansawdd profiad y dysgwyr. Fodd bynnag, wrth gyrraedd y nod hwnnw, mae'n bwysig i Lywodraeth y Cynulliad gyfleu neges glir nad yw myfyrwyr o bob cefndir—gan gynnwys y rhai a fu'n aflwyddiannus yn eu cais y flwyddyn flaenorol—yn cael eu rhwystro rhag cyflwyno cais.

Yr wyf yn pryderu hefyd am lefel y gystadleuaeth am leoedd mewn sefydliadau AU ledled Cymru. Ceir cystadleuaeth frwd eisoes am leoedd mewn sefydliadau AU ledled Cymru, a bydd y gystadleuaeth honno'n dal i dyfu, o ystyried y ffaith mai nifer cyfyngedig o leoedd fydd ar gael. Mae'n bwysig i ddisgyblion a fu'n aflwyddiannus yn eu ceisiadau blaenorol gael eu hannog ac nad yw lefel gynyddol o gystadleuaeth am leoedd yn peri iddynt beidio â chyflwyno cais. Gwyddom yn ôl y datganiad heddiw fod nifer y ceisiadau i brifysgolion Cymru wedi cynyddu 12 y cant ers y llynedd. Fodd bynnag, yn y tymor hir, os caiff terfyn ei gyflwyno ar leoedd mewn prifysgolion, gallai annog mwy o bobl ifanc i astudio y tu allan i Gymru. Byddwn yn gwerthfawrogi sylwadau'r Gweinidog ynghylch sut y mae'n bwriadu sicrhau chwarae teg, a sicrhau nad yw prifysgolion Cymru o dan anfantais o'u cymharu â phrifysgolion mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Buom yn trafod y modd y mae angen ymchwil ar sefydliadau AU Cymru mewn nifer o adrannau sy'n tyfu sy'n gysylltiedig

strategy. These include the digital and low-carbon economy, health and bioscience, as well as the advanced engineering and manufacturing sectors. If we limit the number of students entering the HE sector, how does the Minister plan to increase interest in research projects, and how will he ensure that a cap does not affect students wanting to study in a particular sector?

For many students in Wales, the possibility of studying away is not a feasible option. What consideration has been given to these students, who are unsuccessful in their attempts to secure a place closer to home?

Finally, I thank the Minister again for his statement. I hope that he will address some of the points that I have made today so that we can work together to ensure a prosperous and thriving HE sector here in Wales.

Leighton Andrews: I start by thanking the opposition spokesperson for the tone of his response to my statement. He treated it with seriousness and in a way that is designed to help us to create a bipartisan policy for growing a strong HE sector in Wales. This is not something that we have undertaken lightly. We are the last administration in the United Kingdom to go down this route, and I will seek to keep the limits under review as we get data, year on year, from the Higher Education Funding Council for Wales, the Universities and Colleges Admissions Service and HE institutions. It is important that we have made the commitment to keep looking at the situation. It is not true to say that, in Wales, we have had a target of 50 per cent of 18 to 30-year-olds going into higher education. Our approach has been based on social justice. We want to see widening access throughout, and to encourage people of all ages to go into higher education. Therefore, the objective relating to 18 to 30-year-olds has been held by administrations elsewhere.

In the statement that I made two weeks ago about ensuring that we had stronger higher education institutions in Wales, I made the

â'r strategaeth 'Er Mwyn Ein Dyfodol'. Mae'r rhain yn cynnwys yr economi ddigidol a charbon isel, iechyd a biowyddoniaeth, yn ogystal â'r sectorau peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Os byddwn yn cyfyngu ar nifer y myfyrwyr sy'n dod i mewn i'r sector AU, sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu cynyddu diddordeb mewn prosiectau ymchwil, a sut y bydd yn sicrhau nad yw terfyn yn effeithio ar fyfyrwyr sydd am astudio mewn sector penodol?

I lawer o fyfyrwyr yng Nghymru, nid yw'r posibilrwydd o astudio oddi cartref yn opsiwn ymarferol. Pa ystyriaeth a roddwyd i'r myfyrwyr hyn, sy'n methu yn eu hymdrechion i gael lle yn nes adref?

Yn olaf, diolch i'r Gweinidog eto am ei ddatganiad. Gobeithio y bydd yn mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau yr wyf wedi eu gwneud heddiw er mwyn inni allu cydweithio i sicrhau sector AU llewyrchus a ffyniannus yma yng Nghymru.

Leighton Andrews: Dechreuaf drwy ddiolch i lefarydd yr wrthblaid am dôn ei ymateb i'm datganiad. Bu iddo ei drin â difrifoldeb ac mewn modd a fwriadwyd i'n helpu i greu polisi dwybleidiol ar gyfer datblygu sector AU cryf yng Nghymru. Nid ar chwarae bach yr ydym wedi ymgymryd â hyn. Ni yw'r weinyddiaeth olaf yn y Deyrnas Unedig i fynd ar hyd y trywydd hwn, a byddaf yn ceisio cadw golwg ar y terfynau wrth inni gael data, flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau a sefydliadau AU. Mae'n bwysig ein bod wedi gwneud yr ymrwymiad i barhau i edrych ar y sefyllfa. Nid yw'n wir dweud bod sicrhau bod 50 y cant o bobl ifanc rhwng 18 a 30 oed yn mynd i addysg uwch wedi bod yn darged gennym yng Nghymru. Mae ein dull o ymdrin â hyn wedi bod yn seiliedig ar gyfiawnder cymdeithasol. Yr ydym am weld mynediad yn cael ei ehangu drwyddo draw, ac yr ydym am annog pobl o bob oed i fynd i addysg uwch. Felly, gweinyddiaethau mewn lleoedd eraill sydd wedi pennu'r amcan yn ymwneud â phobl rhwng 18 a 30 oed.

Yn y datganiad a wneuthum bythefnos yn ôl ynghylch sicrhau bod gennym sefydliadau addysg uwch cryfach yng Nghymru, eglurais

point that I hoped that the situation would lead to fewer stronger institutions and fewer vice-chancellors not fewer students, as Paul rightly said. If the institutions followed the approach that is outlined in 'For Our Future' and preserved the emphasis in it on widening access and opportunities, including, for example, through part-time education, we should not see an overall reduction in student numbers. The limit that I am announcing today applies to full-time undergraduate students, not to part-time students.

Through HEFCW's corporate plan and through the 'For Our Future' strategy, we are maintaining our commitment to raising the levels of participation from those in Communities First wards, for example. We also commit to raising the participation rate in the Heads of the Valleys to that of the Wales average. We do that in a number of ways: through ensuring better progression routes from further to higher education and through the development of foundation degrees—and I have outlined £7 million-worth of support for that—and of course by providing the most generous system of student support available.

We know, as Paul Davies says, that there has been significant competition for places in Welsh higher education institutions. There has been a 12 per cent increase in Wales compared with an increase in England of 5 per cent. Therefore, I do not think that there is a danger of Welsh institutions becoming uncompetitive. My priority is to try to ensure that we have the right number of places for students from Wales. I endorse what Paul Davies said about people who were unsuccessful last year or this year. They should look for the routes that may be open to them, whether by reapplying or applying to undertake higher education through different routes. Those options are available.

Finally, on the research sectors that he mentioned, as I said in my statement, the limit on student numbers will apply to full-time undergraduate numbers and not to postgraduate numbers.

fy mod yn gobeithio y byddai'r sefyllfa'n arwain at lai o sefydliadau, a'r rheini'n rhai cryfach, a llai o is-gangellorion, ac nid at lai o fyfyrwyr, fel y dywedodd Paul, yn hollol gywir. Pe bai'r sefydliadau'n dilyn y dull a amlinellir yn 'Er Mwyn Ein Dyfodol' ac yn cadw'r pwyslais ynddo ar ehangu mynediad a chyfleoedd, gan gynnwys, er enghraifft, drwy addysg ran-amser, ni ddylem weld gostyngiad cyffredinol yn niferoedd myfyrwyr. Mae'r terfyn yr wyf yn ei gyhoeddi heddiw yn berthnasol i fyfyrwyr israddedig amser llawn, ac nid i fyfyrwyr rhan-amser.

Drwy gynllun corfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a thrwy'r strategaeth 'Er Mwyn Ein Dyfodol', yr ydym yn parhau â'n hymrwymiad i godi lefelau cyfranogiad gan y rhai mewn wardiau Cymunedau yn Gyntaf, er enghraifft. Yr ydym hefyd yn ymrwmo i godi cyfradd cyfranogiad ym Mlaenau'r Cymoedd fel ei bod yn cyfateb i gyfartaledd Cymru. Yr ydym yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd: drwy sicrhau gwell llwybrau dilyniant o addysg bellach i addysg uwch a thrwy ddatblygu graddau sylfaen—ac yr wyf wedi amlinellu gwerth £7 miliwn o gefnogaeth ar gyfer hynny—ac wrth gwrs drwy ddarparu'r system fwyaf hael o gymorth i fyfyrwyr sydd ar gael.

Gwyddom, fel y dywed Paul Davies, fod cystadleuaeth sylweddol wedi bod am leoedd yn sefydliadau addysg uwch Cymru. Bu cynnydd o 12 y cant yng Nghymru o'i gymharu â chynnydd o 5 y cant yn Lloegr. Felly, nid wyf yn credu bod perygl i sefydliadau Cymru fynd yn anghystadluel. Fy mlaenoriaeth yw ceisio sicrhau bod gennym y nifer iawn o leoedd i fyfyrwyr o Gymru. Yr wyf yn ategu'r hyn a ddywedodd Paul Davies am bobl a fu'n aflwyddiannus y llynedd neu eleni. Dylent edrych am y llwybrau a all fod ar agor iddynt, boed hynny drwy ailymgeisio neu drwy gyflwyno cais i ddilyn addysg uwch drwy lwybrau gwahanol. Mae'r opsiynau hynny ar gael.

Yn olaf, o ran y sectorau ymchwil y soniodd amdanynt, fel y dywedais yn fy natganiad, bydd y terfyn ar niferoedd myfyrwyr yn berthnasol i nifer y myfyrwyr israddedig amser llawn, ac nid nifer y myfyrwyr ôl-radd.

Andrew Davies: I thank the Minister for his statement. I speak as one of three Members who have two universities in their constituency. The sector will welcome the announcement, if not its message or its timing. The sector has clearly been overtrading for some time, as was rightly pointed out, so this announcement may not be welcomed, but at least it is not unexpected.

I have some specific questions for the Minister on his statement. First, how will the cap be calculated and what year will provide the baseline for the calculation? To echo Paul Davies's question about disadvantaged individuals, what the Assembly Government has put in place is clear, targeting student support at young people mostly, although not exclusively, from disadvantaged backgrounds. There are concerns that the cap might unfairly and inadvertently discriminate in favour of better-off students.

There is also an assumption for many that the cap will mean more non-European Union students applying to Welsh universities. That will have a differential impact. I believe that 10 to 11 per cent of students at Swansea University are of a non-EU origin and that the figure is 3 per cent at Swansea Metropolitan University. Therefore, there may well be a differential impact here. Universities will want to make up for any revenue shortfall, and it would be interesting to hear the Minister's comments on that.

On a technical issue of credits, which I have raised with him privately, the Assembly Government has inherited the old market system that the Conservatives established when they were previously in Government. How will that be resolved with the University of Glamorgan particularly? I have raised this with him before, but what impact might that have on this specific issue and on the wider reconfiguration agenda?

Finally, significant private sector interests seem to want to get involved in HE provision. The Minister will be aware of that, but I wonder what the Welsh Assembly Government's attitude is to that, given that

Andrew Davies: Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Yr wyf yn siarad fel un o dri Aelod sydd â dwy brifysgol yn eu hetholaeth. Bydd y sector yn croesawu'r cyhoeddiad, os nad ei neges neu ei amseriad. Mae'n amlwg bod y sector wedi bod yn gorfasnachu ers tro, fel y dywedwyd yn hollol gywir, felly efallai na chaiff y cyhoeddiad hwn ei groesawu, ond o leiaf nid yw'n annisgwyl.

Mae gennyf rai cwestiynau penodol i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Yn gyntaf, sut y caiff y terfyn ei gyfrifo a pha flwyddyn fydd y llinell sylfaen ar gyfer hynny? Ac adleisio cwestiwn Paul Davies ynghylch unigolion difreintiedig, mae'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi ar waith yn glir, gan dargedu cymorth i fyfyrwyr at bobl ifanc yn bennaf, er nad pobl ifanc yn unig, o gefndiroedd difreintiedig. Ceir pryderon y gallai'r terfyn wahaniaethu yn annheg ac yn anfwriadol o blaid myfyrwyr mwy cyfoethog.

Mae llawer hefyd yn tybio y bydd y terfyn yn golygu y bydd mwy o fyfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno ceisiadau i brifysgolion Cymru. Bydd hynny'n cael effaith wahaniaethol. Credaf fod 10 i 11 y cant o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe yn dod o wledydd o'r tu allan i'r UE a bod y ffigur yn 3 y cant ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe. Felly, efallai'n wir fod effaith wahaniaethol yma. Bydd prifysgolion am wneud iawn am unrhyw ddiffyg refeniw, a byddai'n ddiddorol clywed sylwadau'r Gweinidog am hynny.

O ran mater technegol credydau, sef mater yr wyf wedi'i godi gydag ef yn breifat, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi etifeddu'r hen system farchnad a sefydlwyd gan y Ceidwadwyr pan oeddent mewn Llywodraeth o'r blaen. Sut y caiff hynny ei ddatrys gyda Phrifysgol Morgannwg yn benodol? Yr wyf wedi codi hyn gydag ef o'r blaen, ond pa effaith y gallai hynny ei chael ar y mater penodol hwn ac ar yr agenda ad-drefnu ehangach?

Yn olaf, ymddengys fod carfanau sylweddol o'r sector preifat yn awyddus i ymwneud â darpariaeth AU. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o hynny, ond tybed beth yw agwedd Llywodraeth y Cynulliad at hynny, o

any university or institution in Wales might well see that as one way of making up for any challenges in the context of the Brown review later this year and of a lifting of the cap on student fees. What might be the potential impact of involvement with the private sector at a significant level, going well beyond what is currently provided?

3.40 p.m.

Leighton Andrews: Those questions were serious and well thought through, and I will reply to each one in turn. As I said in my statement, HEFCW will be consulting on the details of the limit that I have announced today. If I remember correctly, it is likely that the baseline will be set at 2008-09 levels, but there will be consultation on the detail of that.

As a result of the Merfyn Jones review of higher education funding in particular, we have put in place a generous system of student support, and that is the best way for us to protect access for full-time students from disadvantaged backgrounds. Alongside that, we want to ensure that other entry routes—through further education, part-time study and so on—are available, and we will continue to encourage those. It is important that we see this in the context of the cap on student numbers operating in other countries in the UK, because a clear danger for us would be to end up with a system in which Welsh students were squeezed out of our universities because of caps elsewhere in the UK system, so we have also had to consider that.

Turning to students from overseas, the issue that we are trying to deal with relates to unfunded student places. Higher education institutions in Wales already recruit internationally and do so successfully, and they have made significant progress, achieving recruitment from a number of parts of the world. We want those institutions to continue with that work, but not at the expense of places for home students. In respect of the cap, the issue has more to do

ystyried y gallai unrhyw brifysgol neu sefydliad yng Nghymru weld hynny fel un ffordd o wneud iawn am unrhyw heriau yng nghyd-destun adolygiad Brown yn ddiweddarach eleni a chodi'r terfyn ar ffioedd myfyrwyr? Beth y gallai effaith bosibl ymwneud â'r sector preifat ar lefel sylweddol fod, gan fynd ymhell y tu hwnt i'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd?

Leighton Andrews: Yr oedd y cwestiynau hynny'n ddifrifol ac yr oeddent yn ffrwyth meddwl, ac atebaf bob un yn ei dro. Fel y dywedais yn fy natganiad, bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ymgynghori ynghylch manylion y terfyn yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw. Os cofiaf yn iawn, mae'n debyg mai lefelau 2008-09 a gaiff eu defnyddio i greu'r llinell sylfaen, ond bydd ymgynghori yn digwydd ynglŷn â manylion hynny.

O ganlyniad i adolygiad Merfyn Jones o gyllido addysg uwch yn benodol, yr ydym wedi cyflwyno system hael o gymorth i fyfyrwyr, a dyna'r ffordd orau inni amddiffyn mynediad i fyfyrwyr amser llawn o gefndiroedd difreintiedig. Ochr yn ochr â hynny, yr ydym am sicrhau bod llwybrau mynediad eraill—drwy addysg bellach, cyfleoedd astudio rhan-amser ac yn y blaen—ar gael, a byddwn yn parhau i annog y rheini. Mae'n bwysig inni weld hyn yng nghyd-destun y terfyn ar niferoedd myfyrwyr sy'n gweithredu yng ngwledydd eraill y DU, oherwydd un perygl amlwg fyddai inni gael system lle y byddai myfyrwyr o Gymru'n cael eu gwasgu allan o'n prifysgolion oherwydd y terfynau sydd ar waith mewn rhannau eraill o system y DU, felly bu'n rhaid inni ystyried hynny hefyd.

Gan droi at fyfyrwyr o wledydd tramor, mae'r mater yr ydym yn ceisio ymdrin ag ef yn ymwneud â lleoedd i fyfyrwyr nad ydynt yn cael eu cyllido. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru eisoes yn recriwtio'n rhyngwladol, a hynny'n llwyddiannus, ac maent wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan recriwtio myfyrwyr o nifer o rannau'r byd. Yr ydym am i'r sefydliadau hynny barhau â'r gwaith hwnnw, ond nid ar draul lleoedd ar gyfer myfyrwyr cartref. O safbwynt y terfyn,

with the growth of the financial costs of student support, which fall to us rather than being borne locally, as we know that HE institutions are recruiting on an unfunded basis.

I intend to look at the credit-based system, which you have raised with me before, so we will give the issue consideration.

In response to your point on private sector engagement with higher education, I think that it depends on what sort of engagement you are talking about. We are already encouraging greater collaboration between industry and higher education, and so a number of higher education places in Wales are supported by companies. Last night, several of us were with Airbus, which collaborates with Glyndŵr University, among others. Effective private sector collaborations of that kind are already taking place. There is a desire in some sectors to expand the presence of private universities—and that was talked about in today's media, in fact—and I understand that the Secretary of State for Business, Innovation and Skills at Whitehall is to make a speech tomorrow covering this issue. We want to look carefully at what is being proposed, but, at the end of the day, higher education institutions are autonomous in their operation. The governance of those kinds of arrangements may well be addressed in the review of higher education governance that I have announced, and you will be aware that I have, today, confirmed the names of the other members of that governance review and its terms of reference. We have given evidence to the Brown review, and we will respond when its report is published in the autumn.

Jenny Randerson: Thank you for your statement, Minister. I make it clear that my questions are based on the recognition that you have had a difficult balancing act to manage, as do we all throughout Wales, in maintaining the quality of the education that is provided at our universities at a time of difficult financial circumstances. You took over your role when we in Wales were already well entrenched in a system of lower

mae a wnelo'r mater fwy â'r cynnydd yng nghostau ariannol cymorth i fyfyrwyr, sy'n dod i'n rhan ni yn hytrach na'u bod yn cael eu talu'n lleol, oherwydd gwyddom fod sefydliadau AU yn recriwtio ar sail lleoedd heb eu cyllido.

Bwriadaf edrych ar y system sy'n seiliedig ar gredydau, yr ydych wedi'i chodi gyda mi o'r blaen, felly byddwn yn ystyried y mater.

Mewn ymateb i'ch pwynt ynghylch cael y sector preifat i ymgysylltu ag addysg uwch, yn fy marn i mae'n dibynnu pa fath o ymgysylltu yr ydych yn sôn amdano. Yr ydym eisoes yn annog mwy o gydweithredu rhwng diwydiant ac addysg uwch, felly caiff nifer o leoedd addysg uwch yng Nghymru eu cefnogi gan gwmnïau. Neithiwr, yr oedd amryw ohonom gydag Airbus, sy'n cydweithredu â Phrifysgol Glyndŵr, ymhlith eraill. Mae cydweithredu effeithiol o'r math hwnnw yn y sector preifat eisoes yn digwydd. Ceir awydd mewn rhai sectorau i ehangu presenoldeb prifysgolion preifat—a siaradwyd am hynny yn y cyfryngau heddiw, a dweud y gwir—a deallaf y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn Whitehall yn traddodi araith yfory a fydd yn ymdrin â'r mater hwn. Yr ydym am edrych yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei gynnig, ond, yn y pen draw, mae sefydliadau addysg uwch yn gweithredu mewn modd ymreolaethol. Efallai yr eir i'r afael â llywodraethu'r mathau hynny o drefniadau yn yr adolygiad o drefniadau llywodraethu addysg uwch yr wyf wedi'i gyhoeddi, a gwyddoch fy mod wedi cadarnhau, heddiw, enwau aelodau eraill yr adolygiad hwnnw o drefniadau llywodraethu a'i gylch gorchwyl. Yr ydym wedi rhoi tystiolaeth i adolygiad Brown, a byddwn yn ymateb pan gyhoeddir ei adroddiad yn yr hydref.

Jenny Randerson: Diolch am eich datganiad, Weinidog. Hoffwn ddweud yn glir fod fy nghwestiynau'n seiliedig ar y gydnabyddiaeth eich bod chithau, fel pob un ohonom ledled Cymru, wedi'i chael yn anodd cadw'r ddysgl yn wastad wrth gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir yn ein prifysgolion ar adeg o gyni ariannol. Bu ichi ddechrau yn eich rôl pan oeddem ni yng Nghymru eisoes wedi hen arfer â system o

funding for higher education. In other words, you are not starting with all the assets on your side.

I am pleased that you make reference on page 2 of your statement to the fact that institutions in Wales, despite the poorer funding, have some of the highest scores in satisfaction surveys in the UK, and it is important that we recognise that.

My questions touch on issues similar to those raised by other Members. You referred to the fact that there is a cap elsewhere and to the balance that having a cap here would strike. Do you recognise that, across parties here, we have an ambition to increase the number of young people from Wales who achieve higher education level qualifications? What are your thoughts on how we will increase the number of students who have higher qualifications at a time when we are holding down the number who are able to go to university? That is, in effect, what this will do, although many Welsh students go to English universities.

It needs to be recognised that this ambition to increase the level of students' skills and qualifications has been held, not only by the Labour Party, but across the Assembly, and I do not believe that we should be making it more difficult for them. How you intend to achieve that ambition is an important issue for me.

You quoted some statistics about the increase in the number of applications to Welsh higher education institutions in 2009. Interim figures are available for the current year, however, and the up-to-date figures for this year—which I gather are to be updated later this week—show a 10 per cent increase in Welsh applications to Welsh universities and a 14 per cent increase overall to Welsh universities from students throughout the UK. That means that the level at which you fix the cap is key to whether this is a realistic process or one that will be arduous and difficult for the universities to achieve. If you fix it at last year's level and apply it to next year, universities will be expected to decrease in size and in the teaching that they can offer. If you fix it at this year's level, it will be

gyllid is ar gyfer addysg uwch. Mewn geiriau eraill, nid ydych yn dechrau gyda'r asedau i gyd o'ch plaid.

Yr wyf yn falch ichi gyfeirio ar dudalen 2 yn eich datganiad at y ffaith bod gan sefydliadau yng Nghymru, er gwaetha'r cyllid is, rai o'r sgoriau uchaf mewn arolygon bodlonrwydd yn y DU, ac mae'n bwysig inni gydnabod hynny.

Mae fy nghwestiynau'n ymwneud â materion sy'n debyg i'r rhai a godwyd gan Aelodau eraill. Cyfeiriasoch at y ffaith bod terfyn yn bodoli mewn lleoedd eraill ac at y ffaith y byddai cael terfyn yng Nghymru yn sicrhau cydbwysedd. A ydych yn cydnabod bod gennym uchelgais, ar draws y pleidiau yma, i gynyddu nifer y bobl ifanc o Gymru sy'n ennill cymwysterau ar lefel addysg uwch? Beth yw eich barn am sut y byddwn yn cynyddu nifer y myfyrwyr sydd â chymwysterau uwch a ninnau'n cyfyngu ar y nifer sy'n gallu mynd i'r brifysgol? Dyna, yn ei hanfod, y bydd hyn yn ei wneud, er bod llawer o fyfyrwyr o Gymru yn mynd i brifysgolion yn Lloegr.

Mae angen cydnabod bod cynyddu lefel sgiliau a chymwysterau myfyrwyr wedi bod yn uchelgais nid yn unig i'r Blaid Lafur, ond ar draws y Cynulliad, ac nid wyf yn credu y dylem fod yn ei gwneud yn anoddach iddynt. Mae sut yr ydych yn bwriadu gwireddu'r uchelgais hwnnw yn fater pwysig imi.

Bu ichi ddyfynnu ystadegau am y cynnydd yn nifer y ceisiadau i sefydliadau addysg uwch Cymru yn 2009. Mae ffigurau dros dro ar gael ar gyfer y flwyddyn bresennol, fodd bynnag, ac mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer eleni—a deallaf y byddant yn cael eu diweddarau yn ddiweddarach yr wythnos hon—yn dangos cynnydd o 10 y cant mewn ceisiadau gan bobl o Gymru i brifysgolion Cymru a chynnydd o 14 y cant yn gyffredinol yn nifer y ceisiadau i brifysgolion Cymru gan fyfyrwyr ledled y DU. Mae hynny'n golygu bod lefel y terfyn y byddwch yn ei osod yn allweddol o ran a fydd hon yn broses realistig neu'n un a fydd yn llafurus ac yn anodd i'r prifysgolion ei chyflawni. Os byddwch yn ei osod ar yr un lefel â'r llynedd ac yn ei ddefnyddio ar gyfer y flwyddyn nesaf, bydd

easier to achieve. I am interested in your comments on that.

Finally, I am interested in whether you intend to take account of the individual numbers and the balance from one university to another across Wales, whether you want to fix a total and leave it to the universities or HEFCW to sort it out among themselves, or whether you intend in any way to look at the balance of where the places are available. I have previously written to you specifically about the situation of Glyndŵr University, which is effectively the only university operating in the Wrexham area, where the number of young people going to university is much lower than average and lower than what you would expect. It experiences considerable pressure on its places. It used to be the case that the University of Glamorgan operated courses in that area, but it does not anymore. When it withdrew from the area, it took its allocation of funded places with it. Therefore, that part of Wales has suffered a decrease in the number of places effectively available. In the days of a freer approach to this, it perhaps did not matter quite as much, but if you are going to apply an effective cap, it will have a considerable effect on that part of Wales, so the balance across universities matters a great deal.

3.50 p.m.

Leighton Andrews: I welcome the way in which she has approached the question, because it is a complex one and these are not steps that we would lightly take. I have to start by taking up the point that she makes every time that she addresses this issue, which is on the balance of funding between Wales and England. As I have said before, if you add together the generous support that we give to students and the investments made in higher education, you come out with figures that are pretty close, on a per head basis, between Wales and England. In any case, we are watching a series of

disgwyll i brifysgolion leihau o ran eu maint ac o ran y gwaith addysgu y gallant ei gynnig. Os byddwch yn ei osod ar yr un lefel ag eleni, bydd yn haws ei gyflawni. Mae gennyf ddiddordeb mewn clywed eich sylwadau am hynny.

Yn olaf, mae gennyf ddiddordeb mewn gwybod a ydych yn bwriadu ystyried y niferoedd unigol a'r cydbwysedd o'r naill brifysgol i'r llall ledled Cymru, a ydych am osod cyfanswm a gadael i'r prifysgolion neu Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ei drefnu ymysg ei gilydd, neu a ydych yn bwriadu edrych mewn unrhyw ffordd ar y cydbwysedd o safbwynt ble y mae'r lleoedd ar gael. Yr wyf wedi ysgrifennu atoch o'r blaen yn benodol am sefyllfa Prifysgol Glyndŵr, sef yr unig brifysgol sy'n gweithredu yn ardal Wrecsam i bob pwrpas, lle y mae nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r brifysgol yn is o lawer na'r cyfartaledd ac yn is na'r hyn y byddech yn ei ddisgwyll. Mae pwysau sylweddol ar y brifysgol o ran y nifer sy'n dymuno cael lle yno. Yn y gorffennol, arferai Prifysgol Morgannwg gynnig cyrsiau yn yr ardal honno, ond nid yw'n gwneud hynny rhagor. Pan dynnodd allan o'r ardal, aeth â'i dyraniad o leoedd wedi eu cyllido gyda hi. Felly, mae'r rhan honno o Gymru wedi dioddef gostyngiad yn nifer y lleoedd sydd ar gael, i bob pwrpas. Yn y cyfnod pan oedd mwy o ryddid yn hyn o beth, efallai nad oedd cymaint o bwys, ond os ydych am weithredu terfyn effeithiol, bydd yn cael effaith sylweddol ar y rhan honno o Gymru, felly mae'r cydbwysedd ar draws prifysgolion yn bwysig iawn.

Leighton Andrews: Yr wyf yn croesawu'r ffordd y mae wedi ymdrin â'r cwestiwn, oherwydd y mae'n un cymhleth ac nid ar chwarae bach y byddem yn cymryd y camau hyn. Rhaid imi ddechrau drwy ymateb i'r pwynt a wna bob tro y bydd yn sôn am y mater hwn, sef y cydbwysedd o ran cyllid rhwng Cymru a Lloegr. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, os cyfunwch y gefnogaeth hael yr ydym yn ei rhoi i fyfyrwyr a'r buddsoddiadau a wneir mewn addysg uwch, cewch ffigurau sy'n eithaf agos, ar sail y pen, rhwng Cymru a Lloegr. Sut bynnag, yr ydym yn gwylio cyfres o ddatblygiadau ym maes

developments in higher education in England, where the Government there has already announced reductions in planned student places on top of its existing cap. Therefore, plans by the previous UK Government for an additional 20,000 places in England, for example, have been reduced to an additional 10,000. Steps are already being taken there and we anticipate, from the heavily leaked speech that we understand that the Secretary of State for Business, Innovation and Skills is due to give tomorrow, that Vince Cable and David Willetts are looking at several other issues, including two-year degrees with shorter holidays, more students living at home to study via local institutions and more private universities. An agenda is developing that has to be set in the context of the cuts that have been announced there.

In a situation in which caps on student numbers exist elsewhere in the UK, it is inevitable that we would have had to look at limits at some stage. We have seen a significant increase in student numbers in Wales. We are pleased that we have seen more young people getting a higher education and qualifications as a result of that. The approach that we are taking is less one of holding down numbers, to use her terms, and more of trying to constrain the rate of growth. There will be detailed operational issues that will need to be consulted upon by HEFCW, as it looks into the detail of how this limit will operate, but I remind her that we have significant cross-border flows of students between Wales and England and that we are a big net importer of students. Therefore, as I said, it was inevitable that we would have had to look at the system for limiting overall numbers of full-time undergraduates.

In respect of the limit, we are looking for it to come in during 2011-12, which will give HEFCW time to discuss the detail with Wales's higher education institutions. She raised the issue of credits in respect of Glyndŵr—it is a similar issue to that raised earlier by Andrew Davies—and I will certainly look at that. However, my statement

addysg uwch yn Lloegr, lle y mae'r Llywodraeth yno eisoes wedi cyhoeddi gostyngiadau yn nifer y lleoedd arfaethedig i fyfyrwyr ar ben ei therfyn presennol. Felly, mae cynlluniau gan Lywodraeth flaenorol y DU i gael 20,000 o leoedd ychwanegol yn Lloegr, er enghraifft, wedi cael eu cwtdgi i 10,000 ychwanegol. Mae camau eisoes yn cael eu cymryd yno, ac yn ôl yr araith y mae llawer ohoni wedi'i datgelu'n answyddogol ac yr ydym yn cael ar ddeall y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau yn ei thraddodi yfory, yr ydym yn rhagweld bod Vince Cable a David Willetts yn edrych ar sawl mater arall, gan gynnwys graddau dwy flynedd gyda gwyliau byrrach, rhagor o fyfyrwyr yn byw gartref i astudio drwy sefydliadau lleol a rhagor o brifysgolion preifat. Mae agenda'n datblygu a rhaid ei gosod yng nghyd-destun y toriadau sydd wedi eu cyhoeddi yno.

Mewn sefyllfa lle y mae terfynau ar niferoedd myfyrwyr yn bodoli mewn rhannau eraill o'r DU, mae'n anochel y byddem wedi gorfod edrych ar derfynau rywbyrd. Mae niferoedd myfyrwyr wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru. Yr ydym yn falch ein bod wedi gweld mwy o bobl ifanc yn cael addysg uwch a chymwysterau o ganlyniad i hynny. Mae a wnelo'r trywydd yr ydym yn ei ddilyn lai â chyfyngu ar nifer y myfyrwyr, chwedl hithau, a mwy â cheisio cyfyngu ar gyfradd y twf. Bydd rhai materion gweithredol manwl y bydd angen i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ymgynghori yn eu cylch, wrth iddo edrych ar sut yn union y bydd y terfyn hwn yn gweithredu, ond yr wyf yn ei hatgoffa bod gennym lif sylweddol o fyfyrwyr sy'n croesi'r ffin y ddwy ffordd rhwng Cymru a Lloegr, a bod nifer y myfyrwyr sy'n dod i Gymru yn fwy na'r nifer sy'n ei gadael. Felly, fel y dywedais, yr oedd yn anochel y byddai'n rhaid inni edrych ar y system ar gyfer cyfyngu ar nifer cyffredinol yr israddedigion amser llawn.

O safbwynt y terfyn, yr ydym yn gobeithio y bydd yn dod i rym yn ystod 2011-12, a bydd hyn yn rhoi amser i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru drafod y manylion â sefydliadau addysg uwch Cymru. Cododd fater credydau o safbwynt Prifysgol Glyndŵr—sy'n debyg i'r mater a gododd Andrew Davies yn gynharach—ac yn

of two weeks ago about the strength of higher education institutions in Wales needs to be taken seriously, because the real issue is how we ensure that we have a block of higher education institutions in Wales that is sustainable for the long term and higher education institutions that are strong and able to deliver. That will include some institutions looking to mergers or other forms of collaboration with other institutions. All higher education institutions in Wales need to look at that agenda.

Nerys Evans: Diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Fel yr ydych wedi nodi yn y datganiad ac fel y tynnodd Jenny Randerson sylw ato, mae'n dda gweld prifysgolion Cymru ar ben y tabl o fodlonrwydd myfyrwyr. Yn amlwg, yr ydym eisiau i hynny barhau. Yr wyf yn falch hefyd o weld y cynnydd yn y ganran o fyfyrwyr o Gymru sy'n aros yma i astudio ar lefel addysg uwch. Er ei bod yn bwysig bod cyfleoedd gan ein pobl ifanc i fynd y tu hwnt i Gymru ar gyfer addysg uwch, fel y gwneuthum i, mae'n bwysig bod cyfleoedd yma os yw myfyrwyr eisiau astudio ym mhrifysgolion Cymru, yn enwedig o edrych ar gost astudio mewn prifysgolion ar draws y ffin a'r cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i fyfyrwyr sydd yn astudio yng Nghymru.

Soniodd eich datganiad am eich bwriad i gyflwyno mesurau rheoli rhifau myfyrwyr ac y bydd yn anodd i'r cap hwn wahaniaethu rhwng meysydd blaenoriaeth a meysydd eraill. Beth fydd y sefyllfa wrth ddelio â myfyrwyr o Gymru a myfyrwyr o'r tu allan i Gymru? A fydd mecanwaith ar waith i sicrhau bod y twf yr ydym wedi ei weld dros y blynyddoedd diwethaf yn y ganran o fyfyrwyr o Gymru sydd yn aros yma i astudio yn cael ei warchod? Pa gamau a fydd ar waith yn eich cynlluniau?

Fel mae'r rhan fwyaf o siaradwyr y prynhawn yma wedi sôn, mae sicrhau mynediad i addysg uwch wedi bod yn bolisi clir gan Lywodraeth Cymru'n Un ac yr wyf yn falch o hynny. Wrth i chi gyflwyno'r mesurau hyn, sut yr ydych yn bwriadu sicrhau bod y cyfleoedd ar gael i bawb sydd eisiau astudio ar lefel addysg uwch? Mae

bendant, byddaf yn edrych ar hynny. Fodd bynnag, mae angen cymryd y datganiad a wneuthum bythefnos yn ôl am gryfder sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o ddifrif, oherwydd y broblem go iawn yw sut yr ydym yn sicrhau bod gennym floc o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n gynaliadwy ar gyfer y tymor hir a sefydliadau addysg uwch sy'n gryf ac sy'n gallu cyflawni. Bydd hynny'n golygu y bydd rhai sefydliadau'n ystyried cyfuno neu ddulliau eraill o gydweithredu â sefydliadau eraill. Mae angen i bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru edrych ar yr agenda honno.

Nerys Evans: Thank you for your statement this afternoon. As you noted in the statement, and as Jenny Randerson mentioned, it is good to see Welsh universities at the top of the student satisfaction table. Obviously, we want that to continue. I am also pleased to see the increase in the percentage of students from Wales who have stayed here to study at higher education level. Although it is important that our young people have opportunities to go outside Wales for higher education, as I did, it is important that there are opportunities here if students want to study at Welsh universities, particularly when considering the cost of studying at universities across the border and the financial aid available from the Welsh Government to students studying in Wales.

Your statement mentioned your intention to introduce measures to control student numbers and it will be difficult for this cap to distinguish between priority areas and others. What will the situation be when dealing with students from Wales and students from outside Wales? Will there be a mechanism in place to ensure that the growth that we have seen in recent years in the percentage of students from Wales who stay here to study will be protected? What steps will be in place in your plans?

As most of the speakers this afternoon have said, ensuring access to higher education has been a clear policy of the One Wales Government and I am proud of that. When you introduce these measures, how do you intend to ensure that opportunities are available to all who want to study at higher education level? Attracting students from

denu myfyrwyr o gefndiroedd gwahanol— cefndiroedd difreintiedig a chefndiroedd nad ydynt yn draddodiadol o ran anfon myfyrwyr i addysg uwch—yn hynod bwysig, a gwn fod hynny'n bwysig iawn i'r Llywodraeth, am resymau cydraddoldeb, rhesymau economaidd a rhesymau cymdeithasol. Yr ydym yn ymwybodol o'r cynlluniau ariannol sydd ar gael i'r myfyrwyr tlotaf, ond gyda rheolaeth lymach ar nifer y myfyrwyr yn ein prifysgolion, a ydych yn ffyddiog fod y polisiau yn eu lle i sicrhau mynediad eang at addysg uwch yng Nghymru?

Yr ydych yn datgan yn glir nad yw'r datganiad a'r polisi hwn yn golygu cwtogiad yng nghyllid cyhoeddus ein prifysgolion. A allwch gadarnhau nad bwriad y Llywodraeth yw defnyddio'r mecanwaith hwn i dorri ar gyllid addysg uwch? Gwyddom fod Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig wedi ein condemnio ni yng Nghymru i doriadau enfawr mewn cyllid cyhoeddus a fydd yn effeithio'n fawr ar bob un o'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym yn eu darparu, gan gynnwys addysg. Yr ydym wedi gweld, fel y soniwyd gennych yn eich ateb i Jenny Randerson, Llywodraeth Llundain yn cwtogi ar nifer y myfyrwyr a fydd yn cael mynediad i brifysgolion Lloegr. Mae'r Llywodraeth yn Llundain yn sôn am doriadau o hyd at 40 y cant mewn rhai meysydd. Gwyddom ei bod yn ddyddiau cynnar ac y cawn fwy o fanylion yn yr hydref, ond yn sgîl y toriadau enfawr hyn, pa waith cynllunio neu baratoi yr ydych yn ei wneud ym maes addysg uwch? Beth fydd effaith y toriadau hyn ar y myfyrwyr yn ein prifysgolion?

I gloi, yr wyf yn falch o weld eich ymrwymiad i sicrhau cynnydd yn nifer y myfyrwyr addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny'n hanfodol i sicrhau llwyddiant y coleg ffederal. Wrth i'r coleg ffederal ddechrau ar ei waith, a allwch sicrhau hyblygrwydd yn y system i ysgogi mwy o fynediad i gyrsiau cyfrwng Cymraeg wrth iddynt gael eu datblygu? Er mwyn i'r coleg ffederal allu llwyddo yn ei waith, a oes hyblygrwydd yn y system i sicrhau'r posibilrwydd o gael mwy o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ein prifysgolion?

different backgrounds, including people from disadvantaged backgrounds and those who do not come from backgrounds where people have traditionally accessed higher education, is very important. I know that that is a priority for the Government for reasons of equality, as well as for social and economic reasons. We are aware of the financial schemes available for the poorer students, but with stricter management of the number of students at our universities, are you confident that policies are in place to ensure widespread access to higher education in Wales?

Finally, you clearly state that this policy does not mean that there will be a reduction in public funding for our universities. Can you confirm that it is not the Government's intention to use this mechanism to cut funding for higher education? We know that the new United Kingdom Government has condemned us here in Wales to huge cuts in public expenditure that will have a huge impact on all of the public services that we provide, including education. As you mentioned in your response to Jenny Randerson, we have seen the Government in London cutting the number of students who will be able to access university education in England. The Government in London is talking about cuts of up to 40 per cent in some areas. We know that these are early days and that we will get more information in the autumn, however, in light of these huge cuts, what planning or preparatory work are you undertaking with regard to higher education? What impact will these cuts have on students in our universities?

In conclusion, I am pleased to see your commitment to ensuring an increase in the number of higher education students studying through the medium of Welsh. That is crucial in ensuring the success of the *coleg ffederal*. As it starts its work, can you ensure that there is flexibility in the system to encourage more access to Welsh-medium courses as they are developed? So that the *coleg ffederal* succeeds in attracting students, will there be flexibility in the system to ensure that it will be possible to encourage more students to study through the medium of Welsh at our universities?

Leighton Andrews: Again, that was a series of important questions. I am glad that you drew attention, as Jenny did, to the high levels of satisfaction that students have with higher education institutions in Wales. Obviously, we want to encourage as many young people as possible to go to higher education institutions in Wales, and that will continue to be an objective. However, equally, we want to encourage students from non-traditional backgrounds. We have a range of positive measures in place to do just that. The first is the generous student support arrangements that we have in Wales. I think that they are probably more generous than those in other parts of the United Kingdom, and we have accentuated those with the national bursary that I announced a few weeks ago. We are also making provision for support for students doing foundation degrees, and we are seeking to encourage the growth of delivery of higher education through further education and improving progression routes. The work that is being done by HEFCW on the regional planning of higher education and relationships with further education remains a very important part of that process of promoting access.

It is difficult for me to make any long-term predictions, or even medium-term predictions, with regard to public spending on higher education in Wales. As you know, we have sought to protect capital spending in this financial year, as the Minister for Business and Budget outlined yesterday, but we simply do not know the detail of what the comprehensive spending review is likely to bring in the autumn. Like you, I have seen figures of 25 per cent, 30 per cent and 40 per cent floating around with regard to cuts in a number of budgets, including higher education budgets, over recent weeks in respect of the situation in England. As I said, we have tried to protect HE funding, broadly flatlining it year-on-year from last year to this. We have our commitments to widening access and strengthening the higher education system in Wales, but we cannot operate in a vacuum. We will have to take a careful look—as we are currently doing, line by line—at our budgets in education, although we will clearly not be able to reach a

Leighton Andrews: Eto, yr oedd hynny'n gyfres o gwestiynau pwysig. Yr wyf yn falch ichi dynnu sylw, fel y gwnaeth Jenny, at y ffaith bod gan fyfyrwyr lefelau uchel o fodlonrwydd â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Yn amlwg, yr ydym am annog cynifer o bobl ifanc â phosibl i fynd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a bydd hynny'n parhau'n amcan. Fodd bynnag, yn yr un modd, yr ydym am annog myfyrwyr o gefndiroedd nad ydynt yn draddodiadol. Mae gennym ystod o fesurau cadarnhaol ar waith i wneud yr union beth hwnnw. Y cyntaf yw'r trefniadau hael ar gyfer cymorth i fyfyrwyr sydd gennym yng Nghymru. Credaf eu bod yn fwy hael, mae'n debyg, na'r trefniadau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ac yr ydym wedi cryfhau'r rheini â'r fwrariaeth genedlaethol a gyhoeddais ychydig wythnosau'n ôl. Yr ydym hefyd yn darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n dilyn graddau sylfaen, ac yr ydym yn ceisio annog twf yn y ddarpariaeth addysg uwch a gyflwynir gan sefydliadau addysg bellach a gwella llwybrau dilyniant. Mae'r gwaith y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ei wneud ar gynllunio addysg uwch yn rhanbarthol, a chysylltiadau ag addysg bellach yn dal yn rhan bwysig iawn o'r broses honno o hybu mynediad.

Mae'n anodd imi ragfynegi dim ynghylch y tymor hir, na'r tymor canolig hyd yn oed, o safbwynt gwariant cyhoeddus ar addysg uwch yng Nghymru. Fel y gwyddoch, yr ydym wedi ceisio diogelu gwariant cyfalaf yn y flwyddyn ariannol hon, fel yr amlinellodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ddoe, ond ni wyddom fanylion yr hyn y mae'r adolygiad cynhwysfawr o wariant yn debyg o'i gyflwyno yn yr hydref. Fel chithau, yr wyf wedi gweld ffigurau o 25 y cant, 30 y cant a 40 y cant yn cael eu crybwyll o safbwynt toriadau mewn nifer o gyllidebau, gan gynnwys cyllidebau addysg uwch, dros yr wythnosau diwethaf ynglŷn â'r sefyllfa yn Lloegr. Fel y dywedais, yr ydym wedi ceisio diogelu cyllid AU, gan ei gadw ar yr un lefel â'r llynedd i bob pwrpas. Mae gennym ein hymrwymiaidau i ehangu mynediad a chryfhau'r system addysg uwch yng Nghymru, ond ni allwn weithredu'n ddi-gydestun. Bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus—fel yr ydym yn gwneud ar hyn o bryd, fesul llinell—ar ein cyllidebau ar gyfer

conclusion until the comprehensive spending review has been published.

addysg, er na fyddwn, yn amlwg, yn gallu dod i gasgliad nes bydd yr adolygiad cynhwysfawr o wariant wedi cael ei gyhoeddi.

4.00 p.m.

With regard to Welsh-medium education and the *coleg ffederal*, I am grateful to the Member for her recognition of what we are trying to do in that regard. As I said before, and as I have reiterated in the statement, I think that we are on track with the delivery of the *coleg ffederal*. I am sure that she will have noted today that the Chair of the *coleg ffederal* board, Geraint Talfan Davies, is on the review of higher education governance. Therefore, the intent is there to ensure that, as we review higher education governance, there is a specific focus on our commitments to deliver higher education through the medium of Welsh.

O safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg a'r coleg ffederal, yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am iddi gydnabod yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yn hynny o beth. Fel y dywedais o'r blaen, ac fel yr wyf wedi ailadrodd yn y datganiad, credaf ein bod ar y trywydd iawn o safbwynt cyflwyno'r coleg ffederal. Yr wyf yn siŵr y bydd wedi nodi heddiw fod Cadeirydd bwrdd y coleg ffederal, Geraint Talfan Davies, yn rhan o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu addysg uwch. Felly, mae'n fwriad sicrhau bod ffocws penodol ar ein hymrwymiaidau i ddarparu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth inni adolygu trefniadau llywodraethu addysg uwch.

Cymeradwyo Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010
Approval of the Environmental Civil Sanctions (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2010

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move that

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigiad fod

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 24.4:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.4:

1. approves that the draft the Environmental Civil Sanctions (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2010 be made in accordance with the draft laid in the Table Office on 15 June 2010. (NDM4527)

1. yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft y Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2010. (NDM4527)

In moving this motion, I would like to say a few things in response to the Constitutional Affairs Committee, which considered this statutory instrument, and the next one on the agenda, at its meeting on 1 July. The report made under Standing Order No. 15.3 on the merits of the instrument invites the Assembly to pay special attention to these instruments on the grounds that they give

Wrth gyflwyno'r cynnig hwn, hoffwn ddweud rhai pethau i ymateb i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, a fu'n ystyried yr offeryn statudol hwn, a'r offeryn statudol nesaf ar yr agenda, yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf. Mae'r adroddiad a luniwyd o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3 ar ragoriaethau'r offeryn yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offerynnau hyn oherwydd eu bod yn

'rise to issues of public policy likely to be of

'codi materion am bolisi cyhoeddus a allai

interest to the Assembly’.

The committee agreed that it would be helpful for me to address directly the reasons for the points of difference between the Order and regulations implemented in England on 6 April and the proposed Wales Order and regulations before you today. The Chair of the committee wrote to me raising these points on 7 July and I responded to her on 8 July.

It is important to note that the committee agreed that it was perfectly acceptable for there to be differences between the Welsh and English arrangements. The Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 gives the Welsh Ministers power to make Orders for civil sanctions where the provision relates to a Welsh ministerial matter. I will address each of the points raised in the report.

In England, civil sanction powers have been given to the Environment Agency and Natural England. In Wales, it is proposed that only the Environment Agency will be given civil sanctioning powers at this time. That is because the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 requires the Welsh Ministers to be satisfied, before conferring power on a regulator to issue civil sanctions, that the regulator will use the power in accordance with the principles set out in the Act: that is, that regulatory activities should be carried out in a way which is transparent, accountable, proportionate and consistent and that they should be targeted only at cases in which action is needed. We considered giving similar powers to the Countryside Council for Wales, but before we can confer civil sanction powers on the council it is necessary for some form of assessment to be carried out of the regulatory activities, policies, procedures and governance arrangements that the Countryside Council for Wales has in place in order to meet the requirements of Act. Delaying giving CCW civil sanction powers will not have a significant impact on its regulatory enforcement activities, and officials have had discussions with CCW about making arrangements for the necessary assessment to

fod o ddiddordeb i'r Cynulliad’.

Cytunodd y pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol imi roi sylw'n uniongyrchol i'r rhesymau dros y pwyntiau sy'n wahanol rhwng y Gorchymyn a'r rheoliadau a weithredwyd yn Lloegr ar 6 Ebrill a'r Gorchymyn a'r rheoliadau arfaethedig i Gymru, sydd ger eich bron heddiw. Ysgrifennodd Cadeirydd y pwyllgor ataf i godi'r pwyntiau hyn ar 7 Gorffennaf, ac ymatebais iddi ar 8 Gorffennaf.

Mae'n bwysig nodi i'r pwyllgor gytuno bod gwahaniaethau rhwng y trefniadau yng Nghymru a'r trefniadau yn Lloegr yn gwbl dderbyniol. Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio Gorchymynion ar gyfer sanctsiynau sifil, os yw'r ddarpariaeth yn gysylltiedig â mater sy'n ymwneud â Gweinidogion Cymru. Yr wyf am roi sylw i bob un o'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad.

Yn Lloegr, mae pwerau ynghylch sanctsiynau sifil wedi'u rhoi i Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England. Yng Nghymru, cynigir mai Asiantaeth yr Amgylchedd yn unig a fydd yn cael pwerau ynghylch sanctsiynau sifil ar hyn o bryd. Y rheswm am hynny yw bod Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn fodlon, cyn y rhoddir pŵer i reoleiddiwr gyflwyno sanctsiynau sifil, y bydd y rheoleiddiwr yn defnyddio'r pŵer yn unol â'r egwyddorion a geir yn y Ddeddf: hynny yw, y dylai gweithgareddau rheoleiddiol gael eu cyflawni mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson, ac na ddylent gael eu targedu ond at achosion lle y mae angen gweithredu. Bu inni ystyried rhoi pwerau tebyg i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ond cyn y gallwn roi pwerau ynghylch sanctsiynau sifil i'r cyngor, mae'n angenrheidiol cynnal rhyw fath o asesiad o'r gweithgareddau rheoleiddiol, y polisïau, y gweithdrefnau a'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru er mwyn bodloni gofynion y Ddeddf. Ni fydd oedi o ran rhoi pwerau ynghylch sanctsiynau sifil i'r Cyngor Cefn Gwlad yn cael effaith sylweddol ar ei weithgareddau gorfodi rheoleiddiol, ac mae swyddogion wedi cael trafodaethau â'r Cyngor Cefn

take place. If CCW demonstrates the compliance required, the Order could be amended to bring it in.

A power of entry was provided for in the England Order specifically for Natural England. No power of entry was provided within the Wales Order, because the Environment Agency already has powers of entry. Therefore, the requirement was not needed. The England Order includes a cap of £250,000 on the amount that may be charged by a regulator for a variable monetary penalty. The Wales Order does not provide this regulatory cap. We agreed to the placing of the cap on the variable monetary penalties. It has not been provided for in the Wales Order, because there is no enabling power in the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 that would allow for the imposition of a cap. Instead, the Welsh Assembly Government has recommended to the Environment Agency, as our regulator in Wales, that it apply the cap for variable monetary penalties, and this will be included in guidance that we will issue, jointly with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, to the Environment Agency.

Article 14 of the Wales Order states that the Welsh Ministers may disapply various requirements to publish reports if they consider that publication would be inappropriate. In the England Order, this power is instead given to the regulators. The draft Wales Order reflects the wording of section 65(4) of the parent Act, which states that the provision requiring publication of the enforcement action does not need to apply in cases where the 'relevant authority' considers that it would be inappropriate to do so. The 'relevant authority' is defined in the parent Act as meaning 'the Welsh Ministers'.

There are a number of other differences between the England and Wales Order and regulations highlighted by the Constitutional Affairs Committee, but they are minor differences and reflect legal drafting practice. In following that practice, Welsh Assembly

Gwlad ynghylch gwneud trefniadau i gynnal y gwaith asesu angenrheidiol. Os bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn dangos ei fod yn cydymffurfio fel sy'n ofynnol, gallai'r Gorchymyn gael ei ddiwygio i'w gynnwys.

Darparwyd ar gyfer pŵer mynediad yng Ngorchymyn Lloegr, ar gyfer Natural England yn benodol. Ni ddarparwyd pŵer mynediad yng Ngorchymyn Cymru, oherwydd bod gan Asiantaeth yr Amgylchedd bwerau mynediad eisoes. Felly, nid oedd angen y gofyniad. Mae Gorchymyn Lloegr yn cynnwys terfyn o £250,000 ar y swm y gall rheoleiddiwr ei godi ar gyfer cosb ariannol sy'n amrywio. Nid yw Gorchymyn Cymru yn darparu'r terfyn rheoleiddiol hwn. Bu inni gytuno bod modd gosod y terfyn ar y cosbau ariannol sy'n amrywio. Ni ddarparwyd ar gyfer hynny yng Ngorchymyn Cymru, oherwydd ni cheir pŵer galluogi yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008, a fyddai'n caniatáu gosod terfyn. Yn hytrach, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi argymhell wrth Asiantaeth yr Amgylchedd, fel ein rheoleiddiwr yng Nghymru, y dylai weithredu'r terfyn ar gyfer cosbau ariannol sy'n amrywio, a bydd hynny'n cael ei gynnwys mewn canllawiau y byddwn yn eu rhoi i Asiantaeth yr Amgylchedd, ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Mae Erthygl 14 Gorchymyn Cymru yn nodi y gall Gweinidogion Cymru ddatgymhwyso amryw ofynion i gyhoeddi adroddiadau, os byddant o'r farn y byddai eu cyhoeddi yn amhriodol. Yng Ngorchymyn Lloegr, rhoddir y pŵer hwn yn hytrach i'r rheoleiddwyr. Mae Gorchymyn drafft Cymru yn adlewyrchu geiriad adran 65(4) y rhiant Ddeddf, sy'n nodi nad oes angen i'r ddarpariaeth sy'n mynnu y dylid cyhoeddi'r cam gorfodi fod yn berthnasol mewn achosion lle y mae'r 'awdurdod perthnasol' o'r farn y byddai'n amhriodol gwneud hynny. Yn ôl y rhiant Ddeddf, y diffiniad o 'awdurdod perthnasol' yw 'Gweinidogion Cymru'.

Ceir amryw o wahaniaethau eraill rhwng Gorchymyn a rheoliadau Cymru a Lloegr, y tynnodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol sylw atynt, ond mân wahaniaethau ydynt, ac maent yn adlewyrchu arfer drafftio cyfreithiol. Wrth ddilyn yr arfer

Government lawyers have remained consistent with the provisions of the parent Act. There is no difference in the effects of the provisions.

Alun Davies: Thank you for those opening remarks, Minister. Members will be aware that I am deputising for Janet Ryder in speaking in this debate. Janet, as Chair of the Constitutional Affairs Committee, would normally give this report, but in her absence the committee has asked me to do so.

Members will also be aware that the Constitutional Affairs Committee is required to consider statutory instruments laid before the Assembly, and to report on whether special attention should be paid to them for a range of technical and legal reasons. The committee is also able to report under Standing Order No. 15.3 on what are known as the merits of statutory instruments. There are a number of grounds for merits reports, including, most often—as in this case—that the statutory instrument gives rise to issues of public policy that are likely to be of wider interest to the Assembly. I should make it clear at this point that the purpose of making the merits report is not to question the underlying policy behind regulations or necessarily to be critical. The committee is not opposed to these regulations, and it is not suggesting that they should not be approved this afternoon.

There are some extraordinarily mild criticisms in our report, which refer more to the explanatory memorandum than to the regulations. The committee felt that the explanatory memorandum was not as helpful as it might have been in explaining the differences between the regulations here and the otherwise similar arrangements that will apply in England. Otherwise, our report simply flags up for Members' information a range of matters that emphasise, as the Minister said in her opening remarks, the significance of these regulations. I am pleased to say that the Minister has responded to our report in writing, and, in her

hwnnw, mae cyfreithwyr Llywodraeth y Cynulliad wedi parhau'n gyson â darpariaethau'r rhiant Ddeddf. Ni cheir dim gwahaniaeth rhwng effeithiau'r darpariaethau.

Alun Davies: Diolch am y sylwadau agoriadol hynny, Weinidog. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fy mod yn dirprwyo dros Janet Ryder wrth siarad yn y ddadl hon. Janet fyddai'n rhoi'r adroddiad hwn fel rheol, fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, ond yn ei habsenoldeb mae'r pwyllgor wedi gofyn i mi wneud hynny.

Bydd yr Aelodau yn ymwybodol hefyd ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol ystyried offerynnau statudol a osodir gerbron y Cynulliad, ac adrodd ynghylch a ddylid rhoi sylw arbennig iddynt am amryw o resymau technegol a chyfreithiol. Mae'r pwyllgor hefyd yn gallu cyflwyno adroddiad o dan Reol Sefydlog Rhif 15.3 ynghylch yr hyn a elwir yn rhagoriaethau offerynnau statudol. Ceir amryw o resymau dros gyflwyno adroddiadau ynghylch rhagoriaethau, gan gynnwys y rheswm amlaf—fel yn yr achos hwn—sef bod yr offeryn statudol yn codi materion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb ehangach i'r Cynulliad. Dylwn egluro yn y fan hon nad diben llunio'r adroddiad ynghylch rhagoriaethau yw cwestiynu'r polisi sylfaenol sydd wrth wraidd y rheoliadau, na bod yn feirniadol o reidrwydd. Nid yw'r pwyllgor yn erbyn y rheoliadau hyn, ac nid yw'n awgrymu na ddylid eu cymeradwyo y prynhawn yma.

Ceir rhai beirniadaethau bach dros ben yn ein hadroddiad, sy'n cyfeirio mwy at y memorandwm esboniadol na'r rheoliadau. Yr oedd y pwyllgor o'r farn nad oedd y memorandwm esboniadol mor ddefnyddiol ag y gallai fod wrth esbonio'r gwahaniaethau rhwng y rheoliadau yn y fan hon a'r trefniadau tebyg, fel arall, a fydd yn berthnasol yn Lloegr. Fel arall, y cyfan a wna ein hadroddiad yw tynnu sylw'r Aelodau, er gwybodaeth, at amryw o faterion sy'n pwysleisio pwysigrwydd y rheoliadau hyn, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol. Yr wyf yn falch o ddweud i'r Gweinidog ymateb i'n hadroddiad yn

opening remarks, she has referred to some of the issues that were mentioned by the committee and raised in the report. The Minister's letter to the committee is available to Members, and the committee believes that the Minister has adequately dealt with all of the issues raised in the report. I am sure that most Members will be reassured by what has she said in opening this debate. The committee therefore has no further points to raise as part of our reporting on these regulations.

The Deputy Presiding Officer: Does the Minister wish to reply to the debate? I see that she does not. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Cymeradwyo Gorchymyn Sanctsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 Approval of the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I move that

the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 24.4:

1. approves that the draft the Environmental Civil Sanctions (Wales) Order 2010 be made in accordance with the draft laid in the Table Office on 15 June 2010. (NDM4528)

The Deputy Presiding Officer: The proposal is that the Order be approved. Does any Member object? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Peter Black) i'r Gadair am 4.08 p.m.
The Temporary Deputy Presiding Officer (Peter Black) took the Chair at 4.08 p.m.*

ysgrifenedig, ac yn ei sylwadau agoriadol cyfeiriodd at rai o'r materion a grybwyllwyd gan y pwyllgor ac a gododd yn yr adroddiad. Mae llythyr y Gweinidog at y pwyllgor ar gael i'r Aelodau, ac mae'r pwyllgor o'r farn i'r Gweinidog ymdrin yn ddigonol â'r holl faterion a godwyd yn yr adroddiad. Yr wyf yn siŵr y bydd mwyafriif yr Aelodau'n cael eu calonogi gan yr hyn a ddywedodd wrth agor y ddadl hon. Felly, nid oes gan y pwyllgor bwyntiau pellach i'w codi wrth adrodd ynghylch y rheoliadau hyn.

Y Dirprwy Lywydd: A yw'r Gweinidog yn dymuno ymateb i'r ddadl? Gwelaf nad yw. Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Cynigaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 24.4:

1. yn cymeradwyo bod fersiwn ddrafft y Gorchymyn Sanctsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2010. (NDM4528)

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw ein bod yn cymeradwyo'r Gorchymyn. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, mae'r cynnig wedi'i dderbyn.

**Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar Ddarpariaeth Arbenigol i Bobl Ifanc
ag Awtistiaeth mewn Addysg Bellach**

**The Enterprise and Learning Committee's Report on Specialist Provision for
Young People with Autism in Further Education**

Gareth Jones: Cynigiad fod

Gareth Jones: I move that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mai 2010. (NDM4530)

notes the Enterprise and Learning Committee's report on specialist provision for young people with autism in further education, which was laid in the Table Office on 25 May 2010. (NDM4530)

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach. Mae'r pwyllgor eisoes wedi cymryd diddordeb brwd yn y mater hwn. Y llynedd, gwnaethom adrodd ar ddeiseb ar ddarpariaeth addysg ôl 19 i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, yn enwedig ynghylch diffyg coleg arbenigol amhreswyl yng Nghymru.

I am delighted to open today's debate on the Enterprise and Learning Committee's report on specialist provision for young people with autism in further education. The committee has already taken a keen interest in this issue. Last year we reported on a petition on post-19 education provision for people with complex additional learning needs, particularly with regard to the lack of a specialist non-residential college in Wales.

Ein prif reswm dros gynnal yr ymchwiliad hwn, fodd bynnag, oedd ymateb i argymhelliad gan grŵp awtistiaeth trawsbleidiol y Cynulliad y dylai'r:

Our main reason for carrying out this current inquiry, however, was to respond to a recommendation by the National Assembly's cross-party autism group that:

'Pwyllgor Menter a Dysgu gynnal arolwg byr i archwilio ymhellach y rhwystrau i gymorth priodol mewn addysg bellach i bobl ifanc ag awtistiaeth'.

'The Enterprise and Learning Committee undertake a short review to further investigate the barriers to appropriate support in further education for young people with autism'.

Yr ydym yn ddiolchgar i bawb a gyflwynodd dystiolaeth lafar neu ysgrifenedig inni, gan gynnwys y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, swyddogion Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru, mamau pobl ifanc ag awtistiaeth, Autism Cymru, Colegau Cymru, coleg arbenigol Beechwood ym Mro Morgannwg, a'r mudiad elusennol SNAP Cymru.

We are grateful to everyone who provided us with oral or written evidence, including the Minister for Children, Education and Lifelong Learning, Welsh Government officials, the National Autistic Society Cymru and mothers of young people with autism, Autism Cymru, Colleges Wales, the specialist Beechwood College in the Vale of Glamorgan, and the charity organisation SNAP Cymru.

4.10 p.m.

Gwnaethom sylwi fod y Gweinidog wedi dweud ei fod yn edrych ar ein hymchwiliad 'gyda meddwl agored'. Mae hynny yn sicr yn wir, oherwydd credaf fod ymateb

We noted that the Minister said he was approaching our inquiry 'with an open mind'. He certainly was, because I believe that the Welsh Government's response to our report

Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn ystyriol, cynhwysfawr ac adeiladol. Yr wyf yn gobeithio, gan y derbyniwyd pob un o'n hargymhellion ond un, y bydd modd eu hymgorffori yng ngwaith grŵp tasg a gorffen anhwylder y sbectrwm awtistig y Llywodraeth yn y dyfodol er mwyn gwella'r ddarpariaeth bresennol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach.

Gall y sialensiau sy'n wynebu pobl ifanc ag awtistiaeth fod yn amlweddog ac yn gymhleth. Mae'r sefyllfa hon wedi ei chymhlethu ymhellach gan ddiffyg data pendant ar faint o fyfyrwyr ag anhwylder y sbectrwm awtistig sydd mewn gwirionedd yng Nghymru.

Un o'r prif faterion i ymddangos o'n hymchwiliad oedd y pryder ynghylch y broses o drawsnewid wrth i ddysgwyr ag anhwylder y sbectrwm awtistig symud o'r ysgol i'r coleg. Gall fod yn amser pryderus ac anodd iawn i rai pobl ifanc a'u teuluoedd. Clywsom fod modd lliniaru llawer o'r pryder hwnnw drwy gynllunio amserol ac amlasiantaethol sy'n canolbwyntio ar angen yn hytrach nag ar ba wasanaethau sydd ar gael, ac wrth i weithwyr proffesiynol gymryd cyfrifoldeb am drawsnewidiad person ifanc.

Yr oeddem yn gwerthfawrogi llwyddiant cynlluniau peilot Llywodraeth Cymru ar gyfer penodi gweithwyr trawsnewid allweddol sy'n gallu cymryd cyfrifoldeb am yrru a chydgysylltu'r broses drawsnewid ar ran pawb sy'n ymwneud â hi, er bod y dystiolaeth y gwnaethom ei derbyn yn dadlau pa mor bwysig ydyw i bob rhan o Gymru elwa o'r dull hwn o weithredu.

Gwelsom fod oedi mewn penderfyniadau ariannu'n un o'r prif bethau sy'n achosi straen yn y broses drawsnewid. Nid yw rhieni ar hyn o bryd yn gallu gwneud cais ar gyfer lle mewn coleg arbenigol i'w plant awtistig tan ddiwedd y mis Ionawr cyn i'r tymor ddechrau ym mis Medi. Clywsom hanesion dirdynol yn uniongyrchol gan rieni ynghylch y ffaith nad yw rhai penderfyniadau'n cael eu gwneud tan ychydig ddyddiau cyn cychwyn y tymor. Mae hynny'n gwbl annerbyniol i'r bobl ifanc hyn, sydd, yn fwy na neb, angen amser i ddod i arfer â newidiadau yn nhrefn eu bywydau

is considered, comprehensive and constructive. I hope that as all but one of our recommendations has been accepted, they can be incorporated into the future work of the Government's autism spectrum disorder task and finish group to improve the current provision for young people with autism in further education.

The challenges facing young people with autism can be multi-faceted and complex. This situation is compounded by the lack of definitive data on how many students there actually are with autism spectrum disorder in Wales.

One main issue to emerge from our inquiry was concern with regard to the transition process for learners with ASD in moving from school and college. It can be a very stressful and anxious time for some young people and their families. We heard that much of that distress could be alleviated by timely multi-agency planning that focuses on need rather than on what services are available, and by professionals taking ownership and responsibility for a young person's transition.

We appreciated the success of the Welsh Government's pilot schemes for the appointment of key transition workers who can take responsibility for driving and coordinating the transition process on behalf of all parties concerned, although the evidence that we received argued how important it was for all parts of Wales to benefit from this approach.

We found that delays in funding decisions are a key source of stress in the transition process. Parents are not currently able to apply for a specialist college placement for their autistic children until the end of the January before the term starts in September. We heard compelling stories directly from parents about the fact that some decisions are not made until a few days before the start of term. That is totally unacceptable for these young people who, more than anyone, need time to come to terms with changes in their daily routine.

bob dydd.

Unwaith eto, nid oes bosibl nad y dinesydd ddylai fod y brif flaenoriaeth yn y broses hon, nid hwylustod gweinyddol. Un o brif argymhellion ein hadroddiad, felly, oedd y dylid caniatáu i rieni pobl ifanc ag anhwylder y sbectrwm awtistig wneud ceisiadau am arian ar gyfer lleoliadau arbenigol 12 mis cyn cychwyn y tymor coleg, ac y dylent dderbyn gwybodaeth am y penderfyniad ar eu cais erbyn 31 Mawrth, cyn i'r coleg ddechrau, er mwyn caniatáu paratoi a chynefino digonol.

Mater arall o bwys yn ein hymchwiliad oedd y nifer o asiantaethau sy'n ymwneud â chynllunio trawsnewid ar gyfer pobl ifanc. Gall cymaint â saith o bobl gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Clywsom am ymarfer da mewn lleoedd fel sir Gaerfyrddin a sir Benfro, ond, yn anffodus, gall arferion gwaith mewn awdurdodau lleol eraill amrywio'n sylweddol.

Mae'n ymddangos bod y fforymau amlasiantaethol yr ydym wedi eu treialu mewn rhai lleoedd yn gweithio'n effeithiol, a dyna pam yr ydym yn argymhell ehangu'r dull hwn o weithredu drwy Gymru gyfan.

Argymhelliad allweddol arall oedd y dylai Gyrfa Cymru, sy'n chwarae rhan mor bwysig yn y broses drawsnewid, sicrhau bod gan ei ymgynghorwyr ddealltwriaeth briodol o awtistiaeth ac o anghenion arbenigol pobl ag anhwylder y sbectrwm awtistig. Yr oeddem yn bryderus bod y gwahaniaethau mewn darpariaeth arbenigol ymysg awdurdodau lleol yn cael eu hadlewyrchu hefyd rhwng y sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Mae'n ymddangos fod rhai colegau ymhellach ar y blaen nag eraill wrth sefydlu cymorth i ddysgwyr, ond yr oeddem yn teimlo'n rhwystredig nad oes asesiad clir o'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ag awtistiaeth mewn colegau yng Nghymru. Yn lle hynny, yr oeddem yn gorfod dibynnu ar wybodaeth a gasglwyd drwy arolwg ffôn a gynhaliwyd gan ein tîm ymchwil ein hunain. Daethom i'r casgliad, felly, ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru allu rhoi gwybod yn union faint o fyfyrwyr ag awtistiaeth sy'n mynychu sefydliadau addysg bellach yng

Again, the citizen should surely be the main priority in this process, not procedural convenience. One of the major recommendations of our report, therefore, was that parents of young people with an autism spectrum disorder should be allowed to apply for funding for specialist placements 12 months before the start of the college term, and that they should receive notification of the decision on their application by 31 March, before college starts, to allow for adequate preparation and acclimatisation.

Another major issue in our inquiry was the number of agencies involved in transitional planning for young people. As many as seven people can be involved in meetings. We heard of good practice in areas such as Carmarthenshire and Pembrokeshire, but, unfortunately, the practice in other local authorities can vary considerably.

The multi-agency fora that have been piloted in some places appear to be working effectively, which is why we recommend that this approach be extended across the whole of Wales.

Another of our key recommendations was for Careers Wales, which plays such an important role in the transition process, to ensure its advisers have a proper understanding of autism and the specialist needs of people with an autism spectrum disorder. We were concerned that differences in specialist provision among local authorities were also reflected in the provision available at further education institutions in Wales. It appears that some colleges are further ahead than others in establishing support for learners, but we were frustrated that there is no clear assessment of the provision for students with autism in colleges in Wales. Instead of that, we had to rely on information that was gathered through a telephone survey that was conducted by our own research team. We came to the conclusion, therefore, that it is important for the Welsh Government to be able to tell exactly how many students with autism are attending further education institutions in

Nghymru, a pha gyfleusterau a ddarperir ar eu cyfer ym mhob coleg, yn ogystal â chanfod faint o fyfyrwyr ag awtistiaeth yng Nghymru sy'n gorfod mynychu colegau yn Lloegr. Mae'n achosi pryder mawr inni glywed rhywfaint o dystiolaeth gan rieni ynghylch sut y mae rhai teuluoedd wedi gorfod symud i fyw o Gymru er mwyn cael mynediad at y ddarpariaeth y mae ar eu plant ei hangen.

Nid oes bosibl ei bod y tu hwnt i allu gwneuthurwyr polisi i reoli'r farchnad yn llawer gwell, fel bod modd cynnig darpariaeth fwy trefnus ac ystyrlon o addysg bellach i bobl ifanc ag anhwylder y sbectrum awtistig. Dylai fod hawl gan fyfyrwyr o Gymru i dderbyn y gwasanaethau addysg bellach arbenigol sydd arnynt eu hangen yn nes at eu cartref.

Maes allweddol arall lle mae yna le i wella yw darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth i staff a myfyrwyr mewn colegau addysg bellach. Er bod hyn yn digwydd mewn rhai lleoedd, mae angen mwy o gysondeb ledled Cymru. Yr ydym felly yn argymhell darparu gwell cefnogaeth yn y maes hwn o fewn colegau prif ffrwd. Cyfeiriodd rhai o'r tystion hefyd at y diffyg darpariaeth ôl-16 sydd ar gael i ddysgwyr ag awtistiaeth sy'n ystyried y Gymraeg fel eu hiaith gyntaf. Gan mai anabledd cyfathrebu yw awtistiaeth yn ei hanfod, mae'n rhaid cywiro'r sefyllfa hon. Mae hyn yn broblem gudd, gan mai ychydig iawn o ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd ag unedau arbenigol. Mae'n rhaid i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd gael y cymorth a'r gefnogaeth angenrheidiol, a'r dogfennau canllawiau, yn yr iaith y maent yn ei dewis. Trof at y Saesneg i gloi.

Regarding funding, the current system is complicated and inconsistent. We were very pleased to hear the Minister announce recently a task and finish group with the remit of putting forward a new, coherent process for funding the transition of young people with additional learning needs into post-16 education. The outcome of that review must surely be to achieve stability and sustainability of funding throughout the system, and we are aware of some creative thinking on this, such as designing a system where funding follows an individual

Wales, and what facilities are provided for them at each college, as well as ascertain how many students with autism in Wales had to attend colleges in England. It caused us great concern to hear some of the evidence provided by parents regarding the fact that some families had been forced to move away from Wales in order to access the provision that their children needed.

Surely it is not beyond the ability of policy makers to manage the market much better, so that there is more systematic and meaningful provision of further education for young people with an autism spectrum disorder. Students from Wales should have the right to receive the specialist further education services that they need closer to their homes.

Another key area where there is room for improvement is autism awareness training for staff and students in further education colleges. While this happens in some places, there is a need for greater consistency across Wales. We therefore recommend providing better support in this area within mainstream colleges. Some witnesses also referred to the lack of post-16 provision available to learners with autism who consider Welsh to be their first language. Because autism is essentially a communication disability, it is important to rectify this situation. This is a hidden problem, because very few Welsh-medium schools have specialist units. Welsh-speaking learners and their families must get the necessary help and support, and guidance documents, in the language of their choice. I will turn to English to finish.

O ran cyllido, mae'r system bresennol yn gymhleth ac yn anghyson. Yr oeddem yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn cyhoeddi'n ddiweddar y bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn cael ei sefydlu, y bydd ei gylch gwaith yn ymwneud â chyflwyno proses newydd a chydlynol ar gyfer cyllido cyfnod pontio pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i addysg ôl-16. Rhaid mai canlyniad yr adolygiad hwnnw fydd sicrhau sefydlogrwydd a chynaliadwydd o ran cyllid drwy'r system gyfan, ac yr ydym yn ymwybodol o rai syniadau creadigol

throughout their educational lives, as opposed to being allocated annually from a central pot.

Transition does not just happen between school and college, but also after college has finished. One of the main aims of further education is to prepare learners for a life in employment, to reach their potential, contribute to society and increase their independence. Only 15 per cent of adults with autism have a full-time job. A huge amount of work therefore needs to be done to bring employers on board in providing more and meaningful placements for young people with autism. We therefore recommend that the Welsh Assembly Government should commission a study of the employment outcomes for young people with autism after they leave further education, to better understand the barriers that they face and how they can be overcome.

In conclusion, there is a significant gap between strategy for provision for young people with autism within further education, and delivery on the ground. Co-ordination between all of the partners involved in specialist provision for people with autism in further education must be improved, as must timeliness, so that learners are informed earlier about their future choices and options. Finally, every young person with autism has different requirements, whether for residential or day care, or even for further education at all.

4.20 p.m.

The individual must, therefore, be at the centre of policy delivery in future so that provision can be tailored to individual needs and preferences. What is needed is a nationwide network of effective and expert advice, guidance and support to individuals and families affected by autism spectrum disorder.

I am delighted that the Minister took all of these principles on board. We therefore look forward to the continuing work of the Government's task and finish group and trust

ynghylch hynny, megis cynllunio system lle y mae cyllid yn dilyn unigolyn gydol ei fywyd addysgol, yn hytrach na'i fod yn cael ei ddyrannu o gronfa ganolog bob blwyddyn.

Nid rhwng yr ysgol a'r coleg yn unig y bydd pontio'n digwydd; bydd hefyd yn digwydd ar ôl gorffen yn y coleg. Un o brif nodau addysg bellach yw paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd mewn cyflogaeth, er mwyn iddynt gyrraedd eu potensial, cyfrannu i'r gymdeithas a chynyddu eu hannibyniaeth. Dim ond 15 y cant o oedolion ag awtistiaeth sydd â swydd lawnamser. Felly, mae angen gwneud gwaith sylweddol i gael gan gyflogwyr ddarparu mwy o leoliadau, a lleoliadau mwy ystyrlon, i bobl ifanc ag awtistiaeth. Felly, yr ydym yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad gomisiynu astudiaeth o'r canlyniadau o ran cyflogaeth i bobl ifanc ag awtistiaeth ar ôl iddynt adael addysg bellach, er mwyn deall yn well y rhwystrau y maent yn eu hwynebu, a deall sut y gellir eu goresgyn.

I gloi, ceir bwlch sylweddol rhwng y strategaeth ar gyfer darpariaeth i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach, a'r ddarpariaeth ar lawr gwlad. Rhaid gwella'r cydgysylltu rhwng yr holl bartneriaid sy'n ymwneud â darpariaeth arbenigol i bobl ag awtistiaeth mewn addysg bellach, a rhaid gwella prydlondeb y ddarpariaeth hefyd, er mwyn i ddysgwyr gael eu hysbysu'n gynt ynghylch eu dewisiadau a'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Yn olaf, mae gan bob person ifanc ag awtistiaeth wahanol ofynion, boed o ran gofal preswyl neu ofal dydd, neu'r angen am addysg bellach o gwbl, hyd yn oed.

Felly, rhaid i'r unigolyn fod wrth wraidd y modd y caiff polisiâu eu gweithredu yn y dyfodol, fel y gellir teilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion a dymuniadau'r unigolyn. Yr hyn y mae ei angen yw rhwydwaith cenedlaethol o gyngor, canllawiau a chymorth effeithiol ac arbenigol i unigolion a theuluoedd y mae anhwylder ar y sbectrwm awtistig yn effeithio arnynt.

Yr wyf wrth fy modd i'r Gweinidog ystyried yr holl egwyddorion hyn. Felly, edrychwn ymlaen at waith parhaus grŵp gorchwyl a gorffen y Llywodraeth, a hyderwn y caiff ein

that our recommendations will be reflected in its final report.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I welcome the debate today on the Enterprise and Learning Committee's report of its inquiry into specialist provision for young people with autism in further education. The Chair has already explained the response that we have made to the committee's report.

Ensuring equality of access to education has always been a high priority of the Welsh Assembly Government and is a 'One Wales' commitment. As such, I fully welcome the direction of the report's recommendations.

The report shows that, while there are still some considerable obstacles to overcome, very significant steps have been taken since the introduction of our autism spectrum disorder strategic action plan in April 2008.

My colleague, Gwenda Thomas, provided an update to the Assembly on 8 June, illustrating what had happened in the two years since the launch of that strategic action plan. The ongoing work will meet many of the committee report's recommendations. Gwenda Thomas's update also highlighted a number of examples of work that reinforce the real benefits for families and individuals who have autism and for those who work with them. The positive action that has taken place is to be commended.

In relation to the committee's recommendations, I have accepted either wholly or in principle 17 of the 19 recommendations. One recommendation fell to the ColegauCymru network for learners with learning difficulties and/or disabilities and one was not accepted due to progress that has already been made. That recommendation related to the publication of quality standards in education for pupils with ASD. Progress on the delivery of Autism Cymru's successful bilingual inclusive schools and whole-school training and research project has redefined

hargymhellion eu hadlewyrchu yn ei adroddiad terfynol.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Yr wyf yn croesawu'r ddadl heddiw ynghylch adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ei ymchwiliad i ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach. Mae'r Cadeirydd eisoes wedi esbonio'r ymateb yr ydym wedi'i roi i adroddiad y pwyllgor.

Mae sicrhau mynediad cyfartal i addysg wedi bod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad erioed, ac mae'n un o ymrwymadau 'Cymru'n Un'. Felly, yr wyf yn llwyr groesawu'r cyfeiriad y mae argymhellion yr adroddiad yn mynd iddo.

Mae'r adroddiad yn dangos bod camau bras iawn wedi'u cymryd ers cyflwyno ein cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig ym mis Ebrill 2008, er bod rhai rhwystrau sylweddol i'w goresgyn o hyd.

Rhoddodd fy nghyd-Weinidog, Gwenda Thomas, y wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad ar 8 Mehefin, gan ddangos yr hyn a oedd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd ers lansio'r cynllun gweithredu strategol hwnnw. Bydd y gwaith sy'n mynd rhagddo'n bodloni llawer o'r argymhellion yn adroddiad y pwyllgor. Yr oedd y wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd gan Gwenda Thomas yn tynnu sylw hefyd at lawer o enghreifftiau o waith sy'n ategu'r gwir fanteision i deuluoedd ac unigolion sydd ag awtistiaeth, a'r rhai sy'n gweithio gyda hwy. Rhaid canmol y camau cadarnhaol sydd wedi'u cymryd.

O ran argymhellion y pwyllgor, yr wyf wedi derbyn 17 o'r 19 o argymhellion naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Yr oedd un argymhelliad yn gyfrifoldeb i rwydwaith ColegauCymru ar gyfer dysgwyr ag anawsterau a/neu anabledau dysgu, ac ni dderbyniwyd un oherwydd cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud. Yr oedd yr argymhelliad hwnnw'n ymwneud â chyhoeddi safonau ansawdd mewn addysg i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu prosiect dwyieithog llwyddiannus

the need for separate standards to be published. I look instead to reassess the position and to build on the work that has already been undertaken to provide over 400 schools in Wales with autism training to date as part of a highly successful and continuing partnership between Welsh local authorities and Autism Cymru.

Eleven of the committee's recommendations reinforce actions already taking place to ensure that young people with ASD in Wales have equal access to learning and life choices. The Assembly Government is encouraging a multi-agency approach, which, along with emerging developments in transition key working, will lead to the development of a much improved system for ensuring that all children and young people with additional learning needs receive an appropriate and first-class education.

I have also accepted six recommendations in principle on the basis that they relate to work currently being carried out. These include the review of Careers Wales, which has yet to be published, the ongoing work of the adults with autism spectrum disorder task and finish group and the task and finish group that I established to consider a new coherent process for the transition of young people with additional learning needs to post-16 education.

It is important that we pay tribute to the work of the third sector in Wales in this field. Organisations such as Autism Cymru, SNAP Cymru and the National Autistic Society provide valuable support and information to families and practitioners alike. I wish to point out that their websites will soon be joined by the Welsh Assembly Government's own 'ASD matters' site during the autumn.

I also commend the work of the cross-party autism group, which celebrated its tenth anniversary a week or so ago. I was pleased to have been able to drop in to that event. This is an area where a lot of the work and

Awtistiaeth Cymru, sy'n ymwneud ag ysgolion cynhwysol a hyfforddiant ac ymchwil ysgol gyfan, wedi ailddiffinio'r angen i gyhoeddi safonau ar wahân. Yn hytrach, yr wyf yn bwriadu ailasesu'r sefyllfa ac adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes i ddarparu hyfforddiant ynghylch awtistiaeth i dros 400 o ysgolion yng Nghymru hyd yma, yn rhan o bartneriaeth lwyddiannus iawn sy'n parhau rhwng awdurdodau lleol Cymru ac Awtistiaeth Cymru.

Mae 11 o argymhellion y pwyllgor yn ategu camau a gymerir eisoes i sicrhau bod pobl ifanc ag anhwylder ar y sbectwm awtistig yng Nghymru yn cael mynediad cyfartal i gyfleoedd dysgu a dewisiadau mewn bywyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn annog dull amlasiantaeth o weithredu, a fydd, ynghyd â datblygiadau sy'n ymddangos mewn gwaith allweddol ym maes pontio, yn arwain at ddatblygu system well o lawer i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael addysg briodol o'r radd flaenaf.

Yr wyf hefyd wedi derbyn chwe argymhelliad mewn egwyddor oherwydd eu bod yn ymwneud â gwaith a gyflawnir ar hyn o bryd. Mae'r argymhellion hynny'n cynnwys cynnal adolygiad o Gyrfa Cymru, nad yw wedi ei gyhoeddi eto, gwaith parhaus y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer oedolion ag anhwylder ar y sbectwm awtistig, a'r grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlais i ystyried proses gydlynol newydd ar gyfer cyfnod pontio pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i addysg ôl-16.

Mae'n bwysig inni roi teyrnged i'r gwaith y mae'r trydydd sector yn ei wneud yng Nghymru yn y maes hwn. Mae sefydliadau megis Awtistiaeth Cymru, SNAP Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn darparu gwybodaeth a chymorth gwerthfawr i deuluoedd ac ymarferwyr fel ei gilydd. Yr wyf am nodi y bydd gwefan 'ASD matters' Llywodraeth y Cynulliad yn ymuno â'u gwefannau hwy yn fuan yn ystod yr hydref.

Yr wyf hefyd yn cymeradwyo gwaith y grŵp trawsbleidiol ar awtistiaeth, a fu'n dathlu ei ben-blwydd yn ddeg oed ryw wythnos yn ôl. Yr oeddwn yn falch o allu galw heibio i'r digwyddiad hwnnw. Mae hwn yn faes lle y

initiatives have been driven by people with autism, their families and those who understand their needs directly. People who are on the autism spectrum and members of their families are helping to set the agenda, and develop policies and strategy, for the future.

Paul Davies: I am pleased to have the opportunity to take part in this debate. First, I thank the Chair for his leadership on this issue, and also the clerk and her team for their efforts throughout this inquiry. This was an important inquiry for the Enterprise and Learning Committee, of which I am a member, and I am pleased that the Minister has accepted, or has accepted in principle, the majority of the committee's recommendations. The report is essential, because it takes the first steps to addressing the need to close the gap between strategy and policy in provision for young people with autism in further education.

I am sure that no-one will disagree when I say that specialist provision in further education for learners with autism is something that deserved the committee's full attention, as the number of ASD sufferers applying for placements in further education in Wales is on the increase. As outlined in recommendation 2 of our report, it is, therefore, important that the Welsh Assembly Government carries out further work through the autism spectrum disorder task and finish group, and feeds back to the committee. In doing so, provisions for young people with autism in further education will remain on the agenda for the Assembly and the Assembly Government.

I am pleased that the Minister has accepted recommendations 3, 4, 5 and 6—some fully, and others in principle—that refer to senior-level transition workers being offered to young people with autism in FE, funding for specialist placements in FE, and analysing the transition element of local-authority ASD action plans. In particular, I welcome the Minister's acceptance of recommendation 6, which acknowledges the success of the pilot approach in some areas of Wales, and agrees

mae llawer o'r gwaith a'r mentrau wedi'u hysgogi gan bobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd, a'r rhai sy'n deall eu hanghenion yn uniongyrchol. Mae pobl sydd ar y sbectrwm awtistig, ac aelodau eu teuluoedd, yn helpu i osod yr agenda a datblygu polisiau a strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Paul Davies: Yr wyf yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd am ei arweiniad ar y mater hwn, a diolch hefyd i'r clerwr a'i thîm am eu hymdrechion drwy gydol yr ymchwiliad. Yr oedd hwn yn ymchwiliad pwysig i'r Pwyllgor Menter a Dysgu, sy'n bwyllgor yr wyf yn aelod ohono, ac yr wyf yn falch i'r Gweinidog dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, y rhan fwyaf o argymhellion y pwyllgor. Mae'r adroddiad yn hanfodol, oherwydd y mae'n cymryd y camau cyntaf i fynd i'r afael â'r angen i gau'r bwlch rhwng strategaeth a pholisi mewn darpariaeth i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach.

Yr wyf yn siŵr na fydd neb yn anghytuno pan ddywedaf fod darpariaeth arbenigol mewn addysg bellach i ddysgwyr ag awtistiaeth yn rhywbeth a oedd yn haeddu sylw llawn y pwyllgor, gan fod nifer y bobl sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac sy'n gwneud cais am leoliad mewn addysg bellach yng Nghymru yn cynyddu. Fel yr amlinellir yn argymhelliad 2 yn ein hadroddiad, mae'n bwysig, felly, i Lywodraeth y Cynulliad gyflawni gwaith pellach drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen ar anhwylderau'r sbectrwm awtistig, ac iddo adrodd yn ôl i'r pwyllgor. Wrth wneud hynny, bydd darpariaethau i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach yn parhau ar yr agenda i'r Cynulliad ac i Lywodraeth y Cynulliad.

Yr wyf yn falch i'r Gweinidog dderbyn argymhellion 3, 4, 5 a 6—rhai ohonynt yn llawn, ac eraill mewn egwyddor—sy'n cyfeirio at gynnig gweithwyr pontio lefel uwch i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach, darparu cyllid ar gyfer lleoliadau arbenigol mewn addysg bellach, a dadansoddi'r elfen bontio yng nghynlluniau gweithredu awdurdodau lleol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Yn benodol, yr wyf yn croesawu'r ffaith i'r

that all parts of the country should be served by multi-agency fora. This multi-agency collaboration will develop a more localised approach to delivering education to autistic learners. It is important that all agencies are working in partnership to develop a system that best suits autistic learners in that particular area. The Welsh Assembly Government also needs to take into account the geography of Wales, and ensure that the right amount of support and funding is offered to local authorities to hold these particular fora.

While I agree that significant responsibility for a number of these recommendations lies with local authorities, it is important that the Assembly Government provides guidance and support. As the Chair has already said, another aspect of the inquiry that was of particular importance was the role of Careers Wales. During an evidence session involving the National Autistic Society, the committee heard that parents were surveyed as part of the society's Make School Make Sense campaign; around a third of those surveyed thought that advisers from Careers Wales did not have sufficient knowledge to undertake their roles effectively. Careers Wales should be playing an important role in post-16 provision, providing counselling and support for all young people, especially those with autism. As the Minister has mentioned, the review of Careers Wales is due in the summer, and it is important that support is provided for those with learning difficulties and disabilities. I look forward to the Minister's review and comments regarding provisions for those with learning difficulties and disabilities in due course.

Strengthening the existing provisions to ensure that a national network of effective and expert advice is in place lies at the heart of the committee's recommendations. I trust that recommendation 19, which covers this issue and has been accepted by the Minister, will form part of the basis of the Assembly

Gweinidog dderbyn argymhelliad 6, sy'n cydnabod llwyddiant gweithredu drwy gynllun peilot mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ac sy'n cytuno y dylai pob rhan o'r wlad gael eu gwasanaethu gan fforymau amlasiantaeth. Bydd y cydweithredu amlasiantaeth hwn yn datblygu dull mwy lleol o ddarparu addysg i ddysgwyr awtistig. Mae'n bwysig bod pob asiantaeth yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r system sydd fwyaf addas i ddysgwyr awtistig yn yr ardal benodol honno. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ystyried daearyddiaeth Cymru hefyd, a sicrhau y cynigir digon o gymorth a chyllid i awdurdodau lleol i gynnal y fforymau penodol hyn.

Er fy mod yn cytuno mai awdurdodau lleol fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb sylweddol am lawer o'r argymhellion hyn, mae'n bwysig i Lywodraeth y Cynulliad ddarparu canllawiau a chymorth. Fel y mae'r Cadeirydd eisoes wedi dweud, agwedd arall ar yr ymchwiliad, a oedd yn arbennig o bwysig, oedd rôl Gyrfa Cymru. Yn ystod sesiwn dystiolaeth a oedd yn cynnwys y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, clywodd y pwyllgor i rieni gymryd rhan mewn arolwg, yn rhan o ymgyrch 'Make School Make Sense' y gymdeithas; yr oedd tua thraean y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o'r farn nad oedd gan gynghorwyr Gyrfa Cymru ddigon o wybodaeth i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Dylai Gyrfa Cymru fod yn chwarae rôl bwysig mewn darpariaeth ôl-16, gan ddarparu gwasanaeth cwnsela a chymorth i bob person ifanc, yn enwedig y rhai sydd ag awtistiaeth. Fel y mae'r Gweinidog wedi sôn, mae disgwyl i'r adolygiad o Gyrfa Cymru gael ei gynnal yn ystod yr haf, ac mae'n bwysig i gymorth gael ei roi i'r rhai sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu. Edrychaf ymlaen at weld adolygiad a sylwadau'r Gweinidog maes o law ynghylch darpariaethau i'r rhai sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu.

Mae cryfhau'r darpariaethau presennol, i sicrhau bod rhwydwaith cenedlaethol o gyngor effeithiol ac arbenigol ar waith, wrth wraidd argymhellion y pwyllgor. Hyderaf y bydd argymhelliad 19, sy'n ymdrin â'r mater hwn ac a dderbyniwyd gan y Gweinidog, yn rhan o'r sail ar gyfer adroddiad terfynol

Government's final report; it is only by strengthening our existing provisions that we can meet the needs of the individuals that it aspires to serve. Each autistic individual has different needs, and the support service needs to be tailored to address them. In his response, I hope that the Minister will look to make his policy in this area more individually based.

I am pleased that the Minister has recently commenced publication of a newsletter for the autistic community in Wales, and that he intends to launch more awareness-raising material in future, as it is essential that the Assembly Government sends the right message, not only to the autistic community, but to the entire nation. I am pleased that the majority of the committee's recommendations have been accepted by the Minister, and I urge him now to implement these recommendations as quickly as possible.

4.30 p.m.

Jenny Randerson: I am very pleased indeed to hear the Minister's response to this report, as it is one of the best reports that this committee has produced. It is focused, and it has produced some good, concrete and achievable improvements for some of the most vulnerable people in our society.

I will concentrate on three aspects of our report, and important issues that the Minister has accepted most positively. The first is the issue of transition arrangements. If you were to say to any young person aged 16 or 17 that they would not have a clue about where they were to continue their education until September, having left school in July, they would feel extremely uneasy and unsettled. To say that to someone suffering from autism would be several times more difficult for them to accept. Indeed, one of my constituents came to my surgery prior to this report and told me that her son was in that situation this time last year. She said, 'The only way I can cope with it for him is to wait until September, and if he does not go where he thinks he might be going, I'll have to tell

Llywodraeth y Cynulliad; dim ond drwy gryfhau ein darpariaethau presennol y gallwn ddiwallu anghenion yr unigolion y mae'r Llywodraeth yn anelu at eu gwasanaethu. Mae gan bob unigolyn sydd ag awtistiaeth wahanol anghenion, ac mae angen teilwra'r gwasanaeth cymorth i roi sylw i'r anghenion hynny. Yn ei ymateb, gobeithio y bydd y Gweinidog yn ceisio sicrhau bod ei bolisi yn y maes hwn yn cael ei seilio'n fwy helaeth ar yr unigolyn.

Yr wyf yn falch i'r Gweinidog ddechrau cyhoeddi llythyr newyddion yn ddiweddar ar gyfer y rhai sy'n ymwneud ag awtistiaeth yng Nghymru, a'i fod yn bwriadu lansio rhagor o ddeunydd codi ymwybyddiaeth yn y dyfodol, oherwydd y mae'n hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad gyfleu'r neges gywir, nid yn unig i'r rhai sy'n ymwneud ag awtistiaeth, ond i'r genedl gyfan. Yr wyf yn falch bod mwyafrif argymhellion y pwyllgor wedi'u derbyn gan y Gweinidog, ac yr wyf yn ei annog yn awr i weithredu'r argymhellion hynny cyn gynted â phosibl.

Jenny Randerson: Yr wyf yn falch iawn o glywed ymateb y Gweinidog i'r adroddiad hwn, gan ei fod yn un o'r adroddiadau gorau a gynhyrchwyd gan y pwyllgor hwn. Mae iddo ffocws, ac mae wedi llunio rhai gwelliannau da a phendant, y mae modd eu cyflawni, ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Hoffwn ganolbwyntio ar dair agwedd ar ein hadroddiad, a materion pwysig y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn yn gadarnhaol iawn. Y mater cyntaf yw trefniadau pontio. Pe baech yn dweud wrth unrhyw bobl ifanc 16 neu 17 oed na fyddant yn cael gwybod tan fis Medi ble y byddant yn parhau â'u haddysg, ar ôl gadael yr ysgol ym mis Gorffennaf, byddent i gyd yn teimlo'n eithriadol o anesmwyth ac ansicr. Mae'n anos byth i rywun sydd ag awtistiaeth dderbyn hynny. Yn wir, daeth un o'm hetholwyr i'm cymhorthfa cyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, a dweud wrthyf fod ei mab yn y sefyllfa honno yr adeg hon y llynedd. Dywedodd, 'Yr unig ffordd y gallaf ymdopi â'r sefyllfa ar ei ran yw aros tan fis Medi, ac yna, os na fydd yn mynd i'r lle y mae'n

him that the building has closed and burned down, because he can only deal in absolutes. He could not cope with the fact that he hadn't had the money and couldn't go'. Hopefully, we now face a much more positive situation. I was depressed last year, because the Minister's predecessor promised improvements and there were none.

I had a meeting this week with the officer who takes the lead on this for Cardiff Council. We had this meeting because several of the groups concerned had told me to look at Cardiff, as it is doing some really good work that is really beginning to crack these problems. The officer said to me that the decisions about the pupils coming from Cardiff would all be made in July, as they have devised a system now that there is a lead official in the Minister's department to deal with this, and as far as Cardiff is concerned, they have discovered how to deal with it. I hope that, if Cardiff can do it, every other local authority in Wales will also be able to do it in the near future.

We discovered that the process was not only highly bureaucratic—Gareth outlined this point earlier on—but that there was also a lack of leadership and the ability for one person to say, 'We have to draw these strands together, and you have to get on and make the decision now'. Give just one person the power to identify the problems and to solve them. I am very hopeful that we now have a good way ahead.

My second point concerns another issue that Gareth raised, namely the lack of a comprehensive picture for Wales. I was astonished that we could not get a proper picture of what services and courses are available and in which colleges. If we could not get it, and if the Assembly Government could not come up with a picture, how can the Government be assured that the courses provided are the appropriate ones and in the right locations? Clearly, it could not, and there are clear gaps. There might even be overprovision in some areas. Since we did

meddwl y bydd yn mynd iddo, bydd yn rhaid imi ddweud wrtho fod yr adeilad wedi cau ac wedi llosgi'n ulw, oherwydd dim ond pethau absoliwt y mae'n gallu ymdrin â hwy. Ni allai ymdopi â'r ffaith na chafodd yr arian ac na allai fynd'. Gobeithio ein bod yn wynebu sefyllfa fwy cadarnhaol o lawer yn awr. Yr oeddwn yn ddigalon y llynedd, oherwydd addawodd rhagflaenydd y Gweinidog welliannau, ond ni chafwyd yr un gwelliant.

Cefais gyfarfod yr wythnos hon gyda'r swyddog sy'n arwain yn y maes hwn ar ran Cyngor Caerdydd. Cawsom y cyfarfod oherwydd bod amryw o'r grwpiau dan sylw wedi dweud wrthyf y dylwn edrych ar Gaerdydd, gan fod y cyngor yn gwneud gwaith eithriadol o dda sy'n dechrau cynnig atebion gwirioneddol i'r problemau hyn. Dywedodd y swyddog wrthyf y byddai'r penderfyniadau ynghylch y disgyblion sy'n dod o Gaerdydd yn cael eu gwneud i gyd ym mis Gorffennaf, gan fod y cyngor wedi creu system yn awr lle y ceir swyddog arweiniol yn adran y Gweinidog i ymdrin â'r mater. Mae Caerdydd wedi gweld sut y mae ymdrin â'r mater. Os gall Caerdydd wneud hynny, gobeithio y gall pob awdurdod lleol arall yng Nghymru wneud hynny hefyd yn y dyfodol agos.

Bu inni ddarganfod nid yn unig fod y broses yn fiwrocraidd iawn—tynnodd Gareth sylw at y pwynt hwn yn gynharach—ond bod diffyg arweinyddiaeth hefyd, a diffyg gallu gan un unigolyn i ddweud, 'Rhaid inni dynnu'r llinynnau hyn ynghyd, a rhaid ichi fwrw ati a gwneud y penderfyniad yn awr'. Dylech roi'r grym i un unigolyn weld beth yw'r problemau a'u datrys. Yr wyf yn obeithiol iawn ein bod ar y trywydd cywir yn awr.

Mae fy ail bwynt yn ymwneud â mater arall a gododd Gareth, sef y ffaith na cheir darlun cynhwysfawr ar gyfer Cymru. Yr oeddwn yn rhyfeddu na allem gael darlun cywir ynghylch pa wasanaethau a chyrtsiau sydd ar gael, ac ym mha golegau. Os na allem ni gael y darlun hwnnw, ac os na allai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno'r darlun hwnnw, sut y gall y Llywodraeth fod yn siŵr mai'r cyrsiau a ddarperir yw'r rhai priodol, a'u bod yn y manau cywir? Yr oedd yn amlwg na allai wneud hynny, a cheir bylchau clir. Efallai fod gormod o ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd,

not get a picture, we could not see whether the strategic view was effective in this regard. I think that the issue that many of these young people face, in having to go over the border to England, is unnecessary, as in most cases they could receive the rest of their education in Wales.

There has to be a firm financial basis to encourage colleges to provide the services that are needed. As the Minister knows, I was very worried about the basis on which the funding was given. If I can put it in basic terms, he gave the support funding to colleges based on what money he had left in a particular part of money at the end of the year. That is not a system that the Minister invented; he inherited it. However, it is not an appropriate way to do it. I very much hope that the funding in future will be much more effective.

I want to emphasise the importance of training and that it is an ongoing issue—you do not train just once as new people come into the service and have to be trained in the future.

Mark Isherwood: Let us remember that autism is a serious, lifelong and disabling condition that affects how a person communicates with other people and relates to the world around them. It is a spectrum condition, meaning that while all people with autism share certain difficulties, it will affect each individual in a different way. It affects approximately one in 100 people, which is almost 30,000 people in Wales. If you include their families, the number of affected people is somewhere in the region of 120,000, and therefore thousands in each constituency in Wales.

The National Autistic Society has welcomed the committee's report and recommendations. An important recommendation in the report was that the Welsh Government should make a commitment to publish quality standards in education for pupils with autism spectrum disorder, following consultation, by the end of this year. As we have heard, the ministerial response was to reject this recommendation.

hyd yn oed. Gan na chawsom ddarlun, ni allem weld a oedd yr olwg strategol yn effeithiol yn y cyswllt hwn. Credaf fod y broblem y mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn ei hwynebu, wrth orfod mynd dros y ffin i Loegr, yn ddiangen, oherwydd yn y rhan fwyaf o achosion gallent gael gweddill eu haddysg yng Nghymru.

Rhaid cael sail ariannol gadarn er mwyn annog colegau i ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen. Fel y gŵyr y Gweinidog, yr oeddwn yn poeni'n fawr ynghylch ar ba sail y câr cyllid ei roi. Os gallaf ei fynegi'n syml, yr oedd y Gweinidog yn rhoi'r cyllid cymorth i golegau ar sail yr arian a oedd ar ôl ganddo mewn cronfa benodol ar ddiwedd y flwyddyn. Nid system a grëwyd gan y Gweinidog yw honno; ei hetifeddu a wnaeth. Fodd bynnag, nid yw'n ffordd briodol o weithredu. Gobeithio'n fawr y bydd y dull o gyllido'n fwy effeithiol o lawer yn y dyfodol.

Yr wyf am bwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant, a'r ffaith ei fod yn broblem barhaus—ni allwch hyfforddi unwaith yn unig, oherwydd bydd pobl newydd yn dod i mewn i'r gwasanaeth a bydd yn rhaid eu hyfforddi yn y dyfodol.

Mark Isherwood: Gadewch inni gofio bod awtistiaeth yn gyflwr difrifol sy'n peri anabledd, sy'n para gydol oes, ac sy'n effeithio ar y modd y mae unigolyn yn cyfathrebu â phobl eraill ac yn ymwneud â'r byd o'i gwmpas. Mae'n gyflwr sydd â sbectrwm, felly er y bydd rhai anawsterau'n gyffredin i bawb sydd ag awtistiaeth, bydd yn effeithio'n wahanol ar bob unigolyn. Mae'n effeithio ar tuag un o bob 100 o bobl, sef bron 30,000 o bobl yng Nghymru. O gynnwys eu teuluoedd, effeithir ar tua 120,000 o bobl, sef miloedd o bobl ym mhob etholaeth yng Nghymru, felly.

Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth wedi croesawu adroddiad ac argymhellion y pwyllgor. Un argymhelliad pwysig yn yr adroddiad oedd y dylai Llywodraeth y Cynulliad ymrwmo i gyhoeddi safonau ansawdd mewn addysg i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, yn dilyn ymgynghoriad, erbyn diwedd eleni. Fel yr ydym wedi clywed, ymateb y Gweinidog oedd gwrthod yr argymhelliad hwn.

The autism spectrum disorder action plan made a commitment to publish quality standards in education for pupils with ASD by the end of 2008, to provide schools and local education authorities with minimum service requirements for pupils with autism spectrum disorder, and to ensure a consistent approach to meeting needs across Wales. Quality standards were commissioned by the Welsh Government, but they were not deemed to fit for purpose at the end of last year. There has failed to be any further progress. Therefore, it would be good to have some comment and explanation on this abandoned stream of work from the Minister.

In his evidence to the committee, the Minister said that phased transition is important for all pupils with autism spectrum disorder, and that this is acknowledged in the development of quality standards for pupils with autism spectrum disorder. He said that the publication of these standards is a key action within the ASD strategic action plan. Therefore, the Minister changed his mind fairly rapidly on this.

While raising staff awareness through whole of school training is crucial, it is not the same thing as providing all schools and local education authorities with minimum service requirements for pupils with ASD to ensure a consistent approach to meeting needs across Wales. The committee saw a demonstrable need for both.

The National Autistic Society Cymru has also discerned a need for clear guidance for local educational authorities, calling for it in its Make School Make Sense campaign. The Minister's response makes no reference to local education authorities. Quality standards for pupils with ASD could provide these authorities with consistent guidance on strategic planning approaches, for example, and a focus on multi-agency working. These are things that are not likely to be addressed in basic awareness-raising training for school staff, where the focus should be on teaching

Cafwyd ymrwymiad yn y cynllun gweithredu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig i gyhoeddi safonau ansawdd mewn addysg i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, erbyn diwedd 2008, i sicrhau bod ysgolion ac awdurdodau addysg lleol yn cael gofynion sylfaenol o ran gwasanaeth ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, a sicrhau dull cyson o ddiwallu anghenion ar draws Cymru. Cafodd safonau ansawdd eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru, ond barnwyd nad oeddent yn addas i'r diben ddiwedd y llynedd. Methwyd gwneud dim cynnydd pellach. Felly, byddai'n dda cael rhyw fath o sylw ac esboniad gan y Gweinidog ynghylch y ffrwd waith hon y rhoddwyd y gorau iddi.

Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd y Gweinidog fod pontio graddol yn bwysig i bob disgybl ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, a bod hyn yn cael ei gydnabod wrth ddatblygu safonau ansawdd i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Dywedodd fod cyhoeddi'r safonau hyn yn gam allweddol yn y cynllun gweithredu strategol ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig. Felly, newidiodd y Gweinidog ei feddwl yn eithaf sydyn ynghylch y mater hwn.

Er bod codi ymwybyddiaeth staff drwy hyfforddiant ysgol gyfan yn hollbwysig, nid yw yr un fath â sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod addysg lleol yn cael gofynion sylfaenol o ran gwasanaeth ar gyfer disgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, a sicrhau dull cyson o ddiwallu anghenion ar draws Cymru. Gwelodd y pwyllgor angen amlwg am y ddau beth.

Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru hefyd wedi gweld bod angen rhoi canllawiau clir i awdurdodau addysg lleol, a galwodd am hynny yn ei hymgyrch 'Make School Make Sense'. Nid yw ymateb y Gweinidog yn cyfeirio at awdurdodau addysg lleol. Gallai safonau ansawdd i ddisgyblion ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig roi canllawiau cyson i'r awdurdodau hyn ynghylch dulliau o gynllunio'n strategol, er enghraifft, a ffocws ar waith amlasiantaeth. Mae'n annhebygol y byddai'r pethau hynny'n cael sylw mewn hyfforddiant codi

methods in the school environment.

ymwybyddiaeth sylfaenol i staff ysgolion, lle y dylid canolbwyntio ar ddulliau addysgu yn amgylchedd yr ysgol.

The Welsh Government is missing an opportunity to provide leadership and direction to schools and local education authorities. We need to know how the Minister intends to ensure that all schools and local education authorities are aware of minimum service requirements for children and young people with ASD in the absence of any guidance. How will there be consistency across Wales? What minimum can he guarantee that children and young people with autism and their families can expect?

Mae Llywodraeth Cymru yn colli cyfle i roi canllawiau a chyfeiriad i ysgolion ac awdurdodau addysg lleol. Mae angen inni wybod sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau bod pob ysgol ac awdurdod addysg lleol yn ymwybodol o'r gofynion sylfaenol o ran gwasanaeth i blant a phobl ifanc ag anhwylder ar y sbectwm awtistig, yn niffyg unrhyw ganllawiau. Sut y bwriedir sicrhau cysondeb ar draws Cymru? Beth yw'r gwasanaeth sylfaenol y gall addo y bydd plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn gallu disgwyl ei gael?

The Scottish Government has produced an excellent resource for the autism toolbox to fulfil a similar purpose, and should be viewed by the Welsh Government as an example of good practice to be built upon. The Welsh Government is currently developing an inclusion quality mark that schools can work towards, but this is a different stream of work as it is part of the Welsh Government's reform of the statutory assessment of children and young people with additional learning needs. Therefore, it would be helpful if the Minister could at least make a commitment to include a specific reference to autism within the inclusion quality mark.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cynhyrchu adnodd ardderchog ar gyfer y pecyn adnoddau awtistiaeth i ateb diben tebyg, a dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried yn enghraifft o arfer da i adeiladu arno. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu marc safon ar gyfer cynhwysiant, y gall ysgolion weithio tuag ato, ond mae'n ffrwd waith wahanol gan ei bod yn rhan o waith Llywodraeth Cymru i ddiwygio asesiadau statudol plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Felly, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Gweinidog o leiaf yn gallu ymrwymo i gynnwys cyfeiriad penodol at awtistiaeth yn y marc safon ar gyfer cynhwysiant.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I thank all colleagues who have commented on the report and added to the issues raised by Gareth in his introduction. A number of issues have been focused on, such as how we measure the challenges and the numbers entering further education. That work is under way.

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Hoffwn ddiolch i bob cyd-Aelod sydd wedi rhoi sylwadau ynghylch yr adroddiad, ac sydd wedi ychwanegu at y materion a godwyd gan Gareth yn ei gyflwyniad. Canolbwyntiwyd ar lawer o faterion, megis sut yr ydym yn mesur yr heriau, a'r niferoedd sy'n mynd i addysg bellach. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo.

4.40 p.m.

They have looked at the performance, which I was pleased to hear Jenny saying had improved in Cardiff with regard to the situation with post-16 placements. They have also commented on post-16 funding issues. As colleagues will know, that is something that we are looking at in the context of the

Maent wedi ystyried y perfformiad, ac yr oeddwn yn falch o glywed Jenny'n dweud ei fod wedi gwella yng Nghaerdydd o ran y sefyllfa ynglŷn â lleoliadau ôl-16. Maent hefyd wedi rhoi sylwadau ynghylch materion sy'n ymwneud â chyllido darpariaeth ôl-16. Fel y gwyr fy nghyd-Aelodau, mae hynny'n

task and finish group on additional learning needs.

In our response to the committee, I think that we have been very open and have attempted to provide a response that genuinely engages with the issues raised by the committee. Although I do not think that every response that we have produced will satisfy everyone, there has been real engagement throughout the committee's inquiry and subsequently.

Mark focused specifically on the recommendation concerning the publication of quality standards by the end of 2010. I said in my introduction that significant work has already been undertaken, not least of which is that undertaken by Autism Cymru and local authorities around Wales. My officials are discussing work around this with the ASD implementation officer in the context of the autism strategy action plan. I am certainly happy to go back to discuss that further with officials to see whether there are other things that we need to look at. I heard Mark's references to the Scottish publication, and I am perfectly happy to have further conversations about that with officials. I think that this has been an area where there has been considerable agreement and collegiate discussion on all sides, and I would want to respond in the same spirit to what has been said in the debate.

We want to ensure that all parents and carers of children and young people with autism spectrum disorders have the advice and support that they need to help them to make better informed decisions for the greater good of their children. That is work that is shared by the Assembly Government across a number of portfolios, and it is important that we make all the links and consider the issues from all angles. As a number of people said—I think that Gareth said it right at the outset—this particular group of children and young people and their families do not have a simple shared list of requirements. If that were the case, providing support would be a simple matter. However, it is not; it is complex. They are all individuals and they all

rhywbeth yr ydym yn ei ystyried yng nghydestun y grŵp gorchwyl a gorffen ar anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ein hymateb i'r pwyllgor, credaf ein bod wedi bod yn agored iawn, a'n bod wedi ceisio darparu ymateb sy'n ymgysylltu'n wirioneddol â'r materion a godwyd gan y pwyllgor. Er nad wyf yn credu y bydd pob ymateb yr ydym wedi'i gynhyrchu'n bodloni pawb, cafwyd ymgysylltiad gwirioneddol drwy gydol ymchwiliad y pwyllgor ac ar ôl hynny.

Canolbwyntiodd Mark yn benodol ar yr argymhelliad sy'n ymwneud â chyhoeddi safonau ansawdd erbyn diwedd 2010. Dywedais yn fy nghyflwyniad fod gwaith sylweddol wedi'i wneud eisoes, ac mae'r gwaith a wnaed gan Awtistiaeth Cymru ac awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru ymhlith yr elfennau pwysicaf. Mae fy swyddogion yn trafod gwaith sy'n ymwneud â'r mater hwn gyda'r swyddog gweithredu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig, yng nghydestun y cynllun gweithredu strategol ar gyfer awtistiaeth. Yr wyf yn bendant yn fodlon mynd yn ôl i drafod hynny ymhellach gyda swyddogion i weld a oes pethau eraill y mae angen inni eu hystyried. Clywais gyfeiriadau Mark at y cyhoeddiad yn yr Alban, ac yr wyf yn ddigon bodlon cael trafodaethau pellach am hynny gyda swyddogion. Credaf fod hwn wedi bod yn faes lle y cafwyd llawer o gytundeb a thrafodaeth golegol ar bob ochr, a hoffwn ymateb yn yr un ysbryd i'r hyn a ddywedwyd yn y ddadl.

Yr ydym am sicrhau bod holl rieni a gofawyr plant a phobl ifanc ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn cael y cyngor a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i'w helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus er lles cyffredinol eu plant. Mae'r gwaith hwnnw'n cael ei rannu ar draws sawl portffolio gan Lywodraeth y Cynulliad, ac mae'n bwysig inni greu'r holl gysylltiadau ac yn ystyried y problemau o bob safbwynt. Fel y dywedodd llawer o bobl—credaf i Gareth ddweud hynny ar y dechrau—nid oes gan y grŵp penodol hwn o blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd, restr gyffredin, syml o ofynion. Pe bai hynny'n wir, byddai darparu cymorth yn rhwydd. Fodd bynnag, nid yw'n wir; mae'n gymhleth. Mae pob un ohonynt yn unigolion,

have unique needs, which will alter with time, as they grow and face new challenges. Therefore, we have to ensure that the services we provide are adaptable and flexible to meet those changing needs. It is important that those offering specific services to children and young people generally understand the wider context of support for additional learning needs. That is something I want officials to look at as we move forward. These issues were raised by a number of colleagues, including Paul Davies.

We want to ensure that those offering services to children and young people with autism spectrum disorders and their families understand the broader context of support, including education, health, social care, transport and many other issues, because we have to make the links between those different services if we are to put those children and young people at the centre of provision. As colleagues around the Chamber have said, early planning and collaboration are particularly important if we are to get that right. I am very pleased to have been able to contribute to the debate today. The subjects raised by the committee have been well understood by my department. We have responded positively, and, in the spirit of this debate, we will look again at the one recommendation that we did not accept.

Gareth Jones: In conclusion, I wish to reflect upon this inquiry and say how much I appreciate all the contributions made this afternoon and the positive engagement, which the Minister referred to, that we had during the inquiry and during this afternoon's debate. The Minister mentioned that the driving force here is, and always has been, the needs of individual families, children and young people. That is what I feel has happened on this occasion. We have responded, as a committee, to those needs as they were expressed to us and, as you mentioned, as they have been expressed to Assembly Members over the past 10 years. I share with you our indebtedness to the cross-party group on autism and the good work that it has done in raising awareness and taking us

ac mae gan bob un ohonynt anghenion unigryw, a fydd yn newid gydag amser wrth iddynt dyfu ac wynebu heriau newydd. Felly, rhaid inni sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n rhai y gellir eu haddasu ac yn rhai sy'n hyblyg, er mwyn diwallu'r anghenion hynny sy'n newid. Mae'n bwysig i'r rhai sy'n cynnig gwasanaethau penodol i blant a phobl ifanc ddeall yn gyffredinol gyd-destun ehangach cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf am i swyddogion ei ystyried wrth inni symud ymlaen. Codwyd y materion hyn gan lawer o'm cyd-Aelodau, gan gynnwys Paul Davies.

Yr ydym am sicrhau bod y rhai sy'n cynnig gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig, a'u teuluoedd, yn deall cyd-destun ehangach cymorth, gan gynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, cludiant a llawer o faterion eraill, oherwydd rhaid inni greu'r cysylltiadau rhwng y gwahanol wasanaethau hynny os ydym am roi'r plant a'r bobl ifanc hynny wrth wraidd darpariaeth. Fel y mae fy nghyd-Aelodau ar draws y Siambr wedi dweud, mae cynllunio'n gynnar a chydweithredu'n hynod bwysig os ydym am lwyddo yn hynny o beth. Yr wyf yn falch iawn o fod wedi gallu cyfrannu at y ddadl heddiw. Mae fy adran wedi deall yn iawn y pynciau a godwyd gan y pwyllgor. Yr ydym wedi ymateb yn gadarnhaol, ac, yn ysbryd y ddadl hon, byddwn yn ailystyried yr un argymhelliad nas derbyniasom.

Gareth Jones: Wrth gloi, hoffwn ystyried yr ymchwiliad hwn, a dweud cymaint yr wyf yn gwerthfawrogi'r holl gyfraniadau a wnaed y prynhawn yma, a'r ymgysylltu cadarnhaol, y cyfeiriodd y Gweinidog ato, a welsom yn ystod yr ymchwiliad ac yn ystod y ddadl y prynhawn yma. Soniodd y Gweinidog mai'r sbardun yn awr, fel erioed, yw anghenion teuluoedd, plant a phobl ifanc unigol. Dyna sydd wedi digwydd y tro hwn, yn fy marn i. Yr ydym fel pwyllgor wedi ymateb i'r anghenion hynny fel y cawsant eu cyfleu i ni, ac fel y cawsant eu cyfleu i Aelodau'r Cynulliad yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, fel yr oeddech yn sôn. Yr wyf finnau, fel chithau, yn ddyledus i'r grŵp trawsbleidiol ar awtistiaeth, a'r gwaith da y mae wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth, a'n harwain

more or less to this positive situation today.

You referred, quite rightly, to the ongoing work, which is a credit to the Assembly and the Government. The committee members who have contributed this afternoon have all highlighted areas where we feel there is possibly room for better progress, and that is quite right. I accept that you have responded to those ongoing themes, and so there is no need for me to highlight those.

We have now identified and understand the needs. One of the most important messages that I have learned from listening this afternoon and from our inquiry is that it is more than simply putting the individual at the centre. Individuals have different needs, as you have identified, and so it is not easy to respond as it is a complex issue. We have also been made aware of rather tedious problems, such as a lack of proper co-ordination and timeliness, but Jenny mentioned the improvements in Cardiff.

I believe that this is achievable. We are working constructively and the Government is working hard to achieve better outcomes in this important area. As a committee, we wish the task and finish groups well with their findings, and the Careers Wales review will also be important.

I am certainly heartened and encouraged by the debate that we have had today. I will conclude by thanking all my colleagues on the committee for their hard work and scrutiny, as I said earlier, given the response that we had from witnesses and others. I thank all those concerned and all who made a contribution, and I extend my many thanks to the clerk and her team for collating the report. It has been well received, and we are now poised for progress in this significant and important area.

The Temporary Deputy Presiding Officer: The proposal is to note the Enterprise and Learning Committee's report. Does any Member object? I see that there are no objections. In accordance with Standing

fwy neu lai at y sefyllfa gadarnhaol hon heddiw.

Cyfeiriasoch, yn hollol gywir at y gwaith sy'n mynd rhagddo, sy'n glod i'r Cynulliad a'r Llywodraeth. Mae holl aelodau'r pwyllgor, a gyfrannodd y prynhawn yma, wedi tynnu sylw at feysydd lle y teimlwn y gellid gwneud gwell cynnydd o bosibl, ac mae hynny'n berffaith iawn. Yr wyf yn derbyn ichi ymateb i'r themâu parhaus hynny, ac nid oes angen, felly, imi dynnu sylw atynt.

Yr ydym erbyn hyn wedi nodi a deall yr anghenion. Un o'r negeseuon pwysicaf yr wyf wedi'u dysgu o wrando y prynhawn yma, ac yn sgîl ein hymchwiliad, yw bod angen gwneud mwy na chanolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gan unigolion wahanol anghenion, fel yr ydych wedi sôn, ac nid yw'n hawdd ymateb, felly, gan ei fod yn fater cymhleth. Yr ydym hefyd wedi dod yn ymwybodol o broblemau eithaf diflas, megis diffyg cydgysylltu a phrydlondeb priodol, ond soniodd Jenny am y gwelliannau yng Nghaerdydd.

Credaf fod modd cyflawni hyn. Yr ydym yn gweithio'n adeiladol, ac mae'r Llywodraeth yn gweithio'n galed i sicrhau canlyniadau gwell yn y maes pwysig hwn. Yr ydym fel pwyllgor yn dymuno'r gorau i'r grwpiau gorchwyl a gorffen gyda'u canfyddiadau, a bydd adolygiad Gyrfa Cymru yn bwysig hefyd.

Yr wyf yn sicr wedi fy nghalonogi gan y ddadl yr ydym wedi'i chael heddiw. Yr wyf am gloi drwy ddiolch i'm holl gyd-Aelodau ar y pwyllgor am eu gwaith caled a'u gwaith craffu, fel y dywedais yn gynharach, o gofio'r ymateb a gawsom gan dystion ac eraill. Hoffwn ddiolch i bawb dan sylw a phawb a gyfrannodd, a hoffwn ddiolch yn fawr i'r clerck a'i thîm am ddod ag elfennau'r adroddiad ynghyd. Mae'r adroddiad wedi cael ymateb da, ac yr ydym erbyn hyn yn barod i wneud cynnydd yn y maes arwyddocaol a phwysig hwn.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Y cynnig yw ein bod yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, mae'r

Order No. 7.35, therefore, the motion is agreed. cynnig wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

The Temporary Deputy Presiding Officer: The debate on the Children and Young People Committee's report, 'Arrangements of placement of children into care in Wales' has been postponed, and so I call Ann Jones for the next item.

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Mae'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 'Trefniadau ar gyfer lleoli plant mewn gofal yng Nghymru', wedi'i gohirio, felly galwaf Ann Jones i gyflwyno'r eitem nesaf.

Ann Jones: You do not know what I am going to say yet.

Ann Jones: Ni wyddoch beth yr wyf yn bwriadu ei ddweud eto.

Datganiad Deddfwriaethol am y Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru)

Legislative Statement on the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure

Ann Jones: I am delighted to present my legislative statement on the Proposed Domestic Fire Safety (Wales) Measure. I laid the proposed Measure on 8 July after the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing) (Fire Safety) Order 2010, laid in my name, was successfully granted Royal Assent in April 2010. It was in my name and in my name only, but I have to thank a number of people who helped me to get this far, such as Chris Ennis, the deputy chief fire officer of the North Wales Fire Service when we started the process, and he is now the deputy chief fire officer at Staffordshire. I thank him and his chief fire officer for allowing him to continue as my adviser. The three fire and rescue services in Wales have been extremely successful in helping me. My former colleagues in the Fire Brigades Union, and Ronnie King and the national fire sprinkler network have all helped me to get this far. I also thank Gareth Williams, from the legislation office, and the Members' research service for their sterling work in taking the proposed Measure this far.

Ann Jones: Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy natganiad deddfwriaethol am Fesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru). Gosodais y Mesur arfaethedig ar 8 Gorffennaf wedi i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai) (Diogelwch Tân) 2010, a osodwyd yn fy enw, lwyddo i gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2010. Fe'i cyflwynwyd yn fy enw i, ac yn fy enw i'n unig, ond rhaid imi ddiolch i nifer o bobl a'm cynorthwyodd i ddod mor bell â hyn, megis Chris Ennis, a oedd yn ddirprwy brif swyddog tân Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru pan ddechreuasom ar y broses, ac sydd bellach yn ddirprwy brif swyddog tân yn swydd Stafford. Diolch iddo ef ac i'w brif swyddog tân am ganiatáu iddo barhau i fod yn gynghorydd imi. Mae tri gwasanaeth tân ac achub Cymru wedi fy nghynorthwyo'n llwyddiannus iawn. Mae fy nghyn-gydweithwyr yn Undeb y Brigadau Tân, a Ronnie King a'r rhwydwaith cenedlaethol systemau chwistrellu tân, i gyd wedi fy nghynorthwyo i ddod mor bell â hyn. Diolch hefyd i Gareth Williams, o'r swyddfa deddfwriaeth, a gwasanaeth ymchwil yr Aelodau am eu gwaith rhagorol wrth fynd â'r Mesur arfaethedig mor bell â hyn.

You will all be aware of the reasons why I am introducing the proposed Measure. If you are not aware, you should be, because I have told you many times. I want to see all new-

Gwyddoch i gyd pam yr wyf yn cyflwyno'r Mesur arfaethedig. Os nad ydych yn gwybod, fe ddylech, gan imi ddweud wrthyh droeon. Yr wyf am weld systemau diffodd tân

build homes in Wales fitted with automatic fire suppression systems, or 'sprinklers', to give them their common title. House fires are cruel and often devastating incidents of misfortune that can happen at any time of the year to any one of us.

4.50 p.m.

When lives are lost, we all see the effects at a personal or a professional level, and the devastation that it causes. Across north Wales, we have seen four deaths recently, with much publicity. However, there was one incident in north Wales that received little publicity: a fire started in a building that had had a portable sprinkler system installed because the resident was believed to be at risk—indeed, that person was at risk, a fire did happen, and I believe that the activation of the sprinkler system saved that person's life.

A fire sprinkler is the only mechanism that can fight a fire from the outset, effectively, offering you a firefighter in every room, ready and waiting, 24 hours a day, seven days a week. By equipping our houses with this defence against fire, we can proudly say that Wales is leading the way, and that we are acting to reduce avoidable deaths in Wales.

At present, the cost of fire is completely unsustainable. There is no hiding from the fact that domestic fires costs the UK economy around £7 billion every year. As eye-watering a figure as that is, it is a safe bet that more indirect costs flow from the ones included in that figure, such as costs to treat injuries and extreme, extensive burns.

The average overall cost of a domestic fire is around £24,000, but research has shown that the cost to the fire service plummets when a sprinkler has been activated. On average, it costs the fire service around £3,500 per fire at homes without sprinklers. When attending a house fire where sprinklers have been

awtomatig, neu systemau chwistrellu, a rhoi iddynt eu henw cyffredin, yn cael eu gosod ym mhob cartref newydd a gaiff ei adeiladu yng Nghymru. Mae tanau domestig yn ddigwyddiadau anffodus creulon, sy'n ddinistriol yn aml, ac a all ddigwydd i unrhyw un ohonom ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Pan gaiff bywydau eu colli, byddwn i gyd yn gweld yr effeithiau ar lefel bersonol neu broffesiynol, a'r dinistr y bydd hynny'n ei achosi. Ar draws y gogledd, mae pedwar o bobl wedi marw'n ddiweddar, a chafwyd llawer o gyhoeddusrwydd ynghylch hynny. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyhoeddusrwydd a gafodd un digwyddiad yn y gogledd: dechreuodd tân mewn adeilad lle yr oedd system chwistrellu symudol wedi'i gosod oherwydd bod y sawl a oedd yn byw yno'n cael ei ystyried yn unigolyn a oedd mewn perygl—ac yn wir, yr oedd mewn perygl. Dechreuodd tân yno, a chredaf mai'r system chwistrellu a achubodd fywyd yr unigolyn hwnnw.

System chwistrellu tân yw'r unig system a all ymladd tân o'r eiliad y mae'n dechrau, i bob pwrpas, gan ddarparu diffoddwr tân sydd wrth law 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ym mhob ystafell yn eich cartref. Drwy amddiffyn ein tai fel hyn rhag tân, gallwn ddweud gyda balchder fod Cymru'n arwain y ffordd, a'n bod yn gweithredu i leihau nifer y marwolaethau y gellid eu hosgoi yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, mae cost tân yn gwbl anghynaliadwy. Ni ellir gwadu nad yw tanau domestig yn costio tua £7 biliwn y flwyddyn i economi'r DU. Er mor boenus yw'r ffigur hwnnw, gellir bod yn ddigon siŵr bod mwy o gostau anuniongyrchol yn deillio o'r rhai sydd wedi'u cynnwys ynddo, megis costau trin anafiadau a llosgiadau helaeth, difrifol.

Ar gyfartaledd, mae tân domestig yn costio tua £24,000 i gyd, ond mae ymchwil wedi dangos bod y gost i'r gwasanaeth tân yn disgyn yn sylweddol pan fydd system chwistrellu wedi dechrau gweithio. Ar gyfartaledd, bydd pob tân mewn cartrefi heb systemau chwistrellu'n costio tua £3,500 i'r

installed, the cost comes down by almost two thirds to £1,500. As well as making the whole area safer for firefighters, this legislation will save more and more money for the fire service and the public as more new homes are built.

When the Scottsdale fire department in Arizona carried out a 10-year study into the effectiveness of sprinklers, the results were incredible. The amount of water used by sprinklers to tackle a fire is roughly 209 gallons. It is estimated that manual suppression would have used 3,290 gallons, which is a huge waste of what I am sure we all regard as a precious commodity. Without the introduction of sprinklers, this waste will continue, and so will the huge amount of contaminated water that enters our drains from every fire.

A sprinkler system will stop a house from burning down. Fires are normally contained to a single room by a sprinkler, because one or two sprinkler heads will operate, preventing the spread of the fire. That means that the carbon footprint associated with rebuilding a house is eliminated almost completely.

Sprinklers offer something quite different from smoke alarms, and, while smoke alarms are a must—hard-wired, of course—they only alert a person to the fact that there is a fire. A sprinkler will activate and extinguish that fire.

The case for sprinklers is compelling. They are not new or something that I have dreamed up. The ancient Egyptians had sprinkler systems, all those years ago, so they have been around a long time but have not been used effectively and efficiently here in the UK. I realise that legislation for sprinklers has to be workable and appealing to succeed, and I am confident that we can achieve that. As I said before, I have the support of the three fire and rescue services, the Fire Brigades Union, and the national fire sprinkler network. Like me, they are in this

gwasanaeth tân. Wrth ymateb i dân mewn tŷ sydd â system chwistrellu, mae'r gost yn disgyn i £1,500, sydd bron ddwy ran o dair yn is. Yn ogystal â gwneud y maes i gyd yn fwy diogel i ddiffoddwyr tân, bydd y ddeddfwriaeth hon yn arbed mwy a mwy o arian i'r gwasanaeth tân a'r cyhoedd wrth i fwy o gartrefi newydd gael eu hadeiladu.

Pan gynhaliodd adran dân Scottsdale yn Arizona astudiaeth 10 mlynedd ynghylch effeithiolrwydd systemau chwistrellu, yr oedd y canlyniadau'n anhygoel. Yn fras, mae systemau chwistrellu'n defnyddio 209 galwyn o ddŵr i ddiffodd tân. Amcangyfrifir y byddai angen 3,290 galwyn o ddŵr i ddiffodd tân fel arall, ac mae hynny'n wastraff enbyd ar yr hyn y mae pob un ohonom, yr wyf yn siŵr, yn ei ystyried yn adnodd gwerthfawr. Heb gyflwyno systemau chwistrellu, bydd y gwastraff hwn yn parhau, ac felly hefyd y symiau sylweddol o ddŵr wedi'i halogi sy'n llifo o bob tân i mewn i'n draeniau.

Bydd system chwistrellu'n atal tŷ rhag llosgi i'r llawr. Fel rheol, bydd system chwistrellu'n cyfyngu tân i un ystafell, gan y bydd un neu ddwy chwistrell yn chwistrellu dŵr gan atal y tân rhag ymledu. Mae hynny'n golygu bod yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig ag ailadeiladu tŷ yn cael ei ddileu bron yn llwyr.

Mae systemau chwistrellu'n cynnig rhywbeth gwahanol iawn i larymau mwg, ac er bod larymau mwg yn hanfodol—rhaid wedi'u cysylltu â gwifrau, wrth gwrs—dim ond gwneud rhywun yn ymwybodol o dân a wnânt. Bydd chwistrell yn dechrau gweithio ac yn diffodd y tân hwnnw.

Mae'r ddadl o blaid systemau chwistrellu'n un gref iawn. Nid ydynt yn rhywbeth newydd neu'n rhywbeth yr wyf wedi'i ddyfeisio. Yr oedd systemau chwistrellu'n bodoli yn yr hen Aifft, flynyddoedd maith yn ôl. Felly, maent wedi bod ar gael ers amser maith, ond nid ydynt wedi cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon yma yn y DU. Yr wyf yn sylweddoli bod yn rhaid i ddeddfwriaeth ar gyfer systemau chwistrellu fod yn ymarferol ac yn ddeniadol er mwyn llwyddo, ac yr wyf yn hyderus y gallwn gyflawni hynny. Fel y dywedais o'r blaen, mae'r tri gwasanaeth tân

for the long haul. They always knew that this would be a marathon. We are about halfway now, and I could never repay them financially for what they have done. However, I know that they do not want financial payment; they want to see this legislation passed so that people's lives are saved.

Every person in every newly built home in Wales will be better protected from fire than ever before. A child will be just as well protected at home as at school here in Wales. The risk of losing everything in a fire will be lower than ever. In a small but significant way, that would be a great achievement for devolution and, most importantly, it would save lives for generations to come. I urge Members to show their support for this proposed Measure and to get it on the statute book. [*Applause.*]

The Temporary Deputy Presiding Officer: I remind Members that this is a statement, not a debate, and so please focus contributions towards questions. Ann will respond after each Member makes their contribution. We start with Mark Isherwood.

Mark Isherwood: Thank you for your legislative statement, Ann. I regret that I did not receive a copy in advance, electronically or in paper form, therefore I will try to respond to what I can recall of what you said.

I will make a short preamble before moving to the questions. When we debated the Order, we said that the priority must be the lives that could be saved and that we would support the Order on the basis of the evidence provided, but that there were a number of issues that would need to be addressed at the Measure stage if we were to produce effective legislation. I hope that you will agree that the evidence that the relevant legislation committee will look at will need to address all these points impartially in order to arrive at the best recommendations possible.

ac achub, Undeb y Brigadau Tân a'r rhwydwaith cenedlaethol systemau chwistrellu tân, yn fy nghefnogi. Maent hwythau, fel finau, yn barod i ddilyn y mater i'r pen. Yr oeddent yn gwybod o'r dechrau y byddai'n farathon. Yr ydym wedi cyrraedd tua hanner ffordd erbyn hyn, ac ni allwn byth eu had-dalu'n ariannol am yr hyn y maent wedi'i wneud. Fodd bynnag, gwn nad ydynt am gael tâl ariannol; maent am weld y ddeddfwriaeth yn cael ei phasio er mwyn i fywydau pobl gael eu hachub.

Bydd pob unigolyn ym mhob cartref newydd a gaiff ei adeiladu yng Nghymru wedi'i amddiffyn yn well nag erioed o'r blaen rhag tân. Yma, yng Nghymru, bydd plentyn wedi'i amddiffyn lawn cystal gartref ag yn yr ysgol. Bydd y perygl i rywun golli popeth mewn tân yn is nag erioed. Mewn ffordd fach ond arwyddocaol, byddai'n gyflawniad gwych i ddatganoli, ac yn bwysicach na dim, byddai'n achub bywydau am genedlaethau i ddod. Yr wyf yn annog yr Aelodau i ddangos eu cefnogaeth i'r Mesur arfaethedig hwn a sicrhau ei fod yn cyrraedd y llyfr statud. [*Cymeradwyaeth.*]

Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Hoffwn atgoffa'r Aelodau mai datganiad a geir yma ac nid dadl, felly a wnewch ofalu bod eich cyfraniadau'n canolbwyntio ar gwestiynau? Bydd Ann yn ymateb ar ôl i bob Aelod gyfrannu. Dechreuwn gyda Mark Isherwood.

Mark Isherwood: Diolch am eich datganiad deddfwriaethol, Ann. Yn anffodus, ni chefais gopi ymlaen llaw, yn electronig nac ar bapur, felly ceisiaf ymateb i'r hyn yr wyf yn ei gofio o'r hyn a ddywedaso.

Hoffwn gynnig ychydig eiriau o ragymadrodd cyn symud at y cwestiynau. Pan fuom yn trafod y Gorchymyn, dywedaso fod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'r bywydau y gellid eu hachub, ac y byddem yn cefnogi'r Gorchymyn ar sail y dystiolaeth a gâi ei darparu, ond bod nifer o faterion y byddai angen rhoi sylw iddynt wrth lunio'r Mesur, os oeddem am gynhyrchu deddfwriaeth effeithiol. Gobeithio y byddwch yn cytuno y bydd angen i'r dystiolaeth y bydd y pwyllgor deddfwriaeth perthnasol yn edrych arni fynd i'r afael â'r holl bwyntiau hyn yn ddiuedd er mwyn cynnig yr

You referred to the life that was saved in north Wales. It would be helpful to know whether that was in a new property or in an older property, and whether the sprinkler was fixed or mobile, to validate your comment. I say that only because, after the last debate, I was approached by persons who said that, because of the relatively small number of domestic dwellings in which sprinklers are currently fitted, evidence of their overall impact was statistically invalid. You mentioned the former deputy chief of the North Wales Fire and Rescue Service, who also raised concerns with me, and told me that seven of the 10 fire deaths in that year, which was a particularly bad year, related to people who were known to be in high-risk groups. That triggered better cross-service data sharing and the installation of mobile sprinklers, as I am sure you know.

Do you agree that further evidence will need to be taken from the Building Research Establishment, given the evidence that it provided to the committee that challenged its previous findings, which found that sprinklers were effective only in residential care homes and tall apartment blocks? It then said that new research had shed more light and looked more favourably on residential sprinklers. Unfortunately, its report was never provided, and when my office tried to pursue that, it advised that its calculations were dependent on the cost of sprinklers, annual maintenance costs, the number of fires, the number of lives lost, and injuries sustained, which in England but not Wales had shown that there would be an overall positive impact for only a few categories of building types.

How do you respond to the evidence that the committee received from the Welsh Local Government Association of the need to examine pilot properties so that all interested parties can be made aware of costs and implications? Similarly, Community Housing

argymhellion gorau posibl.

Cyfeiriasoch at y bywyd a achubwyd yn y gogledd. Byddai'n ddefnyddiol gwybod ai mewn eiddo newydd ynteu eiddo hŷn yr oedd hynny, ac a oedd y system chwistrellu'n sefydlog ynteu'n symudol, er mwyn dilysu eich sylw. Yr unig reswm yr wyf yn dweud hynny yw oherwydd i bobl ddod ataf ar ôl y ddadl ddiwethaf a dweud bod y ffaith mai mewn nifer cymharol fach o gartrefi y ceir systemau chwistrellu ar hyn o bryd yn golygu bod y dystiolaeth ynghylch eu heffaith gyffredinol yn annilys, o safbwynt ystadegol. Soniasoch am gyn ddirprwy brif swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a fynegodd bryderon wrthyf hefyd, ac a ddywedodd wrthyf fod saith o'r 10 unigolyn a fu farw mewn tân yn ystod y flwyddyn honno, a oedd yn flwyddyn arbennig o wael, yn bobl y gwyddid eu bod yn perthyn i grwpiau risg uchel. Arweiniodd hynny at well trefniadau i rannu data ar draws gwasanaethau a gosod systemau chwistrellu symudol, fel y gwyddoch, yr wyf yn siŵr.

A ydych yn cytuno y bydd angen mwy o dystiolaeth gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu, o ystyried y dystiolaeth a ddarparodd i'r pwyllgor a heriodd ei ganfyddiadau blaenorol? Yn ôl y rheini dim ond mewn cartrefi gofal preswyl a blociau mawr o fflatiau yr oedd systemau chwistrellu'n effeithiol. Dywedodd wedyn fod ymchwil newydd wedi taflu mwy o oleuni ar y mater, ac wedi mynegi barn fwy ffafriol am systemau chwistrellu domestig. Yn anffodus, ni ddaeth ei adroddiad byth i law, a phan geisiodd fy swyddfa fynd ar drywydd hynny, dywedodd fod ei gyfrifiadau'n dibynnu ar gost systemau chwistrellu, costau cynnal a chadw blynyddol, nifer y tanau, nifer y marwolaethau a nifer yr anafiadau, a oedd wedi dangos yn Lloegr, ond nid yng Nghymru, mai ar gyfer ychydig categorïau'n unig o wahanol fathau o adeiladau y byddent yn cael effaith gadarnhaol at ei gilydd.

Sut yr ydych yn ymateb i'r dystiolaeth a gafodd y pwyllgor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch yr angen i archwilio eiddo lle y caiff y systemau eu treialu, er mwyn i bawb sydd â diddordeb gael gwybod beth yw'r costau a'r

Cymru has said that, without evaluating pilot projects, it is difficult to draw conclusions. In addition, how do you respond to the contribution from Community Housing Cymru that it would not place fire at the top of the list of the causes of death in domestic settings, adding that one of the few elements of the evidence that it could not see was the age of properties in which fire deaths occur? It highlighted the need to consider the annualised programme of maintenance, the backlog of housing stock, the age of properties in which fire deaths occur, and whether those properties comply with building regulations. It also talked about houses in multiple occupation and older properties.

Do you agree that we need to highlight the need to evaluate the evidence to ensure that the investment that is made has the biggest impact on reducing the number of deaths in domestic fire settings? The evidence from Firebrake Cymru, the Welsh fire safety charity, noted the overall reduction in the number of fire deaths, but also that the circumstances of some groups of people mean that they are at greater risk of fire in the home. At an event in Rhyl last May, it noted that thousands of incidents do not get reported and that those who are most at risk as a result of their circumstances, conditions, behaviours and lifestyle choices are overrepresented in the statistics. Do you agree with it that we need to work with mental health charities, drug and alcohol teams and other organisations to address this agenda on the basis of collaboration?

I will finish—[*Applause.*] I am sorry, but this is a serious issue. We are talking about lives and how best to use the resources available to save those lives.

I will finish by quoting what the committee's report says, and I hope that you will respond favourably to it. It said:

'We are content with the scope of the

goblygiadau? Yn yr un modd, mae Cartrefi Cymunedol Cymru wedi dweud ei bod yn anodd dod i gasgliadau heb werthuso prosiectau peilot. Yn ogystal, sut yr ydych yn ymateb i'r cyfraniad gan Cartrefi Cymunedol Cymru, a ddywedodd na fyddai'n rhoi tân ar frig y rhestr o bethau sy'n achosi marwolaethau mewn lleoliadau domestig, gan ychwanegu mai un o'r ychydig elfennau na allai eu gweld yn y dystiolaeth oedd oedran yr eiddo lle y mae pobl yn marw mewn tanau? Tynnodd sylw at yr angen i ystyried y rhaglen flynyddol o waith cynnal a chadw, yr ôl-groniad o stoc tai, oedran yr eiddo lle y mae pobl yn marw mewn tanau, ac a yw'r eiddo'n cydymffurfio â rheoliadau adeiladu. Bu'n sôn hefyd am dai amlfeddiannaeth ac eiddo hŷn.

A ydych yn cytuno bod angen inni amlygu'r angen i werthuso'r dystiolaeth er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad a wneir yn cael yr effaith fwyaf o safbwynt lleihau nifer y marwolaethau mewn lleoliadau tanau domestig? Yr oedd y dystiolaeth gan Atal Tân Cymru, sef elusen diogelwch tân Cymru, yn nodi'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y bobl a fu farw mewn tanau, ond yn nodi hefyd bod amgylchiadau rhai grwpiau o bobl yn golygu bod mwy o berygl iddynt ddiodesdef tân yn eu cartref. Mewn digwyddiad yn y Rhyl fis Mai diwethaf, nododd yr elusen nad yw miloedd o ddigwyddiadau'n cael eu cofnodi, a bod y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ganlyniad i'w hamgylchiadau, eu hamodau, eu hymddygiad, a'u dewisiadau o ran ffordd o fyw'n fwy amlwg na'r cyffredin yn yr ystadegau. A ydych yn cytuno â'r elusen fod angen inni weithio gydag elusennau iechyd meddwl, timau alcohol a chyffuriau a sefydliadau eraill i roi sylw i'r agenda hon drwy gydweithredu?

Gorffennaf—[*Cymeradwyaeth.*] Mae'n ddrwg gennyf, ond mae hwn yn fater difrifol. Yr ydym yn sôn am fywydau pobl, a'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i achub y bywydau hynny.

Gorffennaf drwy ddyfynnu'r hyn y mae adroddiad y pwyllgor yn ei ddweud, a gobeithio y byddwch yn ymateb yn ffaith i'r iddo. Dywedodd:

'Yr ydym yn fodlon gyda chwmpas y

proposed Order as drafted, but wish to put on record our desire that future Measures be founded on a solid evidence base and take account of the evidence we have received in relation to the scope of the proposed Order.’

I hope and trust that you will concur with the committee’s conclusion.

5.00 p.m.

Ann Jones: The reason why you did not get a statement was because I did not produce one. I was not aware that I had to do so; I thought that it was only for Government statements that statements were produced for spokespeople. You heard it at the same time as everyone else. In fact, I amended certain bits of it, so if I had given you a statement, you would have had to check it against delivery.

Regarding the issue in Anglesey, I said that a portable sprinkler had been put in, because the tenant was deemed to have been vulnerable. This proves that the sprinkler system works, because that person is still alive today. Had that sprinkler system, portable or otherwise, not been in the property, I feel very sure—though no-one can say for definite—that that person would not have survived the fire.

The BRE report is interesting. It is the only report in England and Wales that we are able to look at. It is difficult to take a lot of what the BRE says seriously, because it did not go out to Scottsdale, Arizona, in the USA, or to Vancouver, where there is overwhelming evidence to prove that the installation of fire sprinklers in buildings and homes saves lives. Vancouver saw a drop from 30 deaths a year to one or two deaths, and those deaths occurred in buildings where there were no sprinklers. There is overwhelming evidence to prove that sprinkler systems work.

I believe that we have covered the issue of houses in multiple occupation. If people are

Gorchymyn arfaethedig fel y drafftiwyd ef, ond dymunwn gofnodi ein dymuniad bod Mesurau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar dystiolaeth gadarn ac yn ystyried y dystiolaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â chwmpas y Gorchymyn arfaethedig.’

Yr wyf yn gobeithio ac yn hyderu y byddwch yn cytuno â chasgliad y pwyllgor.

Ann Jones: Ni chawsoch ddatganiad am nad oeddwn wedi paratoi un. Nid oeddwn yn sylweddoli bod yn rhaid imi wneud hynny; yr oeddwn yn meddwl mai dim ond ar gyfer datganiadau’r Llywodraeth yr oedd datganiadau’n cael eu paratoi ar gyfer llefarwyr. Bu ichi ei glywed yr un pryd â phawb arall. A dweud y gwir, newidiais rai rhannau ohono, felly pe bawn wedi rhoi datganiad ichi, byddech wedi gorfod ei wirio yn erbyn yr hyn a ddywedais.

O ran y mater yn sir Fôn, dywedais fod system chwistrellu symudol wedi’i gosod, gan fod y tenant yn cael ei ystyried yn unigolyn agored i niwed. Mae hynny’n profi bod y system chwistrellu’n gweithio, oherwydd y mae’r unigolyn hwnnw’n fyw heddiw. Pe na bai’r system chwistrellu honno, boed yn symudol neu fel arall, wedi bod yn yr eiddo, yr wyf yn teimlo’n eithaf siŵr—er na all neb ddweud yn bendant—na fyddai’r unigolyn hwnnw wedi goroesi’r tân.

Mae adroddiad y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yn ddiddorol. Dyna’r unig adroddiad yng Nghymru a Lloegr y gallwn edrych arno. Mae’n anodd cymryd llawer o’r hyn y mae’r sefydliad yn ei ddweud o ddifrif, oherwydd nid aeth allan i Scottsdale, Arizona, yn yr Unol Daleithiau, nac i Vancouver, lle y ceir tystiolaeth gref i brofi bod gosod systemau chwistrellu tân mewn adeiladau a chartrefi yn achub bywydau. Yn Vancouver gwelwyd nifer y marwolaethau’n disgyn o 30 y flwyddyn i un neu ddwy, a digwyddodd y marwolaethau hynny mewn adeiladau heb systemau chwistrellu. Ceir tystiolaeth gref i brofi bod systemau chwistrellu’n gweithio.

Credaf inni roi sylw i dai amlfeddiannaeth. Os yw pobl yn mynd i newid o westai i dai

going to change from hotels to houses in multiple occupation, I think that they are covered under the proposed Measure. That is the idea. Often, people in houses in multiple occupation are probably the ones most at risk. That is covered in the proposed Measure. I feel that Community Housing Cymru had the wrong idea of what the proposed Measure is about. It thought that we could look at what keeps people safe in their homes. Yes, sprinklers keep people safe in their homes, but it missed the idea of what I am trying to do, which is to stop fires. I recognise what it said in respect of getting the best use out of public money, but my objective is to put safety mechanisms into owner-occupied properties that are not there at the moment.

A lot comes out in evidence that comes before the committee. Mark is right: this needs to be evidence-based. However, I think that the evidence is there. The three fire services in Wales, the Fire Brigades Union and the National Fire Sprinkler Association would not have stood beside me all this time if they did not think that the evidence was there. They are the ones who have helped and supported me. They found those reports of fires where we can prove that, had sprinklers been there, they would have helped. I feel that we really owe it to the people of Wales, if we are in a position to make a law that will improve their quality of life and make them safe, to do so.

Joyce Watson: I am pleased to have the opportunity to speak on this issue. I pay tribute to Ann for her persistence in obtaining Royal Assent for her LCO and for tabling this proposed Measure. Ann brings a wealth of expertise on this topic to the Chamber, having worked in this area throughout her career. We need only look at today's headlines to realise that the need to introduce sprinklers in homes is both immediate and critical. It is tragic that 20 people in Wales die every year as a result of domestic fires, and four out of five fires are, indeed, domestic fires. This proposed Measure will

amfeddiannaeth, credaf fod y Mesur arfaethedig yn berthnasol iddynt. Dyna'r bwriad. Yn aml, mae'n debyg mai pobl mewn tai amfeddiannaeth yw'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi sylw i hynny. Teimlaf fod Cartrefi Cymunedol Cymru wedi cael yr argraff anghywir ynghylch diben y Mesur arfaethedig. Yr oedd yn meddwl y gallem edrych ar yr hyn sy'n cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi. Mae'n wir bod systemau chwistrellu'n cadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi, ond methodd ddeall yr hyn yr wyf yn ceisio'i wneud, sef atal tanau. Yr wyf yn cydnabod yr hyn a ddywedodd o ran defnyddio arian cyhoeddus yn y ffordd orau, ond fy mwriad yw rhoi systemau diogelwch, nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd, mewn cartrefi y mae eu perchenogion yn byw ynddynt.

Daw llawer o bethau i'r amlwg mewn tystiolaeth sy'n dod gerbron y pwyllgor. Mae Mark yn iawn: mae angen i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Fodd bynnag, credaf fod y dystiolaeth yno. Ni fyddai'r tri gwasanaeth tân yng Nghymru, Undeb y Brigadau Tân na'r Rhwydwaith Cenedlaethol Systemau Chwistrellu Tân wedi fy nghefnogi ar hyd yr amser pe na baent yn meddwl bod y dystiolaeth yno. Nhw yw'r rhai sydd wedi fy nghynorthwyo a'm cefnogi. Nhw ddaeth o hyd i'r adroddiadau hynny am danau lle y gallwn brofi y byddai systemau chwistrellu wedi helpu, pe baent wedi bod ar gael. Os ydym mewn sefyllfa i lunio cyfraith a fydd yn gwella ansawdd bywyd pobl Cymru ac yn eu gwneud yn ddiogel, teimlaf ei bod yn ddyletswydd arnom wneud hynny er lles pobl Cymru.

Joyce Watson: Yr wyf yn falch o gael y cyfle i siarad am y mater hwn. Rhoddaf deyrnged i Ann am ei dyfalbarhad wrth gael Cydsyniad Brenhinol ar gyfer ei Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol, ac am gyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn. Daw Ann â chyfoeth o arbenigedd i'r Siambr yng nghyswllt y mater hwn, gan iddi weithio yn y maes drwy gydol ei gyrfa. Dim ond inni edrych ar benawdau'r newyddion heddiw, fe welwn fod yr angen i osod systemau chwistrellu mewn cartrefi'n ddybryd ac yn hollbwysig. Mae'n drasiedi bod 20 o bobl yn marw bob blwyddyn yng Nghymru o

go a long way to saving lives, which is what we are all striving for.

It is worth remembering that there are no cases on record where multiple fire deaths have happened in buildings with working sprinkler systems. While the indefinable, inconsolable grief and sense of loss at losing a loved one need not be articulated here, I would like to highlight the despair at losing irreplaceable records or treasured memories, such as baby photographs or wedding videos. The loss of, or damage to, a property can be emotionally and logistically testing for a family, particularly when young children and the elderly are involved. Will the installation of mandatory sprinkler systems save millions of pounds worth of possessions as well as safeguard items of sentimental value? Is it also true to say that there are financial incentives in approving this proposed Measure when we consider that the installation of sprinklers adds an extra 1 to 2 per cent to the building costs? It seems clear to me, but I will ask Ann to clarify it, that the money saved on the damage to property is potentially substantial. The total economic cost of fires to Wales is estimated at approximately £408 million every year. That figure could be dramatically reduced with a minimal increase in building costs.

Is it true to say that sprinkler systems also have a good record of reliability? With roughly one in 16 million sprinklers malfunctioning, stories of sprinkler systems breaking are very rare. I am pleased that the proposed Measure takes into account the changing nature of demographics by including houses that have been converted into houses in multiple occupation. By including HMOs in the proposed Measure, there will be a significantly reduced risk of a lack of communication between tenants, leading to inadequate fire warning systems. Is it also true that sprinklers would ensure that all rooms in houses with several tenants would be protected from damage caused by fire even if the tenants themselves had not discussed installing a smoke alarm?

ganlyniad i danau domestig, ac yn wir, tanau domestig yw pedwar o bob pum tân. Bydd y Mesur arfaethedig hwn yn gwneud llawer i achub bywydau, sef y nod y mae pob un ohonom yn ymdrechu i'w gyrraedd.

Mae'n werth cofio nad oes yr un achos wedi'i gofnodi o dân yn achosi nifer o farwolaethau mewn adeilad â systemau chwistrellu gweithredol. Er nad oes angen mynd ati yn y fan hon i fynegi'r ymdeimlad o golled a'r galar digysur nad oes geiriau i'w ddisgrifio, a deimlir wrth golli un sy'n annwyl, hoffwn dynnu sylw at y boen o golli cofnodion unigryw neu atgofion a drysorir, megis lluniau babi neu fideos priodas. Gall gweld eiddo'n cael ei golli neu ei ddifrodi fod yn anodd iawn i deulu o safbwynt emosiynol ac ymarferol, yn enwedig pan fydd plant ifanc a'r henoed yn dioddef. A fydd gosod systemau chwistrellu gorfodol yn arbed gwerth miliynau o bunnau o eiddo yn ogystal â diogelu eitemau sydd o werth personol? A yw hefyd yn wir dweud bod cymhellion ariannol ynghlwm wrth gymeradwyo'r Mesur arfaethedig hwn, o ystyried bod gosod systemau chwistrellu'n ychwanegu 1 neu 2 y cant at y costau adeiladu? Ymddengys i mi, ond gofynnaf i Ann egluro hynny, y gallai'r arian y gellid ei arbed ar y difrod i eiddo fod yn sylweddol. Amcangyfrifir bod tanau'n costio cyfanswm o tua £408 miliwn i Gymru bob blwyddyn. Gellid lleihau'r ffigur hwnnw'n sylweddol heb fawr o gynnydd mewn costau adeiladu.

A yw'n wir dweud bod systemau chwistrellu'n ddibynadwy iawn hefyd? Mae hanesion am systemau chwistrellu'n torri yn brin iawn, gyda rhyw un o bob 16 miliwn yn methu gweithio'n iawn. Yr wyf yn falch bod y Mesur arfaethedig yn ystyried natur gyfnewidiol demograffeg, drwy gynnwys tai sydd wedi'u troi'n dai amlfeddiannaeth. Drwy gynnwys tai o'r fath yn y Mesur arfaethedig, bydd y perygl y bydd diffyg cyfathrebu rhwng tenantiaid, sy'n arwain at systemau annigonol i rybuddio ynghylch tân, yn lleihau'n sylweddol. A yw'n wir hefyd y byddai systemau chwistrellu'n sicrhau y byddai pob ystafell mewn tai lle y ceir nifer o denantiaid yn cael eu hamddiffyn rhag niwed gan dân, hyd yn oed pe na bai'r tenantiaid eu hunain wedi trafod gosod larwm mwg?

Once again, I congratulate you, Ann, on a well-thought-out proposed Measure and I wish you good luck in seeing it succeed. Will you give me your assurance that you will continue to share your expertise with us, so that Members will be able to benefit from your extensive knowledge in this area?

Ann Jones: Thank you for those comments, Joyce. As I said, this has my name on it; I was the person in front of the committees and the person who begged, borrowed and stole from people to give me the LCO so that I could have the opportunity to put the proposed Measure forward here, but many people have stood by me. We must realise that backbenchers do not have an army of civil servants behind them. I do not have a department to which I can go along to ask someone to check something for me; it is usually down to me and my researcher, looking through mounds and mounds of paperwork.

You are right about the damage to property without a sprinkler system. Apart from chip-pan fires, which can be extinguished by sprinklers, the other main cause of house fires is discarded cigarettes. If a discarded cigarette were on a settee or a chair, and you had a sprinkler system in that room, nine times out of 10, the damage would be confined to that one room. That means that you could still live in that house after a house fire.

If you do not have a sprinkler system in your house, but have a smoke alarm, that will be triggered by the smoke and hopefully you will get out, but by the time the fire service arrives—I mean no disrespect to the fire service, but the average time in which it gets to a fire in an urban area is around five minutes—that fire has taken a good hold of the house. The windows will blow and usually by the time they blow, the upstairs will be affected. You often find that you have to re-house the family in question while you sort out the damage. The cost to the public purse of rehousing a family and of providing hospital care will be saved by installing a sprinkler system for, as you said, 1 to 2 per

Unwaith eto, yr wyf yn eich llongyfarch, Ann, ar Fesur arfaethedig sydd wedi'i ystyried yn ofalus, a dymunaf bob hwyl ichi o ran ei weld yn llwyddo. A wnewch roi sicrwydd imi y byddwch yn parhau i rannu eich arbenigedd â ni, fel y bydd yr Aelodau'n gallu elwa o'ch gwybodaeth helaeth yn y maes hwn?

Ann Jones: Diolch am y sylwadau hynny, Joyce. Fel y dywedais, fy enw i sydd ar hwn; fi oedd yr un a aeth gerbron y pwyllgorau, a'r un a fu'n erfyn ac yn ymbil ar bobl i roi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol imi er mwyn imi allu cael y cyfle i gyflwyno'r Mesur arfaethedig yn y fan hon, ond mae llawer o bobl wedi fy nghefnogi. Rhaid inni sylweddoli nad oes gan yr Aelodau ar y meinciau cefn lu o weision sifil i'w cynorthwyo. Nid oes gennyf adran y gallaf droi ati i ofyn i rywun wirio rhywbeth imi; fel rheol, rhaid i mi a'm hymchwilydd bori drwy domennydd di-ben-draw o waith papur.

Yr ydych yn iawn ynghylch y difrod a achosir i eiddo heb system chwistrellu. Ar wahân i danau a gaiff eu hachosi gan sosbenni sglodion, y gall systemau chwistrellu eu diffodd, y prif beth arall sy'n achosi tanau domestig yw sigarét a gaiff eu gollwng. Pe bai sigarét yn cael ei gollwng ar sofffa neu gadair, a bod gennych system chwistrellu yn yr ystafell honno, byddai'r difrod, naw gwaith allan o 10, yn cael ei gyfyngu i'r ystafell honno. Mae hynny'n golygu y gallech barhau i fyw yn y tŷ hwnnw ar ôl y tân.

Os nad oes gennych system chwistrellu yn eich tŷ, ond bod gennych larwm mwg a fydd yn seinio ar ôl synhwyro'r mwg ac yn eich galluogi i adael yr eiddo, gobeithio, bydd y tân wedi hen gydio erbyn i'r gwasanaeth tân gyrraedd—nid wyf yn dymuno dangos amarch i'r gwasanaeth tân, ond, ar gyfartaledd, mae'n cymryd tua phum munud i'r gwasanaeth gyrraedd tân mewn ardal drefol. Bydd y ffenestri'n chwalu, ac erbyn hynny bydd y tân fel rheol wedi cyrraedd yr ystafelloedd sydd i fyny'r grisiau. Yn aml, fe welwch y bydd yn rhaid ailgartrefu'r teulu dan sylw tra byddwch yn ymdrin â'r difrod. Bydd y gost i bwrs y wlad, o ailgartrefu teulu a darparu gofal mewn ysbyty, yn cael ei

cent of the building cost. That is a financial incentive. You can put that on your mortgage; you can know that you are safe and that, if you are unfortunate enough to have a fire, it will be contained. You also know that you have the expertise of the fire service, which will come along to ensure that everything in the room in question is fine and that you can carry on living in your house.

5.10 p.m.

On what you said about my expertise, 30 years in the fire service taught me one thing—just watch firefighters return from an incident where they have lost someone; go into the mess room after they have lost someone and sit around the mess table with these people who have, through their professionalism, attempted to save somebody, but they know that they have not managed to do so. We can stop all of that. As I say, four out of five times there will be no need for a firefighter to run into a burning building to save somebody, as the sprinkler will have already saved them. That is my incentive; that is what I want to see. For my part, when we have taken this legislation through in Wales, I will work with Government in England to ensure that England can follow Wales on this marvellous journey.

Eleanor Burnham: I commend Ann; she is very tenacious, and we know, from what she has said, that she has huge experience on this matter. There is very little that I can say, other than that I am privileged to be on Legislation Committee No. 1; I asked Ann a few questions when we looked at this issue this morning, and I have since thought of a couple more. Ann, do you foresee any problems with listed buildings, and how long will it be before we can progress this legislation from covering domestic fire safety to applying across the board? I am thinking about arson attacks on schools, and primary schools in particular, many of which have been targeted in Wales over the years. If you are not able to expand the legislation to this

harbed drwy osod system chwistrellu, a hynny, fel y dywedasoch, am 1 i 2 y cant o gost y gwaith adeiladu. Mae hynny'n gymhelliant ariannol. Gallwch roi'r gost ar eich morgais; gallwch wybod eich bod yn ddiogel ac y bydd tân, os byddwch yn ddigon anffodus i gael un, yn cael ei gyfyngu. Gwyddoch hefyd y bydd gennych arbenigedd y gwasanaeth tân a fydd yn dod i'r tŷ i sicrhau bod popeth yn yr ystafell dan sylw'n iawn a bod modd ichi barhau i fyw yn eich tŷ.

O ran yr hyn a ddywedasoch am fy arbenigedd, dysgodd 30 mlynedd yn y gwasanaeth tân un peth imi—y cyfan y mae angen ei wneud yw gwylio diffoddwyr tân yn dychwelyd o ddigwyddiad lle y mae rhywun wedi marw; ewch i'r ystafell fwyta ar ôl i rywun farw, ac eistedd o amgylch y bwrdd bwyd gyda'r bobl hyn sydd wedi ceisio achub bywyd rhywun, drwy eu proffesiynoldeb, ond sy'n gwybod eu bod wedi methu gwneud hynny. Gallwn roi terfyn ar hynny i gyd. Fel y dywedais, bedair gwaith allan o bump, ni fydd angen i ddiffoddwr tân redeg i mewn i adeilad sydd ar dân i achub rhywun, oherwydd bydd y system chwistrellu wedi gwneud hynny eisoes. Dyna yw fy nghymhelliad; dyna'r wyf am ei weld. O'm rhan i, pan fyddwn wedi cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yng Nghymru, byddaf yn gweithio gyda'r Llywodraeth yn Lloegr i sicrhau bod modd i Loegr ddilyn Cymru ar y daith fendigedig hon.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn canmol Ann; mae'n ddi-droi'n-ôl, a gwyddom, yn ôl yr hyn y mae wedi'i ddweud, fod ganddi brofiad aruthrol yn y maes hwn. Nid oes llawer y gallaf ei ddweud, ar wahân i'r ffaith ei bod yn fraint cael bod ar Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1; gofynnais ychydig o gwestiynau i Ann pan fuom yn edrych ar y mater hwn y bore yma, ac ers hynny yr wyf wedi meddwl am un neu ddau arall. Ann, a ydych yn rhagweld unrhyw broblemau gydag adeiladau rhestredig, a faint o amser a gymer cyn y gallwn ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, o fod yn ymdrin â diogelwch tân domestig i fod yn berthnasol i bob adeilad? Yr wyf yn meddwl am achosion o gynnu tân yn fwriadol mewn ysgolion, ac mewn ysgolion cynradd yn

extent, perhaps another Assembly Member might want to take up the baton. You have given us plenty of evidence to point to your expertise, and to prove how wonderful that this is going to be; I agree with you. Luckily, I have never suffered a fire; I had a flood when I was redoing my house, and that was bad enough. I look forward to this proposed Measure being pushed through with everybody's support; well done, Ann.

Ann Jones: I will take your questions in reverse, and begin by talking about arson in schools. All new-build and extensively refurbished schools in Wales will have to have sprinklers, so if there does happen to be a fire, the sprinklers will, hopefully, operate, and the children's work will not be lost. One of the most disturbing things about a fire in a school is that all of the children's work goes up in smoke; it is all lost.

We have led the way in Wales, and you asked whether we could take the legislation further. My domestic fire safety LCO was extremely narrow; it was defined narrowly so that we could get it through. I will not be able to amend that legislation and take it forward, but—who knows—I might come at the top of the list in another ballot. The aim would be to move on with the legislation, and to build on what we are doing now.

The legislation is not retrospective, so it does not apply to listed buildings; that decision was taken because we cannot police retrospective fitting. However, if a listed building is to have a huge extension or conversion, I think that it will be subject to the legislation.

benodol, y mae llawer ohonynt wedi cael eu targedu yng Nghymru dros y blynyddoedd. Os na allwch ymestyn y ddeddfwriaeth i'r graddau hynny, efallai y byddai Aelod arall o'r Cynulliad yn dymuno mynd ar drywydd y mater. Yr ydych wedi rhoi digon o dystiolaeth inni i ddangos eich arbenigedd a phrofi mor wych y bydd hyn; cytunaf â chi. Yn ffodus, nid wyf erioed wedi dioddef tân; cefais lifogydd pan oeddwn yn adnewyddu fy nhŷ, ac yr oedd hynny'n ddigon gwael. Edrychaf ymlaen at weld y Mesur arfaethedig hwn yn cael ei basio gyda chefnogaeth pawb; da iawn, Ann.

Ann Jones: Atebaf eich cwestiynau am yn ôl, gan ddechrau drwy sôn am achosion o danau bwriadol mewn ysgolion. Bydd yn rhaid i bob ysgol newydd yng Nghymru, a phob ysgol a adnewyddir yn sylweddol, gael systemau chwistrellu. Felly, os digwydd tân, y gobaith yw y bydd y system chwistrellu'n gweithio, ac na fydd gwaith y plant yn cael ei golli. Un o'r pethau mwyaf annifyr am dân mewn ysgol yw bod holl waith y plant yn cael ei losgi'n ulw; mae'r cyfan yn cael ei golli.

Yr ydym wedi arwain y ffordd yng Nghymru, a gofynasoch a allem fynd â'r ddeddfwriaeth ymhellach. Yr oedd fy Ngorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar ddiogelwch tân domestig yn gul iawn; yr oedd ei ddiffiniad yn gul er mwyn inni sicrhau ei fod yn cael ei basio. Ni fyddaf yn gallu newid y ddeddfwriaeth honno a'i datblygu, ond—pwy a wŷr—efallai y dof i frig y rhestr mewn balot arall. Y nod fyddai symud y ddeddfwriaeth yn ei blaen, ac adeiladu ar yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ôl-weithredol, felly nid yw'n berthnasol i adeiladau rhestredig; gwnaed y penderfyniad hwnnw am na allwn blismona'r gwaith o osod systemau mewn adeiladau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, os caiff adeilad rhestredig ei addasu neu ei ymestyn yn sylweddol, credaf y bydd y ddeddfwriaeth yn berthnasol iddo.

Dadl Fer Short Debate

Abertawe—Prifddinas Ranbarthol Swansea—Regional Capital

David Lloyd: Yr wyf yn falch o allu treulio ychydig funudau yn olrhain hanes y ddinas a'i rhagoriaethau, o dan y teitl 'Abertawe, prifddinas ranbarthol'.

I have agreed that Val Lloyd should also have an opportunity to emphasise the true message that we have about Swansea, which needs to be extolled far and wide. My basic point is that Swansea needs to step up to the plate as the proud second city of this nation, and as a regional capital for south-west Wales; this means having a different role to that of the nation's capital, Cardiff, but one that is complementary to it. Whenever I go to the Liberty Stadium—I nearly said 'whenever I stand on the terraces of the Liberty Stadium', but there are no terraces there, so one has to sit down—to support Swansea City Football Club, there are strong feelings, especially when Cardiff City Football Club is the opposition. There are similar feelings when I am there to watch the Ospreys playing rugby against Cardiff Blues. The point of this short debate is to ensure that that sort of friendly good-natured rivalry between the supporters stays within the sporting context and does not drift further afield, because I am sure that most of us—certainly Val—can recall quite a few examples in recent years of times when Swansea and Cardiff have vied with and competed against each other for various projects in the university, research and development and related fields. My main point is that, as we come to developing a nation, Swansea should not be fighting against Cardiff, and Cardiff certainly should not be fighting against Swansea—both should be batting together for Wales.

To develop the argument, most of us who live in Swansea—I think that, at the last count, five Assembly Members live there—are intensely proud of that fact. Swansea's

David Lloyd: I am pleased to be able to spend a few minutes looking at the history of the city and its merits, under the title 'Swansea, regional capital'.

Yr wyf wedi cytuno y dylai Val Lloyd gael cyfle hefyd i bwysleisio'r neges wir sydd gennym am ddinas Abertawe, y mae angen canu ei chlodydd ym mhobman. Fy mhwynt sylfaenol yw bod angen i Abertawe ymateb i'r her, fel ail ddinas falch y wlad hon, ac fel prifddinas ranbarthol y de-orllewin; mae hynny'n golygu bod ganddi rôl sy'n wahanol i rôl prifddinas y wlad, sef Caerdydd, ond un sy'n ei hategu. Pryd bynnag y byddaf yn mynd i Stadiwm Liberty—bu bron imi ddweud 'pryd bynnag y byddaf yn sefyll ar derasau Stadiwm Liberty', ond nid oes terasau yno, felly rhaid i bawb eistedd—i gefnogi Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe, bydd teimladau cryfion, yn enwedig pan fydd Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn chwarae yn ein herbyn. Ceir teimladau tebyg pan fyddaf yno'n gwyllo'r Gweilch yn chwarae rygbi yn erbyn Gleision Caerdydd. Diben y ddadl fer hon yw sicrhau bod cystadleuaeth gyfeillgar a rhadlon o'r fath rhwng y cefnogwyr yn aros yng nghyd-destun chwaraeon, ac nad yw'n treiddio i feysydd eraill, oherwydd yr wyf yn siŵr y gall y rhan fwyaf ohonom—yn enwedig Val—gofio llawer o enghreifftiau yn ystod y blynyddoedd diwethaf lle y mae Abertawe a Chaerdydd wedi ymryson â'i gilydd a chystadlu yn erbyn ei gilydd am amryw brosiectau yn y brifysgol, mewn gwaith ymchwil a datblygu ac mewn meysydd perthnasol. Fy mhrif bwynt yw na ddylai Abertawe fod yn brwydro yn erbyn Caerdydd wrth inni ddatblygu cenedl, ac na ddylai Caerdydd yn bendant fod yn brwydro yn erbyn Abertawe—dylai'r ddwy ddinas fod yn brwydro gyda'i gilydd er lles Cymru.

I ddatblygu'r ddadl, mae'r rhan fwyaf ohonom sy'n byw yn Abertawe—yr wyf yn credu bod pum Aelod o'r Cynulliad yn byw yno, yn ôl y cyfrif diwethaf—yn eithriadol o

history goes back several hundred years, to Norse Viking origins, with the arrival of some Viking sailor call Sveinn who founded the little village of Sveinsey, in the Norse, which became Swansea in English. Abertawe, obviously, has a different derivation. Therefore, we go back to our Viking Norse ancestors, which doubtless explains the behaviour sometimes of the football supporters.

In more recent times, Swansea has been known as Copperopolis. In Victorian times, it was the world's largest copper smelting centre—this was at the time when Cardiff was the world's largest coal exporting port. Swansea did the same for copper. There is a simple reason why that started—there is an Anglesey connection here, the Deputy First Minister will be pleased to hear, as the copper originally came from Mynydd Parys down to Swansea. It takes three tonnes of coal to smelt one tonne of copper, so it was easier to carry the copper to the coal than the other way around. When supplies of copper were exhausted in Anglesey, and, later on, in the west country, the copper would come from halfway around the globe, from Chile. Therefore, for many years, with many thousands of tonnes of copper smelted at Swansea, it was known as Copperopolis, just as the tinplate industry led to Llanelli being popularly called Tinopolis—which is now reflected in the title of a television company.

Swansea nowadays has much to be proud of. It has the National Waterfront Museum, it has the Wales National Pool, and it has two successful and expanding universities—Swansea University is about to open a second campus on Fabian Way, and has exciting projects at the Institute of Life Science, which has one of the world's largest Blue C computers. There is a tremendous amount of research and development happening at Swansea University, and at Swansea Metropolitan University. There is a lot of expansion, some of it in the teeth of opposition from elsewhere in this nation, and some of it in co-operation with Cardiff.

falch o'r ffaith honno. Mae hanes Abertawe yn mynd yn ôl ganrifoedd, i'w gwreiddiau Llychlynaidd, gyda dyfodiad rhyw forwr Llychlynaidd o'r enw Sveinn a sefydlodd bentref bach Sveinsey, yn y Llychlyneg, a ddaeth yn Swansea yn Saesneg. Mae gan yr enw Cymraeg, Abertawe, darddiad gwahanol wrth gwrs. Felly, yr oedd ein cyndeidiau'n Llychlynwyr, ac mae hynny, heb os, yn esbonio ymddygiad achlysurol y cefnogwyr pêl-droed.

Yn fwy diweddar, mae Abertawe wedi'i galw'n Copperopolis. Yn ystod oes Fictoria, Abertawe oedd y ganolfan mwyndoddi copr fwyaf yn y byd—ar yr adeg pan oedd y porthladd mwyaf yn y byd ar gyfer allforio glo yng Nghaerdydd. Gwnâi Abertawe yr un peth ar gyfer copr. Ceir rheswm syml pam y dechreuodd hynny—ceir cyswllt ag Ynys Môn, bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn falch o glywed, oherwydd deuai'r copr o Fynydd Parys i lawr i Abertawe yn wreiddiol. Mae angen tair tonnell o lo i fwyndoddi un dunnell o gopr, felly yr oedd yn haws cludo'r copr at y glo yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Pan ddaeth y cyflenwad copr i ben yn Ynys Môn, ac yn ddiweddarach, yn ne-orllewin Lloegr, teithiai'r copr hanner ffordd o amgylch y byd, o Chile. Felly, am flynyddoedd lawer, wrth i filoedd lawer o dunelli o gopr gael eu mwyndoddi yn Abertawe, câi'r ddinas ei galw'n Copperopolis, yn union fel yr oedd pobl yn galw Llanelli yn Tinopolis oherwydd y diwydiant tun—a hynny'n cael ei adlewyrchu yn awr yn nheitl cwmni teledu.

Erbyn heddiw, mae gan Abertawe lawer o bethau y gall ymfalchïo ynddynt. Mae ganddi Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, mae ganddi Bwll Cenedlaethol Cymru, ac mae ganddi ddwy brifysgol lwyddiannus sy'n ehangu—mae Prifysgol Abertawe ar fin agor ail gampws ar Ffordd Fabian, ac mae ganddi brosiectau cyffrous yn y Sefydliad Gwyddor Bywyd, sydd ag un o'r cyfrifiaduron Blue C mwyaf yn y byd. Mae peth wmbredd o waith ymchwil a datblygu'n mynd rhagddo ym Mhrifysgol Abertawe, ac ym Mhrifysgol Fetropolitan Abertawe. Mae llawer o waith ehangu'n digwydd, a rhywfaint ohono yn wyneb cystadleuaeth o fan arall yn y wlad hon, a rhywfaint ohono mewn cydweithrediad â Chaerdydd.

Swansea now has a medical school, with postgraduate studies hopefully leading to a fully fledged independent medical school, which we are all intensely proud of in Swansea. For too long Wales had only one medical school, and we have never produced enough doctors and support nursing staff, who are trained at similar colleges. With expansion happening in Swansea and north Wales, we are getting away from that, and that is to be welcomed.

There are huge and exciting developments in SA1, which replicate Cardiff bay on a slightly smaller scale, although we do have Wales's tallest building, at 29 floors, in the Meridian Tower. Again, that is a source of pride. Swansea has much to commend it, and much potential, as everybody keeps saying. We are all about to go off on much-needed holidays, no doubt, and I would point those of you who are not from Swansea in the direction of the 26 world-class beaches on the Gower peninsula, which is on the very doorstep of Swansea, which is literally a city on the seaside. We have to move away from this Swansea versus Cardiff thing. That rivalry can occasionally be very destructive, whereas things could be so much more constructive and complementary. Certainly, when Swansea and Cardiff bat together, say in university research and development funding, that allows us to step up to a different level, because, with a population of nearly 600,000 between the two cities, you then enter the league of the bigger UK cities, the Manchesters, Liverpools and the Leedses of this world, rather than being at the same level as Leicester, Derby, Nottingham, Bristol and Plymouth, with all due respect to those cities. Therefore, I would contend that batting together rather than apart is fundamental to improving things for the nation of Wales.

5.20 p.m.

As Wales gains more powers, we will be looking for the criminal justice system to be devolved to Wales. In much the same way as some countries around the globe have a specific judicial capital—the Republic of

Mae gan Abertawe bellach ysgol feddygol, a'r gobaith yw y bydd astudiaethau ôl-radd yn arwain at ysgol feddygol annibynnol gyflawn, y bydd pawb ohonom yn falch iawn ohoni yn Abertawe. Dim ond un ysgol feddygol a oedd gan Gymru ers gormod o amser, ac nid ydym erioed wedi cynhyrchu digon o feddygon na staff nyrsio cynorthwyol, sy'n cael eu hyfforddi mewn colegau tebyg. Gyda'r gwaith ehangu sy'n digwydd yn Abertawe a'r gogledd, yr ydym yn newid hynny, ac mae'n gam y mae'n rhaid ei groesawu.

Mae datblygiadau enfawr a chyffrous ar droed yn SA1, sy'n debyg i fae Caerdydd ond ar raddfa ychydig yn llai, er bod gennym adeilad talaf Cymru, sef Tŵr Meridian sydd â 29 llawr. Unwaith eto, mae hynny'n destun balchder. Mae gan Abertawe lawer o'i phlaid, a llawer o botensial, fel y dywed pawb byth a hefyd. Yr ydym i gyd ar fin mynd ar wyliau, y mae eu hangen yn fawr, mae'n siŵr, a hoffwn gyfeirio'r rhai sydd yma, nad ydynt yn dod o Abertawe, at 26 o draethau o'r radd flaenaf ym Mhenrhyn Gŵyr, sydd ar garreg drws Abertawe, sy'n llythrennol yn ddinas ar lan y môr. Rhaid inni gefnu ar y gwrthdaro hwn rhwng Abertawe a Chaerdydd. Gall y gystadleuaeth honno fod yn ddinistriol iawn ar brydiau, oherwydd gallai'r sefyllfa fod yn fwy adeiladol o lawer a gallai pethau ategu ei gilydd yn well o lawer. Yn sicr, pan fydd Abertawe a Chaerdydd yn brwydro gyda'i gilydd, i gael arian ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu yn eu prifysgolion, dyweder, mae'n caniatáu inni esgyn i lefel wahanol, oherwydd, gyda phoblogaeth o bron 600,000 rhwng y ddwy ddinas, gallwch gystadlu yn erbyn dinasoedd mwy yn y DU, megis Manceinion, Lerpwl a Leeds, yn hytrach na bod ar yr un lefel â Chaerlŷr, Derby, Nottingham, Bryste a Plymouth, gyda phob parch i'r dinasoedd hynny. Felly, byddwn yn dadlau bod brwydro gyda'n gilydd yn hytrach nag ar wahân i'n gilydd yn hanfodol o ran gwella pethau i Gymru.

Wrth i Gymru ennill rhagor o bwerau, byddwn am geisio sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn cael ei datganoli i Gymru. Yn debyg iawn i'r ffordd y mae gan rai gwledydd o amgylch y byd brifddinas

South Africa has Bloemfontein as a judicial capital—we would look to develop Swansea's regional capital status and second city status and perhaps make it a judicial capital in Wales. The judiciary will need to develop as policing and the criminal justice system is devolved to us.

There is no veterinary college in Wales at present. I would make a pitch that we need a veterinary college in Wales, as we cannot train any vets in our nation. Swansea would be an ideal location. I first ventured the suggestion that there should be a medical school in Swansea over 15 years ago in a Plaid Cymru conference. At that time, many people thought that that was stretching it a bit for Swansea, because we do not get big things like that. However, that has turned out to be very successful, and there is no reason why we should not make a pitch for a veterinary college.

Swansea also has certain UK facilities, such as the Driver and Vehicle Licensing Agency and Morrision Hospital's excellent burns and plastics centre, which is the regional centre for south Wales and the west of England. Therefore, there are no worries about Swansea being forever dependent on other nations, because we are happy to offer services across the border. Swansea's excellent burns and plastics centre has recently won that accolade, and is now the regional centre for burns and plastic provision. We are immensely proud of that, and that cements Swansea's role in the medical field as a tertiary centre of excellence.

Let us consider international examples of how a second city, as a regional capital, can bolster a nation's identity. That is the role that Swansea can and needs to fulfil. For instance, in Italy, Roma is the capital and Milan is the second city and regional capital of the north. Milan offers a different expression of Italy to Rome: different, not competing, but complementary, with its high fashion, motor industry, and La Scala opera house. It offers a different definition of Italy: different, but complementary to the coliseum and all in Roma. Several other countries have

farnwrol benodol—mae gan Weriniaeth De Affrica Bloemfontein fel prifddinas farnwrol—byddem am geisio datblygu statws Abertawe fel prifddinas ranbarthol ac ail ddinas Cymru, a'i dynodi'n brifddinas farnwrol Cymru. Bydd angen i'r farnwriaeth ddatblygu wrth i blismona a'r system cyfiawnder troseddol gael eu datganoli inni.

Nid oes coleg milfeddygol yng Nghymru ar hyn o bryd. Hoffwn ddadlau bod angen coleg milfeddygol arnom yng Nghymru, oherwydd ni allwn hyfforddi milfeddygon yn ein gwlad. Byddai Abertawe yn lleoliad delfrydol. Awgrymais gyntaf y dylid sefydlu ysgol feddygol yn Abertawe dros 15 mlynedd yn ôl yn un o gynadleddau Plaid Cymru. Ar y pryd, yr oedd llawer o bobl o'r farn bod hynny braidd yn rhy uchelgeisiol i Abertawe, am nad ydym yn cael pethau mawr o'r fath. Fodd bynnag, mae'r ysgol feddygol wedi bod yn llwyddiannus iawn, ac nid oes rheswm pam na ddylem geisio cael coleg milfeddygol.

Mae gan Abertawe rai cyfleusterau ar gyfer y DU hefyd, megis yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, a'r ganolfan llosgiadau a llawfeddygaeth blastig ardderchog yn Ysbyty Treforys, sy'n ganolfan ranbarthol ar gyfer y de a gorllewin Lloegr. Felly, nid oes angen poeni bod Abertawe yn fythol ddibynnol ar wledydd eraill, oherwydd yr ydym yn fodlon cynnig gwasanaethau ar draws y ffin. Mae canolfan llosgiadau a llawfeddygaeth blastig ardderchog Abertawe wedi ennill y bri hwnnw'n ddiweddar, ac mae bellach yn ganolfan ranbarthol ar gyfer llosgiadau a llawfeddygaeth blastig. Yr ydym yn eithriadol o falch o hynny, ac mae'n cadarnhau rôl Abertawe yn y maes meddygol fel canolfan rhagoriaeth drydyddol.

Gadewch inni ystyried enghreifftiau rhyngwladol o'r ffordd y gall ail ddinas, fel prifddinas ranbarthol, ategu hunaniaeth cenedl. Dyna'r rôl y gall Abertawe ei chyflawni, ac y mae angen iddi ei chyflawni. Er enghraifft, yn yr Eidal, Rhufain yw'r brifddinas a Milan yw'r ail ddinas a phrifddinas ranbarthol y gogledd. Mae Milan yn cynnig golwg wahanol ar yr Eidal, o gymharu'r ddinas â Rhufain: gwahanol, nid mewn modd cystadleuol, ond mewn modd ategol, gyda'i ffasiwn eithaf, ei diwydiant moduron, a thŷ opera La Scala. Mae'n cynnig

a second city that makes a valuable contribution that is different to the more metropolitan outward-looking national capital, and that is the role that Swansea needs to fulfil. Swansea's leaders need to step up to the mark to ensure that Swansea does fulfil that role, as the regional capital for south-west Wales, expressing that part of Wales, looking after its own hinterland and having the confidence of being an economic, social and educational hub.

Other countries manage this very successfully: you only have to look around the globe. In Brazil, Brasilia is the capital and Rio is the hugely influential regional capital. Argentina has Buenos Aires and Rosario, Colombia has Bogota as the capital and Medellin as the second city, and Venezuela has Caracas as the national capital and Maracaibo as the second city. All have huge influences, which are different from those of the national capital, but are complementary in style, giving free expression to the nation that they represent.

In closing, before I allow Val some time to contribute, Swansea and Cardiff need to move on from that childish, boorish mentality, which should be restricted to when we watch Swansea City or the Ospreys play football or rugby, depending on the shape of the ball at the time, at the Liberty stadium. We need to move away from channelling our energies into destructive rivalry and become far more mature. That also applies to Cardiff. Cardiff needs to have the confidence to be a national capital, to be outward looking and able to let some things go when they should be let go to Swansea and to other regional capitals in this land. It applies as much to Cardiff as it does to Swansea, because we are in the process of building a nation, which does not mean building a national capital, but building more regional capitals. We can start off through Swansea and its leaders stepping up to the plate and having the confidence to enable Swansea to truly become the regional

diffiniad gwahanol o'r Eidal: mae'n wahanol, ond mae'n ategu'r coliseum a phopeth sydd yn Rhufain. Mae gan lawer o wledydd eraill ail ddinas sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr, gwahanol i'r brifddinas genedlaethol sy'n fwy eangfrydig a metropolitaidd, a dyna'r rôl y mae angen i Abertawe ei chyflawni. Mae angen i arweinwyr Abertawe ymateb i'r her er mwyn sicrhau bod Abertawe yn cyflawni'r rôl honno, fel prifddinas ranbarthol ar gyfer y de-orllewin, sy'n adlewyrchu'r rhan honno o Gymru, sy'n gofalu am ei chyffiniau ei hun, ac sydd â'r hyder i fod yn ganolfan economaidd, gymdeithasol ac addysgol.

Mae gwledydd eraill yn llwyddo i wneud hynny'n llwyddiannus iawn: nid oes ond rhaid ichi edrych o amgylch y byd. Ym Mrasil, Brasilia yw'r brifddinas a Rio yw'r brifddinas ranbarthol ddylanwadol iawn. Mae gan yr Ariannin Buenos Aires a Rosario, mae gan Colombia Bogota fel prifddinas a Medellin fel ail ddinas, ac mae gan Venezuela Caracas fel prifddinas genedlaethol a Maracaibo fel ail ddinas. Mae gan bob un ohonynt ddylanwadau aruthrol, sy'n wahanol i ddylanwadau'r brifddinas genedlaethol, ond mae eu harddull yn ategu'r brifddinas, ac maent yn galluogi'r wlad y maent yn ei chynrychioli i'w mynegi ei hun yn rhydd.

I gloi, cyn imi ganiatáu rhywfaint o amser i Val gyfrannu, mae angen i Abertawe a Chaerdydd symud ymlaen o'r meddylfryd plentynnaidd, anfoesgar, y dylid ei gyfyngu i'r adegau pan fyddwn yn gwyllo Dinas Abertawe neu'r Gweilch yn chwarae pêl-droed neu rygbi, yn dibynnu ar siâp y bêl ar y pryd, yn Stadiwm Liberty. Mae angen inni roi'r gorau i ganolbwyntio ar gystadleuaeth ddinistriol, ac ymddwyn yn fwy aeddfed o lawer. Mae hynny'n berthnasol i Gaerdydd hefyd. Mae angen i Gaerdydd fod â'r hyder i fod yn brifddinas genedlaethol, bod yn eangfrydig, a gallu gadael i rai pethau fynd i Abertawe a phrifddinasoedd rhanbarthol eraill y wlad hon, pan ddylid gwneud hynny. Mae hynny yr un mor berthnasol i Gaerdydd ag Abertawe, oherwydd yr ydym wrthi'n adeiladu cenedl, ac nid yw hynny'n golygu adeiladu prifddinas genedlaethol, ond adeiladu mwy o brifddinasoedd rhanbarthol. Gallwn ddechrau gydag Abertawe, wrth i'w

capital of south-west Wales.

Val Lloyd: I thank my colleague, Dr Dai Lloyd, for raising the issue of Swansea as a regional capital and graciously allowing me to contribute to his short debate. I am a Swansea jack through and through. I was born in Swansea, raised and educated in Swansea and have lived all but 10 years of my life in Swansea, as my accent will testify, and I now proudly represent one of the Swansea constituencies. There is no doubt that I support what Dai has already said about Swansea's wonderful attributes. The Wales spatial plan 2008 update outlines the functions that a regional capital needs to be a regional hub, such as cultural, leisure, commerce and health services. Dai has outlined many of the existing claims that Swansea has, so I will not repeat them, but I will add a few. Swansea has the National Waterfront Museum, the Wales National Pool, several major galleries and a vibrant cafe culture. We also have the outstanding attractions of Mumbles and the Gower. 'Swansea, my ugly, lovely city', does not have quite the same ring as Dylan Thomas's original words, but Swansea has every claim to be a regional capital. Swansea should be recognised as such, with all the extra incentives, growth and functions that that might bring, not only to Swansea but to Wales.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Yr wyf yn hynod o falch o gael y cyfle i ateb dadl fer Dai ac i ymateb i sylwadau Val. Er na allaf honni fy mod yn frodor o Abertawe, yr wyf am ddweud dau beth. Yn gyntaf, yr wyf yn ymwybodol o ragoriaethau Abertawe fel dinas oherwydd cefais fy magu mewn pentref bach nepell o Abertawe a threuliais lawer o amser yn y ddinas. Yn Abertawe, gwelais fy ngêm bêldroed gyntaf, ar y Vetch, a'm gemau rygbi a chriced cyntaf, yn Sain Helen. Felly, yr wyf yn ymwybodol o'i rhagoriaethau, nid yn unig

harweinwyr ymateb i'r her a bod â'r hyder i alluogi Abertawe i gymryd camau gwirioneddol i ddod yn brifddinas ranbarthol y de-orllewin.

Val Lloyd: Diolch i'm cyd-Aelod, Dr Dai Lloyd, am dynnu sylw at Abertawe fel prifddinas ranbarthol, a chaniatáu'n garedig imi gyfrannu at ei ddadl fer. 'Swansea jack' ydwyf i'r carn. Fe'm ganed yn Abertawe, fe'm magwyd ac fe'm haddysgwyd yn Abertawe, ac, fel y tystia fy acen, yr wyf wedi byw yn Abertawe erioed, heblaw cyfnod o 10 mlynedd, ac erbyn hyn yr wyf yn gynrychiolydd balch un o etholaethau Abertawe. Nid oes dwywaith nad wyf yn cefnogi'r hyn a ddywedodd Dai eisoes am nodweddion gwych Abertawe. Mae diweddariad cynllun gofodol Cymru 2008 yn amlinellu'r swyddogaethau y mae eu hangen ar brifddinas ranbarthol i fod yn ganolfan ranbarthol, megis gwasanaethau diwylliannol, masnachol, hamdden ac iechyd. Mae Dai wedi amlinellu nifer o'r pethau clodwiw sydd gan Abertawe eisoes, felly nid wyf am eu hailadrodd, ond hoffwn ychwanegu ambell un. Mae gan Abertawe Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Pwll Cenedlaethol Cymru, nifer o orielau pwysig a diwylliant caffis bywiog. Yn ogystal, mae gennym atyniadau rhagorol y Mwmbwls a Phenrhyn Gŵyr. Nid yw 'Swansea, my ugly, lovely city' yn cyfleu'r un naws rywsut â geiriau gwreiddiol Dylan Thomas, ond mae pob hawl gan Abertawe i fod yn brifddinas ranbarthol. Dylid cydnabod bod Abertawe yn brifddinas ranbarthol felly, gyda'r holl fentrau ychwanegol, y twf a'r swyddogaethau a allai ddod yn sgîl hynny, nid yn unig i Abertawe, ond i Gymru.

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I am very pleased to have the opportunity to respond to Dai's short debate and Val's comments. Although I cannot claim to be a native of Swansea, I wish to say two things. First, I am aware of Swansea's excellent points as a city, because I was brought up in a village not far from Swansea and spent a great deal of time in the city. In Swansea, I saw my first football match, on the Vetch, and my first rugby and cricket matches, in St Helens. Therefore, I am aware of its excellent points, not only as a city, but

fel dinas, ond fel lleoliad hyfryd ar lan y môr.

Mae nifer o astudiaethau academaidd yn dangos sut mae dinasoedd yn gallu sbarduno perfformiad economaidd eu rhanbarthau. Nid wyf eisiau trafod y dystiolaeth honno yn benodol, ond mae digon o dystiolaeth o hynny mewn adroddiadau gan y Centre for Cities a'r Spatial Economics Research Centre. Mae tri rheswm dros gymryd dinas-ranbarth o ddifrif. Y cyntaf yw datganoli'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd i lefel fwy lleol, yr ail yw gwella gwasanaethau, ac yr ydym wedi clywed oddi wrth Dai a Val am hynny, a'r trydydd yw gwella perfformiad economaidd. Yn yr amser sydd ar gael, hoffwn drafod y drydedd elfen, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddinas-ranbarth Abertawe.

Ledled y Deyrnas Unedig, ac ymhellach na hynny, fel yr ydym wedi clywed, mae data am werth ychwanegol crynswth ac am y swyddi sy'n cael eu creu yn y sector breifat yn dangos y gall dinas-ranbarthau berfformio'n well nag ardaloedd eraill. Mae hynny'n ymwneud â'r berthynas rhwng pobl a chwmnïau, yn enwedig mewn mannau lle medrwn gael cysylltiadau da, sydd yn helpu canolbwyntio gweithgarwch economaidd a sicrhau manteision crynhoad.

5.30 p.m.

Er enghraifft, maent yn caniatáu i fusnesau weithio ar raddfa fwy, gan fanteisio ar bwl ehangach a dyfnach o weithwyr, cyflenwyr a chwsmeriaid. Maent hefyd yn gallu bod yn hwb i gynhyrchiant, arloesedd ac entrepreneuriaeth. Gyda 1.5 miliwn o bobl yn byw o fewn awr mewn car o ganol y ddinas, mae Abertawe mewn sefyllfa dda i fod yn ganolbwynt o'r fath. Yn ogystal â'r boblogaeth, mae ganddi nifer o fanteision amlwg, gan gynnwys safle gwych ar lan y môr; cysylltiadau cyfathrebu da, gan gynnwys cysylltiadau gydag Iwerddon a thir mawr Ewrop; mae ganddi seilwaith economaidd o'r radd flaenaf, wedi ei gefnogi gan fuddsoddiadau allweddol gan y sector gyhoeddus, er enghraifft canol y ddinas ac SA1; dau sefydliad addysg uwch, gan gynnwys un o brifysgolion amlycaf y Deyrnas Unedig am ei gwaith ymchwil; dwy brif ysbyty; sylfaen busnes eang ac amrywiol,

as a wonderful seaside location.

Several academic studies show how cities can drive the economic performance of their regions. I do not wish to discuss that evidence in particular, but there is plenty of evidence of that sort in the reports of the Centre for Cities and the Spatial Economics Research Centre. There are three reasons for taking a city region seriously. The first is the devolution of democratic decision making to a more local level, the second is the improvement of services, and we have heard from Dai and Val about that, and the third is enhancement of economic performance. In the time available, I will discuss the third element, concentrating in particular on the Swansea city region.

Across the UK, and further afield, as we have heard, data on gross value added and the jobs generated in the private sector show that city regions can outperform other areas. That is to do with the relationships between people and firms, especially in places where we can have good connections, which helps to concentrate economic activity and deliver the agglomeration benefits.

For example, they allow businesses to operate on a larger scale, capitalising on a wider and deeper pool of workers, suppliers and customers. They can also help trigger productivity, innovation and entrepreneurship. With 1.5 million people living within an hour's drive of the city centre, Swansea is well placed to fulfil this role. As well as its population, it has a number of advantages, including an outstanding waterfront location; good communication links, including those with Ireland and mainland Europe; some first-class economic infrastructure, supported by key public sector investment, such as the city centre and SA1; two higher education institutions, including one of the foremost UK research-led universities; two major hospitals; a broad and diverse business base, spanning both the manufacturing and service sectors; an impressive recent history of public

gan gynnwys y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau; rhestr drawiadol o fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat, a hynny yn ddiweddar iawn, yng nghanol y ddinas—ac yr ydym wedi clywed am rai ohonynt yn barod—yn cynnwys Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, y ganolfan hamdden, Salubrious Place, yr ardal forol, sy'n cynnwys Cei Meridian, datblygiad adfywio â siopau yn Ffordd y Dywysoges ac, ychydig y tu hwnt i'r canol, stadiwm Liberty, ac y mae Dai wedi sôn am hwn yn barod y prynhawn yma.

Un o gryfderau allweddol eraill Abertawe yw'r modd y mae'n gweithio ar y cyd ag economïau awdurdodau a threfi cyfagos. Cyn diwedd fy nghyfraniad, hoffwn ddychwelyd at bwynt Dai am y ffaith y gall perthynas agos rhwng Abertawe a Chaerdydd fod yn allweddol i lwyddiant y ddwy ddinas. Fodd bynnag, er bod gan Abertawe nifer o rinweddau, mae'n rhaid cydnabod bod sialensiau yn ein hwynebu yna. Fel yn achos nifer o ddinasoedd eraill, mae problemau amddifadedd a phroblemau fel tlodi plant, anweithgarwch economaidd, iechyd gwael a dibyniaeth ar wasanaethau fel tai cymdeithasol. Gwn hefyd fod modd gwella perfformiad economaidd Abertawe yn ôl y ffigurau diweddaraf. Yn fwyaf arwyddocaol, efallai, o gofio cyflwr cyllid cyhoeddus y Deyrnas Unedig, yr oedd adroddiad diweddar gan y Centre for Cities yn nodi bod gan y toriadau yng ngwariant y sector cyhoeddus y potensial i effeithio ar Abertawe yn fwy nag unrhyw ddinas arall yn y Deyrnas Unedig.

Those are some of the major advantages that Swansea has and the challenges. Dai has raised an interesting issue of creating for Swansea a role as a city hub for the wider region. However, in the time available to me, I can provide only a brief snapshot.

Strategically, the Assembly Government's role will be shaped and defined by the priorities I recently set out for delivering our new vision for economic renewal in Wales. These are very relevant to the future development of Swansea and the wider city region and are worth repeating here. They are: investing in high-quality, sustainable infrastructure; making it a more attractive

and private investment in the city centre, including—and we have already heard about some of these developments—the National Waterfront Museum, the leisure centre, Salubrious Place, the maritime quarter, including Meridian Quay, retail regeneration development in Princess Way and, slightly further afield, the Liberty stadium, about which we have heard a great deal this afternoon from Dai.

A further critical strength of Swansea is the way in which collaboration can take place with the economies of adjacent authorities and towns. Before closing the debate, I want to return to Dai's point about the fact that the interrelationship of Swansea and Cardiff could be crucial to the success of both cities. However, although Swansea has many positive things to offer, we must also accept that we face some challenges there. As is the case in a number of other cities, there are problems of deprivation and child poverty, economic inactivity, poor health and reliance on services such as social housing. We are also aware that we can improve Swansea's economic performance, given the latest figures available. Perhaps most significantly, given the state of the UK public finances and the situation that we are going to face in Wales and the rest of the UK, the recent report from the Centre for Cities noted that the public sector spending cuts have the potential to affect Swansea more than any other city in the United Kingdom.

Dyna rai o'r prif fanteision a'r heriau sydd gan Abertawe. Mae Dai wedi codi mater pwysig, sef creu rôl i Abertawe fel canolfan ddinesig ar gyfer y rhanbarth ehangach. Fodd bynnag, yn yr amser sydd gennyf, dim ond darlun cryno y gallaf ei roi.

Yn strategol, bydd rôl Llywodraeth y Cynulliad yn cael ei llunio a'i diffinio gan y blaenoriaethau a bennais yn ddiweddar er mwyn gwireddu ein gweledigaeth newydd ar gyfer adnewyddu'r economi yng Nghymru. Mae'r rhain yn berthnasol iawn i'r gwaith o ddatblygu Abertawe a'r dinas-ranbarth ehangach yn y dyfodol, ac mae'n werth eu hailadrodd yma. Y blaenoriaethau yw:

place to do business; broadening and deepening the skills base; encouraging innovation; and targeting rather than pepper-potting our business support.

Perhaps most significantly, in 2009, we designated Swansea a strategic regeneration area and created a partnership board comprising representatives of the public, private and third sectors to provide leadership and joined-up delivery. We did so partly because of the pressing need to tackle pockets of deprivation, but also to develop a regional hub for commerce, health services, retail, culture and leisure. The Swansea regeneration area programme sets out a shared vision for what the city will look and feel like by 2016. Only this week, as part of the economic renewal programme, I announced an investment of £40 million in High Performance Computing Wales, with Swansea as one of two main university computer hubs in Wales. I cannot stress enough the importance of that announcement for Swansea. In that high-performance computer capacity, we will now have something that no other part of the United Kingdom has, and very few parts of Europe have. It will truly put us on the map.

The proposals that we are currently taking forward include the potential for a new campus in Swansea centre as part of the proposal to merge the Gorseinon and Swansea further education colleges, and the urban village project led by the Coastal Housing Group.

I also wish to pick up on the point that Dai made about the new campus for Swansea University. One of the things that I particularly want to do through the economic renewal programme is to recognise the role that universities will be playing in regenerating the economy of parts of Wales. The links between our universities, the Government and the private sector need to be strengthened. We have some excellent

buddsoddi mewn seilwaith cynaliadwy o safon; gwneud y dinas-ranbarth yn lle mwy deniadol i gyflawni busnes; ehangu a dyfnhau'r sylfaen sgiliau; annog arloesedd; a thargedu ein cymorth busnes yn hytrach na'i ddosbarthu'n rhy gyffredinol.

Yn bwysicaf oll efallai, yn 2009, bu inni ddynodi Abertawe yn ardal adfywio strategol, a chreu bwrdd partneriaeth a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddarparu arweinyddiaeth a dulliau cydgysylltiedig o weithredu. Gwnaethom hynny'n rhannol oherwydd yr angen dybryd i fynd i'r afael â phocedi o amddifadedd, ond hefyd er mwyn datblygu canolfan ranbarthol ar gyfer masnach, gwasanaethau iechyd, cyfleusterau manwerthu, diwylliant a hamdden. Yn rhaglen ardal adfywio Abertawe ceir gweledigaeth gyffredin ar gyfer gwedd a naws y ddinas erbyn 2016. Mor ddiweddar â'r wythnos hon, yn rhan o raglen adnewyddu'r economi, cyhoeddais fuddsoddiad o £40 miliwn ar gyfer Cyfrifiadura Perfformiad Uchel Cymru, gydag Abertawe yn un o'r ddwy brif ganolfan gyfrifiadurol mewn prifysgolion yng Nghymru. Ni allaf orbwysleisio pwysigrwydd y cyhoeddiad i Abertawe. O ran y capasiti hwnnw ym maes cyfrifiadura perfformiad uchel, bydd gennym rywbeth yn awr nad oes ei debyg yn unman arall yn y Deyrnas Unedig, ac sy'n brin iawn mewn rhannau eraill o Ewrop. Bydd yn ein rhoi ar y map yn sicr.

Mae'r cynigion yr ydym yn bwrw ymlaen â hwy ar hyn o bryd yn cynnwys y potensial i gael campws newydd yng nghanol Abertawe, yn rhan o'r cynnig i uno colegau addysg bellach Gorseinon ac Abertawe, a'r prosiect pentref trefol o dan arweiniad y Grŵp Tai Arfordirol.

Hoffwn hefyd ymateb i'r pwynt a wnaeth Dai am y campws newydd i Brifysgol Abertawe. Un o'r pethau yr wyf am eu gwneud yn benodol drwy raglen adnewyddu'r economi yw cydnabod y rôl y bydd prifysgolion yn ei chwarae o ran adfywio economi rhannau o Gymru. Mae angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng ein prifysgolion, y Llywodraeth a'r sector preifat. Mae gennym rai enghreifftiau gwych o hynny'n digwydd yn Abertawe, a

examples of that happening in Swansea, and we know that it is very forward thinking in bringing those things together. If we are to create a successful city region and a hub for Swansea, the university will be fundamental to that. We want to have our sector teams, under the economic renewal programme, linking into the expertise in the university. Swansea has been developing expertise in life sciences; we see life sciences as a strategic sector, and Swansea will be playing an important role in that respect. With the agglomeration effect, which a city region can bring, together with the clustering effect that is needed for successful projects through innovation, Swansea is excellently placed in the field of life sciences. Obviously, I think that that is something that we could look forward to as part of the future success of the city and the region.

I will conclude with a few other points. Hub cities, such as Swansea, play an important role in driving the economic performance, not just of the city but of the wider region. The delivery of strategies depends on real collaboration at ground level, such as the regeneration area programme, and communications are fundamental. I was very pleased that Dai mentioned the need for collaboration and the complementary development of projects between Cardiff and Swansea. We lack the size of some of the other major capitals and cities of other parts of the United Kingdom and Europe. Clearly, there will be occasions when there is a case for doing something in Swansea and a case for doing it in Cardiff, but there will be occasions when it is necessary for us to have real collaboration at university level, at industry level, and in how we develop our infrastructure. If we can work hard to develop that collaboration, cities and regions and the hinterland that they serve would benefit.

I am pleased, Dai, that, supported by Val today, you have been able to highlight Swansea. You can rest assured in the fact that the Government is at one with you in wanting to see Swansea develop as a successful city region in the future.

gwyddom ei bod yn flaengar iawn o ran dod â'r pethau hynny at ei gilydd. Os ydym am greu dinas-ranbarth llwyddiannus a chanolfan yn Abertawe, bydd y brifysgol yn allweddol i hynny. Yr ydym am i'n timau sector, o dan raglen adnewyddu'r economi, gysylltu â'r arbenigedd sydd yn y brifysgol. Mae Abertawe wedi bod yn datblygu arbenigedd mewn gwyddorau bywyd; yr ydym yn ystyried gwyddorau bywyd yn sector strategol, a bydd Abertawe yn chwarae rôl bwysig o ran hynny. Gyda'r crynhoed a all ddod yn sgîl dinas-ranbarth, ynghyd â'r clystyru y mae ei angen ar gyfer prosiectau llwyddiannus drwy arloesedd, mae Abertawe mewn sefyllfa wych ym maes gwyddorau bywyd. Yn amlwg, credaf fod hynny'n rhywbeth y gallem edrych ymlaen ato, yn rhan o lwyddiant y ddinas a'r rhanbarth yn y dyfodol.

Caeaf ben y mwddwl gydag ambell bwynt arall. Mae dinasoedd sy'n ganolfannau, megis Abertawe, yn chwarae rôl bwysig o ran hybu perfformiad economaidd nid yn unig y ddinas ond y rhanbarth ehangach hefyd. Mae'r gwaith o weithredu strategaethau'n dibynnu ar gydweithredu gwirioneddol ar lawr gwlad, megis drwy'r rhaglen ardal adfywio, ac mae cyfathrebu'n allweddol. Yr oeddwn yn falch iawn i Dai sôn am yr angen i gydweithredu, a datblygu prosiectau mewn modd ategol rhwng Caerdydd ac Abertawe. Nid ydym mor fawr â rhai o brifddinasoedd a dinasoedd pwysig rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ac Ewrop. Yn amlwg, bydd adegau pan fydd achos dros wneud rhywbeth yn Abertawe ac achos dros wneud rhywbeth yng Nghaerdydd, ond bydd adegau pan fydd yn angenrheidiol inni gydweithredu'n wirioneddol ar lefel prifysgol, ar lefel diwydiant, ac o ran y ffordd yr ydym yn datblygu ein seilwaith. Os gallwn weithio'n galed i ddatblygu'r cydweithredu hwnnw, byddai o fudd i ddinasoedd a rhanbarthau a'r cyffiniau y maent yn eu gwasanaethu.

Yr wyf yn falch, Dai, eich bod chi, gyda chefnogaeth Val heddiw, wedi gallu tynnu sylw at Abertawe. Gallwch fod yn dawel eich meddwl bod y Llywodraeth hon, fel chithau, yn awyddus i weld Abertawe yn datblygu fel dinas-ranbarth llwyddiannus yn y dyfodol.

The Temporary Deputy Presiding Officer: Y Dirprwy Lywydd Dros Dro: Diolch yn

Thank you, Deputy First Minister. That fawr, Ddirprwy Brif Weinidog. Dyna brings today's proceedings to a close. ddiwedd ein trafodion heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.38 p.m.

The meeting ended at 5.38 p.m.

Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Veronica (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)

Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)